Rhif Ymchwil Cymdeithasol:

62/2019

Dyddiad cyhoeddi:

04/12/19

# Adroddiad Cymru: Ymchwil defnyddwyr i lywio dyluniad cynllun dychwelyd ernes effeithiol

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-83933-556-3

Adroddiad Cymru: Ymchwil defnyddwyr i lywio dyluniad cynllun dychwelyd ernes effeithiol

Awdur(on): Alice Fitzpatrick, Alice McGee, Sophia Jouahri a Nick Roberts - Kantar

Adroddiad Ymchwil Llawn: Fitzpatrick, A., Jouahri, S., McGee, A. a Roberts, N. (2019). *Adroddiad Cymru: Ymchwil defnyddwyr i lywio dyluniad cynllun dychwelyd ernes effeithiol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR Rhif 62/2019 >https://llyw.cymru/ymchwil-gyda-defnyddwyr-i-arwain-y-gwaith-o-lunio-cynllun-dychwelyd-ernes-effeithiol

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Isabella Malet-Lambert

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 062 8250

E-bost: Isabella.Malet-Lambert@llyw.cymru

## Cynnwys


1. Cyflwyniad/Cefndir .... 5
2. Agweddau tuag at yr amgylchedd ac ailgylchu .... 17
3. Arferion defnyddio a gwaredu presennol .... 22
4. Agweddau tuag at Gynllun Dychwelyd Ernes .... 35
5. Tebygolrwydd defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes .... 47
6. Optimeiddio dyluniad y cynllun .... 67
7. Dadansoddiad ar y cyd .... 88
8. Argymhellion ar gyfer dyluniad y cynllun .... 99

Atodiad A: Sampl ansoddol a gyflawnwyd .... 105
Atodiad B: Canllawiau Testunau Ansoddol .... 108
Atodiad C: Model Ymddygiad y Cyhoedd Kantar .... 136
Atodiad D: Nodyn technegol .... 139
Atodiad E: Holiadur meintiol .... 146
Atodiad F: Diffiniadau o grwpiau cymdeithasol .... 188
Atodiad G: Methodoleg ar y cyd .... 189

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 2.1: Agweddau tuag at yr amgylchedd ac ailgylchu ..........................................19

Ffigur 2.2: Agweddau tuag at yr amgylchedd ac ailgylchu yn ôl oedran (canran a gytunodd â phob datganiad). ..........................................20

Ffigur 3.1: Sut mae aelwydydd yn prynu bwyd a nwyddau mewn wythnos nodweddiadol 23

Ffigur 3.2: Diodydd sy’n cael eu hyfed gartref/oddi cartref (oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg) ..........................................25

Ffigur 3.3: Diodydd sy’n cael eu hyfed gartref ac oddi cartref (plant a gymerodd ran yn yr arolwg) ..........................................26

Ffigur 3.4: Mathau o gynwysyddion y daeth y diodydd ynddynt a yfwyd gan yr oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg: gartref ac oddi cartref ..........................................27

Ffigur 3.5: Mathau o gynwysyddion y daeth y diodydd ynddynt a yfwyd gan y plant a gymerodd ran yn yr arolwg: gartref ac oddi cartref ..........................................27

Ffigur 3.6: Y ffordd arferol o gael gwared ar boteli a/neu ganiau gwag pan fo’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn gorffen yr eitemau hyn gartref ..........................................29

Ffigur 3.7: Y ffordd arferol o gael gwared ar boteli a/neu ganiau gwag oddi cartref (oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg) ..........................................30

Ffigur 3.8: Y ffordd arferol o gael gwared ar boteli gwag a/neu ganiau oddi cartref (plant a gymerodd ran yn yr arolwg) ..........................................31

Ffigur 3.9: Yr ystod o arferion ailgylchu a welwyd yn yr ymchwil ansoddol ..................32

Astudiaeth achos 1: Ailgylchydd gweithredol ..........................................33

Astudiaeth Achos 2: Ailgylchydd goddefol ..........................................33

Astudiaeth Achos 3: Ailgylchydd wedi ymddieithrio ..........................................34

Ffigur 4.1: I ba raddau roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cefnogi neu'n gwrthwynebu cyflwyno cynllun dychwelyd ernes ..........................................37

Ffigur 4.2: I ba raddau yr oedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'r cynllun yn eu hannog i ailgylchu mwy pan fyddant oddi cartref..42

Ffigur 4.3: Pa un a fyddai’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn ei chael hi’n rhwydd neu'n anghyfleus cario poteli neu ganiau gwag o gwmpas gyda nhw pan fyddant oddi cartref nes iddynt ganfod man dychwelyd ..........................................43

Ffigur 5.1: Pa un a fyddai’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn defnyddio CDE ar bob achlysur neu’r rhan fwyaf o achlysuron fesul lle caiff y ddiod ei hyfed .........................50

Ffigur 5.2: Pa un a fyddent yn defnyddio CDE oddi cartref ar bob achlysur fesul oedolion a phlant a arolygwyd ..........................................52

Ffigur 5.3: Rhesymau pam na fyddent bob amser yn defnyddio CDE ar gyfer diodydd sy’n cael eu hyfed gartref ..........................................54

Ffigur 5.4: Rhesymau pam na fyddai’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg bob amser yn defnyddio CDE ar gyfer diodydd sy’n cael eu hyfed oddi cartref.................................56

Ffigur 5.5: Rhesymau pam na fyddai plant a arolygwyd bob amser yn defnyddio CDE ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref....57

Ffigur 5.6: Rhesymau pam y byddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg efallai'n defnyddio CDE 58

Ffigur 5.7: Y prif reswm pam y byddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg efallai'n defnyddio CDE....59

Ffigur 5.8: Ffactorau sy'n effeithio ar ddefnydd honedig yn y gwaith ymchwil ansoddol61

Ailystyried Astudiaeth Achos 1: Ailgylchydd gweithredol ....62

Ailystyried Astudiaeth Achos 2: Ailgylchydd goddefol....63

Ailystyried Astudiaeth Achos 3: Ailgylchydd wedi ymddieithrio....63

Ffigur 5.9: Pa un a fyddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn lleihau nifer y diodydd y maent yn eu prynu fesul oed ....65

Ffigur 6.1: Ffafriaeth o ran swm yr ernes ....69

Ffigur 6.2: Swm ernes a ffefrir yn ôl oedran....70

Ffigur 6.3: Yr ernes a ffefrir ymhlith plant....72

Ffigur 6.4: Dulliau ad-dalu a ffafriwyd ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg fesul oedran....75

Ffigur 6.5: Dulliau ad-dalu ernes a ffafriwyd ymhlith plant....76

Ffigur 6.6: Mannau dychwelyd cyfleus fesul lle mae'r ddiod yn cael ei hyfed ....78

Ffigur 6.7: Mannau dychwelyd cyfleus ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref yn ôl oedran....79

Ffigur 6.8: Mannau dychwelyd cyfleus ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref ymhlith plant a arolygwyd....82

Ffigur 6.9: Pa un a ddylai swm yr ernes amrywio yn ôl maint y cynhwysydd fesul oedran 85

Ffigur 6.10: Pa un a ddylai swm ernes gynnwys caniau a photeli o bob maint fesul oed86

Ffigur 7.1: Enghraifft o ymarfer ar y cyd....90

Ffigur 7.2: Enghraifft o fesuriadau ar y cyd ....91

Ffigur 7.3: Pwysigrwydd cymharol nodweddion o ran tebygolrwydd defnyddio CDE...92

Ffigur 7.4: Dewisiadau cyfranogwyr yr arolwg o ran lleoliadau mannau dychwelyd.....93

Ffigur 7.5: Sgorau defnyddioldeb ar gyfer y nodwedd amser ychwanegol....94

Ffigur 7.6: Maint yr ernes a ffefrir....95

Ffigur 7.7: Modelau CDE 'gorau' a 'gwaethaf' yn yr ymarfer ar y cyd ....97

**Rhestr Byrfoddau**

| Byrfodd/gair allweddol | Diffiniad |
| --- | --- |
| CDE | Cynllun Dychwelyd Ernes |

# 1. Cyflwyniad/Cefndir

1.1 Mae Strategaeth 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2010, yn nodi'r uchelgais i gyflawni dyfodol diwastraff erbyn 2050, gyda charreg filltir beth ffordd i mewn i'r cyfnod hwnnw i ailgylchu 70% o ddeunyddiau erbyn 2025. Yn dilyn ei hastudiaeth o ddewisiadau cyfrifoldeb cynhyrchwyr estynedig ar gyfer pecynnau bwyd a diod allweddol [1], cytunodd Llywodraeth Cymru i ystyried cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE), yn amodol ar ymgynghoriad. Bydd yr ymgynghoriad diweddar ar gynigion ar gyfer y CDE yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn helpu i fod yn sail i'r penderfyniad hwnnw a'r camau nesaf.

1.2 Nod Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE) yw:

- Lleihau taflu sbwriel
- Cynyddu ailgylchu cynwysyddion diodydd fydd yn rhan o CDE, yn enwedig y rhai sy'n cael eu gwaredu 'wrth fynd' (hynny yw, oddi cartref)
- Gwella ansawdd deunyddiau drwy leihau halogiad (er enghraifft pan gaiff y deunyddiau anghywir eu rhoi yn y system (e.e. clytiau yn y bin ailgylchu) neu pan gaiff y deunyddiau cywir eu paratoi yn y ffordd anghywir (e.e. bwyd ar ôl mewn cynwysyddion)).
- Hybu mwy o gapasiti ailbrosesu domestig drwy ddarparu cyflenwad sefydlog o ansawdd uchel o ddeunyddiau gwastraff y gellir eu hailgylchu.

## 1.3. Beth yw CDE?

1.3.1. Egwyddor CDE yw bod defnyddwyr yn talu ffi ymlaen llaw am y cynhwysydd ar ffurf ernes. Ar ôl yfed y ddiod, gellir dychwelyd y cynhwysydd a defnyddio'r ernes. Mae hyn yn annog dychwelyd y cynhwysydd, gan ei alluogi i gael ei ailgylchu. Os yw cwsmer yn dewis peidio â dychwelyd y cynhwysydd, mae'n colli'r ernes. Fel arfer, caiff cynwysyddion eu dychwelyd i archfarchnadoedd a siopau naill ai wrth gownter neu drwy beiriannau dychwelyd awtomatig. Mae cynlluniau dychwelyd ernes ar waith mewn nifer o wledydd Ewropeaidd ac mewn sawl talaith yn Awstralia ac UDA. Dywedir bod y cynlluniau hyn, gan weithio law yn llaw â mesurau eraill fel trethi

[1] Dewisiadau ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig y Cynhyrchydd yng Nghymru

amgylcheddol, wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau taflu sbwriel a chasgliadau ailgylchu.2

1.3.2. Mae union ddyluniad cynllun CDE penodol ar gyfer Cymru a Lloegr yn destun ymgynghoriad, ond mae'r dewisiadau canlynol yn bosibiliadau ar hyn o bryd:

- **Cynwysyddion diodydd:** Poteli plastig, poteli gwydr a chaniau metel.
- **Mathau o ddiodydd**: Pob diod ddialcohol (gan gynnwys dŵr a sudd), diodydd alcohol a diodydd sy'n cynnwys llaeth (ond nid llaeth ei hun).
- **Maint y cynhwysydd:** Mae dau ddewis posibl ar gyfer CDE: un sy'n gosod ardoll ar ganiau a photeli hyd at 750ml ac sy'n cael eu gwerthu mewn cynwysyddion unigol ('i'w hyfed wrth fynd'), ac un sy'n gosod ardoll ar bob can a photel, beth bynnag yw'r maint ('cynhwysfawr').
- **Maint yr ernes:** h.y. swm y ffi ymlaen llaw a ad-delir. Nid yw hwn wedi'i bennu ac mae'n destun ymgynghoriad.

## 1.4. Nodau ymchwil

1.4.1. Mae tystiolaeth o wledydd eraill[3], lle mae CDE ar waith, wedi rhoi cyd-destun defnyddiol, ond mae gwahaniaethau yn y diwylliant a systemau rheoli gwastraff yn golygu bod angen gwneud gwaith ymchwil gyda defnyddwyr er mwyn deall sut y bydd CDE yn gweithio yng nghyd-destun Cymru a Lloegr. Mae'r ymchwil hon yn cynnig argymhellion o ran sut i ddylunio a chyflwyno cynllun o'r fath i fod mor effeithiol â phosibl er mwyn lleihau sbwriel a chynyddu cyfraddau ailgylchu.

1.4.2. Felly, comisiynwyd Kantar gan Defra a Llywodraeth Cymru i wneud gwaith ymchwil yng Nghymru a Lloegr, gydag oedolion 16 oed a hŷn a phlant 11 i 15 oed, i ddarparu tystiolaeth er mwyn helpu i ddylunio CDE effeithiol pe cai cynllun o'r fath ei weithredu yn dilyn ymatebion i ymgynghoriad. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ganfyddiadau'r arolwg o Gymru ac ymchwil ansoddol o bob rhan o'r ddwy wlad; mae adroddiad ar wahân ar gael ar gyfer y canfyddiadau yn Lloegr[4].

[2] Voluntary and Economic incentives to reduce littering of drinks containers and promote recycling

[3] Voluntary and Economic incentives to reduce littering of drinks containers and promote recycling

[4] Consumer Research to Inform Design of an Effective Deposit Return Scheme

1.4.3. Amcan yr ymchwil oedd ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:

1. Beth yw agweddau defnyddwyr tuag at CDE mewn egwyddor?
2. Sut mae defnyddwyr yn debygol o ddefnyddio CDE yn ymarferol?
3. Sut y dylid dylunio, cyflwyno a hyrwyddo CDE er mwyn cynyddu nifer y rhai sy'n manteisio ar y fath gynllun a lleihau rhwystrau posibl i'w ddefnyddio?
4. Faint o bobl fydd yn debygol o ddefnyddio gwahanol ddyluniadau o CDE?

## 1.5. Methodoleg

1.5.1. I ateb y cwestiynau hyn, cynhaliodd Kantar raglen o ymchwil amrywiol yn seiliedig ar agweddau ansoddol a meintiol, gyda phob elfen yn rhoi cipolwg gwahanol ar agweddau defnyddwyr tuag at CDE a defnydd tebygol ohono.

1.5.2. Roedd yr ymchwil ansoddol yn fodd o archwilio barn nifer gymharol fach o ddefnyddwyr yn fanwl, gan gynnig amser i'r rhai a gymerodd ran ystyried yn llawn sut y gallai CDE fod yn rhan o'u bywydau ac i ymchwilwyr gael cyfle i holi ymhellach ynghylch materion wrth iddynt godi yn ystod trafodaethau. Gall natur fyrlymus y trafodaethau grŵp hefyd gymell unigolion i ystyried syniadau na fyddent fel arall, petaent yn meddwl am y syniad ar eu pen eu hunain. Roedd yr ymchwil ansoddol yn cynnwys dau faes allweddol:

- cyfweliadau manwl, a ragflaenwyd gan ymarfer dyddiadur ar-lein, lle roedd unigolion yn cofnodi pryd roedden nhw’n yfed diodydd ac wedyn yn gwaredu’r cynhwysydd, wrth wneud hynny. Diben hyn oedd archwilio ymatebion unigol manwl i'r cynllun; a
- thrafodaethau grŵp, er mwyn annog rhannu safbwyntiau a galluogi ystyriaeth fwy cwmpasog o ddefnydd a delfrydau tebygol ar gyfer dyluniad y cynllun.

1.5.3. Roedd yr agweddau ansoddol yn ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth ynglŷn â sut mae defnyddwyr yn debygol o ddefnyddio'r cynllun, er bod y canfyddiadau yn seiliedig ar sampl cymharol fach dylid eu hystyried fel arwydd yn hytrach nag yn gynrychioliadol o'r boblogaeth ehangach (gweler Atodiad A am y sampl llawn a gymerodd ran). Roedd yr holl gyfweliadau a thrafodaethau grŵp wedi'u strwythuro o

amgylch Canllawiau Pwnc a gytunwyd ymlaen llaw gyda Defra a Llywodraeth Cymru (gweler Atodiad B). Oherwydd maint cymharol fach y sampl a thebygrwydd mewn canfyddiadau rhwng lleoliadau, mae'r canfyddiadau ansoddol a geir yn yr adroddiad hwn yn defnyddio ymatebion o'r gwaith maes yng Nghymru a Lloegr (caiff y rhain hefyd eu cynnwys yn yr adroddiad ar wahân a fydd yn ar gael ar gyfer y canfyddiadau yn Lloegr).

1.5.4. Roedd yr ymchwil feintiol yn golygu bod modd mesur agweddau tuag at ac arferion tebygol o ran defnyddio CDE a hefyd archwilio'r gwahaniaethau fesul is-grwpiau demograffig-gymdeithasol. Roedd hefyd yn darparu tystiolaeth o’r hoff ddewisiadau o blith gwahanol fathau o CDE, a'r cyfuniad o elfennau sy'n debygol o fod fwyaf effeithiol i annog defnydd. Roedd yr ymchwil meintiol yn cynnwys dau arolwg ar-lein: arolwg 20 munud gydag oedolion 16 oed neu hŷn ac arolwg 15 munud gyda phlant 11 i 15 oed. Holwyd plant 11 i 15 oed gan yr oedd y farn bod y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o yfed eitemau y tu allan i'r cartref. Fodd bynnag, dylid nodi bod llai o ddewisiadau ar gael i’r grŵp oedran hwn o ran lleoliad y mannau dychwelyd a'r math o ad-daliad. Dylid ystyried hyn wrth ddehongli ymatebion y grwpiau oedran hyn. Mae'r canfyddiadau meintiol a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion o'r sampl yng Nghymru (mae adroddiad ar wahân ar gael gyda chanfyddiadau o arolygon ymatebwyr yn Lloegr). Er y gwelwyd rhai gwahaniaethau, roedd y canfyddiadau yn weddol debyg ar gyfer y ddwy wlad.

1.5.5. Isod rydym yn disgrifio ein dull gweithredu ar gyfer pob agwedd yn fanylach.

## 1.6. Cyfweliadau manwl ansoddol gyda dyddiaduron ar-lein

1.6.1. Yng ngham cyntaf yr ymchwil ansoddol, cynhaliwyd 30 cyfweliad manwl 90 munud o hyd gennym gyda deiliaid tai ledled Cymru a Lloegr er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o arferion presennol, ac i archwilio ymatebion tebygol i CDE yng ngoleuni hyn. Cynhaliwyd gwaith maes yn Lloegr yn Llundain, Newcastle, Leeds a Bryste a’u cyffiniau (20 cyfweliad). Cynhaliwyd gwaith maes yng Nghymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Wrecsam (10 cyfweliad). Defnyddiwyd samplu pwrpasol i sicrhau bod y rhai a gymerodd ran yn cynrychioli ehangder demograffeg a nodweddion amrywiol eraill sy'n debygol o ddylanwadu ar y defnydd o'r cynllun gan gynnwys:

- **Deiliadaeth tai**: Perchnogion tŷ; Perchnogion fflatiau mewn bloc; Pobl sy'n rhentu fflatiau mewn bloc; Tai cymdeithasol (fflat neu dŷ)
- **Perchnogaeth car**: Perchnogion ceir; Pobl nad ydynt yn berchen ar gar
- **Ardal**: Trefol; Lled-drefol /maestrefol; Tref fach neu wledig

1.6.2. Cynhaliwyd cyfweliadau byrrach o 45 munud hefyd gyda phlentyn 11-15 oed mewn pedwar o'r aelwydydd hyn yn Lloegr ac mewn dau o'r aelwydydd hyn yng Nghymru, yn seiliedig ar ddealltwriaeth bod y grŵp oedran hwn yn yfed llawer o ddiodydd pan fyddant oddi cartref.

1.6.3. Cyn cael cyfweliad, cwblhaodd yr oedolion a oedd yn cymryd rhan ddyddiadur ar-lein, gan gofnodi bob tro yr oeddent yn prynu neu'n gwaredu diod mewn cynhwysydd fyddai yng nghwmpas y darpar gynllun dros gyfnod o wythnos. Cwblhawyd hwn gan ddefnyddio rhaglen yr oedd y rhai a oedd yn cymryd rhan yn lawrlwytho i'w ffôn symudol, a oedd yn caniatáu iddynt gofnodi pob tro yr oeddent yn prynu neu'n cael gwared ar gynhwysydd diod wrth iddynt wneud hynny drwy dynnu llun a rhoi ychydig o fanylion am y gweithgaredd a'u cymhellion. Mae dyddiaduron ar-lein yn ffordd gyfleus i ddefnyddwyr gofnodi eu harferion wrth iddynt ddigwydd a dangoswyd ei fod yn rhoi cofnod cywirach o arferion na dwyn i gof yn unig. Mae'r cofnodion yn darparu sail realistig i drafodaeth yn y cyfweliadau manwl ac yn helpu i osgoi dwyn i gof neu ôl-resymoli a allai, fel arall, ystumio ymatebion.5 Er gwaethaf manteision y dull hwn, dylid nodi y gallai camliwio ddylanwadu ar y dyddiaduron ar-lein fel y gwelwyd mewn arolygon neu gyfweliadau ansoddol. Yn ogystal â'r cynwysyddion a restrir uchod oedd yng nghwmpas y cynllun, cynhwyswyd cwpanau coffi tafladwy yn elfen ansoddol y gwaith hwn.

1.6.4. Defnyddiwyd canlyniadau'r dasg dyddiadur a gynhaliwyd o flaen llaw fel symbyliad yn y cyfweliadau manwl er mwyn archwilio'r ffactorau sy'n cymell arferion presennol ac unrhyw rwystrau i ailgylchu. Roedd y trafodaethau'n cynnwys trafod profiadau'r rhai a gymerodd ran o ddefnyddio'r dyddiadur ar-lein, dilysu canfyddiadau a nodi a oedd achlysuron na chawsant eu cofnodi yn ystod y gweithgaredd. Yna cyflwynodd

[5] Gweler er enghraifft Cohen et al (2006) *Online Diaries for Qualitative Evaluation: Gaining Real-Time Insights*, American Journal of Evaluation 27 (2)

yr ymchwilwyr y cysyniad CDE i archwilio agweddau ac ymatebion o ran tebygolrwydd ei ddefnyddio. Roedd canllawiau pwnc yn seiliedig ar fodel Arferion Cyhoeddus Kantar (gweler Atodiad C), a ddatblygwyd gydag arbenigedd academaidd a phrofiad ymarferol i grynhoi wyth dylanwad allweddol ar arferion, gyda dyfeisiau chwilio'n cael eu cynnwys er mwyn ceisio sicrhau swyddogaeth ffactorau anymwybodol, megis arferion, yn ogystal â chyfrifiadau cost/budd mwy rhesymol. Cynhaliwyd pob cyfweliad manwl ym mis Ionawr 2019.

1.6.5. Drwy ganfyddiadau'r agwedd hon o'r ymchwil, cafwyd cipolwg ar gymhellion presennol arferion gwaredu ar draws ystod o wahanol unigolion, agweddau tuag at y cysyniad o CDE, a rhyw arwydd o ba arferion allai ddeillio o hyn gyda chyflwyno'r cynllun.

## 1.7. Trafodaethau grŵp ansoddol

1.7.1. Yn yr ail faes o ymchwil ansoddol, a ddigwyddodd ochr yn ochr â'r arolwg meintiol (gweler isod), cynhaliwyd 6 trafodaeth grŵp 2 awr o hyd gennym gyda 6-8 o bobl a oedd yn oedolion ac yn ddeiliaid tai yn Llundain, Manceinion, Bryste, Wrecsam a Chaerdydd. Gweler Atodiad E am y sampl llawn a gymerodd ran.

1.7.2. Roedd canfyddiadau'r cyfweliadau manwl yn dangos bod agweddau tuag at y CDE yn cael eu heffeithio i ryw raddau gan agweddau ac arferion ailgylchu presennol, gyda'r rhai a oedd yn fwy cadarnhaol ynglŷn ag ailgylchu yn fwy tebygol o fod yn gadarnhaol am y cynllun. Felly rannwyd y grwpiau trafod yn ôl agweddau presennol gan ddefnyddio diffiniad a addaswyd o ddyfais olrhain agweddau at ailgylchu WRAP.[6] Y tu hwnt i hyn, roedd y grwpiau hefyd yn adlewyrchu amrediad o wahanol ystodau oedran ac ardaloedd (trefol, led-drefol/maestrefol, trefi bach/gwledig).

1.7.3. Defnyddiwyd y grwpiau i ymchwilio'n fwy manwl i'r canfyddiadau a ddeilliodd o'r cyfweliadau manwl, gan gynnwys ymatebion tebygol i gyflwyno CDE, yr hyn fyddai'n debygol o annog ei ddefnyddio, rhwystrau posibl o ran cymryd rhan ac ystyriaethau o ran dyluniad y cynllun er mwyn rhoi pwyslais ar effeithiolrwydd. Aethpwyd ati i ysgogi trafodaeth am y defnydd tebygol gyda golwg ar ystod o

---

[6] Recycling Tracker Report

wahanol sefyllfaoedd ac i archwilio hoff ddewisiadau a blaenoriaethau posibl yn nyluniad y cynllun. Cynhaliwyd yr holl drafodaethau grŵp ym mis Mawrth 2019.

## 1.8. Arolwg panel ar-lein meintiol (oedolion) ac arolwg ar-lein (plant)

1.8.1. Roedd yr ymchwil feintiol yn cynnwys dau arolwg yng Nghymru, un gydag oedolion 16 oed a hŷn a'r llall gyda phlant 11 i 15 oed. Cafodd yr arolwg oedolion ei gynnal ar-lein gan ddefnyddio Lightspeed, sef panel mynediad ar-lein Kantar, yn brif ffynhonnell y sampl. Cynhaliwyd yr arolwg plant ar-lein gan ddefnyddio 'cronfa ddata ffordd o fyw' a oedd wedi'i chynnal gan Sample Answers. O'r gronfa ddata hon, detholodd Kantar sampl o rieni plant 11 i 15 oed, gan rannu'r sampl yn haenau yn ôl oedran y plentyn a'r rhanbarth (yng Nghymru). Yna, anfonwyd llythyr at y rhieni yn y sampl yn dweud wrthynt am yr astudiaeth ac yn gofyn iddynt roi caniatâd i hyd at ddau blentyn cymwys gymryd rhan yn yr astudiaeth. Anfonwyd hyd at ddau lythyr atgoffa a rhoddwyd taleb siopa o £10 i bob plentyn a gymerodd ran i ddiolch iddynt am eu hamser. Roedd pob llythyr yn ddwyieithog, gyda'r testun yn Saesneg ar un ochr ac yn Gymraeg ar y llall.

1.8.2. Yng Nghymru, cyflawnwyd cyfanswm o 1,453 o gyfweliadau gydag oedolion 16 oed a hŷn a 372 o gyfweliadau gyda phlant 11 i 15 oed. Cynhaliwyd y gwaith maes ym mis Mawrth 2019. Ceir rhagor o fanylion am y fethodoleg feintiol yn Atodiad D

1.8.3. Cafodd yr oedolion a'r plant a gymerodd ran yn yr arolwg y dewis i'w gwblhau yn Gymraeg neu yn Saesneg.

1.8.4. Mae manteision i'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg oedolion (h.y. cyfweliadau panel ar-lein) o ran cyflymder ac effeithlonrwydd cost. Fodd bynnag, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod risgiau cysylltiedig yn gysylltiedig â'r dull panel gan fod yn rhaid dewis bod yn rhan ohonynt, gan gynnwys y ffaith nad yw'r panelwyr yn cynrychioli'r boblogaeth yn gyffredinol, er y defnyddiwyd cwotâu a phwysoli i leihau'r risg hwn. Gweler Atodiad D am ragor o fanylion ar baneli ar-lein meintiol.

1.8.5. Er mwyn sicrhau bod y sampl o'r arolwg oedolion yn adlewyrchu proffil demograffig-gymdeithasol y boblogaeth gyffredinol, i'r graddau ei bod hi'n bosibl, a gwneud iawn am unrhyw dueddiadau hysbys mewn paneli ar-lein,[7] pennwyd cwotâu cysylltiedig ar gyfer oedran a rhyw ar gyfer yr arolwg oedolion. Pwysolwyd y data ynglŷn â'r oedolion a'r plant er mwyn sicrhau bod y samplau'n adlewyrchu proffil demograffig-gymdeithasol y boblogaeth gyffredinol, i'r graddau ei bod hi'n bosibl.

1.8.6. Fodd bynnag, mae arolygon panel a samplo cwotâu yn tueddu i ddangos tuedd, er enghraifft, drwy ffafrio ymatebwyr sy'n fodlon cymryd rhan yn yr ymchwil - gall y bobl hyn fod yn wahanol a meddwl yn wahanol am y pwnc ymchwil na'r rhai nad ymatebodd. Fel y cyfryw, nid yw samplo cwotâu ond yn darparu gwybodaeth gadarn am y sampl a ymatebodd ac ni ellir cyffredinoli'r wybodaeth honno'n uniongyrchol i'r boblogaeth ehangach[8], hyd yn oed ar ôl cymryd gofal i leihau tuedd debygol drwy ddylunio cyn yr arolwg a phwysoli ar ôl yr arolwg. Felly, cyfeiriwn at 'y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg' yn yr adroddiad hwn ac rydym yn ofalus wrth wneud casgliadau am unrhyw gyffredinoli i'r boblogaeth gyffredinol.

1.8.7. Nid yw profion arwyddocâd ystadegol[9] yn berthnasol i ddyluniadau arolygon sy'n seiliedig ar gwotâu oherwydd nifer o faterion: tuedd, diffyg gwybodaeth am debygolrwydd y samplu, poblogaeth anhysbys. Fodd bynnag, roedd angen rhyw fath o sail i benderfynu pa ganfyddiadau oedd yn rhoi'r cipolwg gorau ar gyfer yr adroddiad hwn. Defnyddiwyd profion ystadegol felly fel offeryn ymarferol i nodi unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng is-grwpiau (gweler 'is-grwpiau demograffig-gymdeithasol') ac i helpu i bennu lle mae patrwm yn dod i'r amlwg o'r canfyddiadau. Dim ond gwahaniaethau a nodwyd fel rhai nodedig gan ddefnyddio profion ystadegol sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, gan nodi eu bod ond yn arwydd o wahaniaethau posibl mewn is-grwpiau o fewn y boblogaeth gyffredinol. I gael rhagor o wybodaeth, gweler Atodiad D.

[7] Cyfeirier at 'Sut i ddehongli'r canfyddiadau' ac Atodiad D: Nodyn technegol - Dyluniad yr arolwg.

[8] Gweler, er enghraifft: GSR quota sampling guidance

[9] Mae prawf arwyddocâd yn amcangyfrif a yw gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol ond amcangyfrif yn unig yw hyn.

1.8.8. Roedd yr holiadur i oedolion yn cynnwys agweddau tuag at CDE a hoff ddewisiadau o ran dyluniad (gweler Atodiad E). Cafwyd ymarfer dadansoddi ar y cyd hefyd, y manylir arno ym mhennod 6, a oedd yn cynnwys cyflwyno dwy sefyllfa i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o sut y gellid dylunio CDE a sut fyddai'n gweithio'n ymarferol, gan helpu i dynnu sylw at bwysigrwydd cymharol pob cydran.

## 1.9. Sut i ddehongli'r canfyddiadau

1.9.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno data o'r gwahanol agweddau ymchwil, gan fanteisio ar gryfderau cymharol pob un wrth ddehongli'r data a dirnad pa ddyluniad fyddai orau i'r cynllun. Drwy gydol yr adroddiad mae canfyddiadau'r ymchwil wedi'u nodi'n glir i ganiatáu i'r darllenydd wahaniaethu rhwng y gwahanol agweddau. Mae'r canfyddiadau ansoddol a ddyfynnir yn cyfeirio at yr hyn a ddysgwyd o'r cyfweliadau manwl a'r grwpiau ffocws. Mae'r canfyddiadau meintiol a ddyfynnir yn cyfeirio at oedolion a gymerodd ran oni nodir yn wahanol. Mae cyfeiriadau at y 'cynllun' yn cyfeirio at y Cynllun Dychwelyd Ernes (CDE).

1.9.2. Er bod canfyddiadau'r arolwg yn rhoi mesur ystadegol o agweddau ac arferion presennol a lefelau defnydd honedig o'r cynllun, mae rhesymau i fod yn ofalus ynglŷn ag ymdrin ag ymatebion yn yr arolwg yn arwynebol. Mae camliwio oherwydd dymuniadau cymdeithasol, sef uniaethu'ch hun ag arferion y mae rhywun yn eu gweld yn ddymunol yn gymdeithasol, yn debygol o effeithio ar sut mae rhywun yn dweud eu bod yn ailgylchu ar hyn o bryd.[10] Mae canfyddiadau'r arolwg hefyd yn tueddu i gynrychioli meddyliau uniongyrchol y rhai sy'n cymryd rhan, hynny yw eu syniadau cychwynnol a'u hymateb i'r cwestiynau a'r pynciau dan sylw. Mae hyn yn tanlinellu ymhellach bwysigrwydd y canfyddiadau ansoddol a pha mor werthfawr ydynt o ran rhoi cyd-destun a dyfnder. Oherwydd na phenderfynwyd eto ar logisteg CDE a sut y gallai weithio yn ymarferol, mae risg hefyd y gall fod 'bwlch gweithredu o ran bwriad', hynny yw, lle mae gan ymatebydd pob bwriad o ddefnyddio CDE wrth ateb cwestiynau'r arolwg ond efallai yn peidio â gweithredu ar y bwriad hwn mewn gwirionedd.

[10] Gweler er enghraifft Kormos and Gifford (2014) The validity of self-report measures of proenvironmental behavior: A meta-analytic review Journal of Environmental Psychology 40 (2014) 359-371

1.9.3. Wrth ystyried yr ymatebion tebygol i'r cynllun, mae canfyddiadau'r ymchwil ansoddol, lle rhoddwyd amser i'r rhai a gymerodd ran ystyried eu barn ac arferion tebygol yn fanylach, yn awgrymu y gallai ymatebion cadarnhaol i ddechrau gilio yn wyneb pryderon ynghylch ymarferoldeb defnydd a chwestiynau ynghylch gwerth y cynllun yng nghyd-destun y gyfundrefn ailgylchu bresennol ar ochr y palmant. Rydym felly wedi defnyddio'r canfyddiadau ansoddol drwy'r adroddiad hwn i helpu dehongli data'r arolwg a'i wneud yn fwy toreithiog. Ond hefyd, wrth ddehongli unrhyw ymatebion, mae'n bwysig cofio bod barn ac arferion y cyhoedd yn debygol o newid wrth i'r cyd-destun y maent yn ymateb iddo newid, gan gynnwys mewn ymateb i lansiad y cynllun ei hun. Er enghraifft, mae ymchwil wedi dangos bod y gefnogaeth i'r tâl am fagiau plastig yn Lloegr wedi cynyddu ar ôl ei sefydlu, gyda hyn yn effeithio yn ei dro ar agweddau tuag at daliadau eraill i leihau gwastraff plastig.[11]

1.9.4. Mae'r canfyddiadau ansoddol hefyd yn cynnig goleuni amgen ble mae modd dod i gasgliad am y ffordd orau o ddylunio'r cynllun er mwyn annog cefnogaeth a defnydd. Rydym wedi ymgorffori dirnadaeth o arferion lle y bo'n berthnasol gyda'r canfyddiadau drwy'r holl adroddiad (gweler Atodiad A am ddadansoddiad o'r canfyddiadau yn unol â Model Arferion Cyhoeddus Kantar).

### 1.10. Is-grwpiau demograffig-gymdeithasol

1.10.1. Mae'r adroddiad yn cynnwys dadansoddiadau meintiol a wnaed gan is-grwpiau demograffig-gymdeithasol o ddiddordeb a sylwadau ar unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng is-grwpiau sy'n arwyddocaol ar y ganran hyder o 95%[12] ar gyfer y sampl oedolion yn unig. Roedd angen rhywfaint o sail i benderfynu pa ganfyddiadau oedd yn rhoi'r mewnwelediad mwyaf ar gyfer yr adroddiad hwn felly defnyddiwyd profion ystadegol fel offeryn ymarferol i nodi unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng is-grwpiau; dim ond arwydd o wahaniaethau posibl mewn is-grwpiau o fewn y boblogaeth gyffredinol yw'r rhain. Nid yw profion arwyddocâd ystadegol yn berthnasol i ddyluniadau arolygon sy'n seiliedig ar gwotâu oherwydd nifer o faterion:

[11] Gweler er enghraifft Thomas, Gregory Owen et al. (2019) "The English Plastic Bag Charge Changed Behavior and Increased Support for Other Charges to Reduce Plastic Waste." Frontiers in psychology vol. 10:266

[12] Atodiad D: Nodyn Technegol – Profion arwyddocâd.

tuedd, diffyg tebygolrwydd samplu hysbys, poblogaeth anhysbys. Gweler Atodiad D am fwy o fanylion.

1.10.2. Pan roedd meintiau sampl yn caniatáu, cynhaliwyd dadansoddiadau yn ôl:

1. **Oedran** - rhannwyd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg i'r bandiau oedran canlynol: 16-34, 35-44, 45-49, 50-54, 55-64 a 65 a hŷn.

2. **Grwpiau cymdeithasol** - Defnyddir grwpiau cymdeithasol yn gyffredinol i archwilio a yw agweddau yn amrywio o ran cyfoeth ac mae’n berthnasol i’r Prif Enillydd Incwm ar yr aelwyd. Y Prif Enillydd Incwm yw'r person yn y cartref sydd â'r incwm mwyaf (o enillion, budd-daliadau, pensiynau ac unrhyw ffynonellau eraill). Mae'r grwpiau'n amrywio o A i E. Mae'r adroddiad hwn fel arfer yn cyfeirio at bobl yn y ddau grŵp cymdeithasol mwyaf cefnog (AB) a'r ddau grŵp lleiaf cefnog (DE). Mae diffiniadau o'r grwpiau cymdeithasol ar gael yn Atodiad F.

3. **Dosbarthiad trefol/gwledig** – Roedd y dosbarthiad trefol/gwledig yn seiliedig ar y cod post a ddarparwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg. Rhannwyd y rhain yn ddau grŵp: gwledig a threfol-dinesig.

4. **Math o gartref** – Cafodd y rhai a gymerodd rhan yn yr arolwg eu grwpio gyda'i gilydd yn seiliedig ar y math o gartref yr oeddynt yn dweud eu bod yn byw ynddo. Defnyddiwyd y categorïau canlynol: fflatiau, tai ac unrhyw fath arall o gartref.

5. **Y dull o deithio a ddefnyddir i wneud y brif daith siopa** – Rhannwyd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg i’r grwpiau canlynol yn seiliedig ar sut yr oeddynt yn gwneud eu prif daith siopa: ar droed, mewn car neu fan yn perthyn i'r aelwyd, mewn car neu fan nad oedd yn perthyn i'r aelwyd ac ar drafnidiaeth gyhoeddus.

## 1.11 Darllen yr adroddiad hwn

1.11.1. Yn dilyn y cyflwyniad hwn, mae'r adroddiad hwn wedi'i rannu'n gyfres o benodau sy'n cyflwyno ac yn dehongli canfyddiadau'r ymchwil, gan gyflwyno canfyddiadau o'r arolwg ym mhob cam a manteisio hefyd ar ganfyddiadau perthnasol o'r ymchwil ansoddol. Mae ffigurau o'r ymchwil feintiol a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn

ymwneud â’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg; nid yw unrhyw wahaniaethau posibl rhwng is-grwpiau yn ddim ond arwyddion o unrhyw wahaniaethau yn y boblogaeth gyffredinol.

1.11.2. Ym mhennod 2 a 3 rydym yn archwilio agweddau presennol tuag at yr amgylchedd ac ailgylchu a phatrymau ac arferion yfed pobl ar hyn o bryd. Ym mhennod 4 rydym yn archwilio agweddau tuag at y cysyniad cyffredinol o CDE ac ym mhennod 5 rydym yn archwilio'r defnydd tebygol o ddyluniad cynllun penodol a rhai o'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ddefnydd. Ym mhennod 6 rydym yn ystyried hoff ddewisiadau’r defnyddwyr er mwyn gwneud yn fawr o’r cynllun, ac ym mhennod 7 rydym yn edrych yn benodol ar ganlyniadau'r ymarfer ar y cyd. Yn yr adran olaf (8), rydym yn trafod goblygiadau canfyddiadau ac yn gwneud cyfres o argymhellion ar gyfer dylunio a hyrwyddo'r cynllun.

1.11.3. Mae pob pennod yn dechrau gyda chrynodeb byr o'r canfyddiadau allweddol, gan nodi'r goblygiadau o ddau faes yr ymchwil ar gyfer dyluniad y cynllun pan fo'n berthnasol. I gael trosolwg o'r prif ganfyddiadau, darllenwch y crynodeb gweithredol.

## 2. Agweddau tuag at yr amgylchedd ac ailgylchu

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o agweddau cyffredinol tuag at yr amgylchedd ac ailgylchu[13].

**Crynodeb**

*Canfyddiadau*

- Yn yr arolwg a'r ymchwil ansoddol, dywedodd y rhai a gymerodd ran eu bod yn pryderu am yr amgylchedd ac roeddent yn cydnabod swyddogaeth unigolion o ran cyfrannu at ymdrechion amgylcheddol.
- Roedd yr ymchwil ansoddol yn awgrymu bod gwastraff plastig yn arbennig yn fater o bwys i ddefnyddwyr, yn dilyn llawer o sylw yn y cyfryngau, a chafwyd cryn gefnogaeth, mewn egwyddor, i ymdrechion i leihau gwastraff plastig.
- Yn yr arolwg, roedd tua naw o bob deg (88%) yn cytuno bod gan bawb gyfrifoldeb i lanhau'r amgylchedd a honnodd 78% eu bod yn barod i gyfaddawdu ar eu ffordd o fyw er lles yr amgylchedd.
- Yn y cyd-destun hwn, roedd cred bod yr ymdrechion ailgylchu presennol yn fuddiol (cytunodd 79% ar hyn) ac roedd ychydig dros wyth o bob deg (82%) yn anghytuno bod ailgylchu'n ormod o faich i drafferthu ag ef.
- O ran y rhai a gymerodd ran yn yr agwedd ansoddol, roedd teimlad fod ailgylchu yn 'ddyletswydd ddinesig' ac yn norm cymdeithasol, er y gallai taflu sbwriel ennyn mwy o ymatebion emosiynol yn aml ac fe'i gwelwyd yn negyddol iawn.
- Roedd rhai gwahaniaethau ymysg y gynulleidfa, gyda’r rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol na’r rhai hŷn o ddweud bod ailgylchu'n feichus ac yn cytuno mai dim ond os yw'n arbed arian iddynt y mae'n werth gwneud pethau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd – canfyddiad yr oedd y canfyddiadau ansoddol yn eu hategu.
- Yn ogystal â hyn, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd o blaid cyflwyno'r CDE yn llawer mwy tebygol na’r rhai a wrthwynebai i fod yn barod i gyfaddawdu ar eu ffordd o fyw er lles yr amgylchedd (83% o’i gymharu â 56%) - unwaith eto, roedd yr ymchwil ansoddol yn cefnogi hyn.

*Goblygiadau*

- Mae'r canfyddiadau ansoddol a meintiol yn awgrymu bod cefnogaeth sylfaenol i'r syniad o fentrau gan y llywodraeth i leihau plastig a mynd i'r afael â sbwriel.
- Yn yr un modd, mae'r ddwy agwedd yn awgrymu y gallai pobl iau a'r rheini sy'n llai parod ar hyn o bryd i weithredu er lles yr amgylchedd fod yn fwy tebygol nag eraill o weld defnyddio CDE yn faich.

[13] Mae ffigurau o'r ymchwil feintiol a gyflwynir yn y bennod hon yn ymwneud â’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg; dim ond arwydd o wahaniaethau posibl yn y boblogaeth gyffredinol yw unrhyw wahaniaethau rhwng is-grwpiau.

## 2.2. Agweddau tuag at yr amgylchedd ac ailgylchu

2.2.1. I fesur agweddau cyffredinol, gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â phum datganiad gwahanol am yr amgylchedd ac ailgylchu.[14]


2.2.2. Yn gyffredinol, daeth ymdeimlad cryf o ddyletswydd ddinesig i'r amlwg, gydag 88% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno bod 'cyfrifoldeb ar bawb i helpu tuag at lanhau'r amgylchedd'. Roedd cytundeb sylweddol ynglŷn â hyn gyda thua saith o bob deg (69%) yn cytuno'n gryf â'r datganiad hwn. Hefyd, roedd bron i wyth o bob deg (78%) yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno â'r gosodiad 'Rwy'n barod i gyfaddawdu ar fy ffordd o fyw er lles yr amgylchedd'. Fodd bynnag, roedd llai o gytuno ar hyn, gyda dim ond tua thraean (39%) yn cytuno'n gryf â'r datganiad hwn.

2.2.3. Roedd y safbwyntiau ychydig yn fwy amrywiol o ran cymhellion i gymryd camau ecogyfeillgar.  Roedd ychydig dros hanner y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (53%) yn anghytuno 'nad yw hi ond yn werth gwneud pethau ecogyfeillgar os ydynt yn arbed arian i chi' tra bod lleiafrif sylweddol (26%) yn cytuno â'r datganiad hwn. Mae hyn yn awgrymu y gellid annog rhai i gymryd camau ecogyfeillgar os yw'n arbed arian iddynt.

2.2.4. Roedd agweddau tuag at ailgylchu yn fwy penodol, yn gadarnhaol hefyd. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno bod 'fy ymdrechion ailgylchu yn fuddiol' (79%) ac yn anghytuno bod 'ailgylchu yn ormod o drafferthu i boeni ag ef' (82%). Mae hyn yn dangos bod y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn gyffredinol o'r farn bod eu hymdrechion ailgylchu yn fuddiol ac nad oeddent yn teimlo bod y system ailgylchu bresennol (ailgylchu wrth ymyl y ffordd yn fwyaf tebygol) yn amharu ar eu bywyd mewn ffordd a oedd yn gwneud ailgylchu'n ormod o drafferth.

[14] Gweler yr holiadur drafft yn Atodiad B ar gyfer y drefn y gofynnwyd y datganiadau (nid oedd y datganiadau'n rhai ar hap).

**Ffigur 2.1: Agweddau tuag at yr amgylchedd ac ailgylchu**




(F1_(1~5)) Dyma rai datganiadau y mae pobl wedi eu gwneud am eu hunain. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno? Sylfaen: Pob Oedolyn (Cymru) – 1,453.


2.2.5. Roedd yr ymchwil ansoddol yn adleisio'r teimladau hyn, lle'r oedd gwastraff plastig yn fater pwysig iawn i'r rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran. Roedd sylw yn y cyfryngau, yn enwedig ar raglen Blue Planet y BBC, wedi creu pryder sylweddol am faint o blastig a oedd yn y môr a mannau eraill. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn gallu uniaethu pryderon â'u profiadau eu hunain, naill ai pan oeddent ar wyliau neu yn eu hardal leol, lle'r oedd cysylltiad cryf rhwng plastig a sbwriel. Yn y cyd-destun hwn, roedd ailgylchu yn norm cymdeithasol sefydledig: cai fel arfer ei ddeall fel 'dyletswydd ddinesig ' ac yn rhywbeth y gall ac y dylai unigolion ei wneud i 'wneud eu rhan' dros yr amgylchedd. Roedd taflu sbwriel, fel mater gweledol a lleol iawn, yn cael ei ystyried yn hynod o negyddol ac fe'i cysylltwyd â phobl ac arferion gwrthgymdeithasol.

**Roedd pobl iau a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol na'r rhai hŷn o ystyried bod ailgylchu'n feichus ac o'r farn ei fod ond yn werth gwneud pethau ecogyfeillgar os yw'n arbed arian**

2.2.6. Ymhlith y rhai a ymatebodd i'r arolwg, roedd rhai gwahaniaethau mewn agweddau yn ôl oedran:

- Roedd y rhai iau a gymerodd ran yn arolwg yn fwy tebygol na'r rhai hŷn o gytuno bod 'ailgylchu yn ormod o drafferth i boeni ag ef'. Roedd ychydig o dan chwarter (22%) o bobl 16-24 oed a 24% o bobl 25-34 oed yn cytuno â'r datganiad hwn o'i gymharu â dim ond 5% o bobl 65 oed neu hŷn.
- Roedd pobl 25-34 oed yn fwy tebygol na'r rhai 65 oed a hŷn i gytuno 'ei bod hi ond yn werth gwneud pethau ecogyfeillgar os yw'n arbed arian i chi' (36% o bobl 25-34 oed yn cytuno o'i gymharu â 17% o bobl 65+ oed).
- Ar y llaw arall, roedd y rhai hŷn a gymerodd ran yn arolwg yn fwy tebygol na'r rhai iau o gytuno bod eu hymdrechion ailgylchu yn fuddiol (86% o bobl 65 oed a hŷn yn cytuno o'i gymharu â 71% o bobl 25-34 oed).

**Ffigur 2.2: Agweddau tuag at yr amgylchedd ac ailgylchu yn ôl oedran (canran a gytunodd â phob datganiad)**




(F1_(1~5)) Dyma rai datganiadau y mae pobl wedi eu gwneud am eu hunain. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno? Sylfaen: Pob Oedolyn (Cymru)(16-24) 147; (25-34) 266; (35-44) 206; (45-49) 114; (50-54) 117; (55-64) 288; (65+) 296.

2.2.7. Roedd yr ymchwil ansoddol yn cefnogi'r canfyddiadau hyn lle roedd pobl ifanc 16-24 oed a oedd yn dal i fyw gartref gyda'u rhieni neu yn rhannu tŷ yn llai tebygol o fod â threfniadau ailgylchu sefydledig ac yn tueddu i flaenoriaethu cyfleustra dros ailgylchu. Yn ddiddorol, roedd hyn yn cyferbynnu â phlant 11-15 oed a gyfwelwyd, a oedd yn tueddu i fod yn gadarnhaol am ailgylchu o ganlyniad i ddysgu amdano yn yr ysgol, ond nad oedd angen iddynt, yn arwyddocaol, gymryd llawer o gamau personol er mwyn ailgylchu.

**Roedd y rhai a oedd yn gefnogol o CDE yn fwy tebygol na'r rhai oedd yn gwrthwynebu'r cynllun o fod yn barod i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw er lles yr amgylchedd**

2.2.8. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg i ba raddau y byddent yn cefnogi neu'n gwrthwynebu cyflwyno'r CDE. Yn gyffredinol, roedd 74% o oedolion naill ai'n gefnogol iawn neu'n gefnogol i gyflwyno'r CDE, o'i gymharu â 10% a oedd yn ei wrthwynebu'n gryf neu'n ei wrthwynebu, ac 16% a ddywedodd nad oeddent naill ai'n cefnogi nac yn gwrthwynebu CDE.

2.2.9. Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd o blaid cyflwyno CDE (gweler adran 4.2) yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn ei wrthwynebu o gytuno â'r datganiad 'Rwy'n barod i gyfaddawdu ar fy ffordd o fyw er lles yr amgylchedd' (83% o'i gymharu â 56%). Gan fod cyflwyno CDE yn debygol o olygu newid arferion, mae'n werth ymchwilio i'r hyn a fyddai'n cymell y rhai sy'n gwrthwynebu'r cynllun i newid eu harferion hyd yn oed os mai dim ond lleiafrif ohonynt sy'n gwneud hynny, gan y gallai hyn fod yn anodd os bydd angen iddynt gyfaddawdu.

2.2.10. Ar yr wyneb, nid yw arbed arian i bob golwg yn ddigon o ysgogiad ar gyfer cymryd camau eco-gyfeillgar i'r rhan fwyaf o'r rhai a wrthwynebai gyflwyno'r CDE. Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu'r CDE yr un mor debygol â'r rhai a oedd yn gefnogol iddo o gytuno â'r datganiad 'Mae hi ond yn werth gwneud pethau ecogyfeillgar os ydyn nhw'n arbed arian i chi ' (25% a 26% yn y drefn honno). Roedd yr ymchwil ansoddol yn cefnogi hyn, gyda'r rhai a oedd yn lleiaf brwdfrydig dros ailgylchu yn llai tebygol o fod o blaid y cynllun (gweler adran 5.3.12).

# 3. Arferion defnyddio a gwaredu presennol

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o arferion siopa presennol y rhai sy'n cymryd rhan yn yr arolwg a sut maent ar hyn o bryd yn yfed ac yn gwaredu diodydd a chynwysyddion diodydd y bwriedir y byddant yn rhan o'r cynllun.[15]

3.2 Y cynwysyddion diodydd y bwriedir y byddant yn rhan o'r cynllun, yn amodol ar yr ymgynghoriad yw: poteli plastig, poteli gwydr a chaniau metel, pob diod ddialcohol (gan gynnwys dŵr a sudd), diodydd alcohol a diodydd sy'n cynnwys llaeth (ond nid llaeth ei hun). Yn ogystal â'r cynwysyddion a restrir yma, cynhwyswyd cwpanau coffi tafladwy yn yr agwedd ansoddol o'r gwaith hwn.

**Crynodeb**

*Canfyddiadau*

- O ran prynu, ymddengys mai'r duedd bresennol yw un brif daith siop wythnosol (hyd yn oed os oes angen prynu nwyddau ychwanegol), gyda dim ond 12% nad ydynt yn gwneud prif daith siopa wythnosol.
- Mewn wythnos nodweddiadol roedd y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (86%) yn ymweld ag archfarchnad fawr ac yn gwneud eu prif daith siopa mewn car neu fan a yrrir ganddyn nhw neu rywun ar yr aelwyd (79%), er bod pobl o grwpiau cymdeithasol is yn llai tebygol o deithio mewn car.
- O ran gwaredu, yn yr arolwg, roedd cynwysyddion diododd gwag yn fwy tebygol o gael eu hailgylchu gartref nag oddi cartref (94% o'i gymharu â rhwng 57% a 60% yn dibynnu ar y math o gynhwysydd).
- Roedd yr ymchwil ansoddol yn ategu hyn, lle'r oedd arferion ailgylchu yn gyson iawn ac yn dibynnu ar gyd-destun.
- Canfu'r ymchwil ansoddol, er bod y rhan fwyaf wedi sefydlu arferion ar gyfer ailgylchu gartref, y cai cyfleustra oddi cartref fel arfer ei flaenoriaethu a bod y rhan fwyaf yn cael gwared ar gynwysyddion yn y bin agosaf, gan ailgylchu dim ond os oes ysgogiad clir i wneud hynny.

*Goblygiadau*

- Er bod lleoli mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr yn debygol o fod yn gyfleus i'r rhan fwyaf o bobl sy'n cludo eu gwastraff o gartref, bydd angen i'r cynllun hefyd ystyried anghenion y rhai sy'n siopa mewn siopau llai a/neu nad oes ganddynt geir, sy'n tueddu i fod yn y grwpiau cymdeithasol is.
- Gan fod cysylltiad cryf eisoes rhwng ailgylchu a'r cartref, dylai dyluniad y cynllun ystyried sut y gall ddarparu ar gyfer ac annog ailgylchu oddi cartref.

[15] Mae ffigurau o'r ymchwil feintiol a gyflwynir yn y bennod hon yn ymwneud â'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg; dim ond arwydd o wahaniaethau posibl yn y boblogaeth gyffredinol yw unrhyw wahaniaethau rhwng is-grwpiau.


### 3.3. Arferion prynu presennol

3.3.1. Er mwyn dylunio CDE sy'n gweddu i fywydau pob dydd pobl, mae'n bwysig deall arferion prynu presennol. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg am eu harferion siopa presennol o ran prynu bwyd a nwyddau.

3.3.2. **Sut mae pobl yn siopa**: Dywedodd tua saith o bob deg (71%) o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod yn gwneud un brif daith siopa ynghyd â phrynu nwyddau ychwanegol pan fo angen, dywedodd 17% eu bod yn prynu eu holl fwyd a nwyddau eraill mewn un brif daith siopa (e.e. bob wythnos neu bob pythefnos) a dywedodd 12% nad oeddent yn gwneud prif daith siopa, ond yn hytrach eu bod yn prynu bwyd a nwyddau pan fo angen.

3.3.3. **Lle mae pobl yn siopa:** Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg sut mae eu haelwyd fel arfer yn prynu bwyd a nwyddau bob wythnos (gallent roi mwy nag un ateb). Yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd eu bod yn ymweld ag archfarchnad fawr (86%), ac yna siopa mewn archfarchnadoedd bach (31%).

**Ffigur 3.1: Sut mae aelwydydd yn prynu bwyd a nwyddau mewn wythnos nodweddiadol**




(A5) Sut mae eich aelwyd yn prynu bwyd a nwyddau mewn wythnos arferol? Sylfaen: Pob Oedolyn (Cymru) – 1,453.

3.3.4. **Sut mae pobl yn gwneud eu prif daith siop:** Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ac nad oeddent yn gwneud eu holl siopa ar-lein sut roeddent yn gwneud eu prif daith siopa fel arfer. Roedd y mwyafrif o'r rhai a gymerodd ran yn yr

arolwg (79%) yn teithio mewn car neu fan (gyda nhw eu hunain neu aelod arall o'r aelwyd yn gyrru), ac yna cerdded (10%) a thrafnidiaeth gyhoeddus (5%).

3.3.5. O edrych ar wahaniaethau yn ôl grŵp cymdeithasol, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o grwpiau cymdeithasol DE yn llai tebygol na'r rhai o grwpiau cymdeithasol uwch o ddweud eu bod gwneud eu prif daith siopa mewn car neu fan (64%, o gymharu ag AB 89% a C1/C2 81%). Dywedodd bron i un o bob pump (17%) o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o grwpiau cymdeithasol DE eu bod yn gwneud eu prif daith siopa drwy gerdded, o'i gymharu â dim ond 5% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o grwpiau cymdeithasol AB a 10% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o grwpiau cymdeithasol C1/C2.

**Byddai'n rhwydd i'r rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg deithio i archfarchnad fawr, siop gornel leol neu archfarchnad fach gan ddefnyddio eu math arferol o drafnidiaeth**

3.3.6. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg pa mor rhwydd neu anodd y byddai hi iddynt gyrraedd archfarchnadoedd mawr, siopau cornel lleol a'r archfarchnadoedd bach gan ddefnyddio'u dull arferol o deithio. Byddai'r mwyafrif yn ei chael hi'n rhwydd teithio i archfarchnadoedd mawr (88%), siopau cornel lleol (84%) ac archfarchnadoedd bach (74%), sy'n awgrymu eu bod yn debygol o fod yn lleoedd cyfleus i osod mannau dychwelyd ar gyfer CDE.

## 3.4. Arferion yfed presennol gartref ac oddi cartref


3.4.1. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg pa rai o'r diodydd canlynol roeddent yn eu hyfed gartref neu oddi cartref, heb gynnwys diodydd a yfwyd mewn bwytai, caffis neu dafarndai:

1. Gwin potel
2. Gwirodydd potel
3. Cwrw/seidr/diodydd alcohol eraill (poteli gwydr neu blastig, caniau)
4. Diodydd dialcohol fel diodydd pefriog, sudd, dŵr tonig, smwddis (poteli gwydr neu blastig, caniau, cartonau)
5. Dŵr potel (gan gynnwys dŵr â blas)

6. Dim un o'r uchod

3.4.2. Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol o yfed pob math o ddiodydd gartref yn hytrach nag oddi cartref. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaeth rhwng yfed gartref ac oddi cartref yn llai ar gyfer dŵr potel (roedd 46% yn yfed dŵr potel yn y cartref, 41% oddi cartref). Diodydd dialcohol (ac eithrio dŵr potel) oedd y diodydd mwyaf poblogaidd a yfwyd gartref (65%) ac oddi cartref (47%).

**Ffigur 3.2: Diodydd sy'n cael eu hyfed gartref/oddi cartref (oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg)**





(B1) Pa rai o'r rhain ydych chi eich hun yn eu hyfed gartref, hyd yn oed os yw hynny'n achlysurol yn unig? Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) – 1,453.
(B5) Pa rai o'r rhain ydych chi eich hun yn eu hyfed oddi cartref, hyd yn oed os yw hynny'n achlysurol yn unig? Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) – 1,453.

3.4.3. Datgelodd yr ymatebion i'r dasg dyddiadur ar-lein yn yr ymchwil ansoddol amrywiaeth tebyg o arferion yfed, gydag ymatebion yn amrywio o'r rhai a oedd yn prynu ac yn yfed llawer iawn o ddiodydd dialcohol neu ddŵr i'w yfed bob dydd gartref ac wrth fynd, i'r rhai a oedd yn gwneud eu gorau i yfed llai o ddiodydd mewn cynwysyddion gan ddim ond prynu diodydd alcohol yn rheolaidd i'w hyfed (gweler yr astudiaethau achos yn Adran 3.7 am enghreifftiau pellach).

**Ar gyfer plant 11 i 15 oed a gymerodd ran yn yr arolwg, sudd/smwddis/diodydd ffrwythau oedd y math mwyaf poblogaidd o ddiodydd a yfwyd gartref tra mai dŵr potel oedd y ddiod fwyaf poblogaidd a yfwyd oddi cartref**

3.4.4. Sudd/smwddis/diodydd ffrwythau oedd y math mwyaf poblogaidd o ddiodydd a yfwyd gartref gan blant 11 i 15 oed (73%), a dŵr potel oedd y ddiod fwyaf poblogaidd a yfwyd oddi cartref (71%).

**Ffigur 3.3: Diodydd sy'n cael eu hyfed gartref ac oddi cartref (plant a gymerodd ran yn yr arolwg)**





(B01) Pa rai o'r rhain ydych chi'n eu hyfed gartref, hyd yn oed os mai weithiau yn unig y bydd hyn? Sylfaen: Pob plentyn (Cymru) – 372.
(B04) Pa rai o'r rhain ydych chi'n eu hyfed oddi cartref, hyd yn oed os mai weithiau yn unig y bydd hyn? Sylfaen: Pob plentyn (Cymru) – 372.

## 3.5. Yfed diodydd mewn gwahanol fathau o gynwysyddion

3.5.1. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn yfed diodydd gartref neu oddi cartref pa fath o gynhwysydd y deuai'r diodydd ynddo. Yn gyffredinol, roedd pobl yn fwy tebygol o yfed diodydd ym mhob math o gynwysyddion gartref nag oddi cartref, ac eithrio poteli plastig bach sydd, mae'n debyg, oherwydd bod modd eu cludo'n rhwydd.


**Ffigur 3.4: Mathau o gynwysyddion y daeth y diodydd ynddynt a yfwyd gan yr oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg: gartref ac oddi cartref**




(B2) Diodydd yn y cartref: pa fathau o ddeunydd pacio y mae'r diodydd hyn yn dod ynddynt? Sylfaen: Oedolion sy'n yfed gartref (Cymru)– 1376.
(B6) Diodydd oddi cartref: pa fathau o ddeunydd pacio y mae'r diodydd hyn yn dod ynddynt? Sylfaen: Oedolion sy'n yfed oddi cartref (Cymru) – 1135.

3.5.2. Fel y gwelwyd gyda'r oedolion, roedd plant 11 i 15 oed a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol o yfed diodydd ym mhob math o gynhwysyddion gartref yn hytrach nag oddi cartref, ar wahân i boteli plastig bach a chaniau.

**Ffigur 3.5: Mathau o gynwysyddion y daeth y diodydd ynddynt a yfwyd gan y plant a gymerodd ran yn yr arolwg: gartref ac oddi cartref**




(B02) Pa fathau o ddeunydd pacio y mae'r diodydd hyn yn dod ynddynt? Sylfaen: Plant sy'n yfed gartref (Cymru) – 356.
(B05) Diodydd oddi cartref: Pa fathau o ddeunydd pacio y mae'r diodydd hyn yn dod ynddynt? Sylfaen: Plant sy'n yfed oddi cartref (Cymru) – 362.

3.5.3. Adlewyrchwyd y patrwm hwn yn yr ymchwil ansoddol, lle'r oedd y rhai a oedd yn cwblhau dyddiaduron ar-lein yn aml yn yfed caniau o ddiodydd dialcohol neu boteli plastig bach o ddŵr neu ddiodydd dialcohol gartref. Rhoddwyd rhesymau amrywiol dros hyn yn ystod cyfweliadau manwl: ystyriwyd bod cynwysyddion llai o faint, yn enwedig poteli plastig, yn fwy hyblyg a bod modd eu hyfed naill ai gartref neu oddi cartref yn ôl yr angen ar y pryd; ar gyfer diodydd pefriog, teimlwyd bod y cynwysyddion llai o ansawdd gwell gan y caent, yn wahanol i boteli mwy o faint, eu

hyfed fel arfer i gyd ar yr un pryd ac felly ddim yn colli’r nwy sydd ynddynt; ac roedd rhai yn honni ei bod yn well ganddynt flas diodydd a yfwyd o ganiau. Yn dibynnu ar y cyfaint a yfwyd, gallai’r rhai a gymerodd ran fod yn prynu naill ai aml-becynnau o ddiodydd (o ddŵr potel neu ddiodydd dialcohol) neu boteli unigol/caniau.


## 3.6. Arferion gwaredu presennol

3.6.1. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg sut yr oeddent fel arfer yn gwaredu poteli a/neu ganiau gwag gartref ac oddi cartref. Mae'n bwysig cofio bod y cwestiwn hwn yn esgor ar ateb sy’n sôn am arferion ailgylchu arferol, felly efallai na fydd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg bob amser yn gwneud hyn.

**Dywedodd y rhan fwyaf o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod fel arfer yn ailgylchu gartref**

3.6.2. Gartref, dywedodd bron pob un (94%) o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg eu bod fel arfer yn ailgylchu poteli a chaniau gwag. Er mwyn dadansoddi arferion ailgylchu nodweddiadol yn fanylach, roedd 86% yn ailgylchu poteli a chaniau gwag gartref, roedd 5% yn cymryd poteli a chaniau i rywle arall i'w hailgylchu a 3% yn defnyddio cyfleuster ailgylchu cymunedol. Dim ond 3% a ddywedodd eu bod fel arfer yn rhoi cynwysyddion gwag yn y bin sbwriel cyffredinol.

**Ffigur 3.6: Y ffordd arferol o gael gwared ar boteli a/neu ganiau gwag pan fo'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn gorffen yr eitemau hyn gartref**




(B3) Diodydd yn y cartref: sut ydych chi'n arfer cael gwared ar y poteli a/neu'r caniau gwag pan fyddwch chi'n gorffen yr eitemau hyn gartref? Sylfaen: Oedolion sy'n defnyddio pecynnau diodydd perthnasol gartref (Cymru)– 1,365.


**Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol o ailgylchu gartref nag oddi cartref**

3.6.3. Fel y gellid disgwyl, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn llai tebygol o ddweud eu bod fel arfer yn ailgylchu cynwysyddion diodydd gwag oddi cartref (rhwng 57% a 60% yn dibynnu ar y math o gynhwysydd). Cai gwahanol fathau o gynwysyddion eu gwaredu yn yr un ffordd ar y cyfan (gweler ffigur 3.7), er bod y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn taflu caniau yn y bin agosaf na photeli plastig a gwydr.

3.6.4. Y dull gwaredu mwyaf cyffredin a grybwyllwyd oedd cadw cynwysyddion diod nes dod o hyd i fin ailgylchu, gyda rhwng 34% a 40% yn gwaredu cynwysyddion gwag fel hyn. Dilynwyd hyn yn agos gan eu rhoi yn y bin sbwriel cyntaf a ganfuwyd (roedd rhwng 23%-32% yn cael gwared ar gynwysyddion gwag yn y modd hwn). Dywedodd lleiafrif sylweddol (rhwng 24% a 31%) o'r rhai a gymerodd ran yn yr

arolwg eu bod yn cymryd cynwysyddion gwag adref i'w rhoi yn y blwch ailgylchu gartref.

**Ffigur 3.7: Y ffordd arferol o gael gwared ar boteli a/neu ganiau gwag oddi cartref (oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg)**





(B7) Diodydd oddi cartref: pan fyddwch yn gorffen diod, sut ydych chi'n arfer gwaredu'r poteli a/neu'r caniau gwag? Sylfaen: Oedolion sy'n defnyddio pecynnau diodydd perthnasol oddi cartref (Cymru) Caniau: 694; Potel blastig fach: 891; Potel wydr fach: 492; Potel blastig fawr: 504; Potel wydr fawr: 387

3.6.5. Fel yr oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg, roedd y plant rhwng 11 a 15 oed a gymerodd ran yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ailgylchu gartref yn hytrach nag oddi cartref. Roedd tua wyth o bob deg (79%) yn dweud eu bod fel arfer yn cael gwared ar boteli a chaniau gwag yn eu cartrefi, a dywedodd 5% eu bod fel arfer yn eu rhoi yn y bin sbwriel cyffredinol.

3.6.6. Roedd y plant rhwng 11 a 15 oed a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn taflu caniau (62%) yn y bin sbwriel cyntaf a ganfuwyd oddi cartref o'i gymharu â mathau eraill o gynwysyddion (rhwng 39% a 45%).[16]

[16] Mae'r ffigurau ar gyfer poteli gwydr mawr wedi'u heithrio oherwydd eu niferoedd bychain (38)

**Ffigur 3.8: Y ffordd arferol o gael gwared ar boteli gwag a/neu ganiau oddi cartref (plant a gymerodd ran yn yr arolwg)**




(B06) Diodydd oddi cartref: Pan fyddwch yn gorffen diod oddi cartref, beth ydych chi'n arfer ei wneud gyda'r deunydd pacio gwag? Sylfaen: Plant sy'n defnyddio pecynnau diodydd perthnasol oddi cartref (Cymru) Caniau: 163; Potel blastig fach: 322; Potel wydr fach: 75; Potel blastig fawr:191; Potel wydr fawr: 38

**Dangosodd yr ymchwil ansoddol hefyd fod y rhai a gymerodd ran yn fwy tebygol o ailgylchu gartref nag oddi cartref**

3.6.7. Yn yr ymchwil ansoddol hefyd, roedd y rhai a gymerodd ran yn fwy tebygol o ailgylchu gartref nag oddi cartref. I'r rhan fwyaf, roedd ailgylchu fel arfer yn rhan o drefn naturiol rhywun, a wnaed heb lawer o feddwl ymwybodol. Roedd hefyd yn ddibynnol iawn ar gyd-destun, yn dibynnu ar y sbardunau cywir i'w annog. Yn hynny o beth, roedd yn gysylltiedig gan fwyaf â'r cartref, lle'r oedd yn orfodol a lle’r oedd y rhan fwyaf o unigolion wedi datblygu arferion ailgylchu ar sail y gofynion a wnaed arnynt gan bolisïau casglu lleol, gan gynnwys, i rai, y bygythiad o gael eu cosbi am beidio â chydymffurfio.

3.6.8. Oddi cartref, roedd ailgylchu'n llawer llai cyson, ac i lawer o’r rhai a gymerodd ran, roedd yn dibynnu ar bresenoldeb cyfleusterau i'w annog. Er bod rhai unigolion mwy amgylcheddol-gydwybodol yn honni eu bod yn cario eu cynhwysydd diodydd yn fwriadol nes iddynt ganfod bin ailgylchu, roedd llawer yn blaenoriaethu cyfleustra o

ran gwaredu, gan ddefnyddio bin ailgylchu pe bai'r dewis hwnnw ar gael yn rhwydd ond bin arferol os nad. Mae hyn yn amlygu'r angen am fentrau newid arferion i alluogi ailgylchu yn yr awyr agored ac mae'n awgrymu efallai y bydd angen i ddyluniad CDE flaenoriaethu cyfleustra ar gyfer gwaredu oddi cartref.

3.6.9. Roedd i ba raddau roedd gwahanol unigolion yn ailgylchu'n fwriadol yn gysylltiedig â'u hagweddau ehangach tuag at yr amgylchedd. Yn yr ymchwil ansoddol, daeth ystod o agweddau ac arferion i'r amlwg, y gellid eu rhannu'n dri grŵp bras, gyda'r mwyafrif o bobl y gwnaethom siarad â nhw yn y grŵp 'Goddefol':

**Ffigur 3.9: Yr ystod o arferion ailgylchu a welwyd yn yr ymchwil ansoddol**


| GWEITHREDOL | GODDEFOL | WEDI YMDDIEITHRIO |
|---|---|---|
| **Ailgylchu yn destun pryder amgylcheddol cryf ac yn agored i newidiadau i ffordd o fyw.**<br>• Ailgylchu pob cynhwysydd gartref, a dealltwriaeth glir o'r broses<br>• Mynd â chynwysyddion a ddefnyddir oddi cartref i'w hailgylchu.<br>• Lleihau neu ailddefnyddio plastig pan fo hynny'n bosibl | **Ailgylchu fel dyletswydd ddinesig a rhan o ddyletswyddau'r aelwyd ond yn llai agored i newidiadau i ffordd o fyw**<br>• Ailgylchu pob cynhwysydd gartref, ond efallai nad yw'n deall y broses.<br>• Yn cael gwared ag eitemau oddi cartref pan fo hynny'n gyfleus - dim ond yn ailgylchu pan os yw'n ddewis amlwg. | **Nid yw ailgylchu yn flaenoriaeth nac yn gyfrifoldeb personol, nid yw'n rhan o'r ffordd o fyw ar hyn o bryd.**<br>• Ddim yn ailgylchu gartref – hyd yn oed pan ddarperir cyfleusterau<br>• Yn cael gwared ar eitemau oddi cartref pan fo hynny'n gyfleus – ond efallai y bydd yn dal i ailgylchu gydag ysgogiad cymdeithasol clir (e.e. yn nhŷ perthynas) |
| *Yn fwy cyffredin ymhlith teuluoedd â phlant* | *Y mwyafrif ar draws lleoliadau* | *Yn fwy cyffredin mewn ardaloedd lle bo llai o gyfleusterau ailgylchu ar gael.* |

## 3.7. Astudiaethau achos ansoddol

3.7.1. Ym mhob rhan o'r ymchwil ansoddol, gwelsom amrywiaeth eang o arferion prynu a gwaredu. Mae'r tair astudiaeth achos ganlynol yn rhoi enghreifftiau o ba mor eang oedd yr arferion a welsom (dychwelwn at yr astudiaethau achos hyn yn adran 5.4 i ddangos ymatebion tebygol i'r CDE).

## Astudiaeth achos 1: Ailgylchydd gweithredol

### Prynu, defnyddio a gwaredu: Ailgylchydd gweithredo



**Katie, 44, Bryste**

- Yn byw yn ei thŷ ei hun gyda phartner a 2 blentyn
- Mae hi'n pryderu am faterion amgylcheddol ac mae wedi gwneud ymchwil i'r hyn sy'n digwydd i'r gwastraff a ailgylchir
- Mae hi'n ceisio osgoi plastig ac yn annog ei phlant i wneud yr un peth

**Enghraifft o'r hyn y mae'n ei brynu**

- Gwin mewn poteli gwydr/ caniau cwrw
- Yn osgoi diodydd meddal ac yn ceisio osgoi dŵr potel
- Coffi ar glud (yn ei chwpan ei hun)

| | Beth/ ble mae'n prynu? | Ble mae'n yfed? | Ble/sut y mae'n gwaredu? |
|---|---|---|---|
| Gartref | Potel o win, caniau cwrw. Archfarchnad fawr | Gartref | Eu storio yn yr ystafell amlbwrpas gartref, gan wahanu gwahanol ddefnyddiau a'u rhoi nhw allan ar gyfer y casgliad ailgylchu wythnosol |
| Oddi Cartref | Potel fach o ddŵr | Yn y gampfa (wedi anghofio potel amldro) | Yn mynd â'r botel adref i un o'i phlant ei hailddefnyddio, yn y pen draw, yn ei gwaredu yn y casgliad ailgylchu a ddisgrifir uchod. |
| Oddi Cartref | Coffi mewn cwpan y gellir ei ail-lenwi. Siop goffi leol | Wrth gerdded i'r gwaith | Amh – nid yw'n ei waredu |

## Astudiaeth Achos 2: Ailgylchydd goddefol

### Prynu, defnyddio a gwaredu: Ailgylchydd goddefol




**Sue, 64, Wrecsam**

- Yn byw mewn tŷ gyda'i gŵr, swydd ran-amser mewn ffreutur ysbyty.
- Yn credu mai ailgylchu yw'r peth iawn i'w wneud, ond nid bob amser yn glir ynghylch y rheolau sy'n newid yn gyson.
- Nid yw'n ailgylchu oddi cartref oni chaiff ei hysgogi gan fin ailgylchu. Mae hi o'r farn y dylai'r cyngor ddarparu rhagor o gyfleusterau

| | Beth/ ble mae'n prynu? | Ble mae'n yfed? | Ble/sut y mae'n gwaredu? |
|---|---|---|---|
| Gartref | Potel fawr o Lucozade, archfarchnad | Gartref | Mae hi'n cadw potel wag ar gownter y gegin ac yn ei rhoi nhw allan gyda'r ailgylchu wythnosol |
| Oddi cartref | Potel fach o ddŵr o gartref | Yn y gwaith | Mae biniau ar wahân yn y gwaith, felly mae hi'n defnyddio bin ailgylchu bob amser |
| Oddi cartref | Potel fach o ddiod sinsir y mae'n ei brynu o siop yr orsaf | Ar y trên ar y ffordd i ymweld â pherthynas | Ei thaflu i'r bin cyffredinol ar y trên. |

### Astudiaeth Achos 3: Ailgylchydd wedi ymddieithrio

## Prynu, defnyddio a gwaredu: Ailgylchydd wedi ymddieithrio



**Joel, 27, Llundain**

- Yn byw mewn fflat gyda'i ferch
- Mae'n credu bod y cyngor yn cynnig cyfleusterau ailgylchu ond nid yw'n gweld hyn fel ei gyfrifoldeb ef ac mae'n blaenoriaethu gofalu am ei ferch.
- Nid yw'n teimlo bod ganddo le ar gyfer biniau ar wahân yn ei fflat, teimla efallai y byddai'n ailgylchu pe byddai'n byw mewn ardal well.

**Example purchase behaviour**

- Aml-becynnau o ganiau soda
- Poteli mawr o sudd oren
- Poteli bach o ddŵr soda/dŵr oddi cartref

| | Beth/ ble mae'n prynu? | Ble mae'n yfed? | Ble/sut y mae'n gwaredu? |
|---|---|---|---|
| Gartref | Can o soda, danfoniad ar-lein (fel aml-becyn) | Gartref | Mae'n rhoi'r holl sbwriel mewn un bin gartref ac yn ei roi allan fel sbwriel cyffredinol |
| Oddi Cartref | Potel o soda. Siop gyfleustra. | Cerdded gyda'i ferch i'r ysgol | Bin gwastraff cyffredinol ar y stryd |
| | Potel fach o ddiod feddal | Yn nhŷ Mam-gu | Yn gwybod bod ailgylchu yn bwysig i'w fam-gu, felly mae'n defnyddio'r bin ailgylchu yn ei thŷ hi |

# 4. Agweddau tuag at Gynllun Dychwelyd Ernes

4.1 Mae'r adran hon yn ystyried agweddau tuag at CDE gan gynnwys i ba raddau y mae'r cynllun yn cael ei gefnogi neu ei wrthwynebu, pa mor rhwydd neu anghyfleus fyddai ymgorffori'r cynllun i fywyd bob dydd ac a fernir bod angen y cynllun o ystyried bod ffyrdd eisoes i ailgylchu.17

**Crynodeb**

*Canfyddiadau*

- Datgelodd yr arolwg bod cefnogaeth eang ar gyfer CDE, gyda 74% yn cefnogi a 10% yn unig yn gwrthwynebu ei gyflwyno. Yn yr un modd, roedd y rhan fwyaf (64%) yn teimlo y byddent yn ei chael hi'n rhwydd ymgorffori'r cynllun i'w bywyd bob dydd, gyda dim ond lleiafrif (16%) yn honni y byddai'n anodd.
- Roedd ymatebion cychwynnol i CDE hefyd yn gadarnhaol yn yr ymchwil ansoddol, gan y gwelwyd ei fod yn mynd i'r afael â mater o bryder mawr (gwastraff plastig) a'i fod yn esgor ar atgofion am gynlluniau dychwelyd poteli o'r gorffennol.
- Fodd bynnag, ar ôl ystyried, daeth y rhan fwyaf yn y cam grŵp trafod o'r ymchwil ansoddol i gwestiynu'r syniad o CDE, yr oeddent yn teimlo ei fod yn gofyn llawer gan gwsmeriaid heb unrhyw fudd amgylcheddol sylweddol o ystyried bodolaeth cynlluniau ailgylchu ar garreg y drws. Awgrymodd llawer y byddai cyflwyno gwell cyfleusterau ailgylchu ar y stryd oddi cartref yn rhatach, yn cyd-asio'n well â'r system bresennol, ac yn gofyn llai gan gwsmeriaid. Yn nodweddiadol hefyd roedd galw ar i gweithgynhyrchwyr neu fanwerthwyr weithredu'n uniongyrchol, fel lleihau'r plastig yn ei darddiad.
- O ystyried diffyg budd tybiedig, ystyriwyd hefyd ei bod hi'n annheg gofyn i ddefnyddwyr newid eu harferion, gyda phryderon arbennig o gryf am yr effaith ar grwpiau agored i niwed na fyddent o bosibl yn gallu manteisio ar y cynllun.
- Daeth amrywiaeth o bryderon eraill i'r amlwg yn yr ymchwil ansoddol, gan gynnwys cwestiynau ynghylch sut y cai'r cynllun ei ariannu, beth sy'n digwydd i ernesau na chânt eu hawlio, ac a fyddai defnyddwyr yn dal i allu ailgylchu ar garreg y drws.
- Wrth ystyried defnydd gwirioneddol o'r cynllun, yn yr arolwg roedd mwyafrif (65%) o'r farn y byddai'n gyfleus iddynt gario poteli lluosog o'r cartref i fan dychwelyd, er bod 31% yn teimlo y byddai hyn yn anghyfleus.
- Wrth ystyried defnyddio'r cynllun oddi cartref, roedd chwech o bob deg (59%) o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno byddai cyflwyno CDE yn eu hannog i ailgylchu (roedd 13% yn anghytuno). Fodd bynnag, roedd pedwar o bob deg (40%) o'r farn y byddai'n anghyfleus cario cynwysyddion diodydd gwag nes iddynt ddod o hyd i fan dychwelyd, gan awgrymu y gallai hyn fod yn rhwystr i'w ddefnyddio.

[17] Mae ffigurau o'r ymchwil feintiol a gyflwynir yn y bennod hon yn ymwneud â'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg; dim ond arwydd o wahaniaethau posibl yn y boblogaeth gyffredinol yw unrhyw wahaniaethau rhwng is-grwpiau.

*Goblygiadau*

- Er bod y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg o blaid y cynllun, awgryma'r ymatebion yn yr ymchwil ansoddol y bydd hi’n bwysig wrth gyfathrebu i wrthdroi’r amgyffred bod y cynllun yn rhoi'r baich am ailgylchu yn annheg ar ddefnyddwyr ac nad yw’n cynnig fawr o fudd dros gynlluniau ailgylchu presennol ar garreg y drws neu ddarparu gwell cyfleusterau ailgylchu ar y stryd.

- Canfu'r arolwg fod y rhai yng ngrwpiau cymdeithasol DE (grŵp economaidd-gymdeithasol is) a gymerodd ran a'r rhai heb gar ar yr aelwyd yn llai tebygol na'r rhai yng ngrwpiau cymdeithasol AB (gradd economaidd-gymdeithasol uwch) a'r rhai â char i'w chael hi’n rhwydd storio cynwysyddion gwag gartref a mynd â nhw’n ôl i'r mannau dychwelyd. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod yn bwysig blaenoriaethu cyfleustra wrth ddylunio'r cynllun a lleoli’r mannau dychwelyd i sicrhau eu bod yn hygyrch i bawb.


## 4.2. Cefnogaeth i gyflwyno CDE

4.2.1. Yn gynharach yn yr arolwg, cyn gofyn am agweddau tuag at CDE, rhoddwyd disgrifiad byr i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o sut y byddai CDE yn gweithio'n ymarferol (gweler adran 5.2).

4.2.2. Fel y gellid disgwyl o ran ymyriadau sy'n ceisio annog arferion sy'n 'ddymunol yn gymdeithasol', roedd y mwyafrif llethol o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o blaid cyflwyno CDE yng Nghymru. Tua thri chwarter (74%) oedd o blaid CDE, tra bod un o bob deg (10%) yn gwrthwynebu cyflwyno CDE.

4.2.3. Gwelwyd bod cryn ansicrwydd hefyd (nid oedd 16% yn cytuno nac yn anghytuno), tuedd a welwyd gyda llawer o'r cwestiynau yn yr arolwg a oeddent yn ymwneud ag agwedd pobl. Mae hyn efallai'n adlewyrchu diffyg dealltwriaeth o effaith bosibl CDE ar fywyd bob dydd, o gofio mai'r holiadur, i lawer o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, oedd y tro cyntaf iddynt gael eu cyflwyno i'r cysyniad. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau o'r ymchwil ansoddol, lle roedd ansicrwydd ynghylch sut fyddai CDE yn gweithio a'i effaith ar fywyd bob dydd yn tueddu i gynyddu wrth drafod y cynllun yn fanylach.

**Ffigur 4.1: I ba raddau roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cefnogi neu'n gwrthwynebu cyflwyno cynllun dychwelyd ernes**




(G8) A fyddech chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes? Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) – 1,453.

4.2.4. Roedd plant 11 i 15 oed a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd yn cefnogi CDE; gydag 85% yn cefnogi cyflwyno'r cynllun a dim ond 3% yn ei wrthwynebu.

**Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, oedd â defnydd car neu fan ac mewn grwpiau cymdeithasol uwch, yn fwy tebygol o fod o blaid y CDE**

4.2.5. Roedd rhai o'r unigolion a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol nag eraill o gefnogi'r CDE. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **Y rhai â char neu fan ar eu haelwyd** (roedd tri chwarter (76%) yn cefnogi cyflwyno CDE o'i gymharu â 64% oedd heb gerbyd). Mae'n rhesymol tybio y gallai pobl heb gar neu fan gartref ei chael hi'n fwy heriol i ddefnyddio mannau dychwelyd. Atgyfnerthwyd hyn mewn trafodaethau grŵp ansoddol, lle roedd y rhai a gymerodd ran yn aml yn mynegi pryderon na fyddai'r cynllun yn hygyrch i'r rhai oedd heb eu dulliau teithio eu hunain.
- **Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg mewn grwpiau cymdeithasol uwch (AB)** yn fwy tebygol na'r rhai mewn grwpiau cymdeithasol is (DE) i gefnogi CDE (81% o'i gymharu â 71%). Roedd y rhai yng ngrwpiau cymdeithasol DE yn llai tebygol na'r rhai yng ngrwpiau cymdeithasol AB i wneud eu prif daith siopa mewn car neu fan, sydd efallai unwaith eto'n awgrymu y byddent yn ei chael hi'n fwy heriol defnyddio mannau dychwelyd.

4.2.6. Nid oedd patrymau demograffeg-gymdeithasol clir ymhlith y rhai oedd yn gwrthwynebu'r CDE.

**Roedd y rhai a gymerodd ran a arolygwyd a oedd yn fwy ansicr am y cynllun yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi lle nad oedd car neu fan ac i fod o raddau cymdeithasol is**

4.2.7. Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg nad oeddent wedi penderfynu (nad oeddent yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r cynllun) yn fwy tebygol o fyw mewn aelwydydd lle nad oedd car neu fan (25% o'i gymharu â 14% o'r rhai oedd â cherbyd) ac i fod o raddau cymdeithasol is (18% yng ngrŵp DE o'i gymharu ag 11% yng ngrŵp AB).

### 4.3. Ymgorffori'r cynllun i fywyd bob dydd

4.3.1. Mae'n rhesymol tybio y gallai'r cynllun achosi rhywfaint o anghyfleustra ac y bydd angen newid arferion pobl i ryw raddau o leiaf. Fodd bynnag, roedd tua dwy ran o dair o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (64%) yn teimlo y byddai'n rhwydd

ymgorffori’r dull newydd hwn o gael gwared ar gynwysyddion diodydd i’w bywyd bob dydd (roedd 16% yn teimlo y byddai'n anodd) ac y byddai'n werth gwneud yr ymdrech ychwanegol i helpu diogelu'r amgylchedd (roedd 74% yn cytuno a dim ond 9% yn anghytuno).

4.3.2. Roedd y patrwm ar gyfer plant rhwng 11 a 15 oed a holwyd yn debyg; roedd 66% yn cytuno y byddai'n rhwydd ymgorffori’r dull newydd hwn o gael gwared ar gynwysyddion diodydd i’w bywyd bob dydd, byddai 10% yn ei chael hi’n anodd ac roedd 84% yn cytuno y byddai unrhyw ymdrech ychwanegol yn werth ei wneud i helpu diogelu'r amgylchedd.

4.3.3. Roedd yr ymatebion cychwynnol yn yr ymchwil ansoddol yn debyg. Roedd y mwyafrif a oedd eisoes wedi sefydlu arferion ailgylchu gartref yn teimlo y gallent wneud defnydd o'r cynllun yn eu bywyd heb fawr ddim anghyfleustra ac roeddent yn fodlon gwneud hynny o ystyried pwyslais y cynllun ar fynd i'r afael â’r broblem o wastraff plastig. Dim ond y rhai nad oeddent yn ailgylchu ar y pryd a dueddai i weld y cynllun yn fwy anghyfleus ar hyn o bryd (gweler Adran 3.6.7.). Fodd bynnag, pan roddwyd mwy o amser i ystyried ymarferoldeb y cynllun, megis gorfod cario cynwysyddion o gartref ar deithiau siopa neu ddal gafael ar gynwysyddion ar ôl eu hyfed pan fo rhywun oddi cartref, dechreuodd llawer o'r rhai a gymerodd ran yn agwedd ansoddol yr arbrawf weld y cynllun yn anghyfleus o ystyried nad oeddent yn glir ynghylch y manteision o’u cymharu â chynlluniau ailgylchu presennol ar garreg y drws (gweler Adran 4.4).

**Ymgorffori’r cynllun i fywyd bob dydd y cartref**

4.3.4. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg pa mor rhwydd neu anghyfleus fyddai gwneud rhai o'r gorchwylion ymarferol sy'n ofynnol ganddynt pan gyflwynir y cynllun, megis storio cynwysyddion gwag gartref a chymryd cynwysyddion gwag yn ôl i fan dychwelyd.

**Teimlai'r rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg y byddai'n rhwydd iddynt ymgorffori’r cynllun i'w bywyd bob dydd gartref**

4.3.5. Roedd tua saith o bob deg o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (68%) yn teimlo y byddai'n rhwydd iddynt storio cynwysyddion diodydd gwag gartref nes y byddai’n bosibl iddynt fynd â nhw i fan dychwelyd, tra dywedodd 28% y byddai'n anghyfleus

iddynt wneud hyn. Efallai nad yw hyn yn syndod, o ystyried bod yr arferion hyn yn debygol o fod yn gyfarwydd i'r rhai sydd eisoes yn storio eitemau i'w rhoi allan yn y blychau ailgylchu gwastraff cartref.

4.3.6. Dywedodd tua dwy ran o dair o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (65%) y byddai'n rhwydd iddynt gludo poteli neu ganiau lluosog o’u cartref i fan dychwelyd, gyda 31% yn dweud y byddai'n anghyfleus.

**Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg nad oedd car ganddynt neu a oedd mewn grwpiau cymdeithasol is yn llai tebygol o'i chael hi’n rhwydd storio cynwysyddion diodydd gartref neu fynd â nhw i fan dychwelyd**

4.3.7. Roedd rhai grwpiau demograffig-gymdeithasol yn llai tebygol o ddweud y byddent yn ei chael hi’n rhwydd storio cynwysyddion gwag gartref neu fynd â chynwysyddion gwag i fan dychwelyd.

- Dywedodd 55% o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ac nad oes car ar eu haelwyd y byddent yn ei chael hi’n rhwydd **storio cynwysyddion gartref** o’i gymharu â 70% o'r rhai sydd â char.
- Byddai hanner (50%) o'r rhai hynny sydd heb gar ar yr aelwyd yn ei chael hi'n rhwydd cymryd **cynwysyddion gwag i fan dychwelyd** o’i gymharu â 68% o'r rhai sydd â char.
- Byddai 66% o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o grwpiau cymdeithasol DE a 65% o grwpiau cymdeithasol C1/C2 yn ei chael hi’n rhwydd **storio cynwysyddion gartref** o’i gymharu â 78% o'r rheini o grwpiau cymdeithasol AB.
- Byddai 62% o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o grwpiau cymdeithasol DE yn ei chael hi'n rhwydd **cymryd cynwysyddion gwag at fan dychwelyd** o’i gymharu â 72% o'r rheini o grwpiau cymdeithasol AB.

4.3.8. Roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu CDE yn llai tebygol na'r rhai a oedd o blaid y cynllun o ddweud y byddai'n rhwydd iddynt storio cynwysyddion gartref (18% o’i gymharu ag 81%) ac y byddai'n rhwydd iddynt gymryd cynwysyddion gwag i fan dychwelyd (13% o’i gymharu â 79%).

4.3.9. Mae hyn yn awgrymu y gallai cyfleustra tybiedig CDE ddylanwadu ar farn pobl. Felly, er mwyn i CDE gael ei weld mewn goleuni cadarnhaol, dylid gwneud pob darpariaeth ar gyfer y rhai a fyddai'n ei chael hi’n anoddach storio cynwysyddion gartref a'r rhai nad oes ganddynt gar a allai ei chael hi’n fwy o her mynd â chynwysyddion lluosog i fan dychwelyd.

**Ymgorffori’r cynllun i fywyd bob dydd oddi cartref**


4.3.10. Mae'n bwysig y dylai CDE geisio newid arferion defnyddwyr, er mwyn sicrhau newid sylweddol o ran ailgylchu cynwysyddion diodydd gwag ac o ran lleihau sbwriel. O gofio y cysylltir ailgylchu fwyaf â'r cartref ar hyn o bryd, mae’n debyg bod newid arferion yn fwy anodd o ran ailgylchu oddi cartref.

4.3.11. Felly, gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd ynglŷn ag ymgorffori’r cynllun i’w bywydau beunyddiol oddi cartref, gan gynnwys a oeddent yn teimlo y byddai'r cynllun yn eu hannog i ailgylchu mwy pan fyddant allan a pha mor rhwydd fyddai iddynt gario cynwysyddion diodydd gwag o gwmpas nes iddynt ddod o hyd i fan dychwelyd.

**Yn gyffredinol, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo y byddai'r cynllun yn annog newid arferion oddi cartref**

4.3.12. Er na allwn ni wneud unrhyw ragdybiaethau am yr hyn a fydd yn digwydd ar ôl cyflwyno'r CDE, roedd tua chwech o bob deg o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (59%) yn cytuno y byddai'r cynllun yn eu hannog i ailgylchu mwy pan fyddant allan.

**Ffigur 4.2: I ba raddau yr oedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno neu'n anghytuno y byddai'r cynllun yn eu hannog i ailgylchu mwy pan fyddant oddi cartref**





(G2) Dyma rai datganiadau. Faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno – Byddai'r cynllun yn fy annog i ailgylchu mwy pan fyddaf allan. Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) – 1,453.

4.3.13. Roedd cryn gytuno ymysg plant rhwng 11 a 15 oed a holwyd, gyda mwy nag wyth o bob deg (84%) yn cytuno y byddai CDE yn eu hannog i ailgylchu mwy pan fyddant oddi cartref. Mae annog newid arferion ymhlith plant yn arbennig o bwysig, o ystyried bod tua dwy ran o dair (65%) o'r plant rhwng 11 a 15 oed a holwyd yn cytuno â'r datganiad 'mae'r rhan fwyaf o'm ffrindiau yn taflu eu caniau neu boteli gwag mewn biniau sbwriel cyffredinol yn hytrach na'u hailgylchu'.

**Byddai lleiafrif sylweddol yn ei chael hi’n anghyfleus cario cynwysyddion gwag o gwmpas gyda nhw oddi cartref**

4.3.14. Byddai pedwar o bob deg (40%) o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn ei chael hi’n anghyfleus cario eitemau gwag o gwmpas gyda nhw nes iddynt ddod o hyd i fan dychwelyd.

**Ffigur 4.3: Pa un a fyddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn ei chael hi'n rhwydd neu'n anghyfleus cario poteli neu ganiau gwag o gwmpas gyda nhw pan fyddant oddi cartref nes iddynt ganfod man dychwelyd**




(G3) Sut y byddech chi'n teimlo pe byddai'r canlynol yn rhan o'ch bywyd bob dydd? Yn rhwydd neu'n anghyfleus – Pan fyddaf oddi cartref, byddaf yn cario poteli neu ganiau gwag nes imi ddod o hyd i fan dychwelyd. Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru)) – 1,453.

4.3.15. Er nad yw hi'n glir beth fydd effaith yr anghyfleustra hwn ar arferion, mae perygl y gallai olygu bod bwriadau da yn pylu os na fydd mannau dychwelyd ar gael mewn ardaloedd prysur yn ystod y dydd.

### 4.4. Adlewyrchwyd yr agwedd gadarnhaol hon yn yr ymchwil ansoddol, ond dim ond ar y dechrau

4.4.1. Roedd ymatebion digymell i'r syniad o CDE yn nodweddiadol o gadarnhaol yn yr ymchwil ansoddol. Gan bawb ond yr 'ailgylchwyr wedi ymddieithrio', cafwyd ymateb cadarnhaol i'r syniad bod ar y llywodraeth eisiau mynd i'r afael â gwastraff plastig gyda phobl o'u hunain yn cysylltu'r cynllun â'r ymdrech hon. Gyda llawer o bobl, atgyfnerthwyd eu hymatebion cadarnhaol hefyd gan y syniad y gallai CDE helpu i leihau sbwriel a gwella ardaloedd lleol. Roedd gan leiafrif brofiad o ddefnyddio cynlluniau tebyg dramor, ac roedd mwy wedi clywed amdanynt, gan eu cysylltu yn nodweddiadol â gwledydd 'gwyrdd' fel yr Almaen neu Sgandinafia. Law yn llaw â hyn, roedd CDE hefyd yn atgyfodi atgofion melys i lawer, yn enwedig y rhai hŷn a gymerodd ran. I'r bobl hyn, roedd cyswllt rhwng y cynllun â'r hen gynlluniau dychwelyd poteli gwydr a oedd yn rhoi ymdeimlad o gynefindra iddo ac o ddychwelyd at 'werthoedd hen ffasiwn'.

**Canfyddiadau ynghylch a oes angen CDE o ystyried bod ffyrdd eisoes o ailgylchu**

4.4.2. Er gwaethaf y gefnogaeth gadarnhaol i CDE yn yr arolwg, pan holwyd ynglŷn â'r angen am y cynllun, roedd y farn yn fwy rhanedig. Roedd tua thraean o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (34%) yn cytuno 'bod y cynllun yn ddiangen gan fod ffyrdd eisoes i ailgylchu' tra bod 42% yn anghytuno â'r datganiad hwn.

**Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn gwrthwynebu'r cynllun yn fwy tebygol o'i weld yn ddiangen, yn annheg ac yn anodd ei ymgorffori i fywyd pob dydd**

4.4.3. Fel y gellid disgwyl, roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn gwrthwynebu'r cynllun (10%) yn fwy tebygol na'r rhai oedd yn ei gefnogi (74%):

- I feddwl bod y cynllun yn ddiangen o ystyried bod ffyrdd eisoes i ailgylchu (88% o'i gymharu â 22%).
- I gytuno ei bod hi'n annheg y cânt eu gorfodi i ddefnyddio'r cynllun er mwyn cael eu hernes yn ôl (84% o'i gymharu â 14%).
- I anghytuno 'y byddwn yn ei chael hi'n rhwydd ymgorffori'r dull newydd hwn o waredu deunydd pacio diodydd i fy mywyd bob dydd' (71% o'i gymharu â 5%).

**Daeth y rhai a gymerodd ran yn yr agwedd ansoddol o'r arbrawf i gwestiynu'r syniad o CDE pan roddwyd amser iddynt ystyried**

4.4.4. Daeth y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yng ngham grŵp trafod yr ymchwil ansoddol i gwestiynu'r syniad o CDE pan roddwyd amser iddynt ei ystyried, yn enwedig yn y grwpiau trafod. Er eu bod yn cydnabod bod problem gyda gwastraff plastig, wedi pendroni, teimlai llawer nad CDE oedd y ffordd gywir o fynd i'r afael â hyn. Gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn cysylltu ailgylchu yn fwyaf helaeth â'r cartref, lle roeddent eisoes yn ailgylchu, nid oedd y manteision amgylcheddol yr oedd y cynllun yn eu cynnig yn amlwg. Er bod rhai'n cydnabod y gallai helpu i fynd i'r afael ag ailgylchu, ac yn bwysicach efallai, taflu sbwriel, roeddent ar y cyfan yn gweld gwell cyfleusterau ailgylchu ar y stryd yn ateb symlach a llai costus i ailgylchu oddi cartref.

4.4.5. O gofio'r diffyg budd tybiedig hwn, barnwyd ei bod hi'n annheg gofyn i ddefnyddwyr newid eu harferion, gyda phryderon mawr iawn am yr effaith ar grwpiau agored i niwed na allent efallai elwa ar y cynllun, fel yr henoed neu eraill sydd ag anawsterau symud, a'r rhai a allai ei chael hi'n anodd fforddio'r ernes. O ganlyniad, ar y cyfan roedd dymuniad ar i'r llywodraeth fynd i'r afael â'r mater drwy weithredu'n fwy cadarn gyda gweithgynhyrchwyr neu fanwerthwyr i fynd i'r afael â'r broblem o blastig yn ei darddle.

4.4.6. Daeth ystod o gwestiynau a phryderon eraill i'r amlwg yn yr ymchwil ansoddol ynghylch sut cai CDE ei gynnal yn ymarferol, gan adlewyrchu rhai o'r canfyddiadau a'r pryderon negyddol a oedd gan bobl:

*4.4.7. Pwy fydd yn rhedeg y cynllun?*

- Roedd y rhai a gymerodd ran yn tueddu i dybio mai'r llywodraeth fyddai'n rhedeg y cynllun, a allai, oherwydd nad oedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw ar y cyfan yn ymddiried rhyw lawer yn y llywodraeth, arwain at sinigiaeth ynghylch effeithiolrwydd y gweithredu a'r gost i'r trethdalwr. Ar y llaw arall, er bod mwy o ffydd mewn busnes i redeg y cynllun, cododd rhai o'r bobl a gymerodd ran bryderon y byddai wedyn yn gwneud elw ar draul y defnyddiwr.

*4.4.8. Sut gaiff y cynllun ei ariannu?*

- Ni waeth pwy yr oeddynt yn credu y byddai'n rhedeg y cynllun, holodd y rhai a gymerodd ran beth fyddai'r gost o osod digon o beiriannau i'w wneud yn llwyddiant, yn enwedig o'i gymharu â dulliau eraill yr oeddynt o'r farn eu bod yn symlach, megis darparu mwy o finiau ailgylchu i ffwrdd o'r cartref.

*4.4.9. Beth sy'n digwydd i ernesau heb eu hawlio?*

- Unwaith eto, gallai pobl fod yn sinigaidd ynghylch y mater o ernesau heb eu hawlio. Gan nad oedd y rhai a gymerodd ran yn deall p'un a gai'r rhain eu defnyddio i ariannu'r cynllun, gellid eu hystyried yn dreth (atchweliadol) pe bai'n mynd yn ôl i'r Llywodraeth.

*4.4.10. A fydd y cynllun yn disodli ailgylchu ar garreg y drws?*

- Roedd pryderon mawr ymysg rhai y byddai casglu deunyddiau ar garreg y drws yn dod i ben wrth gyflwyno CDE. Roedd defnyddwyr yn tueddu i fod eisiau'r dewis i 'beidio â bod yn rhan o'r cynllun ernes' a pharhau â'u harferion presennol os oeddynt eisiau blaenoriaethu cyfleustra. I'r gwrthwyneb i hyn, er y cafwyd y farn yn gyffredinol ei bod hi'n gadarnhaol y gallai'r cynllun annog y rhai sy'n ceisio adennill yr ernes i gasglu sbwriel i'w ailgylchu, roedd rhywfaint o bryder y cai bobl eu biniau wedi'u hysbeilio ar gyfer deunyddiau.

*4.4.11. A fydd angen i'r deunyddiau fod yn gyfan er mwyn eu hailgylchu?*

- Tueddai'r rhai a gymerodd ran i dybio y gallent wasgu deunyddiau i lawr cyn eu cymryd i gael eu hailgylchu, fel y mae llawer yn ei wneud ar hyn o bryd er mwyn arbed lle wrth ailgylchu. Ystyrid yr angen i gadw'r cynwysyddion yn gyfan yn eithaf anghyfleus, yn enwedig yn achos poteli plastig mwy.

4.4.12. Mae hyn yn awgrymu, er bod y rhan fwyaf o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cefnogi'r CDE, ei bod hi'n werth herio canfyddiadau bod y cynllun yn ddiangen, yn annheg ac yn anodd ei ymgorffori i fywyd bob dydd mewn ystyriaethau dylunio a chynlluniau cyfathrebu. Gallai hyn helpu i atal y newid a welwyd yn ystod yr ymchwil ansoddol lle newidiodd y rhan fwyaf o bobl a oedd yn cymryd rhan mewn grwpiau trafod meddwl o fod yn gefnogol i'r cynllun, i'w wrthwynebu wrth roi mwy o amser iddynt ystyried y goblygiadau. Dylid nodi hefyd nad yw ansicrwydd ynghylch y cynllun o reidrwydd yn gyfystyr â diffyg cefnogaeth.

# 5. Tebygolrwydd defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes

5.1 Mae'r adran hon yn archwilio honiadau cyfranogwyr ynghylch a fyddent yn defnyddio CDE gartref ac oddi cartref, sut y gallai hyn amrywio ar draws mathau o ddiodydd neu gynwysyddion, a'r rhesymau a roddir am ddefnyddio neu beidio â defnyddio'r cynllun, gan ddefnyddio canfyddiadau o'r gwaith ymchwil ansoddol i amlygu rhai o'r ffactorau sy'n debygol o ysgogi neu atal defnydd ar draws y gynulleidfa. Dyma'r cynwysyddion diodydd mewn cwmpas, sy'n destun ymgynghoriad: poteli plastig, poteli gwydr a chaniau metel, a hefyd, cafodd cwpanau coffi untro eu cynnwys ym maes ansoddol y gwaith hwn.[18]

**Crynodeb**

*Canfyddiadau*

- Rhoddwyd trosolwg cryno o CDE i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ac fe'u holwyd am y tebygolrwydd y byddent yn defnyddio'r cynllun.
- Roedd llawer o gefnogaeth i ddefnyddio CDE ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref ac oddi cartref a phrin oedd yr amrywiad ar draws y gwahanol fathau o gynwysyddion sydd wedi eu cynnwys yn y cynllun. Dywedodd rhwng 78% ac 80% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg y byddent yn defnyddio CDE ar bob achlysur neu'r mwyafrif o achlysuron ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref a rhwng 77% ac 83% ar gyfer y rhai sy'n cael eu hyfed oddi cartref, yn dibynnu ar y math o gynhwysydd.
- Cododd cyfranogwyr ansoddol bryderon ynghylch gwahanol elfennau o'r cynllun: storio a chadw cynwysyddion cyn cael gwared arnynt, yr agweddau ymarferol ar gario cwpanau coffi, caniau a photeli gwydr trwm wedi eu defnyddio o gwmpas a methu â gallu gwasgu poteli cyn eu dychwelyd.
- Roedd plant 11-15 oed a arolygwyd yn llai tebygol nag oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg i weld eu hunain yn defnyddio CDE oddi cartref ar bob achlysur (32% i 45% o blant a arolygwyd o'i gymharu â 54% i 59% o'r oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg yn dibynnu ar y math o gynhwysydd).
- Roedd ailgylchu gartref eisoes yn rheswm allweddol a roddwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg pan roeddent yn dweud na fyddent bob amser yn defnyddio CDE ar gyfer diodydd a yfwyd gartref (63%), gan ddynodi bod arferion ailgylchu sefydledig ar gyfer deunydd pacio diodydd sy'n cael eu hyfed gartref eisoes ar waith ymhlith cyfran fawr o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolygiad.
- I oedolion a phlant a arolygwyd, roedd y prif resymau am beidio â defnyddio CDE oddi cartref yn cynnwys ffactorau yn ymwneud ag amser a chyfleustra. 'Efallai na fydd gennyf amser i ddod o hyd i fan dychwelyd' (a nodwyd gan 43% o oedolion a 54% o blant) ac 'ni fyddwn eisiau cario fy neunydd pacio gwag o gwmpas (a nodwyd gan 31% o oedolion a 48% o blant) oedd y rhain.
- Roedd y prif resymau pam y byddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn defnyddio CDE yn seiliedig ar yr amgylchedd neu arian. Dywedodd tua tri o bob deg (31%) o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg mai'r prif reswm y byddent yn defnyddio'r cynllun oedd oherwydd y byddai'n helpu'r amgylchedd a dywedodd 28% y byddai er mwyn cael eu hernes yn ôl.

[18] Mae ffigurau o'r ymchwil ansoddol a gyflwynir yn y bennod hon yn ymwneud â'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg; mae unrhyw wahaniaethau rhwng is-grwpiau yn dangos gwahaniaethau posibl yn unig ymhlith y boblogaeth gyffredinol.

- Dewiswyd pob un o’r chwe rheswm pam y gallai rhywun ddefnyddio CDE, a ddangoswyd i’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, yn fwy cyffredin gan y rhai hŷn a gymerodd ran yn yr arolwg yn hytrach na’r rhai iau. Er enghraifft, dewiswyd ‘bydd yn helpu i wella nifer y poteli a chaniau sy’n cael eu hailgylchu’ gan ddwy ran o dair o’r rhai dros 65 oed (66%) o’i chymharu ag yn agosach at bedwar o bob deg o’r rhai 16-34 oed (40-44%) a gymerodd ran yn yr arolwg.
- Roedd y rhai iau 16-34 oed a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol na’r rhai hŷn a gymerodd ran o ddweud y byddent yn prynu llai o ganiau a photeli yn sgil cyflwyno CDE. Byddai ychydig yn llai na hanner (46%) y rhai 16-24 oed a 43% o’r rhai 25-44 oed yn lleihau nifer y diodydd y maent yn eu prynu o’i gymharu ag 21% o’r rhai 65 oed a hŷn. Dangosodd yr ymchwil ansoddol bod newidiadau i ymddygiad prynu yn ymddangos yn fwy tebygol ar gyfer rhai mathau o gynwysyddion nag eraill (e.e. newid o ddefnyddio caniau oddi cartref i boteli y mae’n haws eu cludo gartref a newid o ddefnyddio cwpanau coffi a photeli dŵr untro i rai y gellir eu hailddefnyddio).
- Dywedodd ychydig yn llai na hanner (47%) y plant 11-15 oed y byddent yn lleihau nifer y poteli a chaniau y maent yn eu prynu o lawer neu ychydig, a byddai 3% yn rhoi’r gorau i brynu diodydd yn y mathau hyn o gynwysyddion yn gyfan gwbl.

*Goblygiadau*

- Mae’r tebygolrwydd o ddefnyddio CDE yn annhebygol o gael ei ysgogi gan fath o ddeunydd pacio yn bennaf; bydd ffactorau fel cyfleustra, rhwyddineb defnyddio, ac amser a dreulir mewn mannau dychwelyd yn cael mwy o ddylanwad ar ddefnydd o’r cynllun.
- Efallai y bydd yn anoddach newid ymddygiad pobl oddi cartref, yn enwedig y ‘rhai nad ydynt yn ailgylchwyr’. Mae’n rhaid dylunio CDE i fod yn gyfleus ac yn effeithlon o ran amser i sicrhau ei fod yn hygyrch i bob grŵp mewn cymdeithas.
- Gallai cyflwyno CDE gael effaith ar brynu a defnyddio cynwysyddion diodydd mewn cwmpas, yn enwedig ymhlith grwpiau oed iau a phlant 11-15 oed. Dylid cadw’r effaith hon mewn cof wrth ddylunio a gweithredu cynllun o’r fath trwy ei wneud yn gyfleus iddynt ei ddefnyddio.

## 5.2. Pa un a fyddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn defnyddio CDE ar bob achlysur neu'r rhan fwyaf o achlysuron

5.2.1. Cyn holi'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg am y tebygolrwydd o ddefnyddio CDE, rhoddwyd disgrifiad cryno iddynt ei ddarllen o sut y byddai'n gweithio yn ymarferol. Dangosir y geiriad isod:

> Mae cynllun ailgylchu newydd ar gyfer y rhan fwyaf o ddiodydd sy'n dod mewn caniau a photeli (ac eithrio llaeth) yn cael ei ystyried gan y Llywodraeth. Cynllun Dychwelyd Ernes yw'r enw arno a'i nod yw gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau sbwriel. Byddai'r cynllun yn gweithio fel a ganlyn:
>
> 1. Mae pobl yn talu ernes wrth brynu can neu botel. Byddai hon yn cael ei hychwanegu at bris y ddiod.
> 2. Maent yn mynd â'r deunydd pacio gwag i fan dychwelyd ac yn cael eu hernes yn ôl. Nid oes yn rhaid iddo fod yr un lle â'r man y'i prynwyd ohono.
> 3. Mae gwahanol ddulliau o ddychwelyd deunydd pacio yn cael eu hystyried. Er enghraifft, gallai 'mannau dychwelyd' fod trwy beiriant mewn archfarchnadoedd neu mewn mannau cyhoeddus fel gorsafoedd rheilffordd a chanolfannau hamdden, neu dros y cownter mewn siop leol.
> 4. Os na fydd y botel neu gan yn cael ei ddychwelyd i un o'r mannau dychwelyd hyn, bydd yr ernes yn cael ei cholli.

5.2.2. Roedd y disgrifiad yn crynhoi senario 'sefyllfa orau' o CDE a oedd yn cynnwys mannau dychwelyd mewn amrywiaeth eang o leoliadau a dylid cadw hyn mewn cof wrth ddehongli'r canlyniadau. Yn dilyn y disgrifiad hwn, roedd cais i ddychmygu bod CDE eisoes ar waith a bod ernes o 15c wedi cael ei hychwanegu at bob eitem[19].


**Roedd cefnogaeth i ddefnyddio CDE yn uchel, a phrin oedd yr amrywiad fesul math o gynhwysydd a pha un a oedd y ddiod yn cael ei hyfed gartref neu oddi cartref**

[19] Sylwer y dangoswyd enghraifft o 20c i nifer fach o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a chymerwyd y rhain o sail unrhyw gwestiynau perthnasol. Roedd hyn oherwydd y bu'n rhaid symud yr achosion hyn o sampl Lloegr i sampl Cymru, gan fod eu cod post yn awgrymu eu bod yn byw yng Nghymru.

5.2.3. Cafodd cwestiynau cychwynnol am ddefnydd tybiedig o CDE ymatebion cadarnhaol wrth i dri chwarter neu fwy ddweud y byddent yn defnyddio CDE ar bob achlysur neu'r rhan fwyaf o achlysuron ar gyfer pob un o'r pum math o gynhwysydd a ystyriwyd yn yr arolwg (77-83%). Dywedodd dros hanner y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg y byddent yn defnyddio CDE ar bob achlysur (54-60%)[20].

5.2.4. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod y tebygolrwydd o ddefnyddio CDE yn annhebygol o gael ei ysgogi gan fath o gynhwysydd. Mae'n fwy tebygol y bydd ffactorau eraill fel cyfleustra, rhwyddineb defnyddio ac amser a dreulir mewn mannau dychwelyd yn dylanwadu ar ba un a fydd pobl yn defnyddio'r cynllun ai peidio (gweler pennod 6).

**Ffigur 5.1: Pa un a fyddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn defnyddio CDE ar bob achlysur neu'r rhan fwyaf o achlysuron fesul lle caiff y ddiod ei hyfed**




(D1/D3) Nodwch pa ddewis sy'n disgrifio orau eich tebygolrwydd o ddefnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn hytrach na'ch dull gwaredu arferol. Sylfaen: Oedolion a ddywedodd eu bod nhw'n defnyddio'r mathau hyn o becynnau diod (Cymru) – Gartref: Caniau 968; Poteli plastig bach 851; Poteli gwydr bach 836; Poteli plastig mawr 921; Poteli gwydr mawr 962. Oddi cartref: Caniau 688; Poteli plastig bach 888; Poteli gwydr bach 488; Poteli plastig mawr 501; Poteli gwydr mawr 383.

[20] Gartref: caniau 58%; poteli plastig bach 58%; poteli gwydr bach 59%; poteli plastig mawr 59%; poteli gwydr mawr 60%

Oddi cartref: caniau 55%; poteli plastig bach 54%; poteli gwydr bach 58%; poteli plastig mawr 58%; poteli gwydr mawr 59%

5.2.5. Fel y disgwyliwyd, roedd y rhai a oedd yn cefnogi CDE yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn ei ddefnyddio drwy'r amser na'r rhai a oedd yn ei wrthwynebu, ac roedd y patrwm hwn yn gyson ar draws bob math o gynhwysydd gartref ac oddi cartref. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg yn cefnogi cyflwyno CDE (74%) ac felly dim ond lleiafrif oedd yn gwrthwynebu (10%). Nid oedd unrhyw batrymau eglur fesul demograffeg gymdeithasol ar draws y gwahanol fathau o gynwysyddion.

**Roedd yr ymchwil ansoddol yn awgrymu pryderon ynghylch defnyddio'r cynllun ar gyfer rhai deunyddiau**


5.2.6. Yn y gwaith ymchwil ansoddol, pan roddwyd amser i fyfyrio, daeth pryderon i'r amlwg ynghylch rhai deunyddiau a allai effeithio ar ddefnydd o'r cynllun yn ymarferol. Roedd rhai o'r problemau hyn yn ymwneud â storio a chadw cynwysyddion cyn eu taflu. Ystyriwyd bod cwpanau coffi yn peri problemau arbennig o ran storio, gan eu bod yn tueddu i golli eu cyfanrwydd, mae'n anodd cael gwared ar waddodion a gallent ogleuo, ac roedd llawer yn teimlo eu bod yn debygol o gael gwared ar y rhain mewn CDE dim ond pe bai wedi ei leoli yn gyfleus iawn mewn lleoliad awyr agored (e.e. mewn gorsaf rheilffordd). Yn yr un modd, ystyriwyd ei bod yn bosibl y gallai caniau hefyd fod yn anniben i'w cario o gwmpas ar ôl eu gorffen, gan nad oes caead arnynt, ac roedd rhai yn teimlo eu bod yn llai tebygol o'u cario adref i'w storio gyda gwastraff swmp o'u cymharu â photeli plastig bach. Roedd problemau eraill yn ymwneud â hwylustod cludo deunyddiau penodol. Ystyriwyd yn arbennig bod poteli gwydr yn drwm i'w cludo, yn enwedig i'r rhai heb gar. Cododd lleiafrif bryderon hefyd am gludo poteli plastig mawr, yn enwedig pan fyddant yn darganfod na allant wasgu poteli cyn eu dychwelyd. Er bod llawer yn cefnogi CDE, mae cyfuniad o'r canfyddiadau o ddata'r arolwg a'r ymchwil ansoddol yn awgrymu y gallai'r agweddau ymarferol ar ddefnyddio cynllun effeithio ar ddefnydd, yn enwedig ar gyfer cael gwared ar gynwysyddion diodydd oddi cartref.

5.2.7. Yn y gwaith ymchwil ansoddol, roedd mwyafrif y rhai a gymerodd ran yn teimlo eu bod yn llai tebygol o ddefnyddio CDE oddi cartref oherwydd anghyfleustra tybiedig cario cynwysyddion o gwmpas a dim ond yr ailgylchwyr mwy gweithredol oedd yn teimlo'n gyson y byddent yn cario eu cynwysyddion gwag tan iddynt ddod o hyd i fan dychwelyd neu gyrraedd adref.

**Roedd plant a arolygwyd yn llai tebygol nag oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg o weld eu hunain yn defnyddio CDE oddi cartref**

5.2.8. Wrth gael gwared ar bob math o gynhwysydd oddi cartref, dywedodd llai o blant nag oedolion y byddent yn defnyddio CDE ar bob achlysur (32-38% ar gyfer caniau a photeli plastig). Gan mai prin iawn oedd y plant a arolygwyd a ddywedodd eu bod yn defnyddio poteli gwydr mawr oddi cartref, mae’r rhain wedi cael eu hepgor o’r dadansoddiad ac yn hytrach caiff atebion am ganiau, poteli gwydr bach a photeli plastig eu harchwilio (gweler ffigur 5.2). Er bod y patrwm yn debyg, roedd y gwahaniaeth yn llai amlwg o ran defnyddio CDE ar bob achlysur neu’r rhan fwyaf o achlysuron. Efallai bod hyn yn dynodi y gall plant weld yn eglur achlysuron lle mae’n fwy syml cael gwared ar gynwysyddion mewn ffyrdd eraill, er bod bwriadau yn dda o ran dychwelyd y rhan fwyaf o gynwysyddion trwy CDE. Roedd rhywfaint o amharodrwydd ymhlith y plant a arolygwyd i gario cynwysyddion gwag o gwmpas gyda nhw (sy’n cael ei archwilio yn fwy manwl yn adran 5.3.8) ac efallai bod hyn yn gwneud cryn dipyn i esbonio’r canlyniadau hyn.

**Ffigur 5.2: Pa un a fyddent yn defnyddio CDE oddi cartref ar bob achlysur fesul oedolion a phlant a arolygwyd**




(D3/Q0D1) Nodwch pa ddewis sy'n disgrifio orau eich tebygolrwydd o ddefnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn hytrach na'ch dull gwaredu arferol. Sylfaen: Y rhai a ddywedodd eu bod nhw’n defnyddio'r mathau hyn o becynnau diod (Cymru) – Oddi cartref. Oedolion: Caniau 688; Poteli plastig bach 888; Poteli gwydr bach 488; Poteli plastig mawr 501; Poteli gwydr mawr.383 Plant: Caniau 163; Poteli plastig bach 322; Poteli gwydr bach 75; Poteli plastig mawr 191.


## 5.3. Rhesymau o blaid ac yn erbyn defnyddio CDE

5.3.1. Gan ddechrau gyda rhesymau am beidio â defnyddio CDE, holwyd pawb a gymerodd ran yn yr arolwg a ddywedodd na fyddent yn defnyddio CDE ar bob achlysur am eu rhesymau am beidio â gwneud hynny ar gyfer diodydd sy’n cael eu hyfed gartref a rhai sy’n cael eu hyfed oddi cartref.

**Roedd eisoes yn ailgylchu gartref yn rheswm allweddol pam na fyddai’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg bob amser yn defnyddio CDE ar gyfer diodydd sy’n cael eu hyfed gartref**

5.3.2. Dewisodd mwy na chwech o bob deg (63%) o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ‘eisoes yn ailgylchu gartref’ fel rheswm pam na fyddent bob amser yn defnyddio CDE. Mae hyn yn dynodi bod arferion ailgylchu sefydledig ar gyfer cynwysyddion diodydd sy’n cael eu hyfed gartref eisoes yn bodoli ar gyfer cyfran fawr o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg na fyddent yn defnyddio’r cynllun ar bob achlysur (yn wir, roedd 98% o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a ddewisodd yr opsiwn hwn yn ‘ailgylchwyr’). Nid oedd unrhyw reswm arall yn sefyll allan yn yr un ffordd (gweler ffigur 5.3); dywedodd ychydig dros chwarter (26%) y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg na fyddai’r ernes yn werth y drafferth. Dewiswyd anhawster yn cael mynediad at fannau dychwelyd oherwydd diffyg trafnidiaeth (14%) ac oedran, anabledd neu symudedd (11%) gan gyfran lai o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg.

**Ffigur 5.3: Rhesymau pam na fyddent bob amser yn defnyddio CDE ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref**




(D2) Fe wnaethoch chi ddweud na fyddech yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes bob amser pan rydych gartref. Pam yw hyn? Sylfaen: Oedolion na fyddent yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes bob amser ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref (Cymru) - 615.

**Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn hŷn yn fwy tebygol o nodi rhesymau ymarferol pam na fyddent bob amser yn defnyddio CDE ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref**

5.3.3. Roedd rhai gwahaniaethau fesul grŵp demograffeg gymdeithasol a arolygwyd:

- Roedd y rhai 65 oed neu hŷn yn fwy tebygol na'r rhai 16-24 oed o ddweud na fyddent bob amser yn defnyddio CDE gan eu bod eisoes yn ailgylchu gartref (69% yn erbyn 51%). Mae hyn yn cefnogi canfyddiadau yn adran 2.2.1., lle'r oedd ymatebwyr iau i'r arolwg yn fwy tebygol na rhai hŷn o ystyried bod ailgylchu yn feichus.

**Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol o ddweud eu bod eisoes yn ailgylchu gartref**


5.3.4. O edrych ar wahaniaethau yn ôl **lle mae'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn byw**, roedd y rhai mewn ardaloedd trefol (67%) yn fwy tebygol o ddweud eu bod eisoes yn ailgylchu gartref o'u cymharu â'r rhai mewn ardaloedd gwledig (55%).

**Roedd y rhesymau pam na fyddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg bob amser yn defnyddio CDE oddi cartref yn llai eglur; cyfleustra am amser cario oedd y pwysicaf**

5.3.5. Rhoddodd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg amrywiaeth o resymau pam roeddent yn meddwl na fyddent bob amser yn defnyddio CDE ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref. Roedd y prif reswm yn ymwneud ag amser ('Efallai na fydd gennyf amser i ddod o hyd i fan dychwelyd' - 43%) ac roedd y prif reswm nesaf yn ymwneud â chyfleustra ('Ni fyddwn eisiau cario deunydd pacio gwag o gwmpas tan i mi ddod o hyd i fan dychwelyd - 31%). Dywedodd ychydig dros un rhan o bump nad oedd adhawlio'r ernes werth y drafferth (21%) a dywedodd cyfran debyg y byddai'n well ganddynt gadw'r cynwysyddion i gael gwared arnynt gartref (19%).

5.3.6. Mae canfyddiadau'r gwaith ymchwil yn awgrymu bod angen dylunio CDE i fod yn gyfleus ac yn effeithlon o ran amser, fel bod mannau dychwelyd ar gael yn barod a bod angen i bobl dreulio cyn lleied o amser â phosibl yn storio a dychwelyd eu cynwysyddion.

**Ffigur 5.4: Rhesymau pam na fyddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg bob amser yn defnyddio CDE ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref**





(D4) Fe wnaethoch chi ddweud na fyddech yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes bob amser pan rydych oddi cartref. Pam yw hyn? Sylfaen: Oedolion na fyddent yn defnyddio'r CDE bob amser ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref (Cymru)– 498.

5.3.7. Dim ond 7% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg roddodd eu gwrthwynebiad i CDE mewn egwyddor fel rheswm am beidio â'i ddefnyddio ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref.

**Hefyd, dewiswyd cyfleustra ac amser gan blant a arolygwyd fel y prif resymau na fyddent yn defnyddio CDE oddi cartref; roedd amharodrwydd ymhlith y grŵp oedran hwn i gario cynwysyddion gwag o gwmpas**

5.3.8. Roedd y prif reswm pan na fyddai plant 11-15 oed a arolygwyd bob amser yn defnyddio CDE oddi cartref yr un fath ag oedolion, sef efallai na fyddai'r amser ganddynt i ddod o hyd i fan dychwelyd gyda dros hanner (54%) yn dewis yr opsiwn hwn a'r prif reswm arall oedd ddim eisiau cario cynwysyddion gwag o gwmpas, gydag ychydig yn llai na hanner yn dewis yr opsiwn hwn (48%).


**Ffigur 5.5: Rhesymau pam na fyddai plant a arolygwyd bob amser yn defnyddio CDE ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref**




(Q0D2) Fe wnaethoch chi ddweud na fyddech bob amser yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes bob amser pan rydych oddi cartref. Pam yw hyn? Sylfaen: Plant na fyddent bob amser yn defnyddio'r CDE ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref (Cymru)– 249.

**Roedd y prif ysgogwyr ar gyfer pam y byddai'r rhai a gymerodd ran yr arolygiad efallai'n defnyddio CDE yn amgylcheddol neu'n ariannol; roedd arferion cymdeithasol yn llai pwysig**

5.3.9. Roedd y pedwar prif reswm a roddwyd pam efallai y byddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn defnyddio CDE, y dewiswyd pob un ohonynt gan dros hanner y sampl (53-63%), yn canolbwyntio ar yr amgylchedd (leihau sbwriel a gwella cyfraddau ailgylchu) ac adhawlio'r ernes. Dewiswyd rhesymau moesol ('Dyna fyddai'r peth iawn i'w wneud') ac arferion cymdeithasol ('Bydd pawb arall yn ei wneud') gan lai o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg gan awgrymu efallai bod y rhain yn llai perthnasol. Efallai y bydd yn wir y bydd arferion cymdeithasol yn dod yn bwysicach wrth i CDE ddod yn gyffredin ac yn fwy o arfer.





(G6) Pe byddech chi'n defnyddio'r cynllun, pa rai o'r canlynol fyddai'n rhesymau dros wneud hynny? Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru)– 1,453.

**Ffigur 5.6: Rhesymau pam y byddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg efallai'n defnyddio CDE**Pan ofynnwyd iddynt grynhoi'r rhesymau a roddwyd ganddynt i un prif reswm yn unig[21], dewisodd 31% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg 'bydd yn helpu'r amgylchedd' a dewisodd cyfran debyg 'i gael fy ernes yn ôl' (28%).

[21] Mae'r atebion yn cynnwys ymatebion gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a roddodd un ateb yn unig.

**Ffigur 5.7: Y prif reswm pam y byddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg efallai'n defnyddio CDE**




(G6/G7) Pa rai o'r canlynol fyddai eich prif gymhellion dros ddefnyddio'r cynllun? Sylfaen: Oedolion a fyddai'n defnyddio'r cynllun (Cymru)-1,390.

**Dangosodd y rhai hŷn gymerodd ran yn yr arolwg fwy o gefnogaeth i'r rhesymau cadarnhaol am ddefnyddio CDE**

5.3.11. Dewiswyd pob un o'r chwe rheswm pam y byddai rhywun efallai'n defnyddio CDE, a ddangoswyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, yn fwyaf cyffredin gan y rhai hŷn a gymerodd ran yn yr arolwg na'r rhai iau. Er enghraifft, dewiswyd 'bydd yn helpu i wella nifer y poteli a chaniau sy'n cael eu hailgylchu' gan ddwy ran o dair o'r rhai dros 65 oed (66%) o'i gymharu â thua pedwar o bob deg o'r rhai 16-34 oed a gymerodd ran yn yr arolwg (40-44%). Mae hyn yn cyd-fynd â'r canfyddiadau yn adran 2.2.1 a ddangosodd bod gan y rhai hŷn a gymerodd ran yn yr arolwg fwy o synnwyr o ddyletswydd ddinesig na'r rhai iau. Roedd y rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol na grwpiau oed hŷn i ddweud bod ailgylchu yn feichus ac i ddweud eu bod yn teimlo eu bod yn werth gwneud pethau ystyriol o'r amgylchedd dim ond os yw'n arbed arian iddynt.

5.3.12. Roedd atebion plant a arolygwyd hefyd yn canolbwyntio ar yr amgylchedd ac adhawlio'r ernes. 'Bydd yn helpu'r amgylchedd' oedd yr opsiwn a ddewiswyd yn fwyaf cyffredin gyda bron i dri chwarter (72%) yn dewis hwn. Lleihau sbwriel a chael yr ernes yn ôl oedd yr ail a'r trydydd dewis (69% a 57% yn eu trefn). Hefyd, dewisodd dros hanner y plant (54%) 'dyna fyddai'r peth iawn i'w wneud' a 'bydd yn helpu i wella nifer y poteli a chaniau sy'n cael eu hailgylchu'.

**Yn y gwaith ymchwil ansoddol, roedd defnydd a honnwyd yn amrywio yn dibynnu ar faint o newid y tybiwyd y byddai ei angen o ymddygiad presennol**

5.3.13. Yn gyffredinol, roedd unigolion yn fwy agored i ddefnyddio'r cynllun pan allent ddychmygu ei ffitio i mewn o gwmpas eu hymddygiad presennol. O ystyried bod y mwyafrif yn dychmygu y byddai mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr, y'u cyrhaeddir â char ac wedi eu hintegreiddio â 'thaith siopa fawr' reolaidd, cyfeiriodd y rhai mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is a phobl ifanc at broblemau o ran defnyddio CDE. Roedd y rhai nad ydynt yn ailgylchu ar hyn o bryd hefyd yn llai tebygol o ddweud y byddent yn defnyddio CDE. I'r grŵp hwn, nad oedd ganddo drefn bresennol yn gysylltiedig ag ailgylchu, teimlwyd y byddai angen newid mawr i ymddygiad, a hefyd nid oedd ailgylchu yn cael ei flaenoriaethu yn nodweddiadol ar sail foesol neu ddinesig. Fel y cyfryw, roeddent yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn barod i golli'r ernes, er ei bod yn anodd rhagweld effaith cymhelliad ariannol pe bai'r cynllun yn cael ei lansio. Yn nodweddiadol, roedd y rhai a oedd eisoes yn ailgylchu yn fwy agored i ddefnyddio'r cynllun, yn enwedig ar gyfer deunyddiau a oedd yn cael eu defnyddio yn y cartref, gan y gellir ei hwyluso o fewn patrymau ymddygiad presennol heb achosi anghyfleustra sylweddol. Gellid annog ailgylchwyr gweithredol mwy cydwybodol pe baent yn cael eu sicrhau y bydd defnyddio'r cynllun yn sicrhau ailgylchu o ansawdd gwell.

**Ffigur 5.8: Ffactorau sy’n effeithio ar ddefnydd honedig yn y gwaith ymchwil ansoddol**

YMDDYGIAD PRESENNOL

| YN FWY TEBYGOL | | YN LLAI TEBYGOL |
|---|---|---|
| Eisoes yn storio ailgylchu gartref | ↔ | Ddim yn storio ailgylchu gartref ar hyn o bryd |
| Teithiau siopa mawr rheolaidd | ↔ | Siopa afreolaidd yn ôl yr angen |
| Teithio mewn car | ↔ | Cerdded neu deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus |
| Cadw sbwriel y tu allan i'r cartref i’w ailgylchu | ↔ | Cael gwared ar sbwriel y tu allan i'r cartref yn y fan a'r lle |


5.3.14. I raddau llai, effeithiwyd ar ddefnydd honedig gan sensitifrwydd o ran pris. Fel y cyfryw, yn y sampl ansoddol, roedd y rhai a oedd yn cyllidebu ar gyfer aelwyd, fel teuluoedd, yn fwy tebygol o gael eu hysgogi gan yr ernes i ddefnyddio’r cynllun. Roedd pobl ifanc, a oedd yn dueddol o fod yn defnyddio incwm yn fwy gwariadwy, yn aml wedi eu hysgogi llai gan y cymhelliad ariannol.

## 5.4. Ailystyried yr astudiaethau achos ansoddol

5.4.1. Yn yr adran hon, rydym yn ailystyried yr astudiaethau achos ansoddol a amlygir yn Adran 3.7 i ddangos defnydd honedig ar draws amrywiaeth o unigolion a sefyllfaoedd.

## Ailystyried Astudiaeth Achos 1: Ailgylchydd gweithredol

# Defnydd honedig o CDE:Ailgylchydd gweithredol



**Katie, 44, Bryste**

- Yn gadarnhaol am y cynllun yn y dechrau, ond yn cwestiynu pam mae'n rhaid iddi gymryd y cam hwn pan mae hi eisoes yn ailgylchu o'i chartref.
- Mae'n disgwyl ei ddefnyddio gan ei bod hi'n amau ei fod yn ansawdd ailgylchu gwell, ond mae'n dymuno cael sicrwydd am hyn a chamau ehangach gan y Llywodraeth i fynd i'r afael ag ailgylchu

**Newid ymddygiad**

- Lleiafswm o newid mewn ymddygiad oherwydd ei bod hi'n berchen ar gar ac eisoes yn mynd â sbwriel y tu allan i'r cartref adref gyda hi.
- Yn disgwyl cael gwared â sbwriel wrth wneud y siopa wythnosol ar gyfer y teulu.

| | Beth/ ble mae'n ei brynu? | Ble mae'n yfed? | Defnyddio CDE? |
|---|---|---|---|
| Gartref | Potel o win, caniau cwrw Archfarchnad fawr | Gartref | Storio yn yr ystafell aml-bwrpas gartref, gan wahanu gwahanol ddefnyddiau, yna mynd â nhw i'r CDE gyda'r siopa wythnosol |
| Oddi Gartref | Potel fach o ddŵr Siop gyfleustra | Yn y gampfa (wedi anghofio potel amldro) | Yn mynd â'r botel adref i un o'i phlant ei hailddefnyddio, yn y pen draw, ceir gwared â hi yn y casgliad ailgylchu a ddisgrifir uchod. |
| Oddi Gartref | Coffi mewn cwpan y gellir ei ail-lenwi. Siop goffi leol | Wrth gerdded i'r gwaith | Amh – nid yw'n ei waredu |

### Ailystyried Astudiaeth Achos 2: Ailgylchydd goddefol

## Defnydd honedig o CDE: Ailgylchydd goddefol



**Sue, 64, Wrecsam**

- Yn disgwyl ei ddefnyddio am elw ariannol, ond yn teimlo ei fod yn annheg
- Yn cwestiynu pam nad yw'r Llywodraeth yn cyflwyno gwell gyfleusterau ailgylchu ar y stryd neu'n canolbwyntio ar weithgynhyrchwyr mawr.
- Yn defnyddio danfoniad ar-lein ar gyfer siopa ac yn disgwyl i hyn gynnig y dewis o gasglu nwyddau os yw hynny'n bosibl (neu siopau lleol o leiaf)


**Newid ymddygiad**

- Yn disgwyl defnyddio nwyddau gartref ond mae hi'n bryderus ynghylch cario llwythi trymion
- Yn disgwyl ei ddefnyddio oddi cartref os yw hynny'n gyfleus

| | Beth/ ble mae'n ei brynu? | Ble mae'n yfed? | Defnyddio CDE? |
|---|---|---|---|
| Gartref | Potel fawr o Lucozade, Danfoniad ar-lein | Gartref | Storio ar gownter y gegin nes bod bag bach sydd ganddi yn llawn, yna mynd ag ef wrth ymweld â siopau (neu drwy ddanfoniad ar-lein, yn ddelfrydol) |
| Oddi Cartref | Potel fach o ddŵr o gartref. | Yn y gwaith | Yn defnyddio bin ailgylchu'r gweithle – yn disgwyl iddynt ddychwelyd i CDE a rhoi i elusen |
| Oddi Cartref | Potel fach o ddiod sinsir y mae'n ei phrynu o siop yr orsaf. | Ar y trên ar y ffordd i ymweld â pherthynas | Efallai y bydd yn defnyddio CDE yn yr orsaf lle nad oes ciw, ond mae hi'n debygol o'i gwaredu ar y trên er hwylustod. |

### Ailystyried Astudiaeth Achos 3: Ailgylchydd wedi ymddieithrio

## Defnydd honedig o CDE: Ailgylchydd wedi ymddieithrio



**Joel, 27, Llundain**

- Yn negyddol iawn am syniad, yn teimlo ei bod yn annheg gofyn i'r cyhoedd wneud rhagor ac yn ei weld fel treth.
- Nid yw'n disgwyl defnyddio'r cynllun nac iddo ei annog i ddechrau ailgylchu, mae'n ddig ynghylch cynnydd mewn costau.
- Yn codi pryderon ynghylch pobl sy'n agored i niwed fel ei fam-gu

**Ymddygiad disgwyliedig**

- Byddai angen newid mawr mewn ymddygiad cyfredol i ddefnyddio cyfleusterau ailgylchu.
- Honna na fyddai'n debygol o'u defnyddio gartref nac ar y stryd a'i fod yn fwy tebygol o ddefnyddio llai o nwyddau.

| | Beth/ ble mae'n ei brynu? | Ble mae'n yfed? | Defnyddio CDE? |
|---|---|---|---|
| Gartref | Can o soda, archfarchnad leol (fel aml-becyn) | Gartref | Mae'n honni na fyddai'n ei ddefnyddio gan nad oes ganddo le i storio caniau nac amser i'w dychwelyd, byddai'n rhoi'r gorau i brynu neu'n llyncu'r gost |
| Oddi Cartref | Potel o soda Siop gyfleustra | Cerdded gyda'i ferch i'r ysgol | Ni fyddwn yn ei ddefnyddio oni bai fy mod yn gorffen diod yn uniongyrchol y tu allan i siop |
| Oddi Cartref | Potel fach o ddiod ddialcohol | Yn nhŷ Mam-gu | Byddai'n defnyddio bin ailgylchu yn nhŷ Mam-gu |

## 5.5. Effaith CDE ar ymddygiad prynu


5.5.1. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolygiad a fyddai cyflwyno CDE yn golygu y byddent yn prynu llai o ganiau a photeli.

5.5.2. Dywedodd ychydig dros hanner (53%) y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg na fyddent yn gwneud unrhyw newidiadau i nifer y caniau a photeli y maent yn eu prynu yn sgil cyflwyno CDE, dywedodd 13% y byddent yn lleihau cynwysyddion diodydd o lawer a dywedodd un o bob pump (20%) y byddent yn gwneud hynny o ychydig (h.y. byddai traean (33%) yn lleihau faint o gynwysyddion diodydd y maent yn eu prynu yn gyffredinol). Dim ond 5% ddywedodd y byddent yn rhoi'r gorau i brynu'r mathau hyn o gynwysyddion yn gyfan gwbl. Nid yw gostyngiad i'r defnydd o boteli a chaniau yn un o nodau'r cynllun dychwelyd ernes. Er bod manteision i hyn o safbwynt amgylcheddol, mae hefyd yn arwain at effaith negyddol bosibl ar y sectorau gweithgynhyrchu a gwerthu.

**Roedd y rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn prynu llai o ganiau a photeli oherwydd CDE**

5.5.3. Roedd patrwm eglur yn ôl oedran; roedd y rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg yn llawer mwy tebygol na grwpiau oed hŷn o ddweud y byddent yn lleihau nifer y poteli a chaniau y maent yn eu prynu o lawer neu ychydig. Byddai ychydig yn llai na hanner (46%) y rhai 16-24 oed a 43% o'r rhai 25-44 oed yn lleihau nifer y diodydd y maent yn eu prynu o'u cymharu ag 21% o'r rhai 65 oed a hŷn (gweler ffigur 5.9).

**Ffigur 5.9: Pa un a fyddai'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn lleihau nifer y diodydd y maent yn eu prynu fesul oed** [22]




(D5) Pa rai o'r canlynol ydych chi'n meddwl sy'n fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i chi? Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru)– 1,445.

**Dywedodd hanner y plant a arolygwyd y byddent yn lleihau nifer y poteli a chaniau y maent yn eu prynu**

5.5.4. Roedd gwahanol batrwm ymhlith y plant 11-15 oed a gymerodd ran; roedd y syniad o CDE yn cael effaith lawer mwy ar ymddygiad prynu posibl y grŵp hwn. Dywedodd pedwar o bob deg plentyn 11 i 15 a arolygwyd na fyddent yn gwneud unrhyw newidiadau i nifer y diodydd y byddent yn eu prynu (40%) ond dywedodd ychydig yn llai na hanner (47%) y byddent yn lleihau nifer y diodydd y maent yn eu prynu o lawer neu ychydig. Mae hyn yn debyg i'r canfyddiad ar gyfer oedolion iau 16 i 24 oed a gymerodd ran yn yr arolwg lle dywedodd cyfran debyg y byddent yn lleihau nifer y diodydd y maent yn eu prynu (adran 5.5.3). Dim ond 3% ddywedodd y byddent yn rhoi'r gorau i brynu diodydd yn y mathau hyn o gynwysyddion yn gyfan gwbl.

[22] Tynnwyd nifer fach o achosion o'r sail gan fod yr enghraifft a ddangoswyd iddynt yn seiliedig ar lefel ernes o 20c yn hytrach na 15c

**Yn y gwaith ymchwil ansoddol, roedd newidiadau i ymddygiad prynu yn ymddangos yn fwy tebygol o ran rhai mathau o gynwysyddion nag eraill**

5.5.5. Yn y gwaith ymchwil ansoddol, daeth rhai themâu cyffredin i'r amlwg o ran newid patrymau prynu a defnyddio, a oedd i ryw raddau yn cyd-fynd â'r pryderon oedd gan unigolion am ddefnyddio'r cynllun ar gyfer rhai deunyddiau (gweler Adran 5.2.6.). Er enghraifft, awgrymodd rhai y byddent yn newid o ddefnyddio caniau oddi cartref i ddefnyddio poteli plastig sy'n haws ac yn llai anniben eu cludo adref ar ôl eu defnyddio.

5.5.6. Yn yr un modd, mewn ymateb i'r syniad eu bod yn annhebygol o ddal gafael ar gwpanau coffi untro i'w hailgylchu, awgrymodd rhai y gallai CDE fod yn sbardun iddynt ddechrau defnyddio cwpan goffi y gellir ei hailddefnyddio. Yn fwy cyffredinol, roedd rhai hefyd yn teimlo y gallai cyflwyni'r ernes fod yn sbardun iddynt brynu potel ddŵr y gellir ei hailddefnyddio a lleihau eu defnydd o boteli plastig bach.

5.5.7. Cododd rhai o'r bobl a gymerodd ran bryderon ynghylch aml-becynnau, gydag effaith gyfunol ernes wedi ei gymhwyso ar draws cynwysyddion yn cynyddu eu gwybodaeth am y gost ac felly'n lleihau'r tebygolrwydd y byddent yn prynu. Wedi dweud hynny, er budd cadw'r cynllun yn syml ac osgoi effeithiau pellach ar y farchnad (e.e. gwyro tuag at brynu aml-becynnau) ni allai'r mwyafrif weld dewis ymarferol yn hytrach na chynnwys aml-becynnau yn y cynllun.

5.5.8. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu y gallai CDE effeithio ar ymddygiad prynu, yn enwedig ymhlith plant a phobl ifanc, a dylid cadw'r effaith hon mewn cof wrth ddylunio a gweithredu cynllun o'r fath trwy ei wneud yn gyfleus iddynt ei ddefnyddio.

## 6. Optimeiddio dyluniad y cynllun

6.1 Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran i roi eu safbwyntiau ar wahanol agweddau ar ddyluniad y cynllun gan gynnwys swm yr ernes, mannau dychwelyd a ffefrir a sut yr hoffent dderbyn ad-daliad yr ernes.[23]

**Crynodeb**

*Canfyddiadau*

- Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran roi eu safbwyntiau ar wahanol agweddau ar ddyluniad y cynllun gan gynnwys swm yr ernes, mannau dychwelyd a ffefrir a sut yr hoffent dderbyn ad-daliad yr ernes.
- 10c oedd y swm ernes mwyaf poblogaidd wrth i 37% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ddewis yr opsiwn hwn. Ffafriwyd 15c ac 20c gan tua chwarter (23% a 25% yn eu trefn) a dewisodd un rhan o ddeg (10%) 25c. Roedd safbwyntiau yn amrywio ymhlith plant 11-15 oed lle'r oedd y ffafriaeth gryfaf i swm ernes o 20c (31%).
- Roedd mwy o gefnogaeth i lefel ernes o 10c ymhlith y rhai hŷn a gymerodd ran yn yr arolwg na'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (ychydig yn llai na hanner (48%) y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg 65 oed a hŷn o'i gymharu ag 20-21% o'r rhai 16-34 oed) ac roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu CDE (bron i dri chwarter (74%) yn credu y dylai swm yr ernes fod yn 10c).
- Pwysleisiodd yr ymchwil ansoddol yr angen i lefel yr ernes sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn ddigon uchel i ysgogi pobl i ddefnyddio'r cynllun ond nid mor uchel ei fod yn dylanwadu ar fforddiadwyedd. Ystyriwyd yn nodweddiadol mai 15c i 25c fyddai lefel ernes effeithiol. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar dri ffactor: croniad (sut y gallai arian ernes 'gronni'), gwrthwynebu colled (fframio'r arian sy'n cael ei wario fel colled eglur y gellir ei adhawlio) a phenodoldeb (gallu olrhain ernesau yn eglur mewn ap neu eu rhoi i elusen).
- Ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn gyffredinol, ffafriwyd arian parod/darnau arian gan yr oedolion (65%) a'r plant 11-15 oed a arolygwyd (74%) dros ddulliau eraill o dderbyn ad-daliad yr ernes, er bod dulliau electronig fel dychwelyd trwy gerdyn debyd neu ap ffôn clyfar yn apelio mwy i oedolion iau. Mynegodd cyfranogwyr ansoddol ffafriaeth tuag at opsiynau ad-dalu amgen hefyd.
- Nodwyd archfarchnadoedd mawr fel y ffordd fwyaf cyfleus o ddychwelyd cynwysyddion i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg er y byddai mannau dychwelyd wedi'u lleoli'n ganolog ac yn lleol yn cael eu defnyddio hefyd. Cefnogwyd hyn gan y gwaith ymchwil ansoddol lle cododd trafodaethau bryderon i'r rhai sy'n siopa ar sail ad hoc, y rhai nad ydynt yn ymweld ag archfarchnadoedd mawr fel arfer a'r rhai a oedd yn gwrthwynebu'r syniad o newid arferion.
- Nododd cyfranogwyr ansoddol y dylid dylunio CDE i hwyluso defnydd cyn belled â phosibl o fewn ymddygiad presennol. Dylai mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr fod yn gyflym ac yn rhwydd eu defnyddio. Hefyd, dylid lleoli peiriannau mewn mannau prysur (e.e. canolfannau trafnidiaeth, ysgolion a gweithleoedd) a rhoi ystyriaeth i hwyluso dychweliadau yn rhan o wasanaethau danfoniadau ar-lein.
- Roedd safbwyntiau'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ar ba un a ddylai'r swm amrywio yn ôl maint y cynhwysydd yn gymysg (roedd 50% yn credu y dylai fod yr un fath tra bod 37% yn credu y dylai fod yn wahanol). Roedd cefnogaeth yn gryfach i raddfa amrywiol ymhlith plant 11-15 a arolygwyd a chyfranogwyr iau.

[23] Mae ffigurau o'r ymchwil ansoddol a gyflwynir yn y bennod hon yn ymwneud â'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg; mae unrhyw wahaniaethau rhwng is-grwpiau yn dangos gwahaniaethau posibl yn unig ymhlith y boblogaeth gyffredinol.

- Roedd 81% o’r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o blaid CDE cyffredinol, hynny yw, i gynwysyddion o bob maint gael eu cynnwys, ac adleisiwyd hyn yn y gwaith ymchwil ansoddol lle’r oedd y rhai a gymerodd ran o’r farn bod symlrwydd yn allweddol i ddyluniad y CDE. Fodd bynnag, datgelodd trafodaethau ansoddol dilynol rai pryderon ynghylch agweddau ymarferol ar y dyluniad hwn.

*Goblygiadau*

- Gallai swm ernes uwch fod yn llai fforddiadwy i rai grwpiau (grwpiau oed hŷn a’r rhai mewn graddau cymdeithasol is). Efallai bod y ffafriaeth tuag at swm ernes is ymhlith y rhai sy’n gwrthwynebu CDE yn awgrymu na fyddant yn dychwelyd eu cynwysyddion drwy’r cynllun gan ‘golli’r’ ernes.
- Mae angen sicrhau cydbwysedd o ran gwneud swm yr ernes yn ddigon uchel i ysgogi pobl i ddefnyddio’r cynllun ond nid mor uchel ei fod yn dylanwadu ar fforddiadwyedd.
- Mae lefelau ernes sy’n ffigur crwn ac y gall cyfranogwyr eu ‘cyfuno’ yn rhwydd yn unedau mwy o werth yn debygol o gynyddu’r synnwyr o werth o ddefnyddio’r cynllun.
- Arian parod/darnau arian ddylai fod y prif ddull ad-dalu er y gallai dewis o opsiynau helpu i ysgogi synnwyr o werth am arian.
- Er y dylid lleoli mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mwy, gallai hefyd fod yn bwysig lleoli’r rhain mewn mannau dychwelyd eraill yn ganolog ac yn lleol i sicrhau mynediad i bawb.
- Mae safbwyntiau cymysg ynghylch a ddylai swm yr ernes amrywio yn dibynnu ar faint y cynhwysydd a phryderon ynghylch sut y byddai’r CDE yn gweithio yn ymarferol yn dangos yr angen i gyfathrebu’n eglur ar y drefn i liniaru pryderon ynghylch y defnydd ymarferol o’r cynllun, colled ernesau a’r effaith ar arferion a gwasanaethau ailgylchu presennol.

## 6.2. Swm yr ernes

6.2.1. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg pa swm y byddent yn ei ffafrio fel ernes, gan ddewis rhwng 10c, 15c, 20c, 25c neu fwy na 25c.

6.2.2. Mae gofyn i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg am y swm ernes y maent yn ei ffafrio yn wahanol i'r ffordd yr archwiliwyd swm yr ernes yn y cyfweliadau ansoddol a'r ymarfer ar y cyd a ganolbwyntiodd fwy ar lefel yr ernes a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio CDE. Efallai y bydd gwrthdaro rhwng ffafriaeth a thebygolrwydd o ddefnyddio, hynny yw, efallai y bydd yn well gan gyfranogwr i'r ernes fod yn 10c gan y byddai'n teimlo'n hapusach am 'anghofio' y gost ac nid ei adhawlio bob amser. Efallai y bydd yr un cyfranogwr yn dweud y byddai ernes o 20c yn ei wneud yn fwy tebygol o ddefnyddio CDE gan fod swm uwch yr ernes yn gymhelliad i wneud yr ymdrech i'w adhawlio.

6.2.3. Mae'r canfyddiadau yn yr adran hon yn cynnwys cwestiynau'r arolwg (a oedd yn gofyn am y swm ernes a ffefrir) a'r canfyddiadau ansoddol (a oedd yn trafod yr ernes fel cymhelliad ar gyfer defnyddio CDE). Ceir adroddiad ar wahân ar yr ymarfer ar y cyd (gweler pennod 6).

**Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn ffafrio swm ernes o 10c**

6.2.4. 10c oedd y swm ernes mwyaf poblogaidd wrth i 37% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ddewis yr opsiwn hwn. Ffafriwyd 15c ac 20c gan tua chwarter y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg (23% a 25% yn eu trefn), dywedodd un rhan o ddeg (10%) eu bod yn credu y dylai swm yr ernes fod yn 25c a dim ond 5% ddewisodd mwy na 25c.


**Ffigur 6.1: Ffafriaeth o ran swm yr ernes**

|  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|
| 37% | 23% | 25% | 10% | 5% |

**Roedd mwy o gefnogaeth ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg i lefel ernes o 10c ymhlith grwpiau oedran hŷn a'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol**

6.2.5. Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg sydd mewn grwpiau oedran hŷn yn dangos mwy o ffafriaeth i'r swm ernes isaf (10c) na'r grwpiau oedran iau (gweler ffigur 6.2). Gallai hyn awgrymu efallai bod swm ernes uwch yn llai fforddiadwy i grwpiau oedran hŷn a allai fod yn fwy tebygol o fod â llai o incwm gwario. Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg sy'n byw mewn ardaloedd trefol hefyd yn fwy tebygol o ffafrio lefel ernes o 10c o'u cymharu â'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig (40% o'i gymharu â 31% yng nghefn gwlad).

**Ffigur 6.2: Swm ernes a ffefrir yn ôl oedran**[24]




(D7) Yn eich barn chi, faint y dylai swm yr ernes fod ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes? Pob oedolyn (Cymru): (16-24) 145; (25-34) 263; (35-44) 203; (45-49) 114; (50-54) 117; (55-64) 288; (65+) 296.

**Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn gwrthwynebu'r cynllun yn fwy tebygol o ffafrio lefel ernes o 10c**

6.2.6. Yn gyffredinol, er bod mwyafrif y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn cefnogi CDE (74%), roedd y rhai a oedd yn gwrthwynebu CDE yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn


[24] Mae'r sail yn hepgor nifer fach o achosion y dangoswyd yr enghraifft 20c iddynt

ei gefnogi i gredu y dylai swm yr ernes fod yn 10c (74% a 30% yn eu trefn). Er efallai mai'r rheswm syml yw bod y rhai a oedd yn gwrthwynebu CDE yn ffafrio swm ernes is am resymau fforddiadwyedd, gallai rhesymau posibl eraill gynnwys eu bod yn gwrthwynebu bod pobl yn cael eu gorfodi i dalu ernes neu y gallai swm ernes is fod yn fwy derbyniol iddynt pe baent yn dewis 'colli' eu hernes trwy beidio â dychwelyd y cynwysyddion drwy'r cynllun.

**Roedd plant 11 i 15 oed a arolygwyd hefyd o blaid ernesau 10c ac 20c â ffafriaeth gryfach i'r swm is**

6.2.7. Dangoswyd yr un symiau ernes i blant 11 i 15 oed a arolygwyd ag oedolion (10c, 15c, 20c, 25c a mwy na 25c). Roedd eu safbwyntiau yn wahanol i rai oedolion; y ffafriaeth gryfaf ymhlith plant 11-15 oed oedd swm ernes o 20c (31%). Roedd un rhan o bump (20%) yn teimlo y dylid pennu swm ernes o 10c ac roedd cyfrannau cyfartal yn cefnogi 15c a 25c (17% ar gyfer y ddau). Roedd grŵp mwy o'i gymharu ag oedolion (15%) yn teimlo y dylai swm yr ernes fod yn fwy na 25c. Datgelodd y gwaith ymchwil ansoddol bod pobl ifanc yn tueddu i fod yn llai sensitif nag oedolion o ran swm yr ernes. Gan nad oeddent yn cyllidebu ar gyfer aelwyd, roedd yr arian yr oedd ganddynt trwy ddiffiniad yn arian gwario ac felly gallai hyn wneud cryn dipyn i esbonio'r gwahaniaeth hwn.

**Ffigur 6.3: Yr ernes a ffefrir ymhlith plant**




(Q0D5) Yn eich barn chi, faint y dylai swm yr ernes fod ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes? Sylfaen: Pob plentyn (Cymru) – 372

**Yn y gwaith ymchwil ansoddol, ystyriwyd bod angen i lefel yr ernes sicrhau cydbwysedd rhwng bod yn ddigon uchel i greu cymhelliad, ond nid mor uchel ei fod yn dylanwadu ar fforddiadwyedd**

6.2.8. Yn y gwaith ymchwil ansoddol, ystyriwyd yn nodweddiadol mai tua 15c i 25c oedd y lefel ernes effeithiol. I fwyafrif y rhai a gymerodd ran, ystyriwyd bod lefel ernes is na hyn yn annhebygol o gymell unrhyw weithredu. Ar y llaw arall, roedd llawer o'r farn bod lefel ernes o fwy na 25c yn uchel fel cyfran o bris prynu'r cynhwysydd a dywedasant y byddai'n debygol o effeithio ar benderfyniadau ynghylch prynu yn y lle cyntaf. Roedd pobl yn fwy parod i dderbyn pris yr ernes ar gyfer eitemau prisiau uwch, yr oedd yr ernes yn is ar eu cyfer fel cyfran o gyfanswm y gost, fel poteli o win neu wirodydd.

6.2.9. Ochr yn ochr â hyn, cododd nifer o gyfranogwyr bryderon ynghylch materion hygyrchedd ar gyfer lefel ernes o unrhyw beth dros 10c gan gwestiynu a fyddai hyn yn anfforddiadwy neu a allai effeithio ar lif arian parod i'r rhai ar lefelau is o incwm yn arbennig.

**Yn y gwaith ymchwil ansoddol, effeithiwyd ar dybiaethau o effeithiolrwydd tebygol unrhyw lefel ernes benodol gan sut yr oedd yn cael ei fframio**

6.2.10. Y tu hwnt i'r lefel ernes absoliwt, mae canfyddiadau o'r gwaith ymchwil ansoddol yn awgrymu bod effeithiolrwydd unrhyw lefel ernes benodol yn debygol o ddibynnu ar sut y caiff ei fframio.

6.2.11. **Cronni:** Pan gyflwynwyd gwybodaeth iddynt am y cynllun, roedd y rhai a gymerodd ran yn tueddu i feddwl am yr ernes o ran dychwelyd un cynhwysydd, lle nad oedd y gwerth ariannol yn cael ei ystyried yn werth yr ymdrech sydd ei hangen. Fodd bynnag, roedd tybiaethau o werth defnyddio'r cynllun yn gwella pan anogwyd cyfranogwyr i feddwl o ran ernesau lluosog, fel mewn sefyllfa pan fyddant yn dychwelyd nifer fawr o gynwysyddion y maent wedi eu casglu gartref. Yn ogystal â hyn, roedd y rhai a gymerodd ran yn tueddu i ffafrio symiau ernes a oedd yn caniatáu iddynt 'gyfuno' gwerth nifer o ddychweliadau yn unedau mwy o arian. Fel y cyfryw, ffafriwyd 20c a 25c fel lefel ernes yn nodweddiadol, o'u cymharu â 15c, nad oedd y rhai a gymerodd ran yn gallu eu hadio mor rhwydd i gyfrifo gwerth ernesau swmp. Roedd gan hyn oblygiadau i warediadau oddi cartref hefyd, lle gallai annog defnyddwyr i feddwl am gynhwysydd unigol o ran eu harferion defnyddio ehangach (er enghraifft, trwy ddefnyddio ap ffôn clyfar i olrhain dychweliadau - gweler adran 6.3.5) helpu i annog defnydd o'r cynllun.

6.2.12. **Gwrthwynebu colled:** Mae tybiaethau o werth hefyd yn debygol o gael eu heffeithio gan sut y cyflwynir lefelau ernes i gyfranogwyr. Gellid dadlau mai rhan o effeithiolrwydd y ffi bagiau plastig fy ei drosoledd o wrthwynebu colled, tuedd gwybyddol sy'n golygu bod pobl yn neilltuo mwy o werth i unrhyw golled benodol nag i elw cyfatebol[25]. Trwy gyflwyno cymhelliad i feddwl am benderfyniad a oedd yn oddefol gynt a chynnig cyfle i osgoi colli arian, mae'n debygol y bu'r cynllun yn fwy effeithiol na phe bai, er enghraifft, wedi cynnig gostyngiad ar yr arian a wariwyd eisoes. Mae'r dull ar gyfer CDE yn wahanol i hyn o reidrwydd, gan fod ernes yn cael ei thalu ar bob cynhwysydd wrth ei brynu. Fodd bynnag, mae gwneud lefel yr ernes yn eglur iawn yn debygol o annog defnydd o'r cynllun drwy fframio'r arian sy'n cael

[25] Gweler er enghraifft Kahneman, D. a Tversky, A. (1992). "Advances in prospect theory: Cumulative representation of uncertainty". Journal of Risk and Uncertainty. 5 (4): 297–323

ei wario fel colled eglur y gellir ei hadhawlio (e.e. eich 20c yw hwn eisoes, adhawliwch i wneud yn siŵr nad ydych yn ei golli).

6.2.13. **Penodoldeb:** Dywedodd rhai a gymerodd ran y gallai cynnig ffyrdd i wneud gwerth eu dychweliadau yn fwy pendant helpu i gynyddu'r synnwyr o werth. Er enghraifft, roedd nifer yn teimlo y gallai caniatáu i ddychweliadau gael eu hawlio fel rhodd i elusen helpu i gynyddu'r synnwyr o werth, yn ogystal â chynnig gwobr o 'deimlo'n dda' yn gyfnewid. I eraill, gallai cael rhyw ffordd o olrhain gwerth dychweliadau, mewn ap er enghraifft, hefyd helpu i gynyddu budd bywyd go iawn y gwerth sy'n cael ei adhawlio.

## 6.3. Ffyrdd o ad-dalu'r ernes

6.3.1. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn am sut yr hoffai cyfranogwyr i'w hernes gael ei had-dalu a gallent ddewis gymaint o opsiynau ag yr oeddent yn dymuno.


**Ffafriwyd arian parod/darnau arian gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn hytrach na dulliau eraill o dderbyn ad-daliad yr ernes**

6.3.2. Arian parod/darnau arian oedd y dewis mwyaf poblogaidd o ddull ad-dalu o bell ffordd, wrth i ychydig yn llai na dwy ran o dair (65%) o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ddewis yr opsiwn hwn. Yr ail opsiwn a ddewiswyd yn fwyaf cyffredin oedd i gerdyn debyd, a ddewiswyd gan tua un rhan o dair (32%) o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg. Dewiswyd derbyn yr ad-daliad yn ôl trwy ap ffôn clyfar gan 18%, cwpon/taleb gan 16% a rhodd i elusen gan 9%.

**Roedd dulliau electronig yn apelio mwy i grwpiau oed iau**

6.3.3. Roedd y rhai hŷn a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol na'r rhai iau o ddweud y byddai'n well ganddynt i'r ernes gael ei dychwelyd mewn arian parod/darnau arian. Dangosodd y rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg ffafriaeth at arian parod/darnau arian hefyd, ond roeddent yn fwy tebygol na'r rhai hŷn o ddewis dulliau ad-dalu electronig (trwy gerdyn debyd ac ap ffôn clyfar) (gweler ffigur 6.4).

**Ffigur 6.4: Dulliau ad-dalu a ffafriwyd ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg fesul oedran**





(D6) Ym mha rai o'r ffyrdd hyn yr hoffech gael ad-daliad eich ernes ar ôl dychwelyd y deunydd pacio gwag? Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) (16-24) 145; (25-34) 263; (35-44) 203; (45-49) 114; (50-54) 117; (55-64) 288; (65+) 296.

**Roedd plant 11 i 15 oed a arolygwyd hefyd yn ffafrio arian parod/darnau arian hefyd**

6.3.4. Roedd ffafriaeth gref ymhlith plant 11 i 15 oed a arolygwyd i dderbyn eu hernes yn ôl mewn arian parod/darnau arian wrth i tua thri chwarter (74%) ddewis yr opsiwn hwn (gweler ffigur 6.5). Roedd y ffafriaeth hon i arian parod/darnau arian hyd yn oed yn gryfach ymhlith plant nag oedolion. Efallai na fydd gan blant fynediad at gardiau debyd ac felly mae hyn yn cyfyngu ar yr opsiynau sydd ar gael i'r grŵp hwn.

**Ffigur 6.5: Dulliau ad-dalu ernes a ffafriwyd ymhlith plant**




(Q0D4) Gan barhau i ddychmygu bod y cynllun eisoes mewn bodolaeth, ym mha rai o'r ffyrdd hyn fyddech chi'n hoffi cael ad-daliad eich ernes ar ôl dychwelyd y deunydd pacio gwag? Sylfaen: Pob plentyn (Cymru)– 372.

**Yn y gwaith ymchwil ansoddol, roedd ffafriaeth i gynnwys amrywiaeth o opsiynau wahanol opsiynau ad-dalu**

6.3.5. Roedd y rhai a gymerodd ran yn teimlo'n nodweddiadol y dylai peiriannau gynnig dychweliadau arian parod, i sicrhau hygyrchedd i'r rhai nad oes ganddynt ffôn clyfar neu gerdyn debyd/credyd. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, roedd llawer yn teimlo y bydden yn fwy tebygol o wneud dychweliad yn uniongyrchol i gerdyn debyd neu gredyd, er mwyn osgoi'r anghyfleustra o ymdrin ag arian mân. Awgrymwyd talebau gan rai fel ffordd o sicrhau hygyrchedd gan osgoi'r angen i stocio peiriannau gydag arian parod, er bod eraill yn bryderus ynghylch cysylltu dychweliadau â siopau penodol.

6.3.6. Roedd ymatebion i fathau eraill o ddychweliad yn gymysg, er bod ffafriaeth yn gyffredinol i gynnwys y rhain ochr yn ochr ag opsiynau eraill, gydag agwedd gadarnhaol at y syniad o ddewis. Roedd y syniad o ap ffôn clyfar, wedi ei gysylltu â chyfrif cerdyn, yn boblogaidd ymhlith rhai gan eu bod yn teimlo y gallai eu helpu i

olrhain gwerth eu dychweliadau. I eraill, teimlwyd bod hyn yn gofyn am lefel o gyfranogiad a oedd yn mynd y tu hwnt i sut yr oeddent yn disgwyl rhyngweithio â'r cynllun. Roedd y syniad o roddion i elusen yn boblogaidd ymhlith rhai a gymerodd ran, yn enwedig y rhai hŷn, gan ei fod yn helpu i wneud gwerth y dychweliad yn fwy pendant, gan gynnig y ffactor o deimlo'n dda.

## 6.4. Lleoliadau mannau dychwelyd ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref ac oddi cartref


6.4.1. Holwyd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg am y mannau dychwelyd yr oeddent yn eu ffafrio ar gyfer poteli a chaniau diodydd sy'n cael eu hyfed gartref ac oddi cartref.

**Er bod ffafriaeth amlwg i archfarchnadoedd mawr fel man dychwelyd, bydd angen mannau dychwelyd eraill wedi eu lleoli'n ganolog ac yn lleol**

6.4.2. Ni waeth a oedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn meddwl am ddiodydd sy'n cael eu hyfed gartref neu oddi cartref, teimlwyd mai lleoli mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr oedd y ffordd fwyaf cyfleus o ddychwelyd cynwysyddion diodydd gwag. Dywedodd tua saith o bob deg (69%) o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg y byddai archfarchnad fawr yn fan dychwelyd cyfleus ar gyfer caniau a photeli sy'n cael eu hyfed gartref ac roedd mwy na chwech o bob deg (62%) yn teimlo y byddai'n gyfleus ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref.

6.4.3. Roedd peiriant wedi ei leoli mewn parc neu ar stryd fawr yn boblogaidd hefyd, ac fe'u dewiswyd gan 34% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref a 41% o'r rhai a oedd yn meddwl am ddiodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref. Roedd gallu dychwelyd cynwysyddion gwag dros y cownter mewn archfarchnad fach yn gyfleus ar gyfer 35% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref a 34% ar gyfer y rhai sy'n cael eu hyfed oddi cartref.

**Ffigur 6.6: Mannau dychwelyd cyfleus fesul lle mae'r ddiod yn cael ei hyfed**




(D8/ D9) Pe byddech yn defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer poteli diod a chaniau a ddefnyddir gartref, pa rai o'r canlynol fyddai'n fannau dychwelyd cyfleus i chi? Gartref ac Oddi cartref. Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) – 1,445.

**Er mai archfarchnadoedd mawr oedd y man dychwelyd a ffafriwyd yn gyffredinol, roedd y rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg fwy o blaid mannau dychwelyd eraill ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref na'r rhai hŷn a gymerodd ran yn yr arolwg; gallai rhai mannau dychwelyd fod yn anghyfleus i grwpiau oed hŷn**


6.4.4. Mae'r siart isod (gweler ffigur 6.7) yn dangos bod y rhai **hŷn** a gymerodd ran yn yr arolwg wedi dewis archfarchnad fawr yn fwy cyffredin fel man dychwelyd cyfleus ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref na'r rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg (74% o'r rhai 55-64 oed a 78% o'r rhai 65 oed a hŷn o'u cymharu â 59% o'r rhai 16-24 oed a 58% o'r rhai 25-34 oed). Nid oedd y patrwm hwn yn arwyddocaol ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref.

6.4.5. Roedd y rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg yn fwy tebygol na'r rhai hŷn o ddewis mannau dychwelyd wedi eu lleoli mewn gwahanol leoliadau yn hytrach nag archfarchnadoedd mawr. Er enghraifft, ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref, dewisodd 31% o'r rhai 16-24 oed a 29% o'r rhai 25-34 oed beiriant mewn canolfan hamdden neu lyfrgell o'u cymharu â 17% o'r rhai 65 oed a hŷn ac unwaith eto,

roedd patrwm tebyg ar gyfer oddi cartref. Roedd y rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg hefyd yn fwy tebygol na'r rhai hŷn o ddweud y byddai'r opsiwn o ddychwelyd cynwysyddion trwy ddarparwr siopa ar-lein ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref yn gyfleus (21% o'r rhai 16-24 oed a 25% o'r rhai 25-34 oed o'u cymharu â 12% o'r rhai 65 oed a hŷn).

6.4.6. Roedd y patrwm ar gyfer lleoliadau amgen eraill fel parciau neu fannau cyhoeddus eraill a gorsafoedd trafnidiaeth fwy bod y rhain yn sefyll allan fel opsiynau anghyfleus i'r grŵp oed hynaf. Dim ond 21% o'r rhai 65 oed a hŷn a gymerodd ran yn yr arolwg ddewisodd beiriant mewn parc neu fan cyhoeddus arall fel man dychwelyd cyfleus ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref o'i gymharu â 35-42% ar draws y grwpiau oed eraill, ac roedd patrwm tebyg i'w weld ar gyfer oddi cartref. Yn yr un modd, dewisodd 9% o'r rhai 65 oed a hŷn a gymerodd ran yn yr arolwg beiriant mewn gorsaf drafnidiaeth o'i gymharu ag 16-24% ar draws y grwpiau oed eraill a chanfuwyd y patrwm hwn eto ar gyfer oddi cartref hefyd.

**Ffigur 6.7: Mannau dychwelyd cyfleus ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref yn ôl oedran**




(D8) Pe byddech yn defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer poteli diod a chaniau a ddefnyddir gartref, pa rai o'r canlynol fyddai'n fannau dychwelyd cyfleus i chi?
Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) (16-24) 145; (25-34) 263; (35-44) 203; (45-59) 114; (50-54) 117; (55-64) 288; (65+) 296.

**Roedd grwpiau penodol yn fwy tebygol nag eraill o fod angen opsiynau eraill i ddychwelyd cynwysyddion gwag yn hytrach na thrwy archfarchnadoedd mawr**

6.4.7. Er mai archfarchnadoedd mawr oedd y man dychwelyd mwyaf cyfleus i'r holl is-grwpiau a arolygwyd, roedd rhai grwpiau yr oedd hyn yn llai cyfleus iddynt.

- Roedd y rhai mewn grwpiau cymdeithasol is (DE) yn fwy tebygol na'r rhai mewn grwpiau cymdeithasol uwch (AB a C1/C2) o ddweud na fyddai dim o'r opsiynau ar y rhestr yn gyfleus ac na fyddent yn defnyddio CDE o gwbl; dywedodd 10% o'r rhai yn DE na fyddent yn defnyddio CDE o gwbl ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref o'i gymharu â 5% yn AB a 6% yn C1/C2. Dangosodd adran 5.3.3 bod y rhai mewn grwpiau cymdeithasol is (DE) yn llai tebygol na'r rhai mewn grwpiau cymdeithasol uwch o ddweud na fyddent yn defnyddio CDE drwy'r amser gan y byddent yn cael anhawster yn cael mynediad at fannau dychwelyd oherwydd problemau fel oed, anabledd a diffyg trafnidiaeth. Mae hyn yn awgrymu y gallai fod angen opsiynau eraill (e.e. casgliadau gan y cyngor) ar gyfer y rhai a allai ei chael yn anodd cael mynediad at fannau dychwelyd, yn enwedig y rhai a phroblemau symud a'r rhai heb fynediad at drafnidiaeth nad ydynt yn byw'n agos at fan dychwelyd cyfleus.
- Roedd un gwahaniaeth yn ôl y math o ardal yr oedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg **yn byw ynddi.** Roedd y rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd trefol yn fwy tebygol na'r rhai a oedd yn byw mewn ardaloedd gwledig o ddewis gorsafoedd trafnidiaeth fel mannau dychwelyd cyfleus ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref (19% o'i gymharu â 14% mewn ardaloedd gwledig) ac oddi cartref (30% o'i gymharu â 22% mewn ardaloedd gwledig).
- Unwaith eto, er mai mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr oedd y prif opsiwn a ffafriwyd ymhlith y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg, roedd y rhai a oedd yn **byw mewn fflatiau** yn llai tebygol o ddewis yr opsiwn hwn (57%) fel man dychwelyd cyfleus ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref o'u cymharu â'r rhai sy'n byw

mewn tai (70%) neu lety arall (75%) ac yn hytrach roeddent yn fwy tebygol o ddweud y byddai mannau dychwelyd eraill yn gyfleus (gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r math o ardal yr oedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn byw ynddi gan fod fflatiau yn fwy cyffredin mewn ardaloedd trefol).


- Roedd y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg a oedd yn teithio i wneud eu prif daith siopa gan ddefnyddio car aelwyd yn fwy tebygol o ddewis archfarchnad fawr fel man dychwelyd cyfleus (74%) o'u cymharu â'r rhai sy'n **gwneud eu prif daith siopa** ar droed (64%). Roedd y rhai a oedd yn gwneud eu prif daith siopa ar droed yn fwy tebygol o ddewis mannau dychwelyd amgen eraill ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed gartref fel peiriannau mewn parciau neu fannau cyhoeddus eraill, mewn canolfannau hamdden neu lyfrgelloedd ac mewn gorsafoedd trafnidiaeth na'r rhai a oedd yn defnyddio car aelwyd i wneud eu prif daith siopa. Roedd y patrwm hwn yr un fath yn gyffredinol ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref lle'r oedd archfarchnadoedd bach hefyd yn fwy tebygol o gael eu dewis gan y rhai sy'n gwneud eu prif daith siopa ar droed (43% o'i gymharu â 33% o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg sy'n gwneud eu prif daith siopa gyda char yr aelwyd).

6.4.8. Er efallai nad yw rhai o'r canfyddiadau hyn yn peri syndod, maent yn ein hatgoffa ei bod yn bwysig bod amrywiaeth o leoliadau mannau dychwelyd ac opsiynau amgen (e.e. casgliadau gan y cyngor) ar gael i ddiwallu gwahanol anghenion ac i sicrhau nad yw grwpiau penodol yn cael eu rhoi dan anfantais gan y cynllun.

**Roedd plant 11 i 15 oed a arolygwyd hefyd yn ffafrio archfarchnadoedd mawr fel y lleoliad mwyaf cyfleus ar gyfer mannau dychwelyd**

6.4.9. Archfarchnad fach ac archfarchnad fawr oedd y mannau dychwelyd mwyaf cyfleus i blant 11-15 oed a arolygwyd (57% a 56% yn eu trefn). Ystyriwyd bod peiriant mewn parc neu fan cyhoeddus arall (52%), canolfan hamdden neu lyfrgell (34%) ac mewn gorsaf drafnidiaeth (29%) yn gyfleus hefyd gan grwpiau sylweddol o blant a gymerodd ran yn yr arolwg (gweler ffigur 6.8).

**Ffigur 6.8: Mannau dychwelyd cyfleus ar gyfer diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref ymhlith plant a arolygwyd**




(Q0D6) Pe byddech yn defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer poteli diod a chaniau a ddefnyddir oddi cartref, er enghraifft, yn y gweithle, yn y car, ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu wrth fynd, pa rai o'r canlynol fyddai'n fannau dychwelyd cyfleus i chi? Sylfaen: Pob plentyn (Cymru)– 372.

**Mae canfyddiadau o'r gwaith ymchwil ansoddol yn awgrymu bod gan y rai a gymerodd ran rai pryderon ynghylch lleoli mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr yn unig**

6.4.10. I lawer o'r rhai a gymerodd ran, ystyriwyd mai archfarchnadoedd mawr oedd y lleoliad mwyaf cyfleus ar gyfer mannau dychwelyd, gan ganiatáu i ddeunyddiau o'r cartref gael eu dychwelyd mewn swmp ochr yn ochr â thaith siopa wythnosol. Fodd bynnag, nid oedd y rhai sy'n siopa ar sail mwy ad hoc, a oedd yn cynnwys unigolion dibriod a phobl fwy oedrannus, yn ymweld ag archfarchnadoedd fel arfer ac roeddent yn gwrthod y syniad o newid arferion. Yn fwy cyffredinol, ystyriwyd bod mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr yn anghyfleus ar gyfer dychwelyd poteli sy'n cael eu hyfed oddi cartref. Cododd leiafrif bryderon ehangach ynghylch sut y gallai canolbwyntio mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr gymryd busnes oddi wrth siopau llai.

**Daeth amrywiaeth o ddisgwyliadau eraill i'r amlwg yn y gwaith ymchwil ansoddol o ran lleoliad a dyluniad lleoliadau mannau dychwelyd**

6.4.11. Roedd y rhai a gymerodd ran yn disgwyl y byddai'r cynllun yn cael ei ddylunio i hwyluso defnydd cyn belled â phosibl yn unol ag ymddygiad presennol, gyda chyn lleied â phosibl o anghyfleustra. Fel y cyfryw, roeddent yn disgwyl mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr ar gyfer dychweliad swmp arwain at gyn lleied o giwio â phosibl, gyda llawer o beiriannau gweithredol ar gyfer cyfnodau prysur.

6.4.12. Roeddent hefyd yn disgwyl i ddyluniad y cynllun hwyluso dychweliad deunyddiau sy'n cael eu defnyddio oddi cartref hefyd cyn belled â phosibl, i osgoi'r angen i gario cynwysyddion gwag. Yn hyn o beth, roeddent yn disgwyl i beiriannau fod mewn mannau y mae pobl yn mynd iddynt yn ystod y dydd, fel canolfannau trafnidiaeth (er enghraifft y rhai a ddefnyddir wrth gymudo'n feunyddiol), ysgolion a gweithleoedd. Roedd rhai o'r rheini sy'n siopa ar-lein ar hyn o bryd yn gobeithio y gellid hwyluso dychweliadau yn rhan o'r gwasanaeth danfoniadau, yn yr un modd ag y gwneir gyda bagiau plastig ar hyn o bryd.

## 6.5. Safbwyntiau ar ba un a ddylai'r cynllun ddefnyddio lefel ernes amrywiol ac a ddylai gynnwys cynwysyddion diodydd o bob maint

6.5.1. Gofynnwyd dau gwestiwn i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg am ddyluniad cyffredinol CDE. Yn gyntaf, gofynnwyd iddynt a oeddent yn credu y dylai swm ernes fod yn wahanol yn dibynnu ar faint potel neu gan. Yn ail, gofynnwyd iddynt a oeddent yn credu y dylid cynnwys caniau a photeli o bob maint yn y cynllun neu a ddylai gynnwys rhai llai na 750 mililitr yn unig.

6.5.2. Fel yr amlinellwyd yn y cyflwyniad, mae Defra wedi cynnig dau wahanol opsiwn ar gyfer CDE, y cyntaf ohonynt yn CDE 'pob maint' a fyddai'n golygu bod caniau a photeli o bob maint yn cael eu cynnwys. CDE 'wrth fynd' yw'r ail opsiwn, a fyddai'n cyfyngu cynwysyddion diodydd mewn cwmpas i lai na 750 mililitr o faint ac sy'n cael eu gwerthu mewn cynwysyddion un fformat. Y rhesymeg sy'n sail i'r opsiwn 'wrth fynd' yw targedu cynwysyddion diodydd y credir sy'n cael eu defnyddio amlaf oddi cartref. Mae cynwysyddion diodydd sy'n cael eu hyfed a'u taflu 'wrth fynd' yn

ffynhonnell allweddol o sbwriel, a lleihau'r sbwriel hwn yw un o ysgogwyr allweddol cyflwyno CDE yng Nghymru a Lloegr.

**Roedd gan y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg safbwyntiau cymysg ar ba un a ddylai swm yr ernes fod yn wahanol ar gyfer caniau a photeli llai a mwy**


6.5.3. Roedd hanner (50%) y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg yn meddwl y dylai swm yr ernes fod yr un faint ar draws bob maint cynhwysydd ac roedd 37% yn meddwl y dylai swm yr ernes fod yn wahanol yn ôl maint. Dywedodd 14% nad oeddent yn siŵr, sy'n awgrymu rhywfaint o ansicrwydd ynghylch sut y byddai'r cynllun yn gweithio yn ymarferol.

6.5.4. Yn y gwaith ymchwil ansoddol, roedd ffafriaeth yn gyffredinol i lefel ernes sefydlog at ddiben symlrwydd ac eglurder, er bod rhai a gymerodd ran yn cwestiynu a fyddai ernes o 10c neu 20c yn gymhelliad ar gyfer diodydd drytach (gwirodydd neu win yn nodweddiadol). Roedd y syniad hwn o lefel ernes sefydlog hefyd yn ymestyn i aml-becynnau, yr oedd y rhai a gymerodd ran yn teimlo y dylai un ernes fod yn gysylltiedig â nhw, unwaith eto at ddiben cadw'r cynllun yn gyson ac yn rhwydd ei ddeall. Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo y byddai effaith gyfunol ernesau ar bris aml-becyn yn gwneud y gost yn fwy amlwg ac y gallai felly wneud iddynt feddwl ddwywaith am brynu.

**Roedd y rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg fwy o blaid graddfa ernes amrywiol na'r rhai hŷn**

6.5.5. Roedd cefnogaeth i raddfa ernes amrywiol yn gryfach ymhlith y rhai iau a gymerodd ran yn yr arolwg (roedd yn well gan 46% o'r rhai 16-24 oed ernes amrywiol o'i gymharu â 27% o'r rhai 65 oed a hŷn) ac roedd y patrwm hwn yn gyson ar draws grwpiau oedran. Yn unol â hynny, roedd y rhai hŷn a gymerodd ran yn yr arolwg yn teimlo i'r gwrthwyneb wrth i chwech o bob deg (60%) o'r rhai 65 oed neu hŷn ddweud y dylai swm yr ernes fod yr un fath ar draws pob cynhwysydd diod beth bynnag fo'i faint o'i gymharu â 44% o'r rhai 16-24 oed (gweler ffigur 6.9).

**Ffigur 6.9: Pa un a ddylai swm yr ernes amrywio yn ôl maint y cynhwysydd fesul oedran**




(G4) Pa un o'r datganiadau canlynol sydd agosaf at eich barn chi? Dylai swm yr ernes fod yn is ar gyfer eitemau llai ac yn uwch ar gyfer eitemau mwy NEU dylai swm yr ernes fod yr un faint ar gyfer deunyddiau pacio o bob maint er mwyn cadw pethau'n syml. Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) (16-24) 147; (25-34) 266; (35-44) 206; (45-49) 114; (50-54) 117; (55-64) 288; (65+) 296.

**Roedd safbwyntiau ar ba un a ddylai'r cynllun ddefnyddio swm ernes amrywio hefyd yn gymysg ymhlith plant 11 i 15 oed a arolygwyd**


6.5.6. Roedd lefel uwch o gefnogaeth i raddfa ernes amrywiol ymhlith plant 11-15 a arolygwyd. Dywedodd yn agos at chwech o bob deg (58%) y dylai swm yr ernes amrywio yn dibynnu ar faint ac roedd ychydig dros draean (34%) yn teimlo y dylai fod yr un faint. Dywedodd cyfran lai nag oedolion (8%) na allent benderfynu.

**Roedd y rhai a gymerodd ran o blaid cynnwys poteli a chaniau o bob maint yn y cynllun**

6.5.7. Roedd dros wyth o bob deg (81%) o'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg o blaid CDE 'pob maint' o'i gymharu â dim ond 10% a oedd o blaid model 'wrth fynd' a dywedodd 9% na allent benderfynu rhwng y ddau opsiwn. Roedd cefnogaeth i ddyluniad 'pob maint' hyd yn oed yn uwch ymhlith grwpiau oedran hŷn nag ymhlith oedolion yn gyffredinol: roedd 87% o'r rhai 65 oed neu hŷn a gymerodd ran yn yr

arolwg o blaid cynnwys poteli a chaniau o bob maint mewn CDE. (gweler ffigur 6.10).

**Ffigur 6.10: Pa un a ddylai swm ernes gynnwys caniau a photeli o bob maint fesul oed**




(G5) Pa un a fyddech chi'n defnyddio'r cynllun yn bersonol ai peidio, pa rai o'r canlynol ydych chi'n meddwl y byddai'n gweithio orau i bobl yn gyffredinol? Dylai'r cynllun gynnwys poteli a chaniau o bob maint, yn rhai mawr a bach. Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) (16-24) 147; (25-34) 266; (35-44) 206; (45-49) 114; (50-54) 117; (55-64) 288; (65+) 296.

6.5.8. Roedd y patrwm ar gyfer plant 11-15 oed a arolygwyd yn gyffredinol debyg; dywedodd 90% y byddai'n well ganddynt y model 'pob maint' a dim ond 5% ddywedodd y byddai'n well ganddynt y model 'wrth fynd'. Ni allai 5% arall benderfynu.

**Yn y gwaith ymchwil ansoddol, roedd y rhai a gymerodd ran hefyd yn tueddu i ffafrio'r model 'pob maint'**

6.5.9. Pan roddwyd dewis iddynt rhwng y model 'pob maint' a'r model 'wrth fynd', roedd y rhai a gymerodd ran yn tueddu i ffafrio'r model 'pob maint' yn syth. I'r cyhoedd, nid oedd gwahaniaeth eglur rhwng y mathau o gynwysyddion diodydd a ddefnyddir gartref a'r rhai a ddefnyddir oddi cartref, sy'n golygu bod y gwahaniaeth rhwng gwahanol feintiau o gynhwysydd i'w cynnwys mewn CDE yn ymddangos yn

fympwyol ac o bosibl yn ddryslyd, gan gynyddu'r synnwyr o darfu. Ystyriwyd hefyd bod yr angen am ddwy drefn gyfochrog ar gyfer ailgylchu, gan ddychwelyd cynwysyddion mwy trwy ailgylchu cartref a rhai llai trwy CDE yn anghyfleus ac yn anwadal. Yn gyffredinol, roedd ffafriaeth tuag at symlrwydd yn y dyluniad er mwyn lleihau'r angen i feddwl am ddefnydd, ac ystyriwyd bod y model 'pob maint' yn cynnig y model lleihau beichus yn wybyddol ac effeithiol.

6.5.10. Yn dilyn ystyriaeth yn y grwpiau trafod, newidiodd rhai a gymerodd ran i ffafrio'r model 'wrth fynd'. Fodd bynnag, ategwyd hyn yn nodweddiadol gan ddiffyg cefnogaeth i'r cynllun ac roedd yn ymddangos ei fod yn adlewyrchu dymuniad i leihau'r angen i ymgysylltu â'r cynllun. Ochr yn ochr â hyn, dywedodd y cyfranogwyr hyn y byddent yn newid i boteli mawr i'w hyfed gartref er mwyn lleihau eu hangen i ymgysylltu â'r cynllun.

## 7. Dadansoddiad ar y cyd

7.1 Mae dadansoddiad ar y cyd yn cynnwys cymharu gwahanol 'senarios' CDE gan ganiatáu i'r elfennau pwysicaf gael eu hamlygu mewn perthynas â'i gilydd.

**Crynodeb**

*Canfyddiadau*

- **Lleoliad y mannau dychwelyd** oedd yr ysgogiad cryfaf o ran y tebygolrwydd y byddai CDE yn cael ei ddefnyddio, roedd y nodwedd hon yn bwysicach na'r ddwy nodwedd arall (maint yr ernes a'r amser a ychwanegir at yr wythnos) gyda'i gilydd.
- Yr ysgogiad ail gryfaf o ran defnyddio CDE oedd **yr amser a ychwanegir** at yr wythnos i ddychwelyd poteli a chaniau lle yr ystyrir bod dros 20 munud wedi'u hychwanegu at yr wythnos yn anatyniadol iawn.
- Roedd y neges ynghylch **maint yr ernes** yn llawer llai clir ac roedd yn llai pwysig o lawer na'r ddwy nodwedd arall a dyma'r nodwedd yr oedd cyfranogwyr yn cytuno lleiaf yn ei chylch.
- Roedd y cynllun 'gorau' yr oedd 91% o gyfranogwyr yr arolwg wedi awgrymu y byddent yn ei ddefnyddio yn cynnwys: ernes o 10c, man dychwelyd mewn archfarchnad fawr a byddai'r unigolyn yn treulio hyd at 10 munud ychwanegol yr wythnos yn storio a dychwelyd y deunydd pacio diodydd. Roedd y sgôr apêl gyfan hefyd yn uchel, sef 83.6.
- Er gwaethaf y ffaith mai hwn oedd y cynllun 'gwaethaf' o ran tebygolrwydd ei ddefnyddio, dywedodd dau allan o dri o'r cyfranogwyr y byddent yn ei ddefnyddio. Yr elfennau oedd: ernes o 25c, man dychwelyd mewn gorsaf drafnidiaeth a threulio 20 neu 30 munud bob wythnos yn dychwelyd y cynwysyddion. Fodd bynnag, 11.8 oedd y sgôr apêl, sy'n dangos er bod cyfran uchel o gyfranogwyr yr arolwg yn barod i'w ddefnyddio, roedd ei apêl gyffredinol yn isel iawn. Felly, er bod bwriadau da i ddefnyddio'r cynllun, mae'n bosibl y byddai pobl yn dychwelyd at eu harferion blaenorol o ran gwaredu a pheidio â defnyddio CDE mewn gwirionedd.

*Goblygiadau*

- Neges gyffredinol yr ymarfer ar y cyd oedd pwysigrwydd cael mannau dychwelyd hygyrch. Yn gyntaf oll, dylid eu lleoli mewn archfarchnadoedd mawr, er y bydd yn bwysig i rai grwpiau eu bod yn cael eu lleoli mewn lleoliadau lleol/canolog eraill.
- Dylai mannau dychwelyd fod yn gyflym ac yn rhwydd eu defnyddio.
- Nid yw maint yr ernes mor bwysig â lleoliad y mannau dychwelyd a'r amser a dreuliwyd ar y CDE bob wythnos. Fodd bynnag, mae angen gofal wrth ddehongli'r canfyddiadau yn ymwneud â maint yr ernes oherwydd bod gwrthdaro posibl rhwng tebygolrwydd defnyddio CDE a dewis cyffredinol o ran dyluniad. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl y bydd hi'n well gan gyfranogwr ernes o 10c, oherwydd y byddai'n hapusach i anghofio'r gost ond yn dweud hefyd y byddai ernes o 20c yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai'n *defnyddio* CDE oherwydd byddai'r swm uchaf yn gymhelliad i hawlio'r ernes.

## 7.2. Beth yw dadansoddi ar y cyd a pham y mae'n ddefnyddiol i archwilio'r defnydd posibl o CDE?

7.2.1. Mae dadansoddi ar y cyd yn dechneg ystadegol sy'n galluogi gwell dealltwriaeth o ffactorau pwysicaf y penderfyniad i ddefnyddio CDE a'r hyn sy'n ysgogi'r penderfyniadau hyn. Gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg gymharu parau o senarios pryd roedd elfennau neu 'nodweddion' CDE wedi'u cyfuno, yn golygu bod angen iddynt asesu'r elfennau fel pecyn yn hytrach nag yn unigol (i'w weld yn ffigur 7.1 isod). Y nodweddion a ddefnyddiwyd oedd, maint yr ernes, lleoliad y man dychwelyd ac amser ychwanegol a dreulir drwy gydol yr wythnos yn dychwelyd poteli a chaniau.

7.2.2. Roedd cwestiynau eraill yr arolwg ynghylch pob elfen o'r CDE ar wahân, gan archwilio sut yr oedd y cyfranogwyr yn ffafrio pob un yn ei dro. Mae'r dull dadansoddi ar y cyd yn ein galluogi i gymryd y dadansoddiad hwn un cam ymhellach ac i ddehongli pa elfennau oedd yn bwysig **mewn perthynas â'i gilydd.** Ar ôl cyflwyno sgrin gychwynnol yn egluro'r dasg, cyflwynwyd pedwar pâr o senarios ar hap i bob cyfranogwr yr arolwg a gofynnwyd iddynt ddewis **yr un y byddent fwyaf tebygol o'i ddefnyddio.** Os nad oedd y naill na'r llall yn gweddu iddynt, yr oedd yn bosibl dewis 'Dim un o'r rhain'. Gwelir gwybodaeth fanylach am yr ymarfer ar y cyd a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn Atodiad G.

**Ffigur 7.1: Enghraifft o ymarfer ar y cyd**

Dyma ddau senario enghreifftiol sy'n dangos sut allai'r Cynllun Dychwelyd Ernes weithio er mwyn i bobl ddychwelyd eu poteli a'u caniau.

Gan feddwl am y diodydd rydych yn eu hyfed mewn wythnos arferol, pe byddai'n rhaid i chi ddewis rhwng y ddau gynllun, pa un fyddech chi'n **fwyaf** tebygol o'i ddefnyddio er mwyn dychwelyd poteli a chaniau?

| | A | B |
|---|---|---|
| Pris yr ernes | 25c | 15c |
| Lleoliad man dychwelyd | Archfarchnad fawr | Parc neu ger stryd fawr |
| Yr amser ychwanegol a fyddai'n cael ei ychwanegu at eich wythnos er mwyn dychwelyd poteli a chaniau | Rhwng 20 a 30 munud | Rhwng 10 a 20 munud |

Pa senario fyddech chi **fwyaf** tebygol o'i ddefnyddio?

Senario A

Senario B

Dim un – ni fyddwn yn defnyddio'r un o'r rhain

## 7.3. Mesurau ar y cyd

7.3.1. Mae'r adran hon yn seiliedig ar dri mesur allweddol:

7.3.2. **Sgôr defnyddioldeb:** er nad yw'r sgorau eu hunain yn arwyddocaol iawn, cai'r **bylchau rhyngddynt** eu defnyddio fel mesurau cymharol o werth neu atyniad pob lefel ar draws cyfranogwyr yr arolwg. Gofynnir iddynt hefyd asesu **pwysigrwydd** cyffredinol pob nodwedd ar draws y sampl, mae'r mesuriadau pwysigrwydd yn cael eu mynegi fel canrannau.

7.3.3. **Defnydd posibl:** yn deillio o 'gyfran y dewisiadau', mae'r mesur hwn yn rhoi canran yn dangos cyfran y sampl a ddywedodd y byddent yn barod i ddefnyddio unrhyw senario penodol. Po uchaf y gwerth, uchaf y gyfran y bydd y senario yn ei chael. Gall y canran hwn gael ei gymharu â senarios eraill i roi syniad o'r gyfran gyffredinol.

7.3.4. **Apêl:** mae'r rhif hwn, rhwng 1 a 100 yn dynodi atyniad neu effeithiolrwydd cyffredinol y senario ac yn ychwanegu cyd-destun at ffigurau defnydd posibl. Ceir rhagor o wybodaeth am y tri mesur hyn yn Atodiad G.

7.3.5. Mae Ffigur 7.2 isod yn dangos enghraifft wirioneddol o'r mesurau hyn. Yn gyntaf, mae'r blwch coch yn dynodi sut oedd cyfran y dewisiadau wedi'u gwasgaru ar draws y tri senario. Dengys hyn yn glir bod cynllun 1 (10c, archfarchnad fawr a hyd at 10 munud) wedi cael 74% o gyfran y dewisiadau o'i gymharu â dau gynllun arall a'r dewis i ddweud dim un ohonynt ( a gafodd 8% o gyfran y dewisiadau). Dywedodd cyfranogwyr mai cynllun 1 oedd yr un y byddent fwyaf tebygol o'i ddefnyddio yn gyffredinol a chynllun 3 oedd yr un y byddent leiaf tebygol o'i ddefnyddio (gyda chynllun 2 rhywle yn y canol). Mae'r blwch glas yn dynodi mesur apêl sy'n dangos bod yr apêl ar gyfer cynllun 1 hefyd yn uchel iawn.

**Ffigur 7.2: Enghraifft o fesuriadau ar y cyd**

| | ☑ Scheme 1 | ☑ Scheme 2 | ☑ Scheme 3 | ☐ Scheme 4 |
|---|---|---|---|---|
| Cost | 10p | 15p | 10p | 25p |
| Location | Large supermarket | A park or near a high street | Train, bus, tube, or tram station | A park or near a high street |
| Time | Up to 10 minutes | Between 10 and 20 minutes | Between 20 and 30 minutes | Up to 10 minutes |
| Average overall appeal of this option | 83.6 | 54.0 | 11.8 | |
| Share of preference among these options | 74.0 | 14.5 | 3.1 | |

Wales

Total sample

| | |
|---|---|
| Wouldn't use any of these options | 8.4 |


*Base size: 1453*

## 7.4. Pwysigrwydd y tair nodwedd (maint yr ernes, lleoliad y mannau dychwelyd a'r amser ychwanegol a dreulir yn dychwelyd poteli a chaniau)

7.4.1. Y cam cyntaf wrth ddehongli'r model ar y cyd yw cymharu'r tair nodwedd i'n helpu ni i ddeall ai maint yr ernes, lleoliad y mannau dychwelyd neu'r amser a dreulir yn dychwelyd cynwysyddion sydd bwysicaf i gyfranogwyr yr arolwg. Mae Ffigur 7.3 isod yn dangos pwysigrwydd cymharol y tair nodwedd a brofwyd yn yr ymarfer ar y cyd. Mae'r gwahaniaeth cymharol rhwng y nodweddion hyn yn awgrymu pa rai yw'r

ysgogwyr cryfaf o ran tebygolrwydd defnyddio CDE ac mae'r gwahaniaethau hyn yn bwysicach na'r sgorau unigol[26].

**Ffigur 7.3: Pwysigrwydd cymharol nodweddion o ran tebygolrwydd defnyddio CDE**





Ymarfer ar y cyd – Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) - 1,453.

7.4.2. Roedd yn glir iawn mai **lleoliad y mannau dychwelyd** oedd yr ysgogydd cryfaf o ran tebygolrwydd defnyddio CDE, mae'r nodwedd hon yn bwysicach na'r ddwy nodwedd arall gyda'i gilydd. Rhoddwyd pedwar dewis o ran mannau dychwelyd i gyfranogwyr yr arolwg: archfarchnad fawr, archfarchnad fach neu siop leol, parc neu fan ger y stryd fawr neu mewn gorsaf drenau, bysiau, tiwbiau neu dramiau. Mae Ffigur 7.4 isod yn dangos y dewisiadau cymharol ar gyfer y pedwar lleoliad: archfarchnad fawr oedd y dewis cyntaf clir, wedi'i ddilyn gan archfarchnad fach neu siop leol, parc neu fan ger y stryd fawr ac yna gorsaf drafnidiaeth. Yn yr arolwg, gofynnwyd i gyfranogwyr nodi mannau dychwelyd y byddai'n gyfleus iddynt ac roedd opsiwn i ddewis lleoliadau lluosog. Roedd y dasg yma yn wahanol, oherwydd gofynnwyd i gyfranogwyr ddewis mannau dychwelyd penodol ac roedd y canlyniadau yn glir iawn bod cyfranogwyr yn ystyried y byddent yn fwy tebygol o

[26] Dylid nodi bod pwysigrwydd y nodweddion hyn yn seiliedig ar y lefelau penodol a brofwyd; petai lefelau eraill wedi'u profi o fewn pob nodwedd (e.e. swm ernes uwch, mannau dychwelyd eraill neu amserau hirach wedi'u hychwanegu at yr wythnos yn dychwelyd poteli a chaniau) yna mae'n bosibl y byddai pwysigrwydd y nodweddion yn wahanol.

ddefnyddio CDE os byddai'r rhain wedi'u lleoli mewn archfarchnadoedd mawr. Nid yw hynny'n golygu na fyddai lleoli mannau dychwelyd mewn lleoliadau eraill yn bwysig, ond yn hytrach, pan ofynnwyd iddynt ddewis rhwng mannau dychwelyd penodol, roedd archfarchnadoedd mawr yn lleoliad allweddol.

**Ffigur 7.4: Dewisiadau cyfranogwyr yr arolwg o ran lleoliadau mannau dychwelyd**





Ymarfer ar y cyd: Lleoliad y man dychwelyd – Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) – 1,453.

7.4.3. Yr ail ysgogydd cryfaf o ran defnyddio CDE oedd yr **amser ychwanegol** yr ychwanegwyd at yr wythnos i ddychwelyd poteli a chaniau. Rhoddwyd dewisiadau i gyfranogwyr o: Hyd at 10 munud, 10-20 munud a 20-30 munud.

7.4.4. Gan ddychwelyd at y sgôr defnyddioldeb, mae'r bwlch rhwng y lefelau o ran y nodwedd amser ychwanegol yn dangos yn glir pa mor bwysig yw'r ffaith fod defnyddio'r CDE yn ychwanegu cyn lleied o amser â phosibl at wythnosau pobl. Fel y mae Ffigur 7.5 yn ei ddangos, mae cwymp arwyddocaol rhwng 10-20 munud a 20-30 munud, gyda hwn yn colli dwywaith y pwyntiau defnyddioldeb na'r gwahaniaeth rhwng hyd at 10 munud a 10-20 munud. Felly, mae'r rheswm pam mae amser yn bwysig wedi'i gysylltu i raddau helaeth â pha mor anneniadol oedd yr ail gwymp i 20-30 munud.


**Ffigur 7.5: Sgorau defnyddioldeb ar gyfer y nodwedd amser ychwanegol**




Ymarfer ar y cyd: Nodwedd amser ychwanegol – Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) – 1,453.

7.4.5. **Roedd y sefyllfa o ran maint yr ernes** yn fwy cymhleth o lawer**.** Hon oedd y nodwedd leiaf pwysig o'r tair o ran ysgogi tebygolrwydd defnyddio CDE a'r nodwedd yr oedd cyfranogwyr yn cytuno lleiaf arni. Mae Ffigur 7.6 yn dangos sut mae atebion cyfranogwyr yn dynodi effeithiolrwydd cyffredinol pob maint yr ernes wrth ysgogi'r tebygolrwydd o ddefnyddio CDE. Yr ernes fwyaf effeithiol oedd 25c (42%) ac yna 10c (33%) gan ddangos cefnogaeth i ddau ben y raddfa. Mae'r canlyniad hwn yn wahanol i'r un yn yr arolwg pryd roedd mwy o gefnogaeth i lefelau ernes o 10c a 20c; fodd bynnag, efallai nad yw hyn yn syndod, oherwydd cyd-destun y ddau. Canolbwyntiodd yr arolwg a'r ymchwil ansawdd ar lefel yr ernes yr oedd y cyfranogwyr yn ei ffafrio a gallai hynny fod yn wahanol iawn i lefel yr ernes yr oedd cyfranogwyr yn ystyried y byddai'n eu gwneud yn fwy tebygol o ddefnyddio CDE, a oedd yn ganolbwynt yr ymarfer ar y cyd. Mae'n bosibl bod y gwahaniaeth rhwng y ddwy set o ganlyniadau yn dangos bod rhai cyfranogwyr wedi gallu ystyried dewis a thebygolrwydd defnyddio ill dau ac yn rhoi cefnogaeth i'r defnydd o gyfuniad o gwestiynau arolwg ac ymarfer ar y cyd yn y gwaith archwiliol hwn sy'n ymwneud â CDE.

**Ffigur 7.6: Maint yr ernes a ffefrir**




Ymarfer ar y cyd: Swm yr Ernes – Sylfaen: Pob oedolyn (Cymru) – 1,453.

## 7.5. Negeseuon allweddol o ran pwysigrwydd y tair nodwedd

7.5.1. Cafwyd neges uniongyrchol o ran mannau dychwelyd a'r amser ychwanegol yr oedd cyfranogwyr yn barod i'w dreulio bob wythnos yn dychwelyd eu poteli a'u caniau.

- Y brif flaenoriaeth oedd lleoliad y mannau dychwelyd, y lleoliad a fyddai'n fwy tebygol o arwain at ddefnyddio CDE oedd archfarchnad fawr.
- Amser oedd yr ail flaenoriaeth gyda pherthynas glir yn ymddangos rhwng amser wedi'i dreulio yn defnyddio CDE a thebygolrwydd defnyddio (h.y. po leiaf yr amser y cymerodd allan o wythnos y cyfranogwyr i ddefnyddio'r cynllun, mwyaf oedd y tebygolrwydd y byddent yn ei ddefnyddio).

7.5.2. Fel y sonnir amdano yn adran 6.2, mae maint yr ernes, fodd bynnag yn fwy cymhleth i'w ddehongli; holwyd cyfranogwyr yr arolwg ynghylch pa un o ddau senario CDE tybiedig y byddent yn fwy tebygol o'i ddefnyddio. Mae hyn yn wahanol i ofyn iddynt ddewis pa gynllun oedd well ganddynt. Er ei bod yn annhebyg y bydd y

gwahaniaeth hwn yn effeithio ar yr atebion ynghylch lleoliad mannau dychwelyd ac amser ychwanegol a ychwanegir at yr wythnos i ddychwelyd poteli a chaniau, o ran maint yr ernes gallai'r atebion hyn fod yn wahanol iawn.

7.5.3. Oherwydd y gwrthdaro rhwng tebygolrwydd defnyddio a ffafriaeth, disgwylir y bydd rhai cyfranogwyr yr arolwg wedi ystyried tebygolrwydd defnyddio fel oedd ein bwriad ac eraill wedi ystyried mwy o ran dewis. Mae'n bosibl bod rhai cyfranogwyr wedi defnyddio cyfuniad o'r ddwy strategaeth. Dylid ystyried y gwrthdaro posibl hwn wrth ddehongli canlyniadau'r ymarfer ar y cyd.

7.5.4. I grynhoi, mae canlyniadau'r dehongliad ar y cyd yn dynodi mai lleoliad y man dychwelyd fydd y prif ysgogydd o ran defnyddio CDE a bydd cadw'r amser a dreulir yn dychwelyd poteli a chaniau yn isel yn bwysig iawn. Roedd y neges ynghylch maint yr ernes yn llai clir o lawer, nid yw mor bwysig â'r ddwy nodwedd arall, ac roedd anghytundeb ymhlith cyfranogwyr o ran y lefel fwyaf effeithiol.

## 7.6. Y modelau CDE 'gorau' a'r 'gwaethaf'

7.6.1. Roedd 48 o gyfuniadau cynllun posibl o'r ystod o elfennau yn yr ymarfer ar y cyd. Rhestrir y rhain yn nhrefn tebygolrwydd defnydd yn Atodiad G. Diffinnir y cynllun 'gorau' yma fel y cynllun a gafodd y sgôr defnydd posibl uchaf (h.y. y cynllun y dywedodd y mwyaf o bobl yr arolwg y byddent yn ei ddefnyddio). Awgrymodd 91% o gyfranogwyr yr arolwg y byddent yn fwy tebygol o ddefnyddio'r cynllun 'gorau', a oedd yn cynnwys: ernes o 10c, a man dychwelyd mewn archfarchnad fawr a byddai'r unigolyn yn treulio hyd at 10 munud ychwanegol bob wythnos yn storio a dychwelyd y cynwysyddion diodydd. Roedd y mesur apêl yn 83.6 a dywedodd 9% na fyddent yn ei ddefnyddio.

7.6.2. Roedd y cynllun 'gwaethaf' yn cynnwys: ernes o 10c, man dychwelyd mewn gorsaf drafnidiaeth a threulio rhwng 20 a 30 munud bob wythnos yn dychwelyd y cynwysyddion. Dywedodd ychydig yn fwy na dwy ran o dair (67%) o gyfranogwyr yr arolwg y byddent yn defnyddio'r CDE beth bynnag y cynllun. Fodd bynnag, roedd lefel yr apêl yn isel iawn sef 11.8 gan awgrymu er bod gan gyfranogwyr yr arolwg fwriad da i ddefnyddio'r cynllun hwn, gallai hynny arwain at bobl yn dychwelyd at eu harferion gwaredu blaenorol a pheidio â defnyddio CDE.

**Ffigur 7.7: Modelau CDE 'gorau' a 'gwaethaf' yn yr ymarfer ar y cyd**

| | Nodweddion/lefelau | Defnydd posibl | Apêl |
|---|---|---|---|
| Cynllun gorau | 10p<br>Archfarchnad fawr<br>Hyd at 10 munud | 91% | 83.6 |
| Cynllun gwaethaf | 10p<br>Gorsaf drafnidiaeth<br>Rhwng 20 a 30 munud | 67% | 11.8 |

7.6.3. Fel y gwelir uchod, roedd 9% o gyfranogwyr yr arolwg wedi gwrthod y CDE 'gorau'. Wrth ystyried yn fanylach sut dewiswyd y dewis 'Dim un o'r rhain', defnyddiodd 6% o gyfranogwyr yr arolwg y dewis hwn i wrthod y ddau senario ym mhob cwestiwn ac roedd 72% wedi dewis naill ai senario A neu B ym mhob cwestiwn. Gadawodd hyn 21% a oedd weithiau yn dewis senario ac weithiau yn dewis 'Dim un o'r rhain', a'r cyfranogwyr hyn sy'n ysgogi'r gwahaniaeth o ran defnydd posibl.

7.6.4. Yn unol â'r canlyniadau drwy gydol yr adroddiad hwn, roedd cyfranogwyr yn rhai o'r grwpiau a wrthododd y ddau senario ym mhob cwestiwn yn fwy tebygol na'r rhai a ddewisodd senario o beidio â bod yn yrwyr ceir neu'n defnyddio modd arall o drafnidiaeth i wneud eu prif siopa yn hytrach na cherdded neu ddefnyddio eu ceir eu hunain. Yn ôl y disgwyl, roedd y rhai a oedd yn erbyn CDE yn fwy tebygol o wrthod y ddau senario neu un neu fwy o gwestiynau.

7.6.5. Ceir dadansoddiad is-grŵp o'r cynlluniau 'gorau' a 'gwaethaf' yn Atodiad G.

## 7.7. Canlyniadau allweddol o'r ymarfer ar y cyd

7.7.1. Neges gyffredinol yr ymarfer ar y cyd oedd ei bod hi'n bwysig bod lleoliad y mannau dychwelyd yn hygyrch, ac yn unol â chanlyniadau holiadur yr arolwg, yn anad dim, dylent gael eu lleoli mewn archfarchnadoedd mawr, er bydd yn bwysig i rai grwpiau eu bod hefyd yn cael eu lleoli mewn lleoliadau lleol/canolog eraill. Dylai'r cynllun fod yn gyflym a syml i'w ddefnyddio, mae'n bwysig nad oes disgwyl i bobl ychwanegu llawer o amser at eu hwythnos i ddychwelyd poteli a chaniau. Nid yw maint yr ernes mor bwysig â lleoliad y mannau dychwelyd a'r amser a dreulir ar CDE bob wythnos; dylid dehongli'r canlyniadau ynghylch maint yr ernes yn ofalus o ystyried y gwrthdaro posibl rhwng tebygolrwydd defnyddio CDE a dewis cyffredinol o ran dyluniad.

## 8. Argymhellion ar gyfer dyluniad y cynllun

8.1 Archwiliodd yr ymchwil agweddau defnyddwyr tuag at y cysyniad o CDE a'r ymateb ymddygiadol a nodwyd ganddynt, i sicrhau bod barn y cyhoedd yn cael ei chynnwys wrth ddylunio unrhyw gynllun yn y dyfodol. Wrth ddehongli'r ymatebion hyn, mae'n bwysig cadw mewn cof bod barn ac ymddygiad pobl yn debygol o newid wrth i'r cyd-destun y maent yn ymateb ynddo yn newid, gan gynnwys lansio'r cynllun ei hun. Er enghraifft, dengys ymchwil bod cefnogaeth i ffi'r bagiau plastig wedi cynyddu ar ôl iddo gael ei lansio gydag agweddau yn lledaenu i ffioedd eraill er mwyn lleihau gwastraff plastig[27]. O ystyried y gefnogaeth i resymeg sylfaenol y cynllun i leihau gwastraff plastig a thaflu sbwriel, mae rhesymau da i gredu y byddai effaith debyg yn digwydd fel ymateb i gynllun CDE. Er hynny, bydd unrhyw ymateb yn dibynnu ar sut bydd y cynllun yn cael ei weithredu, ac mae'r ymchwil hwn yn awgrymu nifer o feysydd lle y gellir optimeiddio dyluniad a chyfathrebu i gynnwys barn a phryderon y cyhoedd, petai penderfyniad yn cael ei wneud i fwrw ymlaen â menter CDE yng Nghymru.

### 8.2. Cyfathrebu ynghylch cynllun

8.2.1. Roedd cefnogaeth i'r cynllun yn uchel ymhlith cyfranogwyr yr arolwg a phan ddangoswyd yr ymchwil ansoddol i gyfranogwyr ar y dechrau. Gwelwyd ei fod yn mynd i'r afael â mater perthnasol - gwastraff plastig - a chysylltodd â theimlad hiraethus ynghylch cynlluniau dychwelyd ernes poteli gwydr. Fodd bynnag, wrth ystyried yn ddyfnach, dechreuodd cyfranogwyr ystyried y pethau ymarferol yn gysylltiedig â realiti defnyddio CDE, a'r gost bosibl o ran amser neu arian. O ystyried bod y mwyafrif eisoes wedi sefydlu'r arfer o ailgylchu yn y cartref, ac yn teimlo eu bod yn ailgylchu i ffwrdd o'r cartref pan oedd dewis ar gael, ystyriwyd y byddai defnyddio'r cynllun yn gofyn am ymdrech sylweddol ar ran y defnyddiwr

[27] Er enghraifft, gweler Thomas, Gregory Owen et al. (2019) "The English Plastic Bag Charge Changed Behavior and Increased Support for Other Charges to Reduce Plastic Waste." Frontiers in psychology vol. 10:266

heb unrhyw fantais amlwg. Yn hynny o beth, roedd nifer o gyfranogwyr wedi holi a fyddai'n syniad gwell i wella cyfleusterau ailgylchu ar y stryd er mwyn casglu gwastraff y tu allan i'r cartref. Roedd eraill yn pryderu na fyddent yn gallu ailgylchu o'r cartref yn y dyfodol, hyd yn oed os dyna oedd eu dewis, oherwydd i wasanaethau casglu'r cyngor gael eu tynnu yn ôl. Mae yna berygl y bydd y profiad a gafodd cyfranogwyr yr ymchwil ansoddol yn cael ei ailadrodd ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yn dilyn lansio heb hyrwyddo manteision amgylcheddol y cynllun ac ymagwedd ehangach y llywodraeth at fynd i'r afael â gwastraff plastig. Bydd yn bwysig bod cyfathrebu ynghylch y cynllun yn cynnwys gwybodaeth i helpu i ymdrin â'r pryderon hyn.

- **Amlygu'r manteision**: Darparu rheswm clir i gymryd rhan weithredol yn y cynllun a chredu ynddo drwy roi pwyslais cryf ar gyfathrebu ynghylch manteision amgylcheddol ailgylchu drwy'r CDE o'i gymharu â dulliau eraill (e.e. ailgylchu wrth ymyl y ffordd ac ar y stryd) ac o ran mynd i'r afael â thaflu sbwriel mewn ardaloedd lleol
- **Rhoi swyddogaeth y defnyddiwr mewn cyd-destun:** Sicrhau nad yw defnyddwyr yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg gan y cynllun drwy dynnu sylw wrth gyfathrebu, at y camau y mae busnesau a llywodraethau hefyd yn eu cymryd i leihau gwastraff plastig, o fewn y cynllun ac yn ehangach.
- **Sicrhau pobl o ran arferion presennol:** Ymdrechu i'w gwneud yn glir bod y gwasanaeth ailgylchu wrth ymyl y ffordd yn parhau i gasglu pob math o ddeunydd ailgylchadwy a bydd pobl yn gallu ailgylchu yn y ffordd honno o hyd os ydy hynny'n fwy cyfleus (a'u bod yn fodlon colli eu hernes).
- **Llywio drwy fewnwelediad ymddygiadol**: Byddai unrhyw ddeunydd cyfathrebu yn elwa ar gael ei lywio gan wyddoniaeth mewnwelediad ymddygiadol er mwyn dylanwadu yn gadarnhaol ar ymddygiad. Byddai darparu gwybodaeth yn unig yn annhebyg o annog pobl i ddefnyddio CDE.

### 8.3. ‘Cynhwysfawr’ yn erbyn ‘Wrth fynd’

8.3.1. Nid yw yfed i ffwrdd o gartref ac yn y cartref yn gyfyngedig i gynhwysyddion o faint penodol: mae’r defnydd o gynhwysyddion diodydd o bob math yn fwy yn y cartref nag i ffwrdd ohono, ac eithrio poteli plastig bach sydd ar y cyfan yn debyg, a defnyddir cynwysyddion mawr i ffwrdd o gartref ar adegau gan bron hanner y bobl. Yn hynny o beth, nid yw’r cynlluniau ‘cynhwysfawr’ ac ‘wrth fynd’ yn gweddu â phatrymau naturiol ymddygiad defnyddwyr. Pan esboniwyd y dyluniadau gwahanol i gyfranogwyr, roedd y mwyafrif yn ffafrio’r model ‘cynhwysfawr’ oherwydd ei fod yn syml, heb fod angen datblygu gwahanol ymddygiad ar gyfer gwahanol fathau o ddeunydd. Y teimlad oedd, bod hynny yn llai o fwrn yn wybyddol, a chredodd llawer y byddent yn fwy tebygol o ymwneud â’r cynllun petaent yn gwybod ei fod yn cynnwys pob math o gynhwysion diod. Roedd ffafrio symlrwydd yn ymestyn at ddyluniad lefel yr ernes, pryd y ffefrir lefel unffurf ar gyfer pob math o gynhwysyn (gan gynnwys aml-becynnau yn yr ymchwil ansoddol). Mae’n debyg y byddai cynnwys cynwysyddion o bob maint yn y cynllun yn ysgogi effeithiolrwydd y cynllun ac yn lleihau dryswch.

8.3.2. Mae ymddygiad ailgylchu a gwaredu yn ddi-droi iawn a byddai creu cyfleodd aml i ddefnyddio’r cynllun yn fwy tebygol o arwain at ei ddefnydd fel rhan o arferion gwaredu. Hefyd, byddai creu un rheol unffurf ynghylch gwaredu yn fwy tebygol o arwain at gynhwysyddion a ddefnyddir i ffwrdd o’r cartref yn cael eu dychwelyd i’r cartref i’w hailgylchu yn hwyrach os nad oes man dychwelyd ar gael ar yr adeg y mae’r ddiod yn cael ei hyfed. Yn olaf, mae’r ymchwil ansoddol yn awgrymu bod perygl i’r model ‘i ffwrdd o’r cartref’ greu gwyrdroadau yn y farchnad, wrth i bobl newid i boteli mawr yn lle caniau a photeli bach o ran diod sy’n cael ei hyfed yn y cartref, neu’n newid i gartonau i’w hyfed oddi cartref.

- **Cadw pethau’n syml**: Llunio’r dyluniad ar sail y model ‘cynhwysfawr’ er mwyn lleihau’r baich gwybyddol ar bobl, ac i ennyn ymddygiad arferol a lleihau effeithiau’r farchnad. Yn

ddelfrydol, dylai'r pwyslais ar symlrwydd ymestyn i bob agwedd ar y cynllun, gan gynnwys lefel yr ernes.

## 8.4. Mannau Dychwelyd

8.4.1. Mae'n debygol y bydd defnydd o'r CDE yn fwy os yw'n gallu lleihau'r galw am newid ymddygiad ymhlith y cyhoedd – ac yn hynny o beth, blaenoriaeth glir y cyhoedd ar gyfer dyluniad y cynllun oedd y dylai fod yn gyflym a syml i'w ddefnyddio, gyda throthwy isel honedig ar gyfer anghyfleustra o ran ciwio, neu fel arall treulio amser yn dychwelyd. O'r arolwg a'r dadansoddiad ar y cyd roedd yn glir bod mannau dychwelyd wedi'u lleoli mewn archfarchnadoedd mawr yn cael eu ffafrio'n fawr, gan ei bod hi'n bosibl cyfuno dychweliadau â siopa wythnosol. Fodd bynnag, yn yr ymchwil ansoddol, roedd hynny wedi creu pryder ynghylch mynd yno i'r rhai heb gar, neu'r rhai nad ydynt yn siopa mewn archfarchnadoedd mawr, ac ategwyd hyn gan ganlyniadau'r arolwg a awgrymodd efallai y byddai'n llai cyfleus i grwpiau penodol fynd at fannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr. Yn hynny o beth, roedd galw am fannau dychwelyd eraill; mewn siopau llai ar y stryd fawr neu fannau dychwelyd wedi'u lleoli mewn ardaloedd canolog lle mae nifer y bobl yn uchel (e.e. gorsafoedd trafnidiaeth, parciau neu'r stryd fawr). O ran effeithiolrwydd, mae yna hefyd gwestiynau ynghylch pa mor dda y bydd mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr yn casglu gwastraff wedi'i ddefnyddio i ffwrdd o'r cartref. Yn olaf, yn y trafodaethau ansoddol, roedd rhai cyfranogwyr yn pryderu bod lleoli dychweliadau mewn archfarchnadoedd mawr yn gallu tynnu cwsmeriaid i ffwrdd o fusnesau llai.

- **Sicrhau bod dychwelyd fel swmp yn gyflym ac yn rhwydd**: Mae nifer yn disgwyl dychwelyd eu cynwysyddion fel swmp yn rhan o'u prif ymweliad â'r siop, felly bydd angen sicrhau bod mannau dychwelyd lluosog mewn archfarchnadoedd mawr wedi'u cynnal a'u monitro yn dda er mwyn lleihau'r amser yn ciwio.
- **Sicrhau cyfleodd eang i ddefnyddio'r cynllun**: Er mwyn sicrhau bod cyfleodd eang i ddefnyddio'r cynllun, bydd angen cael mannau dychwelyd

mewn lleoliadau sy’n rhwydd mynd atynt i’r rhai heb gar neu i’r rhai sy’n ei chael hi’n anodd cyrraedd archfarchnad gyda’i dychweliadau oherwydd problemau hygyrchedd. Bydd peiriannau mewn mannau lle mae defnydd uchel yn angenrheidiol ac rydym hefyd yn awgrymu casgliadau gan yrwyr dosbarthu nwyddau ar-lein a chasgliadau’r cyngor ar gyfer y rhai mwyaf agored i niwed. Efallai y byddai hefyd yn werth ystyried cynllun sydd wedi’i ddylunio i gyd-fynd â chasgliadau presennol yr awdurdod lleol ar gyfer diodydd sy’n cael eu hyfed yn y cartref er mwyn lleihau’r baich ar ddefnyddwyr.

- **Ystyried gwaredu i ffwrdd o’r cartref**: Oherwydd bod y rhan fwyaf wedi honni yn yr ymchwil ansoddol na fyddent yn fodlon mynd allan o’u ffordd i ddychwelyd cynhwysydd unigol pan fyddant oddi cartref, mae’n debygol y bydd angen nifer fawr o fannau dychwelyd i ffwrdd o’r cartref (e.e. mewn pob siop lle y gellir prynu diodydd) er mwyn hwyluso’r dychweliadau. Os nad yw hynny’n bosibl yna gellir defnyddio cyfathrebu i helpu annog normau cymdeithasol newydd ynghylch mynd â chynhwysyddion adre i’w hailgylchu gyda deunyddiau eraill, er mae’n debygol y bydd hynny’n llai effeithiol, yn enwedig yn y tymor byr.

## 8.5. Lefel yr Ernes

8.5.1. Mae angen i lefel yr ernes weithredu fel cymhelliad i ddefnyddio CDE. Os ydyw’n rhy isel, yna mae’n annhebygol o ysgogi ac mae’n fwy tebygol o fynd yn rhan o gostau a chael ei fforffedu. Ar y llaw arall, os yw’n rhy uchel, yna mae’n debygol o ddechrau dylanwadu ar benderfyniadau prynu a gellir ei ystyried yn gosb i’r rhai ag incwm isel a’r rhai a fydd yn ei chael hi’n fwy anghyfleus i ddychwelyd cynwysyddion diodydd gwag. Roedd y trothwy yn amrywio yn ôl yr unigolion: yn yr arolwg, roedd 10c a 20c wedi ennill yr un gefnogaeth (er ei bod yn aneglur o hyn pa un fyddai orau i ysgogi ymddygiad); yn yr ymchwil ansoddol, yn gyffredinol, ystyriwyd bod 15c hyd at 25c yn ysgogi heb effeithio ar ymddygiad, er bod rhai yn teimlo y byddai unrhyw beth uwch na 10c yn dechrau cosbi'r rhai ar

incwm isel neu gyda llai o gyfle i gyrraedd mannau dychwelyd. Dangosodd y dehongliad ar y cyd a oedd yn canolbwyntio ar debygolrwydd defnyddio yn hytrach na'r lefel ernes a ffefrir mai 10c a 25c oedd y symiau effeithiol. Er gwaethaf union lefel yr ernes, mae effeithiolrwydd yr ernes i ysgogi ymddygiad yn dibynnu ar sut y mae'n cael ei gyfleu a'r gwerth a roddir i'r weithred o wneud y dychweliad. Ymddangosodd rhai canllawiau clir yn yr ymchwil ansoddol ynghylch sut y gellir cyfleu'r ernes i gynyddu ei effeithiolrwydd. Hefyd, er y ffefrir dychweliadau arian parod yn yr arolwg, amlygodd yr ymchwil ansoddol y ffaith y byddai dewis o ddewisiadau dychwelyd o bosibl yn ysgogi teimlad o werth.

- **Defnyddio rhifau crwn**: Mae'r teimlad ei bod yn werth defnyddio CDE yn cynyddu wrth i bobl feddwl am wneud nifer o ddychweliadau – mae defnyddio rhif crwn, fel 20c, ar gyfer lefel yr ernes yn galluogi pobl i adio gwerth yr ernes yn hwylus ac felly mae'n cynyddu'r teimlad ei bod hi'n werth ei ddefnyddio.
- **Manteisio ar osgoi colled:** Manteisio ar y ffaith bod pobl yn ymateb yn gryfach i golli rhywbeth sydd eisoes yn eiddo iddynt drwy wneud yr ernes yn eglur iawn yn y man gwerthu ac ar gynhwysyddion – e.e. mae'r arian hwn eisoes yn eiddo i chi, y cwbl sydd rhaid ichi ei wneud yw ei hawlio'n ôl (neu fe fyddwch yn ei golli).
- **Cynnig dewis o ddulliau ad-dalu**: Er bod y rhan fwyaf yn ystyried bod angen dychweliadau arian parod i sicrhau bod cyfleoedd eang i ddefnyddio'r cynllun, bydd rhoi dewis yn cynnig rhywfaint o fantais. Roedd yn well gan rai pobl gyfleustra dychweliadau ar garden debyd, ac ystyrir bod llwybrau eraill yn cynnig manteision e.e. gallai dychweliadau elusennol sicrhau bod y gwerth yn fwy gweladwy a rhoi ymdeimlad da, gallai ap helpu pobl i olrhain gwerth eu dychweliadau dros gyfnod hir a chreu teimlad o werth yn cronni, ynghyd â darparu gwybodaeth am y cynllun, megis lleoliad mannau dychwelyd.

## Atodiad A: Sampl ansoddol a gyflawnwyd

### Cyfweliadau manwl

| | Pen-y-bont ar Ogwr /Caerdydd | Wrecsam | Llundain | Newcastle | Leeds | Bryste | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | | | | | | | |
| 16-24 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | **6** |
| 25-39 | 1 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | **8** |
| 40-59 | 1 | 1 | 2 | 1 | 2 | 1 | **8** |
| 60-69 | 1 | 1 | 1 | 0 | 1 | 1 | **5** |
| 70 + | 1 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | **3** |
| **Math o gartref** | | | | | | | |
| perchennog tŷ | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | **13** |
| perchennog fflat mewn bloc | 1 | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | **5** |
| rhentu fflat preifat mewn bloc | 1 | 1 | 2 | 0 | 1 | 1 | **6** |
| tai cymdeithasol (tŷ neu fflat) | 1 | 1 | 1 | 1 | 2 | 0 | **6** |
| **Perchen ar gar** | | | | | | | |
| perchennog car | 3 | 3 | 3 | 2 | 3 | 2 | **16** |
| heb fod yn berchen ar gar | 2 | 2 | 3 | 2 | 3 | 2 | **14** |
| **Trefol/gwledig*** | | | | | | | |
| trefol | 0 | 1 | 5 | 0 | 5 | 2 | **13** |
| lled-drefol /maestrefol | 2 | 0 | 1 | 2 | 1 | 2 | **8** |
| tref fach neu wledig | 3 | 4 | 0 | 2 | 0 | 0 | **9** |
| **Grŵp cymdeithasol** | | | | | | | |
| BC1 | 2 | 2 | 5 | 2 | 1 | 2 | **14** |
| C2DE | 3 | 3 | 1 | 2 | 5 | 2 | **16** |
| **Rhyw** | | | | | | | |
| gwryw | 1 | 2 | 3 | 1 | 4 | 2 | **13** |
| benyw | 4 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 | **17** |
| **Cyfanswm** | **5** | **5** | **6** | **4** | **6** | **4** | **30** |

| Plant | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfweliadau manwl gyda phlentyn 11-15 oed unrhyw gyfranogwr sy'n oedolyn. | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | **6** |

*wedi'i ddiffinio ei hun

**Grwpiau Trafod**

| | Oedran | Lleoliad | Cymru /Lloegr | Ymddygiad ailgylchu* | Ardal |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 16-24 | Trefol | Lloegr | DDIM YN GYDWYBODOL | Llundain |
| **2** | 16-24 | Lled-drefol | Gogledd Cymru | CYDWYBODOL | Wrecsam |
| **3** | 25-39 | Lled-drefol | Lloegr | DDIM YN GYDWYBODOL | Bryste |
| **4** | 25-39 | Trefol | De Cymru | DDIM YN GYDWYBODOL | Gogledd Caerdydd |
| **5** | 25-39 | Tref fach/gwledig | Lloegr | CYDWYBODOL | Manceinion |
| **6** | 40-59 | Lled-drefol | De Cymru | CYDWYBODOL | Gogledd Caerdydd |
| **7** | 40-59 | Tref fach/gwledig | Lloegr | DDIM YN GYDWYBODOL | Manceinion |
| **8** | 40-59 | Trefol | Lloegr | CYDWYBODOL | Llundain |
| **9** | 60+ | Lled-drefol | Lloegr | CYDWYBODOL | Bryste |
| **10** | 60+ | Tref fach/gwledig | Gogledd Cymru | DDIM YN GYDWYBODOL | Wrecsam |

* Wedi'i ddiffinio yn unol â diffiniad wedi'i addasu o arolwg tracio ailgylchu WRAP.[28]

Mewn ymateb i'r cwestiwn 'Yn eich barn chi, pa un o'r cwestiynau canlynol sydd yn eich disgrifio chi orau?' diffiniwyd y rhai a ddewisodd datganiad 1 (yn cynrychioli 51% o

[28] Recycling Tracker Report

boblogaeth y DU yn ôl arolwg tracio WRAP yn y gwanwyn) yn **gydwybodol** a'r rhai a ddewisodd ddatganiadau 2-5 **ddim yn gydwybodol**

1. Rwy'n dymuno bod yn ailgylchydd da iawn ac rwy'n ymdrechu i sicrhau fy mod yn gwneud popeth yn iawn
2. Mae ailgylchu yn beth da, ond nid wyf yn treulio gormod o amser yn poeni amdano - mae'r un pethau yn cael eu cynnwys bob wythnos ac rwy'n teimlo fy mod yn gwneud fy rhan
3. Mae ailgylchu yn dda mewn egwyddor, ond am nifer o resymau, nid wyf yn gwneud cymaint ag y dylwn
4. A dweud y gwir nid wyf yn siŵr bod ailgylchu yn werth yr ymdrech. Nid yw'n mynd i wneud unrhyw wahaniaeth os ydw i'n cymryd yr amser neu beidio
5. Rwy'n anghytuno ag ailgylchu – nid wyf yn gweld y pwynt

## Atodiad B: Canllawiau Testunau Ansoddol

**DEFRA – Ymchwil Cynllun Dychwelyd Ernes**

Canllaw Testun ar gyfer Cyfweliadau Manwl

**Cefndir yr ymchwil**

Mae Cynlluniau Dychwelyd Ernes (CDE) yn gweithredu ar y sail bod defnyddwyr yn talu ernes o flaen llaw wrth iddynt brynu cynnyrch wedi'i becynnu mewn cynhwysydd - megis can neu botel blastig. Gellir cael yr ernes yn ôl wrth ddychwelyd y cynhwysydd. Mae hyn yn annog dychwelyd pecynnau, gan ganiatáu iddynt gael eu hailgylchu. Fel rheol, dychwelir cynwysyddion i archfarchnadoedd a siopau, naill ai wrth y cownter neu drwy beiriant dychwelyd ernes awtomatig. Mae cynlluniau tebyg eisoes yn gweithredu mewn gwledydd megis Canada, Yr Almaen a thaleithiau Sgandinafia.

Yn dilyn galw am dystiolaeth ar fesurau i leihau taflu sbwriel cynwysyddion diodydd a hyrwyddo ailgylchu, mae Defra wedi cadarnhau, yn amodol ar ymgynghoriad, y bydd yn cyflwyno system CDE yn Lloegr, ac ar hyn o bryd, mae'n datblygu cynigion ar fodel, cwmpas a graddfa CDE. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynllun, ond mae ganddi hefyd ddiddordeb yn y ffordd orau i weithredu CDE, petai'n penderfynu cyflwyno un yng Nghymru.

Ar hyn o bryd, y deunyddiau i'w cwmpasu a gynigir yw, poteli plastig, poteli gwydr a chaniau metel ar gyfer unrhyw ddiodydd dialcohol (gan gynnwys dŵr a sudd), diodydd alcohol a diodydd sy'n cynnwys llaeth (ond nid llaeth ei hun na diodydd sy'n seiliedig ar blanhigion fel soia). Y tu hwnt i hyn, cynigir dau gynllun CDE: un sy'n rhoi ernes ar bob can neu botel rhwng 750ml ('i ffwrdd o gartref') ac un sy'n rhoi ernes ar bob can a photel waeth beth yw eu maint ('cynhwysfawr'). Nid yw lefel yr ernes ei hun wedi'i phennu ac mae'n amodol ar ymgynghoriad, gan gynnwys a ddylai fod un ffi ernes sylfaenol neu a ddylai amrywio yn ôl y math o gynhwysyn neu gynnyrch.


Nod yr ymchwil hwn yw deall sut mae defnyddwyr yng Nghymru a Lloegr yn debygol o ymateb i gyflwyno CDE a sut mae hyn yn debygol o amrywio yn ôl dyluniad y cynllun. Yn y pen draw, bydd yn darparu tystiolaeth i lywio dylunio CDE yn Lloegr ac o bosibl yng Nghymru.

Yn fwy penodol, nod yr ymchwil yw deall:

- Beth yw **agweddau defnyddwyr** tuag at CDE mewn egwyddor ('cynhwysfawr' ac 'wrth fynd' ill dau)?
- Yn ymarferol, sut byddai defnyddwyr **yn debygol o ddefnyddio'r** ddau fath o CDE?
- Sut dylid **dylunio, darparu a chyfathrebu ynghylch** CDE er mwyn sicrhau bod y nifer mwyaf yn ei ddefnyddio a lleihau unrhyw rwystrau o ran ei ddefnyddio, gan gynnwys lefel fwyaf effeithiol yr ernes?

- Beth fydd **lefelau defnyddio** ar gyfer gwahanol ddyluniadau CDE yn debygol o fod?

Bydd yr ymchwil yn digwydd drwy gyfres o gamau cydgysylltiedig:




**Amcanion ar gyfer y cam hwn**

Nodau penodol y cam hwn yn yr ymchwil yw deall:

- Ymddygiad presennol ynghylch gwaredu cynwysyddion a'r ysgogwyr sydd wrth ei wraidd
- Dealltwriaeth bresennol o gysyniad CDE a'r agweddau tuag at y syniad
- Defnydd tebygol o gynllun CDE a sut y gallai hynny amrywio yn ddibynnol ar ddyluniad.

Bydd pob cyfranogwr wedi cyflawni tasg hunan-ethnograffeg cyn ei gyfweliad, gan ddefnyddio ap ffôn symudol i nodi'r holl ddiodydd o fewn y cwmpas yr oedd wedi'u prynu a'r deunydd pacio ar eu cyfer a waredwyd yn ystod yr wythnos flaenorol. Defnyddir allbynnau'r dasg o flaen llaw hon i ysgogi rhan gyntaf y sgwrs. Nodwch nad yw cyfranogwyr wedi eu hysbysu nac wedi cael eu holi am eu barn ynghylch CDE fel rhan o'r dasg o flaen llaw.

Ar gyfer rhai cyfweliadau, byddwn hefyd yn cyfweld â phlentyn ar yr aelwyd - defnyddiwch y canllaw cryno ar wahân ar gyfer y cyfweliad hwnnw.

DS - nodwch fod Iceland/ Morrisons wedi cynnal cynllun yn rhai o'u siopau yn ddiweddar pryd mae cyfranogwyr yn gallu dychwelyd cynwysyddion a'u cyfnewid am wobrau siop. Mae'r cynllun hwn yn gweithredu ar sail wahanol (e.e. dim ernes) felly, nid oedd diddordeb gennym ni mewn ymatebion ynghylch hyn yn benodol, ond mae'n

bosibl bod cyfranogwyr wedi dod ar draws hwn, felly byddwch yn barod i drafod sut mae hwn yn wahanol a beth gall hynny ei olygu o ran defnydd/effeithiolrwydd/derbynioldeb.

**Ysgogiad a rhestr ddeunyddiau**

- Dictaffon
- Pen a phapur A4
- Taflenni llofnodi/ ffurflenni GDPR
- Taflenni'r dasg o flaen llaw wedi'u hargraffu
- Disgrifiad o gysyniad y CDE
- Senarios dyluniadau'r CDE

**Sylwch, nid sgript yw'r canllaw hwn a'r bwriad yw ei ddefnyddio mewn modd hyblyg, gydag ymatebion cyfranogwyr yn llywio llif y sgwrs, gan drafod testunau yn y drefn y maent yn codi'n naturiol**

**Bydd cymedrolwyr yn defnyddio cwestiynau atodol drwyddi draw i ddeall yr hyn sy'n ysgogi ymateb (e.e. PAM mae cyfranogwyr yn teimlo/ymddwyn yn y ffordd y maen nhw?)**

### 1. Cyflwyniad (2 funud)

| |
|---|
| *Cyflwyno'r ymchwil, tawelu'r meddwl ynghylch cyfrinachedd a gosod tôn y drafodaeth* |

- **Paratoi a chyflwyniad**
  - Cyflwyno'r cymedrolwr a Kantar Public – asiantaeth ymchwil gymdeithasol annibynnol
  - Ymchwil ar ran Defra/Llywodraeth Cymru i ddeall sut mae pobl yn cael gwared â chynwysyddion diodydd ar hyn o bryd a'u barn am ddulliau eraill o wneud hyn
  - Diolch am gwblhau'r rhagdasg – esboniwch y byddwn yn edrych ar yr hyn y maent wedi ei wneud heddiw
  - Hyd – 90 munud
  - Nid oes atebion cywir ac anghywir – diddordeb mewn barn onest.
  - Mae'r ymchwil yn wirfoddol – gallwch roi'r gorau i gymryd rhan unrhyw bryd
  - At ddibenion ymchwil yn unig y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio
  - Mae'r ymchwil yn gyfrinachol ac yn ddienw – ni fydd eich manylion personol yn cael eu rhannu, ac er y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ni fydd modd adnabod unrhyw un ynddo

- **Cofnodi**
  - Gofynnwch i'r cyfranogwr am ganiatâd i gofnodi, yna dechreuwch gofnodi a chadarnhau'r caniatâd
  - Unrhyw gwestiynau?

## 2. Paratoi (5 munud)

*Paratoi'r cyfranogwyr a sefydlu perthynas*

- **Cyflwyno'r cyfranogwr**
  - Enw, galwedigaeth, gyda phwy mae e'n byw
  - Un peth y mae'n ei hoffi/casáu am ei ardal leol
  - Hoff ddiodydd / y diodydd y mae'n eu prynu amlaf

## 3. Mapio ymddygiadau cyfredol (25 munud)

*Sefydlu ymddygiad presennol a beth sy'n sbarduno hyn*

*Y cymedrolwr i gyfeirio at ymatebion y rhagdasg i archwilio amrywiaeth o 'deithiau' gwaredu (e.e. o brynu → Defnyddio →* Gwaredu*), gan fapio pob un ar bapur fel y gellir cyfeirio atynt yn nes ymlaen*

- **Profiad cyffredinol o'r rhagdasg**
  - Sut oedd e'n teimlo am hyn?
  - A oedd hi'n wythnos arferol? Os na, beth oedd yn wahanol?
  - Unrhyw beth a'i synnodd wrth gwblhau'r ymarfer

- **Mapio'r daith –** *gofynnwch i'r cyfranogwr drafod gwahanol enghreifftiau o bethau y mae'n eu prynu / cael gwared â nhw o'i ragdasg er mwyn nodi gwahanol 'fathau' o deithiau* – DS yn yr adran hon, ceisiwch annog ymatebwyr i drafod ymddygiad nad yw'n 'gywir' - e.e. gadael can gwag ar drên – i'w drafod mewn adrannau diweddarach
  - Allan o beth oedd pob cynhwysydd wedi ei wneud (gwydr, potel blastig, cwpan tafladwy neu gan)?
  - Beth oedd y maint?
  - O ble y prynwyd ef?
  - Ble y defnyddiwyd ef?
  - Ble wnaeth gael gwared â'r cynhwysydd?
    - Gartref / bin ar y stryd / bin yn rhywle arall
    - Nid mewn bin – e.e. ei adael ar drên / yn y stryd ac ati

        - Ailgylchu / ddim yn ailgylchu / ddim yn siŵr
    - Ar gyfer pob achlysur, ceisiwch ddeall y sbardunau sylfaenol
        - Cyfleustra
        - Ystyriaethau amgylcheddol
        - Arfer (a yw'n gwneud hyn bob amser/a yw'n meddwl am y peth?)
        - Lleoliad cymdeithasol (a yw pwy sydd gydag ef yn dylanwadu ar ymddygiad?)
        - Lleoliad (a yw'r mannau gwaredu sydd ar gael yn dylanwadu ar ymddygiad?)
        - Unrhyw rai eraill?
    - A oedd hwn yn brofiad nodweddiadol?
    - A oes enghreifftiau eraill tebyg o'i ragdasg

    *Ailadroddwch nes bod pob taith wedi ei chynnwys, yna holwch a oes sefyllfaoedd eraill pan fydd yn prynu diod o bryd i'w gilydd mewn cynwysyddion nad ydynt wedi eu cynnwys yma ac ailadroddwch ar eu cyfer nhw*

    - Holwch ynghylch effaith tymhorau'r flwyddyn – e.e. y gwahaniaethau yn ystod yr haf ac ati.

    ***DS gwnewch yn siŵr eich bod yn cwmpasu cynwysyddion llai a mwy o faint (750ml a throsodd).***

- **Myfyrio ar deithiau –** *gofynnwch i'r cyfranogwr feddwl yn ôl am y gwahanol deithiau*

    - Yn gyffredinol, beth yw'r ffactorau pwysicaf sy'n sbarduno ei benderfyniad o ran ble i gael gwared â'r cynhwysydd?
    - Archwiliwch swyddogaeth gymharol y sbardunau
        - Cyfleustra
        - Ystyriaethau amgylcheddol
        - Arfer (a yw'n gwneud hyn bob amser/a yw'n meddwl am y peth?)
        - Lleoliad cymdeithasol (a yw pwy sydd gydag ef yn dylanwadu ar ymddygiad?)
        - Lleoliad (a yw'r mannau gwaredu sydd ar gael yn dylanwadu ar ymddygiad?)
        - Unrhyw rai eraill?
    - Sut mae ymddygiad/sbardunau yn gwahaniaethu ar draws y teithiau?
        - Effaith lleoliad ar yr hyn a ddefnyddir – oddi cartref/gartref/mewn mannau eraill
        - Effaith maint y cynhwysydd – cynwysyddion llai a mwy o faint

- Effaith math y cynhwysydd – potel wydr/potel blastig/cwpan tafladwy/can
  - A yw'r ffaith fod modd ailgau'r cynhwysydd yn ddylanwad

**4. Agweddau tuag at ailgylchu a'r cysyniad o CDE (15 munud)**

| |
|---|
| *Dylech ganolbwyntio ar agweddau tuag at ailgylchu a chyflwynwch y cysyniad o CDE* |

- **Yn gryno, agweddau tuag at ailgylchu**
  - Sut mae'n teimlo am ailgylchu?
    - I'r rheini sy'n teimlo ei fod yn bwysig, ceisiwch ganfod pam ...
      - Pryderon amgylcheddol
      - Contract cymdeithasol - 'y peth iawn i'w wneud'
      - Dylanwad pobl eraill – e.e. plant
      - I'r rheini nad ydynt yn teimlo ei fod yn bwysig, ceisiwch ganfod pam ddim
      - E.e. amser, ymdrech, y teimlad nad yw pobl eraill yn gwneud hynny, felly pam trafferthu

  - *Cyfeiriwch at yr ymarfer mapio* - beth sy'n sbarduno ymddygiad ailgylchu weithiau ac nid ar adegau eraill?
    - Effaith lleoliad ar yr hyn a ddefnyddir – oddi cartref/gartref/mewn mannau eraill
    - Effaith maint y cynhwysydd – cynwysyddion llai a rhai mwy
    - Effaith math y cynhwysydd – potel wydr/potel blastig/can

*Y cymedrolwr i esbonio bod Llywodraeth Cymru/Lloegr yn ystyried cyflwyno dull newydd o ailgylchu cynwysyddion diod. Hoffem gael eu hymateb i hyn a dangos y cysyniad o CDE*

- **Ymateb i'r cysyniad o CDE**
  - Ymatebion digymell
  - A yw wedi clywed am y math hwn o gynllun yn y gorffennol? Os felly, ymhle?
  - A all ei ddisgrifio yn ei eiriau ei hun?
  - A yw wedi profi'r math hwn o gynllun? Os felly, ymhle a sut brofiad gafodd?
  - Sut mae'n teimlo am hyn yn cael ei gyflwyno?
  - A yw'n syniad da? Pam/pam ddim? A ddylai'r Llywodraeth fwrw ymlaen?
  - Unrhyw bryderon?

**5.**

**Mapio Effaith Ymddygiadol (20 munud)**

| Archwiliwch effaith bosib cynlluniau CDE xxx ar ymddygiad gwaredu |
|---|

*Y cymedrolwr i esbonio y byddem nawr yn hoffi archwilio i weld pa effaith y gallai cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes ei chael ar ei ymddygiad*

*Cyflwynwch y senario CDE cyntaf, gan archwilio'r ymateb – cylchdrowch y drefn ar draws y cyfweliadau*

- **Ymateb i'r cysyniadau o CDE**
  - Yn gryno - sut y byddai'n teimlo pe bai hyn yn cael ei gyflwyno?
  - A fyddai'n ei ddefnyddio?

  - Cyfeiriwch yn ôl at deithiau allweddol a nodwyd yn adran 3, gan archwilio'r effaith ar ymddygiad
    - Ar gyfer pa rai fyddai e'n defnyddio'r CDE? Pam y rhain?
      - Beth fyddai hyn yn ei ddisodli?
      - Sut y byddai'n ei ddefnyddio? E.e. casglu mewn swmp neu ar sail fwy tameidiog?
      - Beth fyddai'n 'gweithio' a beth fyddai ddim yn gweithio?
    - A oes unrhyw deithiau lle na fyddai'n defnyddio'r CDE? Pam ddim?

  - Cyfeiriwch drwy gydol yr amser at y dylanwadau ymddygiadol cynharach er mwyn deall beth sy'n sbarduno ymddygiad
    - Cyfleustra
    - Ystyriaethau amgylcheddol
    - Arfer (a yw'n gwneud hyn bob amser/a yw'n meddwl am y peth?)
    - Lleoliad cymdeithasol (a yw pwy sydd gydag ef yn dylanwadu ar ymddygiad?)
    - Lleoliad (a yw'r mannau gwaredu sydd ar gael yn dylanwadu ar ymddygiad?)
    - Unrhyw rai eraill?
  - Gwnewch yn siŵr ein bod yn deall swyddogaeth lefel yr ernes nawr – pa mor bwysig yw hyn i gymell ymddygiad?

  - DS gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys gwahanol fathau o deithiau
    - Swyddogaeth lleoliad ar yr hyn a ddefnyddir – oddi cartref/gartref/mewn mannau eraill
    - Swyddogaeth maint y cynhwysydd – cynwysyddion llai a mwy o faint

- Swyddogaeth math y cynhwysydd – potel wydr/potel blastig/can
  - A yw'r ffaith fod modd ailgau'r cynhwysydd yn cael effaith

*Ailadroddwch ar gyfer senarios eraill*

### 6. Blaenoriaethau'r cynllun (20 munud)

*Archwiliwch pa elfennau cynllunio sydd fwyaf tebygol o sbarduno newid mewn ymddygiad*

*Y cymedrolwr i egluro y bydd yn rhaid i'r llywodraeth ystyried amrywiaeth o ystyriaethau gwahanol wrth lunio'r cynllun, felly hoffem archwilio rhai o'r dewisiadau hyn*

- **Barn gyffredinol ar effeithiolrwydd y senarios**
  - Pa un o'r senarios a ddangoswyd y mae e'n credu fyddai fwyaf tebygol o'i annog i ailgylchu *drwy'r CDE*?
  - Pa un o'r senarios fyddai fwyaf tebygol o'i annog i ailgylchu mwy yn gyffredinol – h.y. pethau nad yw'n eu hailgylchu gartref ar hyn o bryd?

- **Effeithiolrwydd y cynllun**
  - Gan feddwl am y ddau senario, pa mor bwysig, yn ei farn ef, yw dyluniad y cynllun o ran ei annog i'w ddefnyddio?
    - Lefel yr ernes
      - Pa mor uchel y mae angen i hyn fod er mwyn gwneud ailgylchu yn werth chweil?
      - A yw pris uwch yn ei gwneud yn fwy tebygol o ailgylchu?
      - Pa lefel sy'n ymddangos yn rhesymol iddo?
    - Lleoliad
      - I ba raddau y mae cyfleustra yn bwysig?
      - A fyddai'n ymddwyn yn wahanol pe bai'n rhaid iddo deithio ymhellach i ailgylchu?
      - Ble fyddai'n disgwyl/gobeithio gweld mannau dychwelyd?
    - Y math o ernes a ddychwelir
      - Pa wahaniaeth allai hyn ei wneud i ymddygiad ailgylchu?
      - A oes ganddo ei hoff ddull o gael ad-daliad ernes?
        - Holwch ynghylch: arian parod, drwy gerdyn yn uniongyrchol; talebau siop; rhoddion elusennol

- **Y cynllun a ffefrir**
  - Gan feddwl am y gwahanol elfennau, sut y byddai'n dylunio ei gynllun ei hun?
    - Lefel yr ernes
    - Lleoliad
    - Y math o ernes a ddychwelir
  - A yw hyn yn wahanol i'r hyn y mae'n teimlo fydd fwyaf effeithiol?

*Y cymedrolwr i egluro bod dwy ffordd y gellir gwneud Cynllun Dychwelyd Ernes. Yn llawer o'r modelau rhyngwladol, telir ernes ar bob potel, can a chwpan tafladwy, beth bynnag yw'r maint, neu mae dewis arall lle telir ernes ar boteli, cwpanau tafladwy a chaniau sydd <u>yn llai na 750ml</u> yn unig.*

- **Dewisiadau'r cynllun**
  - Pa rai sydd orau ganddo? Pam?
  - Beth allai 'weithio' a beth fyddai ddim yn gweithio?
  - Beth, yn ei farn ef, yw rhesymeg y llywodraeth yma?

## 6. Syniadau terfynol (3 munud)

| *Casglwch sylwadau terfynol a gorffen y cyfweliad* |
|---|

- Unrhyw gyngor terfynol i'r Llywodraeth ar sut y dylid gweithredu hyn?
- Unrhyw bryderon y mae'n dymuno eu mynegi i'r Llywodraeth
- Unrhyw beth arall yr hoffai ei drafod/rhannu

- Cadarnhau'r broses gymell - £75 naill ai fel taleb ar-lein (PERKS) neu fel taliad PayPal fel y'i trefnwyd â'r sawl sy'n recriwtio

**Gorffen**

**DEFRA - Ymchwil i'r Cynllun Dychwelyd Ernes**
Cyfweliad Manwl (pobl ifanc) Canllaw i'r Testun

## Cefndir yr ymchwil

Mae Cynlluniau Dychwelyd Ernes (CDE) yn gweithredu ar y sail bod defnyddwyr yn talu ernes ymlaen llaw wrth brynu cynnyrch sydd wedi ei bacio mewn cynhwysydd – megis can neu botel blastig. Mae modd cael ad-daliad ernes wedyn pan ddychwelir y cynhwysydd. Mae hyn yn annog pobl i ddychwelyd deunydd pacio, fel bod modd ei ailgylchu. Yn nodweddiadol, caiff cynwysyddion eu dychwelyd i archfarchnadoedd a siopau, naill ai wrth gownter neu beiriant dychwelyd ernes. Gweithredir cynlluniau fel hyn eisoes mewn gwledydd eraill, megis Canada, yr Almaen a gwladwriaethau Llychlyn.

Yn dilyn galwad am dystiolaeth ar fesurau i leihau'r arfer o daflu sbwriel ar ffurf cynwysyddion diod a hybu ailgylchu, mae Defra wedi cadarnhau, yn amodol ar ymgynghoriad, y bydd yn cyflwyno CDE yn Lloegr, ac ar hyn o bryd, maent yn datblygu cynigion ynghylch model, cwmpas a maint CDE. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynllun, ond mae ganddi ddiddordeb hefyd yn y ffordd orau o weithredu CDE, pe byddai'n penderfynu cyflwyno un yng Nghymru.


Y deunyddiau y cynigir eu bod yn berthnasol yw poteli plastig, poteli gwydr a chaniau metel ar gyfer pob diod ddialcohol (gan gynnwys dŵr a sudd), diodydd alcohol a diodydd sy'n cynnwys llaeth (ond nid llaeth ei hun na diodydd sy'n seiliedig ar blanhigion megis soia). Y tu hwnt i hyn, cynigir dau fodel CDE posibl: un sy'n gosod ernes ar yr holl ganiau a photeli sy'n llai na 750ml (poteli 'wrth fynd') ac un sy'n gosod ernes ar yr holl ganiau a photeli beth bynnag y bo eu maint ('cynhwysfawr'). Nid yw lefel yr ernes ei hun wedi ei gosod ac mae hynny'n amodol ar ymgynghoriad, gan gynnwys a ddylid cael un ffi safonol ar gyfer ernes neu a ddylid ei hamrywio yn unol â'r mathau o gynwysyddion neu gynnyrch.

Nod yr ymchwil hon yw deall sut y mae defnyddwyr yng Nghymru ac yn Lloegr yn debygol o ymateb i gyflwyno'r CDE a sut y mae hyn yn debygol o amrywio gan ddibynnu ar ddyluniad y cynllun. Yn y pen draw, bydd yn darparu tystiolaeth i lywio dyluniad effeithiol CDE yn Lloegr, ac yng Nghymru o bosibl.

Yn fwy penodol, nod yr ymchwil yw deall:

- Beth yw **agweddau defnyddwyr** tuag at CDE mewn egwyddor ('cynhwysfawr' ac 'wrth fynd')?
- Sut y mae defnyddwyr yn **debygol o ddefnyddio**'r ddau fath o Gynllun Dychwelyd Ernes yn ymarferol?
- Sut y dylid **cynllunio, cyflwyno a chyfleu** CDE er mwyn sicrhau y bydd y nifer mwyaf posibl yn defnyddio'r cynllun gan leihau rhwystrau posibl, gan gynnwys y lefel ernes fwyaf effeithiol?
- Beth yw'r **niferoedd sy'n debygol o ddefnyddio'r cynllun** ar gyfer gwahanol ddyluniadau CDE?

Bydd yr ymchwil yn mynd rhagddi ar draws cyfres o gamau cydgysylltiedig:




**Amcanion ar gyfer y cam hwn**

Y nodau penodol ar gyfer y cam hwn o'r ymchwil yw deall:

- Yr ymddygiad presennol ynghylch cael gwared â chynwysyddion a sbardunau sylfaenol y rhain
- Ymwybyddiaeth bresennol ynghylch cysyniad y Cynllun Dychwelyd Ernes ac agweddau tuag at y syniad
- Y defnydd tebygol o Gynllun Dychwelyd Ernes a sut y gallai hyn amrywio gan ddibynnu ar ddyluniad y cynllun

**Mae'r canllaw hwn ar gyfer cyfweliadau â phobl ifanc i ddilyn y cyfweliadau â'r prif ddeiliaid tai. Bydd y cyfweliad yn ymdrin â'r un pynciau ond caiff ei grynhoi i gyd-fynd â'r llinell-amser ac nid yw'n cyfeirio at y rhagdasg, gan na fydd pobl ifanc wedi cwblhau hynny.**

DS sylwch fod Iceland/Morrisons wedi cynnal cynllun yn rhai o'u siopau yn ddiweddar lle gall cyfranogwyr ddychwelyd eu cynwysyddion yn gyfnewid am wobrau'r siop. Mae'r cynllun hwn yn gweithio ar system wahanol (e.e. dim ernes) ac felly nid oes gennym ddiddordeb mewn ymatebion penodol am hyn. Ond mae'n bosibl y bydd cyfranogwyr wedi dod ar draws hyn felly byddwch yn barod i siarad am sut mae hyn yn wahanol a beth allai ei olygu o ran defnydd/effeithiolrwydd/ derbynioldeb.

**Rhestr o ddeunyddiau a sbardun**

- Dictaffon
- Ysgrifbin a phapur A4
- Taflen lofnodi / ffurflen GDPR

- Argraffiadau o’r rhagdasg
- Disgrifiad o gysyniad Cynllun Dychwelyd Ernes
- Senarios dylunio Cynllun Dychwelyd Ernes

**Nodwch nad sgript yw'r canllaw hwn. Y bwriad yw ei ddefnyddio mewn modd hyblyg, gydag ymatebion y cyfranogwyr yn llywio llif y sgwrs a’r pynciau a drafodir yn y drefn y maent yn codi'n naturiol**

**Bydd cymedrolwyr yn defnyddio dilyniant ychwanegol drwy’r amser er mwyn deall beth sy'n sbarduno ymateb (e.e. PAM mae cyfranogwyr yn teimlo/ymddwyn fel ag y maent?)**

## 1. Cyflwyniad (2 funud)

*Cyflwyno’r ymchwil, tawelu’r meddwl ynghylch cyfrinachedd a gosod tôn y drafodaeth*

- **Paratoi a chyflwyniad**
  - Cyflwyno’r cymedrolwr a Kantar Public – asiantaeth ymchwil gymdeithasol annibynnol
  - Ymchwil ar ran Defra/Llywodraeth Cymru i ddeall sut mae pobl yn cael gwared â chynwysyddion diodydd ar hyn o bryd a'u barn ynghylch dulliau eraill o wneud hyn
  - Diolch am gwblhau'r rhagdasg – esboniwch y byddwn yn edrych ar yr hyn y maent wedi ei wneud heddiw
  - Hyd – 90 munud
  - Nid oes atebion cywir nac anghywir – diddordeb mewn barn onest.
  - Mae’r ymchwil yn wirfoddol – gallwch roi'r gorau i gymryd rhan unrhyw bryd
  - At ddibenion ymchwil yn unig y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio
  - Mae’r ymchwil yn gyfrinachol ac yn ddienw – ni fydd eich manylion personol yn cael eu rhannu ac er y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi, ni chaiff neb ei adnabod o fewn hynny

- **Cofnodi**
  - Gofynnwch i'r cyfranogwr am ganiatâd i gofnodi, yna dechreuwch gofnodi a chadarnhau'r caniatâd
  - Unrhyw gwestiynau?

## 2. Paratoi (3 munud)

*Paratoi'r cyfranogwyr a sefydlu perthynas*

- **Cyflwyno'r cyfranogwr**
  - Enw, hobïau/diddordebau, gyda phwy maen nhw'n byw
  - Un peth mae'n ei hoffi/casáu am ei ardal leol

## 3. Archwilio ymddygiadau cyfredol (10 munud)

*Sefydlu ymddygiad presennol a beth sy'n sbarduno hyn*

*Y cymedrolwr i archwilio ymddygiadau prynu a gwaredu gan eu mapio*

- **Arferion defnyddio**
  - Gan feddwl am wythnos arferol, pa ddiodydd y mae'n arfer eu hyfed sy'n dod mewn potel blastig neu wydr, can neu gwpan tafladwy?
  - Pwy sy'n gwneud penderfyniadau prynu yn yr aelwyd? A yw ef yn prynu ei ddiodydd ei hun o gwbl? A yw ef yn penderfynu beth a brynir?

*Y cymedrolwr i esbonio yr hoffem yn awr iddynt feddwl yn ôl am yr wythnos diwethaf am adegau pan oeddent wedi yfed a chael gwared â diod mewn potel blastig neu wydr, can neu gwpan tafladwy. Os yw'n bosibl, gofynnwch iddynt feddwl am deithiau y maent wedi prynu diodydd arnynt, yn ogystal â theithiau y maent wedi yfed diodydd a gymerwyd o'r cartref arnynt.*

- **Teithiau gwaredu –** *ar gyfer pob cofnod, ceisiwch gipio oddeutu 3*
  - Allan o beth oedd pob cynhwysydd wedi ei wneud (gwydr, potel blastig, cwpan tafladwy neu gan)?
  - Beth oedd y maint?
  - O ble y prynwyd/cafwyd ef?
  - Ble y defnyddiwyd ef?
  - Ble wnaeth ef gael gwared â'r cynhwysydd?
    - Gartref / bin ar y stryd / bin yn rhywle arall
    - Nid mewn bin – e.e. ei adael ar drên / yn y stryd ac yn y blaen.
    - Ailgylchu / ddim yn ailgylchu / ddim yn siŵr
  - Ar gyfer pob achlysur, ceisiwch ddeall y sbardunau sylfaenol
    - Cyfleustra
    - Ystyriaethau amgylcheddol
    - Arfer (a yw ef yn gwneud hyn bob amser/a yw ef yn meddwl am y peth?)

        - Lleoliad cymdeithasol (a yw pwy sydd gydag ef yn dylanwadu ar ymddygiad?)
        - Lleoliad (a yw'r mannau gwaredu sydd ar gael yn dylanwadu ar ymddygiad?)
        - Unrhyw rai eraill?
    - A oedd hwn yn brofiad nodweddiadol?

## 4. Agweddau tuag at ailgylchu a'r cysyniad o CDE (15 munud)

*Canolbwyntiwch ar agweddau tuag at ailgylchu a chyflwynwch y cysyniad o CDE*

- **Yn gryno, agweddau tuag at ailgylchu**
    - Sut mae ef yn teimlo ynghylch ailgylchu?
        - I'r rhai hynny sy'n teimlo ei fod yn bwysig, archwiliwch pam ...
            - Pryderon amgylcheddol
            - Contract cymdeithasol - 'y peth iawn i'w wneud'
            - Dylanwad pobl eraill – e.e. rhieni
        - I'r rhai hynny sy'n teimlo nad yw'n bwysig, archwiliwch pam ...
            - E.e. amser, ymdrech, teimlad nad yw pobl eraill yn gwneud hynny felly pam y dylem drafferthu
        - Archwiliwch unrhyw wahaniaethau o'u cymharu â'u rhieni a sbardunau hyn

    - *Cyfeiriwch at yr ymarfer mapio* - beth sy'n sbarduno ymddygiad ailgylchu ar rai adegau ac nid ar adegau eraill?
        - Effaith lleoliad ar yr hyn a ddefnyddir – oddi cartref/gartref/mewn mannau eraill
        - Effaith maint y cynhwysydd – cynwysyddion llai a rhai mwy
        - Effaith math y cynhwysydd – potel wydr/potel blastig/can

*Y cymedrolwr i esbonio bod Llywodraeth Cymru/Lloegr yn ystyried cyflwyno dull newydd o ailgylchu cynwysyddion diod, yr hoffem gael eu hymateb tuag ato a dangoswch gysyniad y Cynllun Dychwelyd Ernes*

- **Ymateb tuag at y cysyniad o CDE**
    - Ymatebion digymell
    - A yw wedi clywed am y math hwn o gynllun yn y gorffennol? Os felly, ymhle?
    - A all ef ei ddisgrifio yn ei eiriau ei hun?
    - A yw ef wedi profi'r math hwn o gynllun? Os felly, ymhle a sut brofiad ydoedd?
    - Sut mae ef yn teimlo ynghylch cyflwyno hyn?
    - A yw'n syniad da? Pam/ddim? A ddylai'r Llywodraeth fynd yn ei blaen?
    - Unrhyw bryderon?

## 5. Mapio Effaith Ymddygiadol (10 munud)

| |
|---|
| *Archwiliwch effaith bosibl cynlluniau CDE xxx ar ymddygiad gwaredu* |

*Y cymedrolwr i esbonio y byddem yn hoffi archwilio yn awr pa effaith y gallai cyflwyno CDE yn ei chael ar ei ymddygiad*

*Cyflwynwch y senario CDE cyntaf ac archwiliwch yr ymatebiadau – cylchdrowch y drefn ar draws y cyfweliadau*

- **Ymateb tuag at y cysyniadau o CDE**
  - Yn gryno - sut y byddai ef yn teimlo pe byddai hyn yn cael ei gyflwyno?
  - A fyddai ef yn ei ddefnyddio ef?

  - Cyfeiriwch at y teithiau allweddol a nodwyd yn adran 3 ac archwiliwch yr effaith ar ymddygiad
    - Ar gyfer pa rai fyddai ef yn defnyddio'r CDE? Pam y rhain?
      - Beth fyddai hyn yn ei ddisodli?
      - Sut y byddai ef yn ei ddefnyddio ef? E.e. swmp gasglu neu'n fwy tameidiog?
      - Beth fyddai'n 'gweithio' a beth na fyddai'n gweithio?
    - A oes unrhyw deithiau lle na fyddai'n defnyddio'r CDE? Pam ddim?

  - Cyfeiriwch drwy gydol yr amser at y dylanwadau ymddygiadol cynharach er mwyn deall beth sy'n sbarduno ymddygiad
    - Cyfleustra
    - Ystyriaethau amgylcheddol
    - Arfer (a yw ef yn gwneud hyn bob amser/a yw ef yn meddwl am y peth?)
    - Lleoliad cymdeithasol (a yw pwy sydd gydag ef yn dylanwadu ar ymddygiad?)
    - Lleoliad (a yw'r mannau gwaredu sydd ar gael yn dylanwadu ar ymddygiad?)
    - Unrhyw rai eraill?
  - Sicrhewch ein bod ni'n deall swyddogaeth lefel yr ernes yn awr – pa mor bwysig yw hyn fel cymhelliant ymddygiad?

  - DS sicrhewch eich bod yn cwmpasu gwahanol fathau o deithiau

        - Effaith lleoliad ar yr hyn a ddefnyddir – oddi cartref/gartref/mewn mannau eraill
        - Effaith maint y cynhwysydd – cynwysyddion llai a rhai mawr
        - Effaith math y cynhwysydd – potel wydr/potel blastig/can
            - Mesurwch effaith a yw'r cynhwysydd yn ailgaeadwy ai peidio

*Ailadroddwch ar gyfer senarios eraill*

**6. Blaenoriaeth gynllunio (5 munud)**

| *Archwiliwch pa elfennau cynllunio sydd fwyaf tebygol o sbarduno newid mewn ymddygiad* |
|---|

*Y cymedrolwr i egluro y bydd yn rhaid i'r llywodraeth ystyried amrywiaeth o ystyriaethau gwahanol wrth lunio'r cynllun, ac felly, fe hoffem archwilio rhai o'r dewisiadau hyn – gan feddwl yn benodol am yr hyn a fyddai fwyaf tebygol o'i annog i ailgylchu drwy'r CDE.*

- **Barn gyffredinol ar effeithiolrwydd y senarios**
    - Pa un o'r senarios a ddangoswyd y mae ef yn credu byddai fwyaf tebygol o'i annog ef i ailgylchu?
    - Gan feddwl am y ddau senario, pa mor bwysig, yn eu barn ef, yw amlinelliad y cynllun o ran ei annog i'w ddefnyddio ef?
        - Lefel yr Ernes
            - Pa mor uchel y mae angen i hyn fod er mwyn gwneud ailgylchu yn werth chweil?
            - A yw pris uwch yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd ef yn ailgylchu?
            - Pa lefel sydd i'w gweld yn rhesymol iddo?
        - Lleoliad
            - I ba raddau mae cyfleustra yn bwysig?
            - A fyddai'n ymddwyn yn wahanol pe byddai'n rhaid iddo deithio ymhellach i ailgylchu?
            - Ble fyddai'n disgwyl/gobeithio gweld mannau dychwelyd?
        - Y math o ernes a ddychwelir
            - Pa wahaniaeth allai hyn ei wneud o ran ymddygiad ailgylchu?
            - A oes ganddo ddull dewisol o adfeddu Ernesau?
                - Holwch: Arian parod, drwy gerdyn yn uniongyrchol; talebau siop; roddion elusennol

## 6. Syniadau terfynol

| |
|---|
| *Cesglwch sylwadau terfynol a gorffen y cyfweliad* |

- Unrhyw gyngor terfynol i'r Llywodraeth ar sut y dylid gweithredu hyn?
- Unrhyw bryderon y mae'n dymuno eu mynegi i'r Llywodraeth
- Unrhyw beth arall yr hoffai ei drafod/rhannu

**Gorffen**

**DEFRA - Ymchwil i'r Cynllun Dychwelyd Ernes**
Canllaw i'r Testun ar gyfer Trafodaeth Grŵp

## Cefndir yr ymchwil

Mae Cynlluniau Dychwelyd Ernes (CDE) yn gweithredu ar y sail bod defnyddwyr yn talu ernes ymlaen llaw wrth brynu cynnyrch sydd wedi ei bacio mewn cynhwysydd – megis can neu botel blastig. Gellir adfeddu'r ernes hwn wedyn pan ddychwelir y cynhwysydd. Mae hyn yn annog pobl i ddychwelyd deunydd pacio, sy'n ei gwneud hi'n bosibl i'w ailgylchu. Yn nodweddiadol, caiff cynwysyddion eu dychwelyd i archfarchnadoedd a siopau, naill ai wrth gownter neu beiriant dychwelyd ernes. Gweithredir cynlluniau fel hyn eisoes mewn gwledydd eraill, megis Canada, yr Almaen a gwladwriaethau Llychlyn.

Yn dilyn galwad am dystiolaeth ynghylch mesurau i leihau'r arfer o daflu sbwriel ar ffurf cynwysyddion diod a hybu ailgylchu, yn amodol ar ymgynghoriad, cadarnhaodd y Llywodraeth y bydd yn cyflwyno CDE yn Lloegr. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynllun, ond mae ganddi ddiddordeb hefyd yn y ffordd orau o weithredu CDE, pe byddai'n penderfynu cyflwyno un yng Nghymru. Ym mis Chwefror, cyhoeddodd Llywodraethau'r DU a Chymru, ynghyd â'r Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon, ymgynghoriad ar gyflwyno CDE ar gyfer cynwysyddion diod yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Y deunyddiau perthnasol y cynigir eu bod yn cael eu cynnwys yn y CDE yw poteli plastig, poteli gwydr a chaniau metel ar gyfer pob diod ddialcohol (gan gynnwys dŵr a sudd), diodydd alcohol a diodydd sy'n cynnwys llaeth (ond nid llaeth ei hun na diodydd sy'n seiliedig ar blanhigion megis soia). Y tu hwnt i hyn, cynigir dau fodel CDE posibl: un sy'n gosod ernes ar yr holl ganiau a photeli sy'n llai na 750ml ('wrth fynd') ac un sy'n gosod ernes ar yr holl ganiau a photeli beth bynnag y bo eu maint ('cynhwysfawr' ac 'wrth fynd'). Nid yw lefel yr ernes ei hun wedi ei gosod ac mae hynny'n amodol ar ymgynghoriad, gan gynnwys a ddylid cael un ffi safonol ar gyfer ernes neu a ddylid ei hamrywio yn unol â'r mathau o gynwysyddion neu gynnyrch.


Nod yr ymchwil hwn yw deall sut y mae defnyddwyr yng Nghymru ac yn Lloegr yn debygol o ymateb i gyflwyniad CDE a sut y mae hyn yn debygol o amrywio gan ddibynnu ar amlinelliad y cynllun. Yn y pen draw, bydd yn darparu tystiolaeth i lywio amlinelliad effeithiol CDE yn Lloegr, ac yng Nghymru o bosibl.

Yn fwy penodol, nod yr ymchwil yw deall:

- Beth yw **agweddau defnyddwyr** tuag at CDE mewn egwyddor ('cynhwysfawr' ac 'wrth fynd')?
- Sut y mae defnyddwyr yn **debygol o ddefnyddio**'r ddau fath o CDE yn ymarferol?
- Sut y dylid **dylunio, cyflwyno a chyfleu** CDE er mwyn sicrhau y bydd y nifer mwyaf posibl yn defnyddio'r cynllun gan leihau rhwystrau posibl, gan gynnwys y lefel ernes fwyaf effeithiol?

- Beth yw'r **niferoedd sy'n debygol o ddefnyddio'r cynllun** ar gyfer gwahanol ddyluniadau CDE?

Bydd yr ymchwil yn bwrw ymlaen gyda chyfres o gamau cydgysylltiedig:




**Amcanion ar gyfer y cam hwn**

Yr amcanion penodol ar gyfer y cam hwn o'r ymchwil yw adeiladu ar ddealltwriaeth a ddatblygwyd yn ystod y cyfweliad manwl er mwyn dwysáu dealltwriaeth o'r canlynol:

- Ymwybyddiaeth bresennol o gysyniad y CDE ac agweddau tuag at y syniad defnydd tebygol o ddyluniad model CDE, y cymhellion i'w ddefnyddio a gwahaniaethau disgwyliedig ar draws sefyllfaoedd a mathau o gynwysyddion
- Ystyriaethau ar gyfer llunio'r cynllun er mwyn sbarduno effeithiolrwydd, gan gynnwys unrhyw rwystrau ymarferol rhag ei ddefnyddio

DS sylwch fod Iceland/Morrisons wedi cynnal cynllun yn rhai o'u siopau yn ddiweddar lle gall cyfranogwyr ddychwelyd eu cynwysyddion yn gyfnewid am wobrau'r siop. Mae'r cynllun hwn yn gweithio ar system wahanol (e.e. dim ernes) ac felly nid oes gennym ddiddordeb mewn ymatebion penodol am hyn, ond mae'n bosibl y bydd cyfranogwyr wedi dod ar draws hyn felly byddwch yn barod i siarad am sut mae hyn yn wahanol a beth allai hynny ei olygu o ran defnydd/effeithiolrwydd/ derbynioldeb.

**Rhestr ddeunyddiau a sbardun**

- Dictaffon
- Ysgrifbin a phapur A4
- Taflen lofnodi / ffurflen GDPR

| | | **Maint** | **Copïau** |
|---|---|---|---|
| **Sbardun 1** | Diodydd perthnasol | A3 | X 2 fwrdd |
| **Sbardun 2** | Cysyniad y CDE | A3 | X 2 fwrdd |
| **Sbardun 3** | Manylion y CDE | A3 | X 2 fwrdd |
| **Sbardun 4** | Senarios | A4 | X 8 set taflen |

**Nodwch, nid sgript yw'r canllaw hwn a'r bwriad yw ei ddefnyddio mewn modd hyblyg, gydag ymatebion y cyfranogwyr yn llywio llif y sgwrs, y pynciau a drafodir yn y drefn y maent yn codi'n naturiol**

**Bydd cymedrolwyr yn defnyddio dilyniant ychwanegol drwy'r amser er mwyn deall beth sy'n sbarduno ymateb (e.e. PAM mae cyfranogwyr yn teimlo/ymddwyn fel ag y maent?)**

**1. Cyflwyniad (3 munud)**

*Cyflwyno'r ymchwil, tawelu meddwl ynghylch cyfrinachedd a gosod tôn y drafodaeth*

- **Paratoi a chyflwyniad**
  - Cyflwyno cymedrolwr a Kantar Public – asiantaeth ymchwil gymdeithasol annibynnol
  - Ymchwil ar ran Defra/Llywodraeth Cymru er mwyn deall ymatebion ynghylch dull newydd o ailgylchu cynwysyddion diod
  - Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio'r broses gynllunio
  - Hyd – 2 awr
  - Nid oes atebion cywir nac anghywir – diddordeb mewn barn onest.
  - Mae'r ymchwil yn wirfoddol – gallwch roi'r gorau i gymryd rhan unrhyw bryd
  - At ddibenion ymchwil yn unig y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio
  - Mae'r ymchwil yn gyfrinachol ac yn ddienw – ni fydd eich manylion personol yn cael eu rhannu ac er y bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi, ni fydd neb yn cael ei adnabod o fewn hynny

- **Cofnodi**
  - Gofynnwch i'r cyfranogwr am ganiatâd i gofnodi, yna dechreuwch gofnodi a chadarnhau'r caniatâd
  - Unrhyw gwestiynau?
  -

**2. Paratoi (7 munud)**

*Paratoi'r cyfranogwyr a sefydlu perthynas*

*Y cymedrolwr i esbonio yr hoffem ddod i adnabod y cyfranogwyr yn gyntaf a – chan y byddwn yn siarad am gael gwared â chynwysyddion diod – fe fyddem ni hefyd yn hoffi deall ychydig am y diodydd y maent yn eu prynu a'u hyfed ar hyn o bryd*

- **Cyflwyno'r cyfranogwr**
  - Enw, galwedigaeth, gyda phwy mae e'n byw
  - Diodydd a brynwyd y maent yn eu hyfed yn rheolaidd ... (dangoswch **sbardun 1_ diodydd perthnasol** fel awgrym)
    - Gartref
    - Oddi cartref

## 3. Ymddygiad ac agweddau ynghylch ailgylchu/taflu sbwriel (15 munud)

| |
|---|
| *Cadarnhau'r ymddygiad ailgylchu presennol (gartref ac oddi cartref) a'r sbardunau sylfaenol o ran ymddygiad ailgylchu er mwyn meithrin dealltwriaeth gyd-destunol* |

*Y cymedrolwr i esbonio y byddwn yn sôn am ailgylchu heddiw a'n bod ni eisiau deall yr hyn y mae pobl yn ei wneud ar hyn o bryd – pwysleisiwch nad prawf yw hyn a bod gennym ddiddordeb mewn atebion gonest, nid yr hyn y maent yn teimlo y DYLENT ei ddweud*

- **Ymddygiad ailgylchu**
  - Ymddygiad ailgylchu presennol yn y cartref (canolbwyntio ar boteli, caniau ac ati)
    - A yw'n ailgylchu gartref
    - Beth mae e'n ei ailgylchu
    - Sut mae ef yn ailgylchu (e.e. biniau unigol, biniau cymunedol, mynd ag ef i'r ganolfan ailgylchu ac ati)
    - Pa mor gyson y mae'n ailgylchu
    - A oes yna adegau pan nad yw'n ailgylchu
    - A yw'n golchi neu'n paratoi deunyddiau fel arall
    - A yw'n glir beth y mae gofyn iddo ei wneud / unrhyw beth sy'n aneglur
  - Ymddygiad ailgylchu presennol oddi cartref
    - A yw ef yn ailgylchu wrth gael gwared â chynwysyddion diod oddi cartref
    - Adegau pan mae / nad yw'n ailgylchu
    - Pan mae e'n ailgylchu, sut mae'n gwneud hyn
      - E.e. aros nes iddo ddod o hyd i bin priodol; mynd ag ef adref

- **Agweddau tuag at ailgylchu**
  - Pam mae e'n ailgylchu
  - I'r rheini sy'n teimlo ei fod yn bwysig, ceisiwch ganfod pam ...
    - Pryderon amgylcheddol
    - Contract cymdeithasol - 'y peth iawn i'w wneud'
    - Dylanwad pobl eraill – e.e. plant
    - Hwylustod/cyfleustra ailgylchu
  - I'r rheini sy'n teimlo nad yw'n bwysig, ceisiwch ganfod pam ddim ...
    - E.e. amser, ymdrech, teimlad nad yw pobl eraill yn gwneud hynny, felly pam trafferthu

- **Taflu sbwriel** (yn gyflym iawn)
  - A yw'n cael gwared â chynwysyddion diodydd gwag weithiau heb ddefnyddio bin
    - Holwch ynghylch gadael pethau yn sefyll ar drên / neu ar yr ochr
    - Holwch am ei ymddygiad 'wrth fynd' e.e. cerdded o gwmpas, mewn parciau ac yn y blaen.
    - Beth sy'n sbarduno ymddygiad yn yr achosion hyn
  - Faint o broblem yw sbwriel yn ei ardal leol
  - Sut mae'n teimlo am daflu sbwriel?

## 4. Ymateb i'r cysyniad o CDE (20 munud)

| *Cyflwyno cysyniad y CDE a nodi'r ymatebion cychwynnol* |
|---|

*Y cymedrolwr i esbonio bod Llywodraeth Cymru/Lloegr yn ystyried cyflwyno dull newydd o ailgylchu cynwysyddion diod yr hoffem gael ei ymateb iddo*

Dangoswch **sbardun 2_cysyniad y CDE**

- **Ymateb i'r cysyniad o CDE**
  - Ymatebion digymell
  - Ymwybyddiaeth o'r math hwn o gynllun
  - Unrhyw brofiad blaenorol o'r math hwn o gynllun (e.e. dramor; yn y gorffennol)
  - Teimladau ynghylch cyflwyno'r cynllun
  - Cefnogaeth i'r cynllun - a ddylai fynd rhagddo
  - Unrhyw bryderon
    - Cymedrolwr yn pennu: gall biniau ailgylchu gartref gael eu hysbeilio am gynwysyddion diodydd

- **Disgwyliadau**
  - Lefel yr ernes – beth fyddai'n ei ddisgwyl o ran lefel yr ernes
  - Lleoliad – ble fyddai'n disgwyl gallu dychwelyd poteli
  - System – beth mae e'n ei ddisgwyl o ran y drefn ddychwelyd

*Y cymedrolwr i esbonio y byddem yn hoffi esbonio'n fanylach nawr sut y gallai'r cynllun weithio'n ymarferol. Dylech egluro nad yw cwmpas y cynllun wedi ei bennu eto, bod y llywodraeth yn ystyried gwahanol ddewisiadau, ac mai hwn yn un posibilrwydd yn unig yr hoffem glywed ei farn arno.*

Dangoswch **sbardun 3_manylion y CDE**

- **Ymateb i fanylion y CDE**
  - Ymatebion digymell
  - I ba raddau y mae hyn yn cyd-fynd â disgwyliadau
    - Gwiriwch lefel yr ernes a'r lleoliad
  - A yw'n meddwl y byddai'n ei ddefnyddio
    - O ran diodydd sy'n cael eu hyfed gartref
    - O ran diodydd sy'n cael eu hyfed oddi cartref
    - Ar gyfer rhai deunyddiau/meintiau ond nid ar gyfer rhai eraill
  - Gwiriwch ei gymhellion dros eu defnyddio
    - Pryderon amgylcheddol
    - Dyletswydd ddinesig
    - Ariannol
    - Eraill
  - Unrhyw bryderon

## 5. Ymatebion ymddygiadol i'r CDE (45 munud)

*Archwiliwch y defnydd posibl o CDE ar draws gwahanol deithiau posibl*

*Y cymedrolwr i esbonio y byddem yn awr yn hoffi ymchwilio'n fanylach i sut y gallai ddisgwyl defnyddio'r cynllun mewn bywyd go iawn. Eglurwch ein bod yn mynd i ddangos nifer o sefyllfaoedd gwahanol y gallai ganfod ei hun ynddynt, ac rydym eisiau deall a fyddai'n defnyddio'r CDE ai peidio. Ni fydd pob sefyllfa yn berthnasol i bawb, ac enghreifftiau yn unig yw'r delweddau, ond ceisiwch roi eich hun yn y sefyllfa.*

*DS ar gyfer pob un, archwiliwch sut y byddai ymatebion yn wahanol gyda gwahanol fathau/meintiau/deunyddiau o gynwysyddion*

Dangoswch **sbardun 4_senarios gwaredu** ac ar gyfer pob un archwiliwch

- **Ymateb i'r senarios**
  - A yw'n gallu uniaethu â'r sefyllfa
  - A fyddai'n defnyddio CDE – pam/pam ddim
    - Nodwch unrhyw rwystrau rhag ei ddefnyddio – e.e. anghyfleustra
  - Sut y byddai'n ei ddefnyddio
    - Gartref
      - Sut/ble fyddai'n storio cynwysyddion cyn cael gwared â nhw
      - Sut y byddai'n mynd i gael gwared â nhw
      - Pa mor aml/pryd y byddai'n mynd i gael gwared â nhw

        - Sut y byddai hyn yn effeithio ar arferion presennol ailgylchu ar garreg drws
    - Oddi cartref
        - Beth y byddai'n ei wneud â chynhwysydd cyn cael gwared ag ef
        - Pryd y byddai'n mynd i gael gwared ag ef (e.e. ar unwaith neu a fyddai'n mynd ag ef adref yn gyntaf)
  - Gwiriwch am unrhyw wahaniaethau yn ôl maint/mathau o gynhwysyddion (dangoswch **sbardun 1_diodydd perthnasol** fel awgrym)
    - Holwch yn arbennig ynghylch caniau a chwpanau coffi tafladwy
    - Holwch am unrhyw wahaniaethau yn ôl maint / deunydd y cynwysyddion
  - I ba raddau y byddai hyn yn gofyn am newid i'w ymddygiad cyfredol
    - Sut mae'n teimlo am hyn
  - Unrhyw faterion / cwestiynau

*Ailadroddwch ar gyfer senarios eraill*

- **Myfyrio** *(drwy'r cyfan, cyfeiriwch yn ôl at ymatebion cynharach)*
  - Ar ôl archwilio gwahanol senarios, sut mae'n teimlo am y cynllun nawr
  - A yw'n meddwl y byddai'n ei ddefnyddio – archwiliwch ysgogiadau/rhwystrau ar gyfer pob un
    - Sefyllfaoedd y byddai / na fyddai'n ei ddefnyddio
    - Deunyddiau cynhwysyddion y byddai'n fwy neu'n llai tebygol o ddefnyddio'r cynllun ar eu cyfer
    - Maint cynhwysydd y byddai'n fwy neu'n llai tebygol o ddefnyddio'r cynllun ar ei gyfer
  - Pa newidiadau fyddai eu hangen o'u cymharu â'r ymddygiad cyfredol
    - Sut y mae'n teimlo ynglŷn â gwneud y newidiadau hyn
  - Unrhyw faterion neu bryderon sy'n dod i'r amlwg
    - Syniadau digymell ynghylch sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain
  - Syniadau ynghylch lefel yr ernes
    - Ai dyma'r lefel gywir ar gyfer annog pobl i'w ddefnyddio
    - A ddylai fod yn uwch / yn is - pam

- **Effeithiau'r farchnad**
  - A yw'n credu y gallai cyflwyno'r cynllun gael unrhyw effaith ar yr hyn y mae'n ei brynu ar hyn o bryd
    - E.e. newid mewn fformat neu faint
    - E.e. rhoi'r gorau i brynu rhai pethau / prynu llai o rai pethau

        - E.e. newid i ddefnyddio mwy ar boteli y gellir eu hail-lenwi (e.e. ar gyfer coffi / dŵr)
    - Ym mhob achos, beth sy'n sbarduno hyn

## 6. Dylunio’r CDE (25 munud)

| *Archwiliwch pa elfennau dylunio sydd fwyaf tebygol o sbarduno newid mewn ymddygiad* |
|---|

*Y cymedrolwr i esbonio y byddem yn hoffi archwilio dyluniad y cynllun ychydig yn fanylach nawr – ac yr hoffem iddo feddwl am sut y gellid dylunio'r cynllun er mwyn hybu ymddygiad ailgylchu yn y modd mwyaf effeithiol*

- **Lefel yr ernes**
    - Pa mor uchel y mae angen i hyn fod er mwyn gwneud ailgylchu drwy gyfrwng y CDE yn werth chweil
    - A yw ernes uwch yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd e’n ailgylchu
        - A fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth pe byddai lefel yr ernes yn 20c
        - Beth am 50c
    - A fyddai ernes uwch yn effeithio ar yr hyn efallai y bydd ai’n dewis ei brynu yn y lle cyntaf
    - Pa lefel sy’n ymddangos yn rhesymol iddo ef
    - Beth am aml-becynnau
        - A yw’n credu y dylai ernes y rhain fod ar yr un lefel - hyd yn oed os yw'n golygu y bydd aml-becynnau sawl punt yn ddrutach nag ydynt ar hyn o bryd
        - Os na, beth mae’n ei weld fel dewis arall

- **Tâl safonol o’i gymharu â chymesuroldeb**
    - Y tâl safonol a ffefrir o’i gymharu â chyfraddau gwahanol ar gyfer cynwysyddion gwahanol neu gynwysyddion o faint gwahanol
    - Os oes ganddo ddiddordeb mewn cymesuroldeb, holwch sut y mae’n credu y dylai hyn weithio...
        - Cyfraddau gwahanol ar gyfer poteli o wahanol faint
        - Cyfran o’r pris
        - Rhywbeth arall

- **Lleoliad**
  - Pa mor bwysig yw cyfleustra
  - Faint o amser ychwanegol y byddai’n barod i'w dreulio ar ddychwelyd deunydd pacio o'i gymharu â’i ymddygiad ailgylchu presennol
  - Pe byddai’n rhaid iddo deithio ymhellach, a fydd hyn yn newid sut y byddai’n defnyddio'r cynllun
  - Ble fyddai'n disgwyl/gobeithio gweld mannau dychwelyd

- **Y math o ernes a ddychwelir**
  - Pa wahaniaeth fyddai'r ffordd o ddychwelyd yr ernes yn ei wneud ar sut y byddai’n defnyddio'r cynllun
  - A oes ganddo hoff ddull o gael ad-daliad ernes?
    - Holwch: Arian parod; yn uniongyrchol i gerdyn; ap pwrpasol; talebau siop; roddion elusennol
  - A fyddai’n dymuno dewis bob tro?

- **Ystyriaethau ymarferol**
  - Sawl peiriant y byddai’n ei ddisgwyl mewn man dychwelyd penodol
  - Pa mor hir y byddai’n fodlon ciwio
  - Esboniwch mai dim ond caniau / poteli nad ydynt wedi eu gwasgu y gall peiriannau eu derbyn – a yw hyn yn effeithio ar ei ymatebion neu'n codi pryderon

*Y cymedrolwr i egluro bod y Llywodraeth yn ymgynghori ar ddau ddewis ar hyn o bryd o ran sut y gallai CDE weithredu. Adwaenir un dewis fel CDE ‘cynhwysfawr’ a fyddai'n gweld ernes yn cael ei osod ar yr holl boteli plastig a gwydr a chaniau metel ni waeth beth yw eu maint. Adwaenir y dewis arall fel CDE ‘wrth fynd’, lle telir ernes ar gynwysyddion sy’n llai na 750ml yn unig ac ar gyfer cynwysyddion unigol (y rhai nad ydynt mewn aml-becynnau)*

- **Dewisiadau'r cynllun**
  - Pa rai sydd orau ganddo? Pam?
  - Beth allai ‘weithio’ a beth na fyddai’n gweithio?

## 6. Sylwadau cyffredinol ar lansio a chyfathrebu (10 munud)

*Archwiliwch y safbwyntiau a'r pryderon cyffredinol am y cynllun, gan gynnwys unrhyw syniadau am sut i gyfleu'r cynllun i'r cyhoedd*

- **Safbwyntiau cyffredinol ar y cynllun**
  - Gan feddwl yn ôl am bopeth a drafodwyd – beth mae'n ei feddwl o'r cynllun
  - Sut y byddai'n ei ddisgrifio yn ei eiriau ei hun?
  - Beth sy'n gweithio am y syniad / beth nad yw'n gweithio
  - A yw'n gweld defnyddio'r CDE yn fwy fel ffordd angenrheidiol o gael ei ernes yn ôl? Neu'n fwy fel rhan o'i ddyletswydd ddinesig / gwneud ei ran dros yr amgylchedd?

  - A ddylai'r llywodraeth fwrw ymlaen – pam / pam ddim
  - Os yw'r llywodraeth yn mynd i fwrw ymlaen, beth ddylent ei gadw mewn cof ar gyfer y cynllun

- **Cyfathrebu am y cynllun** – *os oes amser*
  - Beth sy'n bwysig i'r llywodraeth ei hysbysu i bobl am y cynllun
  - Sut ddylent ddweud wrth bobl am y cynllun
    - Sianel
    - Negesydd
  - Sut y dylid 'brandio' y cynllun
    - E.e. ymddangosiad a naws y cynllun
  - Pa mor bwysig yw cael gwybodaeth am y cynllun ar y pecyn
    - Pa wybodaeth y byddai'n disgwyl ei gweld yn cael ei chynnwys
      - Holwch ynghylch: lefel yr ernes; logo'r CDE

## 6. Syniadau terfynol

*Casglwch sylwadau terfynol a gorffen y cyfweliad*


- Unrhyw bryderon y mae'n dymuno eu mynegi i'r Llywodraeth
- Unrhyw beth arall yr hoffai ei drafod/rhannu

- Cadarnhau'r broses gymell - £50 naill ai fel taleb ar-lein (PERKS) neu fel taliad PayPal fel y'i trefnwyd â'r sawl sy'n recriwtio

**Gorffen**

## Atodiad C: Model Ymddygiad y Cyhoedd Kantar

Mae ein model yn crynhoi'r hyn a wyddom (o gyfuniad o waith academaidd a phrofiad ymchwil ymarferol) yw'r prif ddylanwadau cyffredinol ar ymddygiad pobl. Yn wahanol i lawer o fodelau eraill sy'n ceisio esbonio ymddygiad yn hollgynhwysol, datblygwyd ein model yn benodol i'n cynorthwyo i gynllunio a dadansoddi ymchwil i ymddygiad pobl: mae'n offeryn ymarferol yn ogystal â bod yn lluniad damcaniaethol.




Mae'r ffordd y defnyddiwn y model yn seiliedig ar ddau beth. Yn gyntaf, mae mwyafrif y dylanwadau sy'n effeithio ar benderfyniadau ac ymddygiad yn rhai nad yw'r defnyddiwr yn ymwybodol ohonynt. Felly os gofynnir cwestiynau agored i bobl ynghylch pam maent yn gwneud yr hyn a wnânt, maent yn debygol o roi ymateb arwynebol neu ymateb sydd wedi ei ôl-resymoli yn hytrach na mynegi'r gwir resymau dros eu hymddygiad. Yn ail, mae ymchwil ansoddol dda yn datgelu digonedd o wybodaeth, ac mae angen inni gael ffordd o ddeall a dehongli hyn i gyd os ydym am dreiddio i mewn i'r hyn sy'n arwain at gasgliadau ynghylch sut i ddylanwadu ar ymddygiad.

Ein hateb i'r cyntaf o'r heriau hyn – mynd y tu hwnt i ymatebion arwynebol i gwestiynau agored – yw nodi'r dylanwadau tebygol ar benderfyniadau ac ymddygiad pobl ymlaen llaw a'u harchwilio'n uniongyrchol. Ein hateb i'r ail her yw mapio'r hyn a ganfyddwn yn yr ymchwil ar y model, er mwyn gweld pa ffactorau sy'n ddylanwadol a pha rai nad ydynt yn ddylanwadol, a sut mae'r rheini sy'n ddylanwadol yn amlygu eu hunain, ac felly, yr hyn y gellir ei wneud i gyflawni newid. Yn gryno, felly, defnyddiwn y model i'n helpu i ragweld yr hyd yr ydym yn chwilio amdano, ac yna i ddeall yr hyn a ganfyddwn.

Ar gyfer yr ymchwil hon, defnyddiwyd y model i fframio'r drafodaeth a'r dadansoddiad o amgylch y ffactorau sy'n sail i ymddygiad presennol pobl wrth ailgylchu. Rydym hefyd wedi ystyried rhai o'r ffactorau a allai ddylanwadu ar ymddygiad pe byddai CDE yn cael ei gyflwyno, er bod ein dadansoddiad ar y cam hwn yn seiliedig ar sefyllfa ddamcaniaethol ac felly mae o anghenraid yn fwy damcaniaethol. Rydym wedi ymgorffori'r dadansoddiadau hyn ym mhrif ran yr adroddiad hwn, ond rydym hefyd yn cynnwys y dadansoddiad yn ôl pob ffactor yma hefyd er gwybodaeth.

# Sbardunau a rhwystrau presennol o ran ymddygiad ailgylchu

| Cyd-destun/ Lleoliad | Esboniadol | Arferiad | Moesoldeb | Normau | Cost/Budd | Effeithiolrwydd | Dilysrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| • Mae ymddygiad ailgylchu yn gyd-destunol iawn ac mae'n gysylltiedig yn bennaf ag amgylchedd y cartref lle caiff ei fandadu.<br>• I'r rhan fwyaf o bobl, mae ailgylchu y tu allan i'r cartref yn dibynnu ar ysgogiad clir a'r gallu i gael gafael ar gyfleusterau ailgylchu | • Rhagfarn ynghylch dymunolrwydd gymdeithasol – mae pobl yn tueddu i dybio eu bod yn well ailgylchwyr nag ydynt mewn gwirionedd er mwyn gweddu eu hunanddelwedd. | • Hen arferiad o ailgylchu oddi gartref i'r cyngor yn mandadu a chasgliadau yn sicrhau arferion cymharol gyson<br>• Mae diffyg ymddygiad arferol oddi cartref yn golygu nad ystyrir ailgylchu yn aml. | • Gwelir ailgylchu fel dyletswydd ddinesig o'i gymharu â thaflu sbwriel a ystyrir yn fwy negyddol ac fel ymddygiad gwrthgymdeithasol a gaiff ei sancsiynu yn gryf.<br>• Roedd lleiafrif sylweddol o'r farn bod ailgylchu yn fater amgylcheddol mwy moesol a oedd yn ailgylchu'n fwy cydwybodol gan geisio lleihau'r defnydd o blastig. | • Ystyrir ailgylchu yn norm cymdeithasol a wneir gan ddinasyddion da<br>• Er hynny, mae'n weithred gymharol breifat gan ei bod yn digwydd yn y cartref yn bennaf ar hyn o bryd – felly ceir dylanwad cymdeithasol uniongyrchol yn bennaf gan bobl eraill sy'n agos at y sawl dan sylw. | • Mae'r bygythiad o gael cosb gan y cyngor wedi ysgogi rhai pobl yn effeithiol.<br>• Mae'r syniad o gost (e.e. llwyth gwybyddol) ynghylch ailgylchu drwy gasgliadau ar garreg y drws yn lleihau gydag arferion sefydledig. | • I rai, gorhyder o ran deall yr hyn y gellir ac na ellir ei ailgylchu.<br>• Cred ymhlith rhai o'r ailgylchwyr mwyaf gweithredol bod ailddefnyddio yn llawer mwy effeithiol nag ailgylchu. | • Amheuon am ansawdd y gwaith ailgylchu gan rai o'r ailgylchwyr gweithredol. |

# Sbardunau a rhwystrau posibl rhag defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes

| Cyd-destun/ Lleoliad | Esboniadol | Arferiad | Moesoldeb | Normau | Cost/Budd | Effeithiolrwydd | Dilysrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| • Mae ymddygiad ailgylchu yn gyd-destunol iawn ac mae defnydd o'r cynllun oddi cartref yn fwy tebygol o ddibynnu ar ysgogiadau cyson. | • Atgasedd tuag at golli: Mae'r syniad o werth dychwelyd ernes yn debygol o gynyddu os caiff ei fframio fel colled. | • Mae newid ymddygiad yn llai tebygol pan mae angen symud oddi wrth arferion ailgylchu cyfredol e.e. ymhlith y rhai nad ydynt eisoes yn gwahanu sbwriel gartref.<br>• Mae newid ymddygiad yn llai tebygol hefyd pan mae angen symud oddi wrth arferion siopa presennol e.e. ymhlith y rhai nad ydynt yn gwneud y siopa wythnosol a gynlluniwyd. | • Gellid atgyfnerthu'r ddealltwriaeth o foesoldeb o ran defnyddio CDE drwy roi esboniad clir o fanteision y CDE i'r amgylchedd. | • Mae gan y cynllun y gallu i wneud ailgylchu yn weithred fwy gweladwy, ac felly, i gynyddu'r pwysau cymdeithasol i ailgylchu. | • Nid oes unrhyw fudd ymddangosiadol i ailgylchu drwy CDE o'i gymharu ag ailgylchu drwy gasgliadau sydd eisoes yn bodoli.<br>• Trothwy isel ar gyfer treulio amser yn ailgylchu o ystyried lefel ymddangosiadol yr ernes.<br>• Byddai'r syniad gael rhywbeth yn ôl oddi wrth CDE yn cael ei ystyried yn fwy pe byddai defnyddwyr yn cael eu hannog i roi ernesau gyda'i gilydd yn symiau mwy. | • Cred nad yw'r cynllun yn debygol o weithio'n effeithiol oherwydd diffyg trwsio peiriannau ac yn y blaen.<br>• Cred y gallai'r cynllun helpu i leihau'r arferiad o daflu sbwriel drwy annog pobl i gasglu cynwysyddion gwag - ond gallai hefyd arwain at bobl yn twrio drwy'r ailgylchu ar garreg y drws i ddod o hyd i ddeunyddiau er mwyn cael ernesau amdanynt. | • Cred y dylai ymdrechion y llywodraeth o ran annog pobl i ailgylchu ganolbwyntio yn fwy ar fusnesau a gwaith cynhyrchu.<br>• Diffyg ffydd yn y Llywodraeth i gyflawni cynllun yn effeithiol neu'n fforddiadwy. |

## Atodiad D: Nodyn technegol

Mae’r adran hon yn darparu crynodeb technegol o'r ymchwil feintiol, gan gynnwys dyluniad  yr arolwg, nifer y cyfweliadau, datblygiad yr holiaduron a strategaeth bwysoli.

Roedd y boblogaeth darged ar gyfer yr arolwg meintiol yn cynnwys:

- Oedolion 16 oed neu drosodd sy'n byw yng Nghymru
- Plant 11 i 15 oed sy'n byw yng Nghymru

### Dyluniad yr arolwg

O ystyried yr amser ar gael ar gyfer y gwaith maes ac i ddarparu gwerth am arian, cynhaliwyd gwaith maes ar-lein, gan ddefnyddio Lightspeed, panel mynediad ar-lein Kantar, fel prif ffynhonnell y sampl ar gyfer oedolion. Mae manteision i gynnal cyfweliadau ar-lein o ran cyflymder a chost-effeithlonrwydd, ac o ran helpu i leihau rhagfarn gymdeithasol gan nad oes cyfwelydd yn bresennol (a all fod yn arwyddocaol yn yr achos hwn o ystyried y pwysau normal tuag at ailgylchu). Er hynny, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod rhai anfanteision posibl hefyd i arolygon ar-lein: yn gyntaf, gan mai optio i mewn y mae’r paneli, ceir perygl nad yw panelwyr yn cynrychioli'r boblogaeth gyffredinol; ac yn ail, er bod Lightspeed ymhlith y paneli mwyaf yn y DU, bu’n rhaid defnyddio paneli eraill mewn partneriaeth â Lightspeed i gyflawni'r cyfweliadau a oedd yn ofynnol.

Er mwyn lleihau'r perygl o ragfarn, mae Lightspeed yn defnyddio set amrywiol o ffynonellau recriwtio ac amrywiaeth o ddulliau recriwtio. Mae hyn yn cynnwys e-bost optio i mewn, cyd-gofrestru, ymgyrchoedd e-gylchlythyr, a lleoliadau baner traddodiadol.

## Dyluniad y Sampl

Roedd dyluniad y sampl yn wahanol ar gyfer oedolion a phlant.

*Oedolion 16 oed neu drosodd*

Roedd Defra yn ei gwneud yn ofynnol i'r sampl fod yn gynrychioliadol o ran oedran, rhyw, ethnigrwydd, lleoliadau trefol/gwladol, math o dai, graddau cymdeithasol a pherchnogaeth ceir. Cyflawnwyd hyn drwy gyfuniad o gwotâu a thrwy bwysoli. Yn yr enghraifft gyntaf, pennwyd cwotâu i wneud iawn am ragfarnau hysbys mewn paneli ar-lein. Ar y cyfan, nid yw pobl iau a dynion yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ar baneli, ac nid yw Lightspeed yn wahanol, felly pennwyd cwota cysylltiedig yn ôl oedran a rhyw. [29]

Ni osodwyd cwotâu ychwanegol oherwydd y rhesymau canlynol:

- Po fwyaf o gwotâu a ddefnyddir, po fwyaf yw'r sgrinio sy'n angenrheidiol i nodi ymatebwyr cymwys, sy'n effeithio ar gostau ac amseriadau'r prosiect.
- Gallai cael gormod o gwotâu ei gwneud yn amhosibl cyrraedd y targed o ran nifer y cyfweliadau: gan fod y cwotâu ar gyfer yr is-grwpiau demograffig sy'n ymateb gyflymaf yn llenwi yn gyntaf, efallai y cawn ein gadael yn chwilio am gyfuniadau anghyraeddadwy na ellir eu cyflawni.
- Ni fyddai gosod cwotâu ychwanegol yn lleihau rhagfarn o reidrwydd: canfu arbrawf yn 2015 nad oedd ehangu'r defnydd o gwotâu dethol demograffig yn lleihau rhagfarn nac yn gwella cywirdeb.[30]

Gan fod Lightspeed (a'r partneriaid panel eraill a ddefnyddiwyd) yn dal gwybodaeth ddemograffig sylfaenol am eu panelwyr, megis rhanbarth a graddau cymdeithasol, cafodd y sampl ei haenu cyn ei lunio. Helpodd hyn i sicrhau bod y sampl terfynol yn gynrychioliadol o'r boblogaeth (o ran y nodweddion hyn).

---

[29] Defnyddiwyd y cwotâu canlynol: dynion 16-34 oed, menywod 16-34 oed, dynion 35-44 oed, menywod 35-44 oed, dynion 45-54 oed, menywod 45-54 oed, dynion 55+ oed a menywod 55+ oed. .

[30] Gittelman, S.H., Thomas, R.K., Lavrakas, P.J. a Lange, V., 2015. Quota Controls in Survey Research: A Test of Accuracy And Intersource Reliability in Online Samples. Journal of Advertising Research, 55(4), tt.368-379.

At hynny, er nad yw'r sampl nad yw wedi ei bwysoli yn cynrychioli'r boblogaeth yn llawn, defnyddiwyd dulliau pwysoli i fynd i'r afael â’r anghydbwysedd a welwyd.

*Ffynonellau’r sampl*

Mae panel Lightspeed yn rhan o gymdeithas o ddarparwyr panel sy'n ymwybodol o ansawdd sy'n cydweithio i gyflawni gofynion sampl na ellir eu bodloni gan un darparwr o fewn yr amserlenni gofynnol. Yn yr arolwg hwn, ychwanegwyd y paneli canlynol at banel Lightspeed: Panelbase, SSI, Cint a Lucid. Mae pob un ohonynt wedi eu harchwilio gan Lightspeed fel paneli ag enw da iddynt sy’n cynnig samplau o ansawdd uchel.

*Plant 11 i 15 oed*

Cynhaliwyd yr arolwg plant gan ddefnyddio methodoleg ar-lein gan ddefnyddio ‘cronfa ddata ffordd o fyw’ a gynhaliwyd gan Sample Answers fel ffynhonnell y sampl. O'r gronfa ddata hon, cymerodd Kantar sampl o rieni plant 11-15 oed, gan haenu'r sampl yn ôl oedran y plant a’r rhanbarth (yng Nghymru). Yna, anfonwyd llythyr at y rhieni a samplwyd yn dweud wrthynt am yr astudiaeth ac yn gofyn iddynt roi caniatâd i hyd at ddau blentyn cymwys gymryd rhan yn yr astudiaeth. Anfonwyd hyd at ddau lythyr atgoffa a rhoddwyd taleb siopa £10 i bob plentyn a gymerodd ran i ddiolch iddynt am eu hamser.

Anfonwyd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r llythyrau.

**Datblygu’r holiadur**

Cyn yr arolwg, cynhaliodd Kantar gyfnod byr o brofion gwybyddol i sicrhau bod y cwestiynau'n addas i'r diben. Cymerwyd rhan gan gyfanswm o naw oedolyn a chwe phlentyn yn y profion.

**Gwaith maes**

Ar gyfer yr arolygon oedolion a phlant, cynhaliwyd y gwaith maes ym mis Mawrth 2019. Ar y cyfan, cynhaliwyd 4,057 o gyfweliadau gydag oedolion a 603 o gyfweliadau gyda phlant 11 i 15 oed.

Roedd yr holiadur ar gael i oedolion a phlant ei lenwi yn Gymraeg neu yn Saesneg.

**Pwysoli**

Cymharwyd proffil y sampl ag ystadegau meincnod y boblogaeth a chymhwyswyd pwysoliadau i wneud iawn am anghydbwysedd.

Rhestrir ystadegau meincnod y boblogaeth a ddefnyddiwyd yn y tabl isod.

| **Oedolion (16+)** | **Cyfrifiadau meincnod poblogaeth Cymru** |
|---|---|
| **Trefol / Gwledig (ffynhonnell= ONS Small Area Population Estimates 2017 ac ONS urban / rural classification)** | |
| Cymru Wledig | 33% |
| Cymru Drefol | 67% |
| **Oedran * Rhyw (ffynhonnell=ONS Mid-Year Population Estimates 2017)** | |
| Cymru Gwryw 16-24 | 7% |
| Cymru Gwryw 25-34 | 8% |
| Cymru Gwryw 35-44 | 7% |
| Cymru Gwryw 45-54 | 8% |
| Cymru Gwryw 55-69 | 11% |
| Cymru Gwryw 70+ | 8% |
| Cymru Benyw 16-24 | 7% |
| Cymru Benyw 25-34 | 8% |
| Cymru Benyw 35-44 | 7% |
| Cymru Benyw 45-54 | 9% |
| Cymru Benyw 55-69 | 12% |
| Cymru Benyw 70+ | 10% |
| **Rhanbarth (ffynhonnell=ONS Mid-Year Population Estimates 2017)** | |
| Cymru | 100% |
| **Ethnigrwydd (ffynhonnell=ONS Crime Survey for England and Wales 2017-18)** | |
| Cymru Gwyn | 97% |
| Cymru Heb fod yn Wyn | 3% |
| **Defnydd o gar/fan (ffynhonnell=ONS Crime Survey for England and Wales 2017-18)** | |
| Cymru Dim | 14% |
| Cymru 1 | 36% |

| | |
|---|---|
| Cymru 2+ | 50% |
| **Graddau Cymdeithasol (ffynhonnell=Kantar TGI October 2017 - September 2018)** | |
| Cymru AB | 24% |
| Cymru C1C2 | 52% |
| Cymru DE | 24% |
| **Math o eiddo (ffynhonnell=ONS Crime Survey for England and Wales 2017-18)** | |
| Cymru Tŷ Sengl | 31% |
| Cymru Fflat | 7% |
| Cymru Arall | 63% |

| **Pobl ifanc (11-15)** | Cymru |
|---|---|
| **Trefol / Gwledig (ffynhonnell= ONS Small Area Population Estimates 2017 ac ONS urban / rural classification)** | |
| Cymru Wledig | 32% |
| Cymru Drefol | 68% |
| **Oedran * Rhyw (ffynhonnell=ONS Mid-Year Population Estimates 2017)** | |
| Cymru 11 Gwryw | 11% |
| Cymru 12 Gwryw | 10% |
| Cymru 13 Gwryw | 10% |
| Cymru 14 Gwryw | 10% |
| Cymru 15 Gwryw | 10% |
| Cymru 11 Benyw | 10% |
| Cymru 12 Benyw | 10% |
| Cymru 13 Benyw | 10% |
| Cymru 14 Benyw | 9% |
| Cymru 15 Benyw | 9% |
| **Rhanbarth (ffynhonnell=ONS Mid-Year Population Estimates 2017)** | |
| Cymru | 100% |

## Profion arwyddocâd

Defnyddiwyd prawf-t â dau sampl i asesu gwahaniaethau rhwng is-grwpiau ac amlygu'r rhai ar lefel hyder o 95% (lle mae gwerth p<.05).[31] A bod yn fanwl gywir, ar gyfer samplau tebygolrwydd yn unig y gellir cymhwyso profion arwyddocâd; nid ydynt yn berthnasol i gynlluniau sy'n seiliedig ar gwota oherwydd sawl rheswm, gan gynnwys rhagfarn, diffyg tebygolrwydd samplu hysbys a'r boblogaeth anhysbys. Felly, oherwydd y fethodoleg samplu cwota a ddefnyddiwyd, nid yw'r profion yn arwydd o wahaniaethau gwirioneddol yn y boblogaeth gyffredinol.[32]

Fodd bynnag, roedd angen rhyw fath o sail i benderfynu pa ganfyddiadau oedd yn darparu’r mewnwelediad gorau ar gyfer yr adroddiad hwn. Felly, defnyddiwyd profion ystadegol yn offeryn ymarferol i nodi unrhyw wahaniaethau nodedig rhwng is-grwpiau (gweler ‘Is-grwpiau demograffig-gymdeithasol’) ac i helpu i bennu pan fo patrwm yn dod i'r amlwg o'r canfyddiadau. Defnyddiwyd y profion hyn i dynnu sylw at wahaniaethau a fyddai, o ystyried y dybiaeth o Sampl Syml ar Hap, wedi bod yn wahaniaethau sylweddol ar lefel hyder o 95%. Er hynny, fel y nodwyd uchod, nid yw'r dybiaeth hon yn gwbl gywir yn ystadegol, ond fe'i gwnaed yn unswydd er mwyn darparu rhywfaint o fewnwelediad i'r canfyddiadau. Dim ond y gwahaniaethau y nodwyd eu bod yn nodedig drwy ddefnyddio profion ystadegol a gynhwysir yn yr adroddiad, gan nodi mai dim ond arwydd o wahaniaethau posibl mewn is-grwpiau o fewn y boblogaeth gyffredinol ydynt.

## Dadansoddiad ansoddol

Roedd ein dadansoddiad o'r data ansoddol yn ailadroddol a chafodd ei ymgorffori drwy gydol y broses o gynllunio’r prosiect. Yn ystod y cyfarfod cyntaf, buom yn trafod rhagdybiaethau cychwynnol a thybiaethau ynghylch yr hyn a allai sbarduno ymddygiad. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd sesiwn fewnol o daflu syniadau gan ddefnyddio Fframwaith Ymddygiad y Cyhoedd Kantar (gweler Atodiad A) i ystyried yr ystod lawn o

[31] Os yw'r **gwerth-p** yn llai na 0.05, mae'n bosibl dod i'r casgliad bod gwahaniaeth sylweddol yn bodoli. Mae hyn yn golygu, pe byddech yn ailadrodd arbrawf neu arolwg drosodd a throsodd, 95 y cant o'r amser, bydd eich canlyniadau yn cyfateb i'r canlyniadau yr ydych yn eu cael gan y boblogaeth.

[32] Mae prawf arwyddocâd yn amcangyfrif a yw gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol, ond amcangyfrif yn unig yw hyn.

ddylanwadau ymddygiadol posibl. Llywiodd yr elfennau hyn ddyluniad Canllawiau'r Pwnc ar gyfer y cyfweliadau manwl, a oedd wedi eu lled-strwythuro ac yn caniatáu i agweddau  a dylanwadau ymddygiadol annisgwyl ddod i'r amlwg. Drwy gydol y gwaith maes, cadwodd yr ymchwilwyr nodiadau maes a rannwyd â gweddill y tîm, gan ganiatáu i ymholiadau a damcaniaethau newydd ddod i'r amlwg yn ystod yr ymchwil. Defnyddiwyd canfyddiadau o'r cyfweliadau manwl i lywio'r dull gweithredu a'r sbardun ar gyfer y trafodaethau grŵp.

Yn dilyn pob cam o'r gwaith maes, cynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r dyddiad ansoddol gan ddefnyddio proses o'r enw 'mapio matrics'. Mae ymchwilwyr yn mewnbynnu data o bob cyfweliad a grŵp i fframwaith Excel a drefnwyd yn unol ag amcanion allweddol yr ymchwil, y cynnwys o'r Canllawiau'r Pwnc (gweler Atodiad B) a'r sbardunau ymddygiad a nodwyd yn Fframwaith Ymddygiad y Cyhoedd Kantar. Defnyddiwyd y fframweithiau a gwblhawyd i gynnal cymhariaeth systematig o ymatebion, o fewn a rhwng achosion, ac i nodi themâu, a ddefnyddiwyd wedyn i dynnu sylw pellach at ddata perthnasol a'u nodi.

Ochr yn ochr â hyn, cynhaliwyd cyfres o ddadansoddiadau mwy greddfol ar ôl pob cam o'r prosiect drwy sesiynau taflu syniadau creadigol, dan arweiniad cyfarwyddwr y prosiect ac yn cynnwys yr holl ymchwilwyr. Defnyddiwyd y rhain i ystyried dylanwadau sylfaenol o ran ymddygiad ac agweddau ymatebwyr; i nodi themâu pellach a ddilyswyd wedyn gan eu cymharu â'r data yn y fframwaith; ac i ystyried goblygiadau'r ymchwil ar gyfer cyfathrebiadau a'r broses o lunio CDE.

## Atodiad E: Holiadur meintiol

**HOLIADUR CDE (Oedolion)**

Yn gyntaf, mae gennyf ychydig o gwestiynau i ofyn ichi. Rydym eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn arolygu amrywiaeth o wahanol bobl.

**GOFYNNWCH I BAWB**

RHYW. A ydych yn

Wryw
Benyw

**GOFYNNWCH I BAWB**

OEDRANOS. Beth yw eich oedran?

16…99
Mae'n well gennyf beidio â dweud

**GOFYNNWCH OS OEDRAN = CYF I BAWB ARALL GORFODI DATA MEWN BAND OEDRAN PERTHNASOL ER MWYN GOSOD CWOTA**

OEDRANOS2. A fyddech cystal â dweud wrthyf i ba fand oedran yr ydych yn perthyn?

1. 16 i 34
2. 35 i 44
3. 45 i 49
4. 50 i 54
5. 55 neu hŷn

**GOFYNNWCH I BAWB**

CSEG**.** I ba un o'r grwpiau canlynol y mae'r Prif Enillydd Incwm yn eich aelwyd yn perthyn?

Y Prif Enillydd Incwm yw'r person yn eich aelwyd sydd â'r incwm uchaf (o'i enillion, budd-daliadau, pensiynau ac unrhyw ffynonellau eraill)

1. Gweithiwr llaw lled-grefftus neu ddi-grefft
2. Gweithiwr llaw â chrefft
3. Goruchwyliwr neu glerigol/ Gweinyddol/Rheoli/Proffesiynol Iau
4. Gweinyddol/ Rheoli/Proffesiynol Canolradd
5. Gweinyddol/ Rheoli/ Proffesiynol Uwch

6. Myfyriwr
7. Wedi ymddeol ac yn byw ar bensiwn y wladwriaeth yn unig
8. Di-waith (am dros chwe mis) neu ddim yn gweithio oherwydd salwch hirdymor
9. Heb fod mewn gwaith cyflogedig ac yn gofalu am aelod(au) o’r teulu neu’r cartref
10. Mae’n well gennyf beidio â dweud

**GOFYNNWCH I BAWB**

CCYMRU. A ydych chi'n byw yng Nghymru neu Loegr ar hyn o bryd?

1. Lloegr
2. Cymru

**GOFYNNWCH I BAWB YN  Y CWOTA**

Mae'r arolwg hwn yn cael ei gynnal gan Kantar Public, sy’n sefydliad ymchwil annibynnol, ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae eich atebion yn bwysig o ran helpu Llywodraeth Cymru i ddeall safbwyntiau pobl ar yr amgylchedd ac ailgylchu a bydd yn cymryd tua 20 munud i'w gwblhau. Bydd eich atebion yn cael eu cadw’n breifat. Gellir dod o hyd i bolisi preifatrwydd Kantar yma {MEWNOSODER DOLEN I’R PP].

**<u>Cyfieithiad Cymraeg</u>**

**GOFYNNWCH OS YW CCYMRU = 2**

CIAITH. A ydych chi’n dymuno cwblhau’r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg?

1. Saesneg
2. Cymraeg

## Adran A: Ymddygiad ac arferion cyffredinol siopa am fwyd

**GOFYNNWCH I BAWB**

A1. Gan eich cynnwys chi, faint o bobl **16 oed a hŷn** sy’n byw gyda chi fel rheol yn aelodau o'ch aelwyd?

CWYMPLEN (DANGOSIR RHIFAU 1, 2, 3 AC ATI, YNA 10+)

☐

**GOFYNNWCH I BAWB**

A2. A faint o **blant dan 16 oed** sy’n byw gyda chi fel rheol yn aelodau o'ch aelwyd?

CWYMPLEN (DANGOSIR RHIFAU 0, 1, 2, 3 AC ATI, YNA 10+)

☐

Nawr mae gennyf ychydig o gwestiynau am siopa am fwyd.

**GOFYNNWCH OS OES 2+ OEDOLYN NEU FWY YN YR AELWYD (A1= 2+)**

A3. Gan feddwl am y bwyd a brynwch fel arfer pan fyddwch yn siopa ar gyfer eich aelwyd, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau y person sy'n bennaf gyfrifol am wneud hyn?
COD SENGL

1. Fi sy'n gyfrifol am siopa am yr holl fwyd neu’r rhan fwyaf ohono
2. Mae gennyf gyfrifoldeb cyfartal â phobl eraill yn yr aelwyd
3. Rhywun arall sy'n bennaf gyfrifol, ond rwyf yn siopa am fwyd o bryd i'w gilydd
4. Nid wyf yn gyfrifol am siopa am fwyd o gwbl
5. Rwy’n rhannu tŷ gydag oedolion eraill ac mae pob un ohonom yn gyfrifol am ein siopa ein hunain
6. Trefniadau eraill

**GOFYNNWCH I BAWB**

A4. Pa rai o'r canlynol sy'n disgrifio orau y ffordd [yr ydych chi/y mae eich aelwyd] yn siopa am fwyd?
COD SENGL

1. Un prif ymweliad siopa am fwyd (e.e. unwaith yr wythnos neu bob pythefnos) heb unrhyw  siopa ychwanegol
2. Un prif ymweliad siopa, gyda siopa ychwanegol yn ôl yr angen
3. Dim un prif ymweliad siopa – caiff bwyd ei brynu yn ôl yr angen
4. Arall, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH I BAWB**

A5.  Sut [ydych chi/mae eich aelwyd] yn prynu bwyd yn ystod wythnos arferol?  Cofiwch gynnwys yr holl ymweliadau siopa am fwyd, gan gynnwys unrhyw brif ymweliad ac ymweliadau ychwanegol
DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL

1. Ymweliad(au) ag archfarchnad fawr
2. Ymweliad(au) ag archfarchnad fach e.e. Tesco Metro/Sainsbury's Local
3. Ymweliad(au) â siop leol/siop gornel (heb gynnwys archfarchnadoedd bach)
4. Ymweliad(au) â math arall o siop neu stondinau marchnad
5. Siopa bwyd ar-lein/system cludo bwyd i'ch cartref gan archfarchnad
6. Arall, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH A YW'N SIOPA'N BERSONOL (A5=1-4 neu 6)**

A6. Sut [ydych chi/mae'r prif siopwr bwyd yn eich aelwyd] yn teithio fel arfer i wneud y [prif ymweliad] siopa am fwyd? Os defnyddir dulliau gwahanol, dewiswch yr un sy'n cymryd yr amser hiraf.
COD SENGL

1. Ar droed
2. Mewn car neu fan – a yrrir gennyf i neu aelod arall o'r aelwyd
3. Mewn car neu fan – lifft gan rywun nad yw'n rhan o'r aelwyd
4. Ar drafnidiaeth gyhoeddus
5. Mewn tacsi
6. Ar feic modur/sgwter/moped
7. Ar feic
8. Arall, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH I BAWB**

A7. Pa mor rhwydd neu anodd fyddai hi ichi gyrraedd pob un o'r canlynol gan ddefnyddio eich math arferol o drafnidiaeth?
COD SENGL

| | Yn rhwydd iawn | Yn eithaf rhwydd | Ddim yn rhwydd nac yn anodd | Yn eithaf anodd | Yn anodd iawn | Yn methu â mynd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archfarchnad fawr | | | | | | |
| Archfarchnad fach e.e. Tesco Metro/Sainsbury's Local | | | | | | |
| Siop gornel leol (heb gynnwys archfarchnadoedd bach) | | | | | | |

## Adran B: Y defnydd o gynwysyddion perthnasol

**GOFYNNWCH I BAWB**

B1. Pa rai o'r rhain fyddwch **chi'n bersonol** yn eu hyfed gartref, hyd yn oed os yw hynny'n achlysurol yn unig?
DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL

1. Gwin potel
2. Gwirodydd potel
3. Cwrw/seidr/diodydd alcohol eraill (poteli gwydr neu blastig, caniau)
4. Diodydd dialcohol megis diodydd swigod, sudd, dŵr tonig, smwddis (poteli gwydr neu blastig, caniau, cartonau)
5. Dŵr potel (gan gynnwys dŵr â blas)
6. Dim un o'r uchod

**OS YW'N YFED DIODYDD GARTREF (B1=1-5)**

B2. Fe ddywedasoch eich bod **chi'n bersonol** yn yfed y canlynol gartref:
[RHESTRWCH YR EITEMAU YN B1]

Pa fathau o ddeunydd pacio y mae'r diodydd hyn ynddynt? Dim ond mewn caniau a photeli y mae gennym ddiddordeb
[RHOWCH ENW'R DEUNYDD PACIO O'R RHESTR A/B ISOD GYDA LLUN]

1. Ie
2. Na

DYLECH GYNNWYS LLUNIAU AR GYFER POB UN (BYDD Y LLUNIAU'N CYNNWYS CYFEIRIADAU AT Y MEINTIAU MEWN ML)

A. Caniau
B. Poteli plastig bach
C. Poteli plastig mawr
D. Poteli gwydr bach
E. Poteli gwydr mawr

**GOFYNNWCH I BAWB SY'N DEFNYDDIO DEUNYDD PACIO DIODYDD PERTHNASOL YN Y CARTREF (B2 UNRHYW A-E = 1)**

B3. Gan feddwl am yr holl ddiodydd yr ydych chi'n bersonol yn eu hyfed gartref yn:
[RHESTRWCH Y DEUNYDD PACIO A DDEFNYDDIR YN B2: A-E = 1]

Sut ydych chi **fel arfer** yn cael gwared â'r poteli a/neu'r caniau gwag pan fyddwch wedi gorffen defnyddio'r eitemau hyn **gartref**?
Dewiswch un ateb yn unig. Os ydych yn defnyddio gwahanol ddulliau, dewiswch y dull mwyaf cyffredin.

1. Eu rhoi nhw yn y bin sbwriel cyffredinol
2. Eu rhoi nhw yn y bin ailgylchu yn eich cartref
3. Defnyddio cyfleuster ailgylchu cymunedol (e.e. ar gyfer bloc o fflatiau, grŵp o adeiladau)
4. Mynd â nhw i rywle arall i gael eu hailgylchu (e.e. canolfan leol ar gyfer ailgylchu gwastraff cartrefi ('tip') neu fanc poteli)
5. Eu cadw i'w hailddefnyddio
6. Eu gadael i rywun arall gael gwared â nhw
7. Gwneud rhywbeth arall, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH I BAWB SY'N DEFNYDDIO DEUNYDD PACIO DIODYDD PERTHNASOL YN Y CARTREF (B2 UNRHYW A-E = 1)**

B4. Yn fras, faint o'r diodydd yn [EITEM YN B2] yr ydych **chi'n bersonol** yn eu hyfed **gartref** fesul wythnos? Peidiwch â chynnwys diodydd mewn poteli sydd wedi eu hadlenwi.
Os nad ydych yn siŵr, yn enwedig os ydych yn rhannu'r diodydd gyda phobl eraill yn eich aelwyd, rhowch eich amcangyfrif gorau ar gyfer faint yr ydych chi'n ei yfed **yn bersonol**.

1. Llai nag un bob wythnos
2. 1-5
3. 6-10
4. 10-20
5. 20-30
6. 30+

Gofynnwch am bob un o'r eitemau canlynol:

A. Caniau
B. Poteli plastig bach
C. Poteli plastig mawr
D. Poteli gwydr bach
E. Poteli gwydr mawr

**GOFYNNWCH I BAWB**

B5. Gan feddwl am **oddi cartref** nawr, er enghraifft yn y gwaith, yn y car, ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu pan fyddwch allan o gwmpas y lle, pa rai o'r rhain yr ydych chi'n eu hyfed **oddi cartref** yn bersonol, hyd yn oed os mai'n achlysurol yn unig y byddwch yn eu hyfed? *Peidiwch â chynnwys diodydd mewn bwytai, caffis na thafarnau.*
DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL

1. Gwin potel
2. Gwirodydd potel
3. Cwrw/seidr/diodydd alcohol eraill (poteli gwydr neu blastig, caniau)
4. Diodydd dialcohol megis diodydd swigod, sudd, dŵr tonig, smwddis, (poteli gwydr neu blastig, caniau, cartonau)
5. Dŵr potel (gan gynnwys dŵr â blas)
6. Dim un o'r uchod

**OS YW'N YFED DIODYDD ODDI CARTREF (B5=1-5)**

B6. Fe wnaethoch chi ddweud eich bod chi'n bersonol yn yfed y canlynol **oddi cartref**, er enghraifft yn y gwaith, yn y car, ar drafnidiaeth gyhoeddus neu pan fyddwch allan o gwmpas y lle:

[RHESTRWCH YR EITEMAU YN B5]

Pa fathau o ddeunydd pacio y mae'r diodydd hyn ynddynt? Dim ond mewn caniau a photeli y mae gennym ddiddordeb *Peidiwch â chynnwys diodydd mewn bwytai, caffis na thafarnau.*

[RHOWCH ENW'R DEUNYDD PACIO O RESTR A/B ISOD GYDA LLUN]

1. Ie
2. Na

DYLECH GYNNWYS LLUNIAU AR GYFER POB UN (BYDD Y LLUNIAU'N CYNNWYS CYFEIRIADAU AT Y MEINTIAU MEWN ML)
Dolen ar gyfer yr eitemau canlynol:

A. Caniau
B. Poteli plastig bach
C. Poteli plastig mawr
D. Poteli gwydr bach
E. Poteli gwydr mawr

**GOFYNNWCH I BAWB SY'N DEFNYDDIO CYNHYRCHION PERTHNASOL (B6 UNRHYW A-E = 1)**

B7. Pan fyddwch yn gorffen diod mewn [EITEM yn B6] oddi cartref, ym mha **un** o'r ffyrdd isod yr ydych **fel arfer** yn cael gwared â photeli a/neu ganiau gwag? Dewiswch un ateb yn unig. Os ydych yn defnyddio gwahanol ddulliau, dewiswch y dull mwyaf cyffredin.
COD SENGL

| | Can | Potel blastig fach | Potel blastig fawr | Potel wydr fach | Potel wydr fawr |
|---|---|---|---|---|---|
| Ei roi yn y bin sbwriel cyntaf a welwch | | | | | |
| Ei gadw nes ichi ddod o hyd i fin ailgylchu | | | | | |
| Mynd ag ef adref i'w roi yn y bin ailgylchu yn y cartref | | | | | |
| Mynd ag ef adref i gael gwared ag ef gyda'r sbwriel cyffredinol | | | | | |
| Ei gadw i'w ailddefnyddio | | | | | |
| Ei adael yn rhywle, megis ar fainc neu ar lawr | | | | | |
| Gwneud rhywbeth arall, teipiwch eich ateb | | | | | |

**GOFYNNWCH I BAWB SY'N DEFNYDDIO DEUNYDD PACIO PERTHNASOL (B6 UNRHYW A-E = 1)**

B8. Yn fras, faint o ddiodydd mewn [EITEM YN B6] ydych **chi'n bersonol** yn eu hyfed bob wythnos pan fyddwch chi oddi cartref**,** er enghraifft, yn y gwaith, yn y car, ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu pan fyddwch allan o gwmpas y lle? Peidiwch â chynnwys diodydd mewn poteli sydd wedi eu hadlenwi.

1. Llai nag un bob wythnos
2. 1-5
3. 6-10
4. 10-20
5. 20-30
6. 30+

Gofynnwch am bob un o'r deunyddiau pacio canlynol os cânt eu defnyddio [B6 A-E = 1].

A. Caniau
B. Poteli plastig bach
C. Poteli plastig mawr
D. Poteli gwydr bach
E. Poteli gwydr mawr

## Adran C: Cyflwyno'r CDE

**GOFYNNWCH I BAWB**

Mae'r Llywodraeth wrthi'n ystyried cynllun ailgylchu newydd ar gyfer y rhan fwyaf o ganiau a photeli diod (ac eithrio llaeth). Ei enw yw'r **Cynllun Dychwelyd Ernes** a'i nod yw gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau sbwriel. Byddai'r cynllun yn gweithio fel a ganlyn:

1. Mae pobl yn talu ernes wrth brynu can neu botel. Byddai'r ernes yn cael ei ychwanegu at bris y ddiod.
2. Byddant yn mynd â'r deunydd pacio gwag i fan dychwelyd ac yn cael yr ernes yn ôl. Nid oes angen ei ddychwelyd i'r man lle cafodd ei brynu.
3. Mae gwahanol ddulliau o ddychwelyd deunydd pacio yn cael eu hystyried. Er enghraifft, gall 'mannau dychwelyd' fod yn beiriant mewn archfarchnad neu gallant fod mewn mannau cyhoeddus fel gorsafoedd trenau a chanolfannau hamdden, neu dros y cownter mewn siop leol.
4. Os na chaiff y botel ei dychwelyd i un o'r mannau dychwelyd hyn, bydd yr ernes yn cael ei golli.

**GOFYNNWCH I BAWB**

Dyma enghraifft o sut y gallai weithio. Rydych yn prynu potel o ddŵr sy'n costio 75c, sy'n cynnwys ernes o 15c a ad-delir. Wrth ddychwelyd y botel, rydych yn cael y 15c yn ôl, felly dim ond 60c gostiodd y ddiod ichi. Os nad ydych yn dychwelyd y botel i fan dychwelyd dynodedig, byddech yn colli'r 15c.

## Adran D: Y defnydd tybiedig o CDE

**GOFYNNWCH OS YW A-E = 1 YN B2 NEU B6**

Dychmygwch fod y Cynllun Dychwelyd Ernes eisoes yn cael ei ddefnyddio ac rydych yn talu ernes o 15c am **bob** can a photel blastig a gwydr a brynir gennych.

**GOFYNNWCH I BAWB SY'N DEFNYDDIO DEUNYDD PACIO DIODYDD PERTHNASOL GARTREF (B2 A-E unrhyw = 1)**

**Dolennwch D2 ar gyfer pob math o ddeunydd pacio diodydd a ddefnyddir gartref (B2 A-E = 1)**

D1. Gan feddwl yn gyntaf am gael gwared â deunydd pacio diodydd **gartref**,
Ar gyfer pob un o'r canlynol a ddefnyddir **gartref**, nodwch pa ddewis sy'n disgrifio orau eich tebygolrwydd o ddefnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn lle'ch dull gwaredu arferol.

Rhowch eich ateb gonest; yn yr hyn y credwch y BYDDECH yn ei wneud y mae gennym ni ddiddordeb, nid yn yr hyn y credwch y DYLECH ei wneud.
[RHOWCH ATEB YN B2]

COD SENGL AR GYFER POB UN

| [EITEMAU A DDEWISWYD YN B2] | Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes **bob amser** | Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes **gan amlaf** | Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes **o bryd i'w gilydd** | Ni fyddwn **byth** yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes – byddwn yn parhau i gael gwared â'r eitemau hyn yn y ffordd arferol | Ni fyddwn **byth** yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes – byddwn yn rhoi'r gorau i brynu'r math hwn o ddeunydd pacio er mwyn osgoi talu'r ernes |
|---|---|---|---|---|---|
| Caniau | | | | | |
| Poteli plastig bach | | | | | |
| Poteli plastig mawr | | | | | |
| Poteli gwydr bach | | | | | |
| Poteli gwydr mawr | | | | | |

**GOFYNNWCH A FYDDAI'N PARHAU Â'R DULL CYFREDOL O WAREDU GARTREF AR GYFER UNRHYW FATH O DDEUNYDD PACIO (UNRHYW BETH YN D1=2-4)**

D2. Fe ddywedoch na fyddech bob amser yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes pan rydych **gartref**, ar gyfer y canlynol:
[RHESTR O EITEMAU YN D2=2-4]

Pam felly? Gallwch ddewis sawl rheswm.
DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL AR HAP

1. Ni fyddai adennill yr ernes werth y drafferth o ddychwelyd y deunydd pacio
2. Rwyf eisoes yn ailgylchu gartref
3. Byddwn yn ei chael hi'n anodd mynd at fan dychwelyd oherwydd fy oedran neu anabledd/problemau symudedd
4. Byddwn yn ei chael hi'n anodd mynd at fan dychwelyd oherwydd diffyg trafnidiaeth (e.e. dim car, nid wyf yn gyrru, nid oes llawer o drafnidiaeth gyhoeddus ar gael)
5. Er mwyn osgoi ymdrin â deunydd pacio diodydd blêr/budr/drewllyd
6. Rwyf yn gwrthwynebu'r Cynllun Dychwelyd Ernes mewn egwyddor
7. Byddwn yn cadw'r deunydd pacio i'w ail-ddefnyddio
8. Rhesymau eraill, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH I BAWB SY'N DEFNYDDIO DEUNYDD PACIO DIODYDD PERTHNASOL ODDI CARTREF (B6 A-E UNRHYW=1)**
**Dolennwch D3 ar gyfer pob math o ddeunydd pacio diodydd a ddefnyddir c(B6 A-E = 1)**

D3. Gan feddwl nawr am gael gwared â deunydd pacio diodydd **oddi cartref**, er enghraifft, ar drafnidiaeth gyhoeddus, yn y car, yn y gwaith, neu pan fyddwch allan o gwmpas y lle.

Unwaith eto, dychmygwch fod y Cynllun Dychwelyd Ernes eisoes yn cael ei ddefnyddio ac rydych yn talu ernes o 15c am **bob** can a photel blastig a gwydr a brynir gennych.

Ar gyfer pob un o'r canlynol a ddefnyddir **oddi cartref**, nodwch pa ddewis sy'n disgrifio orau eich tebygolrwydd o ddefnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn lle'ch dull gwaredu arferol.

[RHESTRWCH YR EITEMAU A DDEWISWYD YN B6]
COD SENGL AR GYFER POB UN

| [EITEMAU A DDEWISWYD YN B6] | Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes **bob amser** | Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes **gan amlaf** | Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes **o bryd i'w gilydd** | Ni fyddwn **byth** yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes – byddwn yn parhau i gael gwared â'r eitemau hyn yn y ffordd arferol | Ni fyddwn **byth** yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes – byddwn yn rhoi'r gorau i brynu'r math hwn o ddeunydd pacio er mwyn osgoi talu'r ernes |
|---|---|---|---|---|---|
| Caniau | | | | | |
| Poteli plastig bach | | | | | |
| Poteli plastig mawr | | | | | |
| Poteli gwydr bach | | | | | |
| Poteli gwydr mawr | | | | | |

**GOFYNNWCH A FYDDAI'N PARHAU Â'R DULL CYFREDOL O WAREDU WRTH FYND (UNRHYW BETH YN D3=2-4)**

D4. Fe wnaethoch ddweud na fyddech yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes bob amser pan rydych **oddi cartref**, ar gyfer y canlynol**:**
[RHESTR O EITEMAU YN D3=2-4]

Pam felly?
DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL AR HAP

1. Ni fyddai adennill yr ernes werth y drafferth o ddychwelyd y deunydd pacio
2. Ni fyddwn yn dymuno cario deunydd pacio gwag o gwmpas nes imi ddod o hyd i fan dychwelyd
3. Efallai na fyddai gennyf yr amser i ddod o hyd i fan dychwelyd
4. Byddai'n well gennyf gadw'r deunydd pacio er mwyn cael gwared ag ef gartref
5. Er mwyn osgoi ymdrin â deunydd pacio diodydd blêr/budr/drewllyd

6. Rwyf yn gwrthwynebu’r Cynllun Dychwelyd Ernes mewn egwyddor
7. Byddwn yn cadw’r deunydd pacio i'w ail-ddefnyddio
8. Rhesymau eraill, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH I BAWB**

D5. Gan barhau i ddychmygu bod y Cynllun Dychwelyd Ernes eisoes yn cael ei ddefnyddio gyda lefel ernes o 15c, pa rai o'r canlynol ydych chi'n meddwl yw’r mwyaf tebygol o fod yn berthnasol i chi?
COD SENGL

1. Byddwn yn lleihau’n sylweddol nifer y poteli a’r caniau diod yr wyf yn eu prynu
2. Byddwn yn lleihau ychydig ar nifer y poteli a’r caniau diod yr wyf yn eu prynu
3. Byddwn yn rhoi'r gorau i brynu poteli a chaniau diod fel hyn yn gyfan gwbl
4. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r hyn yr wyf yn ei brynu nawr
5. Nid wyf yn gwybod

**GOFYNNWCH I BAWB**

D6. Gan barhau i ddychmygu bod y cynllun eisoes mewn bodolaeth, ym mha rai o'r ffyrdd hyn fyddech chi'n hoffi cael ad-daliad eich ernes ar ôl dychwelyd y deunydd pacio gwag?
DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL

1. Mewn arian parod/darnau arian
2. Ar ap ffôn clyfar
3. Ei ad-dalu'n uniongyrchol i gerdyn debyd
4. Taleb/cwpon arian i ffwrdd i'w ddefnyddio mewn siop
5. Ei roi i elusen o'ch dewis
6. Arall, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH I BAWB**

D7. Yn eich barn chi, faint ddylai swm yr ernes fod ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes?

1. 10c
2. 15c
3. 20c
4. 25c
5. Mwy na 25c

**GOFYNNWCH I BAWB**

D8. Pe byddech yn defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer poteli diod a chaniau a ddefnyddir **gartref**, pa rai o'r canlynol fyddai'n fannau dychwelyd cyfleus ichi?
DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL [AMRYWIWCH Y DREFN]

1. Defnyddio peiriant mewn archfarchnad fawr
2. Dros y cownter mewn archfarchnad fach (e.e. Tesco Metro/Sainsbury's Local) neu siop leol/cornel
3. Defnyddio peiriant mewn gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol neu safle bysiau
4. Defnyddio peiriant mewn parc, ger y stryd fawr neu mewn man cyhoeddus arall
5. Defnyddio peiriant mewn canolfan hamdden neu lyfrgell
6. I ddarparwr siopa sy'n cludo nwyddau i'ch cartref (e.e. gwasanaeth siopa bwyd ar-lein)
7. Rhywle arall, teipiwch eich ateb [MAN SEFYDLOG]
8. Dim un o'r rhain – ni fyddwn yn dymuno defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes

**GOFYNNWCH I BAWB**

D9. Pe byddech yn defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer poteli diod a chaniau a ddefnyddir **oddi cartref**, er enghraifft, yn y gweithle, yn y car, ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu pan fyddwch allan o gwmpas y lle, pa rai o'r canlynol fyddai'n fannau dychwelyd cyfleus i chi?
DEWISWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL

1. Defnyddio peiriant mewn archfarchnad fawr
2. Dros y cownter mewn archfarchnad fach (e.e. Tesco Metro/Sainsbury's Local) neu siop leol/siop gornel
3. Defnyddio peiriant mewn gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol neu safle bysiau
4. Defnyddio peiriant mewn parc, ger y stryd fawr neu mewn man cyhoeddus arall
5. Defnyddio peiriant mewn canolfan hamdden neu lyfrgell
6. Rhywle arall, teipiwch eich ateb
7. Dim un o'r rhain – ni fyddwn yn dymuno defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes

**Adran E: Ymarfer ar y cyd**

**Sgrîn gyflwyno**

Nod y cwestiynau nesaf yw canfod eich barn am wahanol agweddau ar y Cynllun Dychwelyd Ernes.

Byddwn yn dangos **dau** 'senario' gwahanol ichi o ran sut y gellid sefydlu'r cynllun, a gofynnir ichi ddewis pa un y byddech **fwyaf tebygol o'i ddefnyddio**. Bydd gan bob senario:

1. Swm Ernes i'w dalu sy'n ychwanegol at bris pob diod

2. Lleoliad y gallwch ddychwelyd y deunydd pacio diod gwag iddo

3. Yr amser **ychwanegol** y byddai angen ichi ei dreulio yn defnyddio'r cynllun dros gyfnod o wythnos (e.e. gan gynnwys unrhyw amser ychwanegol a dreulir yn teithio, ciwio, storio ac yn trin)

Nodwch ym mha senario y byddech **fwyaf** tebygol o'i ddefnyddio**,** os mai'r rhain oedd yr unig ddewisiadau ar gael. Ceir yr opsiwn hefyd o ddewis 'dim un' os nad ydych yn credu y byddech yn defnyddio'r naill na'r llall.

Ceir cyfanswm o bedwar ymarfer. Dim ond y mymryn lleiaf o newidiadau sydd rhwng pob ymarfer ond mae pob un ychydig yn wahanol.

**Nodweddion/lefelau**

| **Nodweddion** | **Lefelau** |
|---|---|
| **Swm yr ernes** | 10c |
| | 15c |
| | 20c |
| | 25c |
| **Lleoliad y man dychwelyd** | Archfarchnad fawr |
| | Archfarchnad fach neu siop leol |
| | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol neu safle bysiau |
| | Parc neu ger y stryd fawr |
| **Yr amser ychwanegol a ychwanegir at eich wythnos i ddychwelyd poteli a chaniau** | Hyd at 10 munud |
| | Rhwng 10 ac 20 munud |
| | Rhwng 20 a 30 munud |

**Ymarfer 1**

Dyma ddwy enghraifft o sut y gellid sefydlu Cynllun Dychwelyd Ernes fel y gall pobl ddychwelyd eu poteli a'u caniau.

Gan feddwl am y diodydd yr ydych yn eu hyfed yn ystod wythnos arferol, pe byddai'n rhaid ichi ddewis rhwng y naill gynllun a'r llall, pa un fyddech **fwyaf** tebygol o'i ddefnyddio ar gyfer dychwelyd poteli a chaniau?

| | **Senario A** | **Senario B** |
|---|---|---|
| **Swm yr ernes** | | |
| **Lleoliad y man dychwelyd** | | |
| **Yr amser ychwanegol a ychwanegir at eich wythnos i ddychwelyd poteli a chaniau** | | |

Pa senario ydych chi **fwyaf** tebygol o'i ddefnyddio?

1. Senario A
2. Senario B
3. Y naill na'r llall – ni fyddwn i'n defnyddio'r un o'r rhain

**Ymarferion 2, 3, 4**

Dyma ddwy enghraifft arall o sut y gellid sefydlu Cynllun Dychwelyd Ernes fel y gall pobl ddychwelyd eu poteli a'u caniau.

Unwaith eto, meddyliwch am y diodydd yr ydych yn eu hyfed yn ystod wythnos arferol, pe byddai'n rhaid ichi ddewis rhwng y naill gynllun a'r llall, pa un fyddech **fwyaf** tebygol o'i ddefnyddio ar gyfer dychwelyd poteli a chaniau?

| | **Senario A** | **Senario B** |
|---|---|---|
| **Swm yr ernes** | | |
| **Lleoliad y man dychwelyd** | | |
| **Yr amser ychwanegol a ychwanegir at eich wythnos i ddychwelyd poteli a chaniau** | | |

Pa senario ydych chi **fwyaf** tebygol o'i ddefnyddio?

1. Senario A
2. Senario B
3. Y naill na’r llall – ni fyddwn i’n defnyddio'r un o’r rhain

**Adran F: Agweddau tuag at ailgylchu a chwestiynau euraidd**

Dyma ychydig o gwestiynau am eich agweddau cyffredinol tuag at ailgylchu.

**GOFYNNWCH I BAWB**

F1. Dyma rai datganiadau y mae pobl wedi eu gwneud amdanynt eu hunain. A fyddech cystal â dewis i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob un?

| | Yn cytuno'n gryf | Yn tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Yn tueddu i anghytuno | Yn anghytuno'n gryf | Nid wyf yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae ailgylchu yn ormod o drafferth i boeni amdano | | | | | | |
| Mae gan bawb gyfrifoldeb i helpu i lanhau'r amgylchedd | | | | | | |
| Rwyf yn barod i gyfaddawdu fy ffordd o fyw er lles yr amgylchedd | | | | | | |
| Nid yw’n werth gwneud pethau ecogyfeillgar os nad ydynt yn arbed arian ichi | | | | | | |
| Rwy’n teimlo bod fy ymdrechion ailgylchu yn werth chweil | | | | | | |

## Adran G: Agweddau tuag at y Cynllun Dychwelyd Ernes

**GOFYNNWCH I BAWB**

Isod, ceir rhai pethau y mae pobl wedi eu dweud am Gynllun Dychwelyd Ernes.

**Cyfleustra a hygyrchedd**

G1. Gan feddwl am sut y gallai cynllun weithio’n ymarferol, i ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hyn?
COD SENGL AR GYFER POB UN

| | Yn cytuno'n gryf | Yn tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Yn tueddu i anghytuno | Yn anghytuno'n gryf | Nid wyf yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nid yw’n deg y byddwn yn cael fy ngorfodi i ddefnyddio'r cynllun hwn i gael fy ernes yn ôl | | | | | | |
| Hyd yn oed pe byddai'n rhaid imi wneud ymdrech ychwanegol i ddefnyddio'r cynllun, byddai'n werth chweil er mwyn helpu i ddiogelu'r amgylchedd | | | | | | |
| Byddwn yn ei chael hi’n rhwydd cynnwys y dull newydd hwn o gael gwared â deunydd pacio diodydd yn fy mywyd bob dydd | | | | | | |

**Ethos sylfaenol y cynllun, yr effaith ar sbwriel**

**GOFYNNWCH I BAWB**

G2. Ac i ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hyn?
COD SENGL AR GYFER POB UN

| | Yn cytuno'n gryf | Yn tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Yn tueddu i anghyt-uno | Yn anghytuno'n gryf | Nid wyf yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddai'r cynllun yn fy annog i ailgylchu mwy pan rwyf allan | | | | | | |
| Nid oes angen y cynllun gan fod ffyrdd eisoes o ailgylchu poteli a chaniau | | | | | | |
| Rwy'n poeni y gallai pobl fynd trwy fy miniau i ddod o hyd i ddeunydd pacio i'w ddychwelyd er mwyn cael ernes | | | | | | |

**Y gallu i'w wneud yn rhan o fywyd bob dydd**

G3. Sut y byddech chi'n teimlo pe byddai'r canlynol yn rhan o'ch bywyd bob dydd?
COD SENGL AR GYFER POB UN

| | Fe fyddwn i'n gweld hyn ... | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Yn rhwydd iawn i'w gynnwys yn fy mywyd bob dydd | Yn eithaf rhwydd i'w gynnwys yn fy mywyd bob dydd | Yn eithaf anghyfleus | Yn anghyfleus iawn | Ni fyddai'r sefyllfa hon yn berthnasol i mi | Nid wyf yn gwybod |
| Storio poteli a chaniau gwag gartref nes imi gael cyfle i fynd â nhw i'r man dychwelyd | | | | | | |
| Dod â photeli neu ganiau lluosog o'r cartref i'r man dychwelyd | | | | | | |
| Pan fyddaf allan o gwmpas y lle, byddaf yn cario poteli neu ganiau gwag nes imi ddod o hyd i fan dychwelyd | | | | | | |

**Logisteg a chymhlethdod**

Dyma gwpl o gwestiynau am sut y gallai'r cynllun weithio ar gyfer deunydd pacio o wahanol feintiau.

**GOFYNNWCH I BAWB**

G4. P'un a fyddech yn defnyddio'r cynllun yn bersonol ai peidio, pa rai o'r datganiadau canlynol sydd agosaf at eich safbwynt chi?

1. Dylai swm yr ernes fod yn is ar gyfer eitemau llai ac yn uwch ar gyfer eitemau mwy o faint

NEU

2. Dylai swm yr ernes fod yr un faint ar gyfer deunydd pacio o bob maint er mwyn cadw pethau yn syml
3. Y naill na’r llall/methu penderfynu

**GOFYNNWCH I BAWB**

G5. P'un a fyddech chi'n defnyddio'r cynllun yn bersonol ai peidio, pa rai o'r canlynol ydych chi'n meddwl fyddai'n gweithio orau i bobl yn gyffredinol?

1. Dylai'r cynllun gynnwys poteli a chaniau **o bob maint**, yn rhai mawr a bach
2. Dylai’r cynllun gynnwys poteli a chaniau **bach** yn unig
3. Y naill na’r llall/methu penderfynu

**Cymhellion a chefnogaeth gyffredinol**

**GOFYNNWCH I BAWB**

G6. Pe byddech chi’n defnyddio'r cynllun, pa rai o'r canlynol fyddai'n rhesymau dros wneud hynny?
AMLGOD
[AR HAP]

1. I gael fy ernes yn ôl
2. Bydd pawb arall yn gwneud hynny/dyma fydd y ffordd ddisgwyliedig o gael gwared â deunyddiau pacio diodydd
3. Bydd yn helpu i wella nifer y poteli a'r caniau sy'n cael eu hailgylchu
4. Bydd yn helpu i leihau sbwriel
5. Bydd yn helpu’r amgylchedd
6. Dyna fyddai'r peth iawn i'w wneud
7. Arall, teipiwch eich ateb
8. (UNIGRYW) Amherthnasol – ni fyddwn yn defnyddio'r cynllun

**GOFYNNWCH OS OES DAU RESWM NEU FWY DROS DDEFNYDDIO CYNLLUN DYCHWELYD ERNES (SÔN AM 2+ YN G6 (1-7))**

[DANGOS YR YMATEBION A DDEWISWYD YN G6 OS 1-7]
G7. A pha un o'r rhain fyddai eich **prif reswm** dros ddefnyddio'r cynllun?
COD SENGL
[AR HAP]

1. I gael fy ernes yn ôl
2. Bydd pawb arall yn gwneud hynny/dyma fydd y ffordd ddisgwyliedig o gael gwared â deunyddiau pacio diodydd
3. Bydd yn helpu i wella nifer y poteli a'r caniau sy'n cael eu hailgylchu
4. Bydd yn helpu i leihau sbwriel
5. Bydd yn helpu'r amgylchedd
6. Dyna fyddai'r peth iawn i'w wneud
7. Arall, teipiwch eich ateb
8. Amherthnasol – ni fyddwn yn defnyddio'r cynllun

**GOFYNNWCH I BAWB**

G8. O'r hyn yr ydych yn ei wybod hyd yn hyn, i ba raddau y byddech chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes?
COD SENGL

1. Cefnogi'n gryf
2. Cefnogi
3. Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu
4. Gwrthwynebu
5. Gwrthwynebu'n gryf

**Adran 8: Demograffeg**

Yn olaf, mae gennyf ychydig o gwestiynau amdanoch chi.  Rydym yn gofyn y cwestiynau hyn i sicrhau ein bod ni'n cynnwys pobl o bob cefndir.

**GOFYNNWCH I BAWB**

H1. Mae cwestiwn nesaf yr arolwg hwn yn ymwneud â'ch ethnigrwydd, sy'n cael ei ystyried yn ddata sensitif. Bydd yn cael ei ddefnyddio gan ein cleient at ddibenion dosbarthu data yn unig. Bydd yn aros yn gyfrinachol yn unol â'n polisi preifatrwydd. Os yw ateb y cwestiwn hwn yn eich gwneud chi i deimlo'n anghyfforddus, mae croeso ichi ddewis yr ateb "Byddai'n well gennyf beidio ag ymateb".
A ydych chi'n cytuno i ateb y cwestiwn hwn ar y sail hon?

1. Ydw, rwy'n cytuno
2. Nac ydw, nid wyf yn cytuno

**GOFYNNWCH OS CYTUNODD I ATEB Y CWESTIWN ETHNIGRWYDD (H1=1)**

H2. Beth yw eich grŵp ethnig?
COD SENGL

1. Gwyn Prydeinig/Albanaidd/Cymreig/Gogledd Iwerddon
2. Gwyn – arall
3. Asiaidd
4. Du Affricanaidd
5. Du Caribïaidd
6. Tsieineaidd
7. Grwpiau ethnig cymysg neu luosog
8. Unrhyw grŵp ethnig arall
9. Byddai'n well gennyf beidio ag ateb

**GOFYNNWCH I BAWB**

H3.  Pa fath o lety ydych chi'n byw ynddo?
COD SENGL

1. Tŷ sengl
2. Tŷ pâr
3. Tŷ canol teras
4. Bynglo
5. Fflat – bloc pwrpasol
6. Fflat – tŷ a addaswyd
7. Fflat – uwchben siop
8. Fflat un ystafell
9. Arall, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH I BAWB**

H4. Sawl car neu fan [yr ydych chi/y mae eich aelwyd] yn berchen arnynt neu'n eu defnyddio'n rheolaidd?
Dylech gynnwys ceir cwmni (os ydynt ar gael at ddefnydd preifat).
COD SENGL

1. Dim
2. 1
3. 2 neu fwy

**GOFYNNWCH I BAWB**

H5. Cynhelir yr ymchwil hon gan Kantar Public ar ran Llywodraeth Cymru.
Hoffai Llywodraeth Cymru ddadansoddi canlyniadau'r arolwg hwn gan ddefnyddio ardaloedd daearyddol. At y diben hwn, hoffai Kantar nodi eich cod post.
Prosesir eich data a'u cadw'n ddiogel yn unol â Pholisi Preifatrwydd Kantar [DOLEN]. At ddibenion ymchwil sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn yn unig y bydd yr holl wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio, bydd yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol ac ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei rhannu mewn unrhyw barth cyhoeddus.

A ydych chi'n cytuno i rannu eich cod post â Kantar at y diben hwnnw?

1. Ydw, rwy'n cytuno
2. Nac ydw, nid wyf yn cytuno

Os ydych yn cytuno, nodwch eich cod post:
/________/

**GOFYNNWCH I BAWB**

Cbyw. A fyddech chi'n disgrifio'r lle yr ydych chi'n byw ynddo fel...

1. Dinas fawr
2. Maestref neu gyrion dinas fawr
3. Dinas fach neu dref
4. Pentref gwledig
5. Fferm neu gartref yn y wlad
6. (Ateb arall (NODWCH))
7. Nid wyf yn gwybod
8. Mae'n well gennyf beidio â dweud

**HOLIADUR CYNLLUN DYCHWELYD ERNES (Plentyn)**

**Adran 1: Cydsyniad rhieni [GOFYNNWCH I RIENI YN YSTOD YR AROLWG ADHOC AR GYFER POBL IFANC]. NEWIDYN SAMPL {#SampRhiant = 1}**

**[GOFYNNWCH OS YW {#SampRhiant = 1}]**

CYFLWYNIAD. Diolch am gytuno i ganiatáu i'ch plentyn/plant gymryd rhan yn yr arolwg pwysig hwn ar gyfer Llywodraeth Cymru am ailgylchu. Bydd yr arolwg yn cymryd tua 15 munud i'w gwblhau a gofynnwn iddynt ei gwblhau ar eu pennau eu hunain.

Mae angen inni gymryd ychydig o fanylion gennych cyn y gall eich plentyn/plant gymryd rhan.
Cliciwch y botwm (>) i barhau.

**[GOFYNNWCH OS YW'R NEWIDYN SAMPL {#SampRhiant = 1}**

CRHIANT. Ai chi yw rhiant neu warcheidwad cyfreithiol unrhyw blant 11-15 oed sy'n byw yn eich aelwyd?

1. Ie, i un plentyn 11-15 oed
2. Ie, i fwy nag un plentyn 11-15 oed
3. Na - diddymwch y sgrin a pheidiwch ag actifadu'r cyfresi plant (Mae'n ddrwg gennyf ond dim ond gan riant neu warcheidwad cyfreithiol y gallwn gael caniatâd)

**[GOFYNNWCH OS YW CRHIANT = 1 NEU 2]**

CCYDSYNIAD. A ydych chi'n rhoi caniatâd i'ch [plentyn/dau o'ch plant] 11-15 oed gymryd rhan yn yr arolwg hwn?

1. Ydw, rwy'n rhoi caniatâd [OS YW CRHIANT = 2 caiff un gymryd rhan]
2. Ydw, rwy'n rhoi caniatâd i ddau gymryd rhan [y cod i ymddangos os yw CRHIANT = 2 yn unig]
3. Na, nid wyf yn rhoi caniatâd – diddymwch y sgrîn a pheidiwch ag actifadu'r cyfresi plant (Mae'n ddrwg gennyf, ond dim ond os byddwn yn cael caniatâd gan riant neu warcheidwad cyfreithiol y gallwn arolygu pobl ifanc 11 i 15 oed)

CENW. Teipiwch eich enw llawn isod i gadarnhau mai chi yw'r rhiant neu warcheidwad cyfreithiol a'ch bod chi'n rhoi caniatâd i'ch [plentyn/dau o'ch plant] gymryd rhan yn yr arolwg

**TEIPIWCH ENW**

Wedi gwrthod – diddymwch y sgrîn (Mae'n ddrwg gennyf ond i gynnal cyfweliadau gyda phlant, mae angen inni nodi enw'r rhiant neu'r gwarcheidwad a roddodd ganiatâd)

CGORFFEN. Diolch yn fawr, rhowch y llythyr plentyn i'ch [CCYSYNIAD = 1 plentyn/CCYSYNIAD = 2 blentyn] fel y gallant gymryd rhan os ydynt yn dymuno.

**OS YW CCYDSYNIAD = 2:** Os oes gennych fwy na dau o blant 11-15 oed, gofynnwch i unrhyw ddau gymryd rhan.

**SAMPL RHIENI I GAU NAWR**

**Adran 2: Arolwg plant**

**GOFYNNWCH I BAWB**

CIAITH. A hoffech gwblhau'r arolwg yn Gymraeg neu Saesneg?

1. Saesneg
2. Cymraeg

OS CYMRAEG, DYLAI GWEDDILL SGRIPT Y PLENTYN YMDDANGOS YN GYMRAEG

**GOFYNNWCH I BAWB**

Cynhelir yr arolwg hwn gan Kantar Public, sy'n sefydliad ymchwil annibynnol, ar ran Llywodraeth Cymru/ y llywodraeth.

Mae eich atebion yn bwysig o ran helpu Llywodraeth Cymru i ddeall safbwyntiau pobl ifanc ar yr amgylchedd ac ailgylchu a bydd yn cymryd tua 15 munud i'w gwblhau. Bydd eich atebion yn cael eu cadw'n breifat. Gellir dod o hyd i bolisi preifatrwydd Kantar yma {MEWNOSODER DOLEN I'R PP].

Nid oes raid ichi gymryd rhan os nad ydych yn dymuno a gallwch roi'r gorau i gymryd rhan yn yr arolwg unrhyw bryd drwy gau porwr y ffenestr.

Cliciwch ar y botwm (>) i gadarnhau eich bod yn fodlon cymryd rhan ac i ddechrau'r arolwg.

C0OEDRAN. Beth yw eich oedran chi?

1. 10 neu iau (Diddymu'r sgrîn: Mae'n ddrwg gennyf, ond dim ond gyda phobl ifanc 11-15 oed yr ydym yn cynnal arolygon)
2. 11
3. 12
4. 13
5. 14
6. 15
7. 16 neu hŷn (Diddymu'r sgrîn: Mae'n ddrwg gennyf, ond dim ond gyda phobl ifanc 11-15 oed yr ydym yn cynnal arolygon)

C0RHYW. A ydych yn

1. Gwryw
2. Benyw
3. Arall

**Y defnydd o gynwysyddion perthnasol**

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0B1. Pa rai o'r rhain ydych chi'n eu hyfed **gartref**, hyd yn oed os mai weithiau yn unig yr ydych yn eu hyfed?
Cewch ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn os ydych yn dymuno

1. Dŵr potel (gan gynnwys dŵr â blas)
2. Diodydd swigod/diodydd egni
3. Sudd/smwddis/diodydd ffrwythau
4. Dim un o'r uchod

**OS YFIR DIODYDD GARTREF (C0B1=1-3)**

C0B2. Fe wnaethoch ddweud eich bod chi'n yfed y canlynol **gartref**:
[RHESTRWCH YR EITEMAU YN B1a]

Pa fathau o ddeunydd pacio y mae'r diodydd hyn ynddynt? Dim ond mewn poteli a chaniau y mae gennym ddiddordeb
[MEWNOSOD ENW'R DEUNYDD PACIO O RESTR A/B ISOD GYDA LLUN]

1. Ie
2. Na

DYLECH GYNNWYS LLUNIAU AR GYFER POB UN (BYDD Y LLUNIAU'N CYNNWYS CYFEIRIADAU AT Y MEINTIAU MEWN ML)

A. Caniau
B. Poteli plastig bach
C. Poteli plastig mawr
D. Poteli gwydr bach
E. Poteli gwydr mawr

**GOFYNNWCH I BAWB SY'N DEFNYDDIO DEUNYDD PACIO DIODYDD PERTHNASOL GARTREF (C0B2 UNRHYW A-E = 1)**

C0B3. Gan feddwl am yr holl ddiodydd yr ydych chi'n eu hyfed **gartref** yn:
[RHESTRWCH Y DEUNYDD PACIO A DDEFNYDDIR YN C0B2]

Sut ydych chi'n arfer cael gwared â'r poteli a/neu'r caniau gwag pan fyddwch chi'n gorffen yr eitemau hyn **gartref**?
Dewiswch un ateb yn unig. Os ydych yn defnyddio gwahanol ddulliau, dewiswch y dull yr ydych yn ei ddefnyddio amlaf.

1. Eu rhoi nhw mewn bin sbwriel cyffredinol
2. Eu rhoi yn y bin ailgylchu gartref
3. Eu gadael i rywun arall eu taflu nhw
4. Eu cadw i'w hailddefnyddio
5. Gwneud rhywbeth arall, teipiwch eich ateb
6. (COD UNIGRYW) Amherthnasol/byth yn taflu'r math hwn o ddeunydd pacio gartref

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0B4. Gan feddwl nawr am yr amseroedd pan fyddwch chi **oddi cartref**, megis yn yr ysgol, mewn car, ar drafnidiaeth gyhoeddus neu pan fyddwch chi allan o gwmpas y lle. Pa rai o'r rhain ydych chi'n eu hyfed oddi cartref, hyd yn oed os mai weithiau'n unig yr ydych yn eu hyfed?
*Peidiwch â chynnwys rhywbeth y byddwch yn ei yfed mewn bwyty neu gaffi.*
AMLGOD

1. Dŵr potel (gan gynnwys dŵr â blas)
2. Diodydd swigod/diodydd egni
3. Sudd/smwddis/diodydd ffrwythau
4. Dim un o'r uchod

**OS YFIR DIODYDD GARTREF (C0B4=1-3)**

C0B5. Fe wnaethoch ddweud eich bod chi'n yfed y canlynol **oddi cartref**:
[RHESTRWCH YR EITEMAU YN C0B4]

Pa fath o ddeunydd pacio y mae'r diodydd hyn ynddynt? Dim ond mewn poteli a chaniau y mae gennym ddiddordeb
[MEWNOSOD ENW'R DEUNYDD PACIO O RESTR A/B ISOD GYDA LLUN]

1. Ie
2. Na

DYLECH GYNNWYS LLUNIAU AR GYFER POB UN (BYDD Y LLUNIAU'N CYNNWYS CYFEIRIADAU AT Y MEINTIAU MEWN ML)

A. Caniau
B. Poteli plastig bach
C. Poteli plastig mawr
D. Poteli gwydr bach
E. Poteli gwydr mawr

**GOFYNNWCH I BAWB SY'N DEFNYDDIO CYNHYRCHION PERTHNASOL (C0B5 UNRHYW A-E=1)**

C0B6. Pan fyddwch yn gorffen diod mewn [EITEM YN C0B5] oddi cartref, beth ydych chi'n ei wneud **fel arfer** gyda'r deunydd pacio? Dewiswch un ateb yn unig. Os ydych yn defnyddio gwahanol ddulliau, dewiswch y dull yr ydych yn ei ddefnyddio amlaf.
COD SENGL

| | Caniau | Potel blastig fach | Potel blastig fawr | Potel wydr fach | Potel wydr fawr |
|---|---|---|---|---|---|
| Ei roi i rywun arall ddelio ag ef | | | | | |
| Ei roi yn y bin sbwriel cyntaf a welwch | | | | | |
| Ei gadw nes ichi ddod o hyd i fin ailgylchu | | | | | |
| Mynd ag ef adref gyda chi i'w roi yn y bin ailgylchu gartref | | | | | |
| Ei gadw i'w daflu gyda'r sbwriel cyffredinol gartref | | | | | |
| Ei gadw i'w ailddefnyddio | | | | | |
| Ei adael yn rhywle, megis ar fainc neu ar lawr | | | | | |
| Gwneud rhywbeth arall (teipiwch eich ateb) | | | | | |

**AR GYFER POB MATH O DDEUNYDD PACIO PERTHNASOL A DDEFNYDDIR (C0B5 A-E UNRHYW UN = 1)**

C0B7. Yn fras, faint o ddiodydd mewn [EITEM YN B2b] ydych chi'n eu cael bob wythnos pan fyddwch **oddi cartref,** er enghraifft, yn yr ysgol, mewn car, ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu pan fyddwch allan o gwmpas y lle?
Peidiwch â chynnwys diodydd mewn poteli sydd wedi eu hadlenwi.
COD SENGL AR GYFER POB UN

1. Llai nag un bob wythnos
2. 1-5
3. 6-10
4. 10-20
5. 20-30
6. 30+

Gofynnwch am bob un o'r deunyddiau pacio canlynol os cânt eu defnyddio [C0B5 A-E = 1].

A. Caniau
B. Poteli plastig bach
C. Poteli plastig mawr
D. Poteli gwydr bach
E. Poteli gwydr mawr

**<u>Cyflwyno’r Cynllun Dychwelyd Ernes</u>**

**GOFYNNWCH I BAWB**

Mae'r Llywodraeth yn ystyried cynllun ailgylchu newydd ar gyfer y rhan fwyaf o boteli a chaniau diod (ac eithrio llaeth). Ei enw yw’r **Cynllun Dychwelyd Ernes** a'i nod yw gwella cyfraddau ailgylchu a lleihau sbwriel. Byddai'r cynllun yn gweithio fel a ganlyn:

1. Mae pobl yn talu ernes wrth brynu can neu botel. Byddai’r ernes yn cael ei ychwanegu at bris y ddiod.
2. Byddant yn mynd â'r deunydd pacio gwag i fan dychwelyd ac yn cael yr ernes yn ôl. Nid oes angen ei ddychwelyd i’r man lle cafodd ei brynu.
3. Mae gwahanol ddulliau o ddychwelyd deunydd pacio yn cael eu hystyried. Er enghraifft, gall ‘mannau dychwelyd’ fod yn beiriant mewn archfarchnad neu gallant fod mewn mannau cyhoeddus fel gorsafoedd trenau a chanolfannau hamdden, neu dros y cownter mewn siop leol.
4. Os na chaiff y botel ei dychwelyd i un o'r mannau dychwelyd hyn, bydd yr ernes yn cael ei golli.

**GOFYNNWCH I BAWB**

Dyma enghraifft o sut y gallai weithio. Rydych yn prynu potel o sudd sy'n costio 75c, sy'n cynnwys ernes o 15c a ad-delir. Wrth ddychwelyd y botel, rydych yn cael y 15c yn ôl, felly dim ond 60c gostiodd y ddiod ichi. Os nad ydych yn dychwelyd y botel i fan dychwelyd dynodedig, byddech yn colli'r 15c.

DANGOSWCH LUN SY’N ENGHRAIFFT O BOTEL DDŴR A PHEIRIANT DYCHWELYD ERNES

## Adran D: Y defnydd tybiedig o Gynllun Dychwelyd Ernes

**GOFYNNWCH I BAWB**

Dychmygwch fod y Cynllun Dychwelyd Ernes eisoes yn cael ei ddefnyddio ac rydych yn talu ernes o 15c ar **bob** can a photel blastig a gwydr a brynir gennych.

**GOFYNNWCH I BAWB SY'N DEFNYDDIO DEUNYDD PACIO DIODYDD PERTHNASOL ODDI CARTREF (C0B5 =1-5)**
**Dolennwch C0D1 ar gyfer pob math o ddeunydd pacio diodydd a ddefnyddir oddi cartref (C0B5=1-5)**

C0D1. Ar gyfer pob math o ddeunydd pacio diodydd y byddwch yn eu taflu pan fyddwch **oddi cartref**, nodwch pa ddewis sy'n disgrifio orau eich tebygolrwydd o ddefnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn lle’r ffordd arferol y byddech yn ei daflu.

Rhowch eich ateb gonest; yn yr hyn y credwch y BYDDECH yn ei wneud y mae gennym ni ddiddordeb, nid yr hyn y credwch y DYLECH ei wneud.
COD SENGL AR GYFER POB UN

| [EITEMAU A DDEWISWYD YN C0B5] | Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes **bob amser** | Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes **gan amlaf** | Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes **o bryd i’w gilydd** | Ni fyddwn **byth** yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes – byddwn yn parhau i gael gwared â’r eitemau hyn yn y ffordd arferol | Ni fyddwn i **byth** yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes – byddwn yn rhoi'r gorau i brynu'r math hwn o ddeunydd pacio er mwyn osgoi talu'r ernes |
|---|---|---|---|---|---|
| Caniau | | | | | |
| Poteli plastig bach | | | | | |
| Poteli plastig mawr | | | | | |
| Poteli gwydr bach | | | | | |
| Poteli gwydr mawr | | | | | |

**GOFYNNWCH A FYDDAI'N PARHAU Â'R DULL CYFREDOL O WAREDU WRTH FYND (UNRHYW BETH YN C0D1=2-4)**

C0D2. Fe ddywedasoch na fyddech yn defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes bob amser pan rydych **oddi cartref**, ar gyfer y canlynol:
[RHESTR O EITEMAU YN C0D1=2-4] [AMRYWIWCH Y DREFN]

Pam felly?
Fe gewch ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn os ydych yn dymuno

1. Ni fyddai cael fy ernes yn ôl werth y drafferth o ddychwelyd y deunydd pacio
2. Ni fyddwn yn dymuno cario deunydd pacio gwag o gwmpas nes imi ddod o hyd i fan dychwelyd
3. Efallai na fydd gennyf amser i ddod o hyd i fan dychwelyd
4. Byddai'n well gennyf gadw'r deunydd pacio er mwyn ei daflu gartref/yn yr ysgol
5. Er mwyn osgoi ymdrin â deunydd pacio diodydd blêr/budr/drewllyd
6. Byddai fy ffrindiau yn fy marnu i
7. Nid wyf yn hoffi'r syniad o Gynllun Dychwelyd Ernes
8. Byddwn yn cadw’r deunydd pacio i'w ail-ddefnyddio
9. Rheswm arall, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0D3. Gan barhau i ddychmygu bod y Cynllun Dychwelyd Ernes eisoes yn cael ei ddefnyddio gyda lefel Ernes o 15c, pa rai o'r canlynol ydych chi'n meddwl yw’r mwyaf tebygol o fod yn berthnasol i chi?
COD SENGL

1. Byddwn yn lleihau’n sylweddol nifer y poteli a’r caniau diod yr wyf yn eu prynu
2. Byddwn yn lleihau ychydig ar nifer y poteli a’r caniau diod yr wyf yn eu prynu
3. Byddwn yn rhoi'r gorau i brynu poteli a chaniau diod fel hyn yn gyfan gwbl
4. Ni fyddwn yn gwneud unrhyw newidiadau i'r hyn yr wyf yn ei brynu nawr
5. Nid wyf yn gwybod

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0D4. Gan barhau i ddychmygu bod y cynllun eisoes mewn bodolaeth, ym mha rai o'r ffyrdd hyn fyddech chi'n hoffi cael ad-daliad eich ernes ar ôl dychwelyd y deunydd pacio gwag?
Fe gewch ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn os ydych yn dymuno

1. Mewn arian parod/darnau arian
2. Ar ap ffôn clyfar
3. Taleb/cwpon arian i ffwrdd i'w ddefnyddio mewn siop
4. Ei roi i elusen o'ch dewis
5. Arall, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0D5. Yn eich barn chi, faint ddylai swm yr ernes fod ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes?

1. 10c
2. 15c
3. 20c
4. 25c
5. Mwy na 25c

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0D6. Pe byddech yn defnyddio Cynllun Dychwelyd Ernes ar gyfer poteli diod a chaniau a ddefnyddir **oddi cartref**, er enghraifft, yn yr ysgol, yn y car, ar drafnidiaeth gyhoeddus, neu oddi cartref, pa rai o'r canlynol fyddai'n fannau dychwelyd cyfleus i **chi**? Fe gewch ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn os ydych yn dymuno

1. Defnyddio peiriant mewn archfarchnad fawr
2. Dros y cownter mewn archfarchnad fach (e.e. Tesco Metro/Sainsbury's Local) neu siop leol/siop gornel
3. Defnyddio peiriant mewn gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol neu safle bysiau
4. Defnyddio peiriant mewn parc, ger y stryd fawr neu mewn man cyhoeddus arall
5. Defnyddio peiriant mewn canolfan hamdden neu lyfrgell
6. Rhywle arall, teipiwch eich ateb
7. (unigryw) Dim un o'r rhain – ni fyddwn yn dymuno defnyddio'r Cynllun Dychwelyd Ernes

**Agweddau tuag at ailgylchu**

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0F1. Dyma rai pethau y mae pobl ifanc wedi eu dweud ynghylch ailgylchu. I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hyn?
COD SENGL AR GYFER POB UN

| | Yn cytuno'n gryf | Yn tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Yn tueddu i anghytuno | Yn anghytuno'n gryf | Nid wyf yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r rhan fwyaf o'm ffrindiau yn taflu eu caniau neu boteli gwag i finiau sbwriel cyffredinol yn hytrach na'u hailgylchu nhw | | | | | | |
| Disgwylir i bobl ifanc ailgylchu y dyddiau hyn | | | | | | |
| Byddai gennyf gywilydd pe byddai fy ffrindiau’n fy ngweld i’n gwneud ymdrech i ailgylchu caniau neu boteli gwag | | | | | | |
| Byddwn yn gadael can neu botel wag yn y man lle gorffennais eu hyfed pe na bawn i’n gallu gweld bin gerllaw | | | | | | |

**<u>Adran G: Agweddau tuag at y Cynllun Dychwelyd Ernes</u>**

Dyma rai pethau y mae pobl ifanc wedi eu dweud am Gynllun Dychwelyd Ernes.

**Cyfleustra a hygyrchedd**

C0G1. Gan feddwl am sut y gallai cynllun weithio yn ymarferol, i ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hyn?

| | Yn cytuno'n gryf | Yn tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghyt-uno | Yn tueddu i anghyt-uno | Yn anghyt-uno'n gryf | Nid wyf yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nid yw'n deg y byddwn yn cael fy ngorfodi i ddefnyddio'r cynllun hwn i gael fy ernes yn ôl | | | | | | |
| Hyd yn oed pe byddai'n rhaid imi wneud ymdrech ychwanegol i ddefnyddio'r cynllun, byddai'n werth chweil er mwyn helpu i ddiogelu'r amgylchedd | | | | | | |
| Byddwn yn ei chael hi'n rhwydd cynnwys y dull newydd hwn o gael gwared â deunydd pacio diodydd yn fy mywyd bob dydd | | | | | | |
| Byddai gen i gywilydd pe byddai fy ffrindiau yn fy ngweld i'n defnyddio'r cynllun i gael fy ernes yn ôl | | | | | | |
| Gallaf weld fy hun yn casglu poteli/caniau gwag yn yr ysgol neu ar y stryd i helpu i ennill ychydig o arian ychwanegol | | | | | | |

**Ethos sylfaenol y cynllun, yr effaith ar sbwriel**

C0G2. Ac i ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau hyn?

| | Yn cytuno'n gryf | Yn tueddu i gytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghyt-uno | Yn tueddu i anghyt-uno | Yn anghyt-uno’n gryf | Nid wyf yn gwyb-od |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Byddai'r cynllun yn fy annog i ailgylchu mwy pan rwyf allan o gwmpas y lle | | | | | | |
| Mae'r cynllun yn ddiangen gan fod ffyrdd ar gael eisoes i ailgylchu poteli a chaniau | | | | | | |

**Y gallu i’w gynnwys yn rhan o fywyd bob dydd**

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0G3. Gan barhau i ddychmygu bod y cynllun dychwelyd ernes eisoes ar waith, meddyliwch am gario **poteli a chaniau** gwag o gwmpas pan fyddwch oddi cartref nes y byddwch chi’n gallu dod o hyd i fan dychwelyd. Sut y byddech chi'n teimlo wrth geisio gwneud hyn yn rhan o’ch bywyd bob dydd?

1. Yn rhwydd iawn i’w gynnwys yn fy mywyd bob dydd
2. Yn eithaf rhwydd
3. Yn eithaf anghyfleus
4. Yn anghyfleus iawn
5. Ni fyddai'r sefyllfa hon yn berthnasol i mi
6. Nid wyf yn gwybod

**Logisteg a chymhlethdod**

Dyma gwpl o gwestiynau am sut y gallai'r cynllun weithio ar gyfer deunydd pacio o wahanol feintiau.

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0G4. P'un a fyddech yn defnyddio'r cynllun yn bersonol ai peidio, pa rai o'r datganiadau canlynol sydd agosaf at eich safbwynt chi?

A. Dylai swm yr ernes fod yn is ar gyfer eitemau llai ac yn uwch ar gyfer eitemau mwy NEU
B. Dylai swm yr ernes fod yr un faint ar gyfer deunydd pacio o bob maint er mwyn cadw pethau'n syml
C. Y naill na'r llall/methu penderfynu

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0G5. P'un a fyddech chi'n defnyddio'r cynllun yn bersonol ai peidio, pa rai o'r canlynol ydych chi'n meddwl y byddai'n gweithio orau i bobl yn gyffredinol?

1. Dylai'r cynllun gynnwys poteli a chaniau **o bob maint**, yn rhai mawr a bach
2. Dim ond poteli a chaniau **bach** y dylai'r cynllun ei gynnwys
3. Y naill na'r llall/methu penderfynu

**Cymhellion a chefnogaeth gyffredinol**

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0G6. Pe byddech chi'n defnyddio'r cynllun, pa rai o'r canlynol fyddai'n rhesymau dros wneud hynny?
Fe gewch ddewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn hwn os ydych yn dymuno
[AR HAP]

1. I gael fy ernes yn ôl
2. Bydd pawb arall yn gwneud hynny/dyma fydd y ffordd ddisgwyliedig o daflu deunyddiau pacio diodydd
3. Bydd yn helpu i wella nifer y poteli a'r caniau sy'n cael eu hailgylchu
4. Bydd yn helpu i leihau sbwriel
5. Bydd yn helpu'r amgylchedd
6. Dyna fyddai'r peth iawn i'w wneud
7. Arall, teipiwch eich ateb
8. (UNIGRYW) Amherthnasol – ni fyddwn yn defnyddio'r cynllun

**GOFYNNWCH OS OES DAU NEU FWY O RESYMAU DROS DDEFNYDDIO CYNLLUN DYCHWELYD ERNES (SÔN AM 2+ YN C0G6 (1-8))**

[DANGOSWCH YR YMATEBION A DDEWISWYD YN C0G6 YN ACHOS 1-8]
C0G7. A pha un o'r rhain fyddai eich **prif reswm** dros ddefnyddio'r cynllun?
COD SENGL
[AR HAP]

1. I gael fy ernes yn ôl
2. Bydd pawb arall yn gwneud hynny/dyma fydd y ffordd ddisgwyliedig o daflu deunyddiau pacio diodydd
3. Bydd yn helpu i wella nifer y poteli a'r caniau sy'n cael eu hailgylchu
4. Bydd yn helpu i leihau sbwriel
5. Bydd yn helpu'r amgylchedd
6. Dyna fyddai'r peth iawn i'w wneud
7. Arall, teipiwch eich ateb

**GOFYNNWCH I BAWB**

C0G8. O'r hyn yr ydych yn ei wybod hyd yn hyn, i ba raddau y byddech chi'n cefnogi neu'n gwrthwynebu cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes?

1. Cefnogi'n gryf
2. Cefnogi
3. Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu
4. Gwrthwynebu
5. Gwrthwynebu'n gryf

Diolch am gymryd rhan.

## Atodiad F: Diffiniadau o grwpiau cymdeithasol

System ddosbarthu sy'n seiliedig ar alwedigaeth yw grwpiau cymdeithasol.

| | |
|---|---|
| A | Gweinyddol, rheoli a phroffesiynol uwch |
| B | Gweinyddol, rheoli a phroffesiynol canolradd |
| C1 | Goruchwyliol, clerigol a  gweinyddol, rheoli a phroffesiynol iau |
| C2 | Gweithwyr llaw â chrefft |
| D | Gweithwyr llaw lled-grefftus a di-grefft |
| E | Pensiynwyr y wladwriaeth, gweithwyr dros dro ac ar y radd isaf, di-waith gyda budd-daliadau'r wladwriaeth yn unig |

## Atodiad G: Methodoleg ar y cyd

Defnyddiwyd ymarfer ar y cyd fel y gallai cyfranogwyr yr arolwg ymateb i ‘becyn’ cyfan yn hytrach na gwerthuso nodweddion ar wahân. Mae hyn yn rhoi darlun gwell o ran a yw dyluniad cyffredinol senario penodol yn dderbyniol, ac yn osgoi’r angen i gyfranogwyr yr arolwg asesu pwysigrwydd y ffactorau gwahanol wrth geisio rhesymoli eu dewisiadau. Yn y pen draw, ymarfer artiffisial yw ymarfer ar y cyd gan nad yw'n ofynnol i bobl ddewis rhwng modelau CDE mewn bywyd go iawn; oherwydd hynny, gellir ei drin fel gêm yn hytrach na phenderfyniad ‘go iawn’.

Lluniwyd y nodweddion a'r lefelau a gynhwyswyd yn yr ymarfer ar y cyd i gynnig set gytbwys o senarios. Maent yn cyfuno'r nodweddion mewn cyfuniadau gwahanol, ac mae hyn yn galluogi orau y gwaith o nodi’r ffactorau sy'n sbarduno'r dewisiadau. Y nodweddion a ddefnyddiwyd oedd: swm yr ernes, lleoliad y man dychwelyd a’r amser ychwanegol sy’n cael ei dreulio ar ddychwelyd poteli a chaniau mewn cyfnod o wythnos. Ym mhob nodwedd, roedd 4-5 o lefelau.

Gellir gweld y nodweddion a'r lefelau a gynhwysir isod:

**Ffigur G.1: Y nodweddion a'r lefelau a gynhwysir yn yr ymarfer ar y cyd**

| Nodweddion | Lefelau |
|---|---|
| **Swm yr ernes** | 10c |
| | 15c |
| | 20c |
| | 25c |
| **Lleoliad y man dychwelyd** | Archfarchnad fawr |
| | Archfarchnad fach neu siop leol |
| | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol neu safle bysiau |
| | Parc neu ger y stryd fawr |
| **Yr amser ychwanegol a ychwanegir at eich wythnos i ddychwelyd poteli a chaniau** | Hyd at 10 munud |
| | Rhwng 10 ac 20 munud |
| | Rhwng 20 a 30 munud |

Cyflwynwyd 4 pâr o senarios ar hap i bob un o gyfranogwyr yr arolwg a gofynnwyd iddynt **ddewis yr un y byddent fwyaf tebygol o'i ddefnyddio**. Os nad oedd yr un ohonynt yn addas, roedd yn bosibl dewis ‘Y naill na’r llall’. Roedd ein sampl yn ddigon mawr i’n galluogi ni i leihau'r baich gymaint â phosibl drwy gyfyngu pob cyfranogwr i 4 set o senarios i’w hadolygu gan gasglu digon o ddata yn gyffredinol ar gyfer adolygu

cyfanswm yr ystod o senarios. Roedd ein cynllun yn cynnwys cyfanswm o 30 o setiau ar gyfer y senarios (h.y. 30 set o 4 pâr i ddewis ohonynt). Roedd y cwestiynau'n gytbwys o fewn pob set o 4 pâr o senarios ac ar draws y setiau gwahanol niferus a ddefnyddid i ganiatáu rhagor o amrywiaeth ymhlith yr ymatebion ar draws y sampl cyfan.

**Cyfyngiadau'r fethodoleg ar y cyd**

Mae'n bwysig nodi y gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ddewis fersiwn y CDE y byddent **fwyaf tebygol o'i ddefnyddio**. Mae hyn yn wahanol i ofyn yn symlach am eu hoff ddewis, fel sy'n wir am gwestiynau'r arolwg. Gallai holi am eu hoff ddewis arwain cyfranogwyr yr arolwg i ddewis senarios lle na fyddent yn defnyddio CDE. Er enghraifft, efallai y byddent yn dewis swm ernes is oherwydd eu bod yn hapusach i fynd heb yr ernes, ac mewn gwirionedd, byddai swm ernes uwch yn gymhelliant iddynt ddefnyddio'r CDE er mwyn adennill yr ernes. Am y rheswm hwn, penderfynwyd gofyn yn benodol am y tebygolrwydd o ddefnyddio’r cynllun yn hytrach na’u hoff ddewis.

Dylid nodi hefyd, lle bo cyfranogwyr yr arolwg wedi dewis ‘Y naill na’r llall’ yn hytrach na senario A neu B, nad oedd modd inni allu archwilio’r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwn yn y rhan hon o'r arolwg. Efallai eu bod wedi penderfynu y byddent yn mynd heb yr arian ernes, neu efallai eu bod yn tybio y byddent yn lleihau nifer y cynwysyddion diod y maent yn eu prynu. Aed i wraidd y materion hyn yn fwy cyffredinol yng nghwestiynau'r arolwg ac yn yr ymchwil ansoddol ond nid mewn cysylltiad â'r ymarfer ar y cyd yn benodol.

**Mesurau ar y cyd**

Yn y lle cyntaf, rhoddir sgoriau defnyddioldeb i gyfranogwyr yr arolwg ar gyfer pob lefel; po fwyaf yw sgôr y defnyddioldeb, y mwyaf deniadol yw’r lefel. Nid yw’r sgoriau defnyddioldeb eu hunain yn arbennig o ystyrlon ond defnyddir **y bylchau rhyngddynt** fel mesurau cymharol ar gyfer gwerth neu atyniad pob lefel ar draws cyfranogwyr yr arolwg. Hefyd, defnyddir y sgorau defnyddioldeb hyn i gyfrifo pwysigrwydd cyffredinol pob nodwedd ar draws y sampl, a fynegir fel canrannau.

Y cam nesaf yw trosi'r ffigurau defnyddioldeb hyn yn fodel lle bo ‘swm defnyddioldeb’ pob cynllun yn cael ei gynhyrchu ar gyfer pob cyfranogwr drwy gyfuno ei sgoriau ar gyfer pob lefel. Mae'r model yn hwyluso'r broses o gymharu'r senarios cyfansawdd (h.y. dyluniadau CDE posibl) yr holir amdanynt yn yr ymarfer ar y cyd.

Yn nesaf, cynhyrchir mesur o ‘gyfran yr hoff ddewis’ o fewn y model. Defnyddir y mesur hwn i gymharu gwahanol senarios ac mae'n seiliedig ar werthoedd cymharol swm defnyddioldeb pob senario. Mae'n darparu canran sy'n dangos y gyfran a ddywedodd y byddent yn fwy tebygol o ddefnyddio pob senario sy’n cael ei gymharu. Po uchaf yw'r gwerth, po uchaf y gyfran y bydd y senario'n ei chael.

O ganlyniad, cynhyrchir dau fesur allweddol a ddefnyddir yn ein dadansoddiad:

1. **Defnydd posibl**: mae'r mesur hwn yn adeiladu ar ‘gyfran yr hoff ddewis’, gan gymryd y mesur hwn a chynnwys gwerth yr opsiwn ‘Y naill na’r llall’, gan ddarparu canran sy'n dangos y gyfran a ddywedodd y byddent yn barod i ddefnyddio unrhyw senario penodol yn y pen draw.

2. **Apêl**: mae'r nifer hwn yn nodi pa mor ddeniadol neu effeithiol yw'r senario yn gyffredinol, gan ychwanegu cyd-destun at y ffigur defnydd posibl. Un ffordd o edrych ar sgôr yr apêl mewn cysylltiad â'r CDE yw ei weld yn sbardun o ran pa un o'r amrywiaeth o nodweddion a fydd yn dylanwadu fwyaf ar ymddygiad tuag at ddefnyddio'r cynllun. Cynhyrchir sgôr cyffredinol yr apêl drwy ddefnyddio’r sgoriau defnyddioldeb i gyfrifo cynllun ‘gorau’ a ‘gwaethaf’ ar gyfer pob cyfranogwr unigol. Dyfernir 100 o bwyntiau i’r cynllun gorau, ac nid yw’r cynllun gwaethaf yn cael unrhyw bwyntiau. Yna, cymerir cyfartaledd o’r sgoriau unigol hyn ar draws holl gyfranogwyr yr arolwg i gynhyrchu mesurydd apêl cyffredinol.

Yn ymarferol, dywedodd cyfranogwyr yr arolwg eu bod yn gymharol debygol o ddefnyddio'r rhan fwyaf o gyfuniadau’r CDE, gyda'r gwahaniaethau rhyngddynt o ran y mesur ‘defnydd posibl’ yn gymharol fach yn aml. Felly, mae mesur cyffredinol yr ‘apêl’ ychwanegol yn bwysig gan ei fod yn ychwanegu cyd-destun. Pan fo un cyfuniad yn cyrraedd sgôr uwch, mae'n golygu ein bod yn teimlo'n fwy hyderus y bydd pobl yn

parhau â'u bwriad i'w ddefnyddio, gan eu bod yn hapusach ag ef. Er enghraifft, canfuwyd bod cyfranogwyr yr arolwg wedi nodi y byddent yn defnyddio'r cynllun pan mae modd dod o hyd i fannau dychwelyd mewn gorsaf drafnidiaeth neu archfarchnad. Gan fod gennym y mesur apêl ychwanegol, gwyddom fod yn well ganddynt yr opsiwn archfarchnad o bell ffordd. Felly, gallwn ddehongli hyn fel dweud, er eu bod yn bwriadu defnyddio'r CDE lle bynnag y bydd wedi ei leoli, fwy na thebyg maent yn fwy tebygol o wneud hynny os yw'r mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd.

**Ffigur G.2: Ymarfer ar y cyd: 48 o fodelau CDE wedi eu trefnu yn ôl pa mor debygol y cânt eu defnyddio**

| Nifer | Cost | Lleoliad | Amser | Apêl | Defnydd posibl |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 10c | Archfarchnad fawr | Hyd at 10 munud | 83.6 | 91.2 |
| **2** | 15c | Archfarchnad fawr | Hyd at 10 munud | 86.0 | 90.8 |
| **3** | 10c | Archfarchnad fawr | Rhwng 10 ac 20 munud | 75.9 | 89.9 |
| **4** | 20c | Archfarchnad fawr | Hyd at 10 munud | 87.6 | 89.7 |
| **5** | 15c | Archfarchnad fawr | Rhwng 10 ac 20 munud | 78.3 | 89.4 |
| **6** | 25c | Archfarchnad fawr | Hyd at 10 munud | 85.8 | 88.2 |
| **7** | 20c | Archfarchnad fawr | Rhwng 10 ac 20 munud | 79.9 | 88.1 |
| **8** | 10c | Archfarchnad fach neu siop leol | Hyd at 10 munud | 74.2 | 87.5 |
| **9** | 15c | Archfarchnad fach neu siop leol | Hyd at 10 munud | 76.6 | 86.8 |
| **10** | 25c | Archfarchnad fawr | Rhwng 10 ac 20 munud | 78.1 | 86.5 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **11** | 20c | Archfarchnad fach neu siop leol | Hyd at 10 munud | 78.2 | 85.8 |
| **12** | 10c | Archfarchnad fach neu siop leol | Rhwng 10 ac 20 munud | 66.5 | 85.7 |
| **13** | 10c | Archfarchnad fawr | Rhwng 20 a 30 munud | 58.5 | 85.3 |
| **14** | 15c | Archfarchnad fach neu siop leol | Rhwng 10 ac 20 munud | 68.8 | 84.9 |
| **15** | 15c | Archfarchnad fawr | Rhwng 20 a 30 munud | 60.9 | 84.8 |
| **16** | 25c | Archfarchnad fach neu siop leol | Hyd at 10 munud | 76.4 | 84.1 |
| **17** | 20c | Archfarchnad fach neu siop leol | Rhwng 10 ac 20 munud | 70.5 | 83.8 |
| **18** | 20c | Archfarchnad fawr | Rhwng 20 a 30 munud | 62.5 | 83.8 |
| **19** | 25c | Archfarchnad fawr | Rhwng 20 a 30 munud | 60.7 | 82.5 |
| **20** | 25c | Archfarchnad fach neu siop leol | Rhwng 10 ac 20 munud | 68.7 | 82.2 |
| **21** | 10c | Parc neu ger y stryd fawr | Hyd at 10 munud | 59.4 | 81.5 |
| **22** | 15c | Parc neu ger y stryd fawr | Hyd at 10 munud | 61.7 | 80.8 |
| **23** | 10c | Archfarchnad fach neu siop leol | Rhwng 20 a 30 munud | 49.1 | 80.5 |
| **24** | 20c | Parc neu ger y stryd fawr | Hyd at 10 munud | 63.4 | 80.0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **25** | 15c | Archfarchnad fach neu siop leol | Rhwng 20 a 30 munud | 51.5 | 79.9 |
| **26** | 10c | Parc neu ger y stryd fawr | Rhwng 10 ac 20 munud | 51.7 | 79.3 |
| **27** | 20c | Archfarchnad fach neu siop leol | Rhwng 20 a 30 munud | 53.1 | 79.1 |
| **28** | 25c | Parc neu ger y stryd fawr | Hyd at 10 munud | 61.6 | 78.9 |
| **29** | 15c | Parc neu ger y stryd fawr | Rhwng 10 ac 20 munud | 54.0 | 78.8 |
| **30** | 25c | Archfarchnad fach neu siop leol | Rhwng 20 a 30 munud | 51.3 | 78.1 |
| **31** | 20c | Parc neu ger y stryd fawr | Rhwng 10 ac 20 munud | 55.7 | 78.0 |
| **32** | 25c | Parc neu ger y stryd fawr | Rhwng 10 ac 20 munud | 53.9 | 77.0 |
| **33** | 10c | Parc neu ger y stryd fawr | Rhwng 20 a 30 munud | 34.3 | 75.1 |
| **34** | 15c | Parc neu ger y stryd fawr | Rhwng 20 a 30 munud | 36.6 | 75.0 |
| **35** | 20c | Parc neu ger y stryd fawr | Rhwng 20 a 30 munud | 38.3 | 74.5 |
| **36** | 10c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Hyd at 10 munud | 36.9 | 74.3 |
| **37** | 15c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Hyd at 10 munud | 39.3 | 74.1 |
| **38** | 25c | Parc neu ger y stryd fawr | Rhwng 20 a 30 munud | 36.5 | 73.9 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **39** | 20c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Hyd at 10 munud | 40.9 | 73.7 |
| **40** | 25c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Hyd at 10 munud | 39.1 | 72.9 |
| **41** | 15c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Rhwng 10 ac 20 munud | 31.6 | 72.5 |
| **42** | 10c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Rhwng 10 ac 20 munud | 29.2 | 72.4 |
| **43** | 20c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Rhwng 10 ac 20 munud | 33.2 | 72.3 |
| **44** | 25c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Rhwng 10 ac 20 munud | 31.4 | 71.6 |
| **45** | 20c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Rhwng 20 a 30 munud | 15.8 | 68.0 |
| **46** | 15c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Rhwng 20 a 30 munud | 14.2 | 67.7 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **47** | 25c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Rhwng 20 a 30 munud | 14.0 | 67.2 |
| **48** | 10c | Gorsaf drenau, tramiau, rheilffordd danddaearol, neu safle bysiau | Rhwng 20 a 30 munud | 11.8 | 66.8 |

**Dadansoddiad is-grŵp o'r cynlluniau 'gorau' a'r 'gwaethaf'**

Roedd y cynllun gorau yn cynnwys swm ernes o 10c, mannau dychwelyd mewn archfarchnadoedd mawr gan ychwanegu hyd at 10 munud o amser ychwanegol at yr wythnos er mwyn storio a dychwelyd cynwysyddion diodydd. Dewiswyd y cynllun hwn gan y byddai cyfranogwyr mwyaf tebygol yr arolwg yn defnyddio'r **holl** is-grwpiau, gyda lefelau apêl a hoff ddewisiadau ychydig yn wahanol.

- Nododd cyfranogwyr iau yr arolwg y byddent yn fwy tebygol o ddefnyddio'r fersiwn hwn o'r CDE na chyfranogwyr hŷn (88% o gyfranogwyr 55 oed a throsodd o'i gymharu â 96% o bobl 16-34 oed).
- Roedd y rheini yng ngradd gymdeithasol E yn llai tebygol o ddweud y byddent yn defnyddio'r cynllun 'gorau', gyda 14% yn dewis dim cynllun dros yr un gorau (o'i gymharu ag 8% o'r rheini yng ngradd gymdeithasol A).
- Roedd cyfranogwyr yr arolwg â char ganddynt yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn defnyddio'r cynllun hwn (91% o'i gymharu â 87% o'r rhai nad oes ganddynt gar).
- Roedd cyfranogwyr yr arolwg a ddywedodd eu bod yn gwrthwynebu CDE mewn egwyddor yn llawer mwy tebygol o ddweud na fyddent yn defnyddio'r fersiwn

gorau hwn, er bod bron dwy ran o dair (63%) o’r grŵp hwn yn dal i ddweud y byddent yn ei ddefnyddio (o'i gymharu â 97% a oedd yn cefnogi CDE).

Mae'r tabl isod yn dangos canran pob is-grŵp a ddywedodd y byddent yn defnyddio’r cynllun ‘gorau’ (yn hytrach na pheidio â dewis cynllun o gwbl).

**Ffigur G.3: Y model CDE 'gorau' (10c, archfarchnad fawr, hyd at 10 munud) fesul is-grwpiau**

| ***Maint y sylfaen*** | **Grŵp sampl** | **% o'r defnydd** | **Apêl** |
|---|---|---|---|
| | **10c, archfarchnad fawr, hyd at 10 munud** | | |
| **1453** | **Cyfanswm y sampl** | **91%** | **83.6** |
| **702** | Gwryw | 91% | 82.1 |
| **751** | Benyw | 92% | 85.1 |
| **421** | 16 i 34 | 96% | 75.4 |
| **207** | 35 i 44 | 93% | 83.9 |
| **115** | 45 i 49 | 87% | 83.7 |
| **119** | 50 i 54 | 93% | 83.6 |
| **591** | 55 neu hŷn | 88% | 89.4 |
| **111** | A | 92% | 82.6 |
| **267** | B | 91% | 84.9 |
| **358** | C1 | 93% | 84.7 |
| **222** | C2 | 93% | 81.5 |
| **186** | D | 93% | 83.0 |
| **283** | E | 86% | 83.2 |
| **413** | Gwledig | 92% | 84.4 |
| **1040** | Trefol – Dinesig | 91% | 83.3 |
| **1216** | Perchennog car | 92% | 84.1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **237** | Heb fod yn berchen ar gar | 87% | 80.7 |
| **1071** | Yn cefnogi CDE | 97% | 82.0 |
| **234** | Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu CDE | 80% | 86.4 |
| **148** | Yn gwrthwynebu CDE | 63% | 91.2 |

O ran y cynllun ‘gwaethaf’, fel y nodwyd, er iddo ddod i waelod y rhestr o 48 o senarios, cafwyd lefelau uchel o ddefnydd ymddangosiadol serch hynny gydag ychydig dros ddwy ran o dair (67%) yn honni y byddent yn ei ddefnyddio o'i gymharu â dim cynllun. Er hynny, dylid ystyried y canlyniadau hyn law yn llaw â sgôr yr apêl a oedd yn isel iawn ar gyfer pob is-grŵp (rhwng 10.1 a 15.8 ar draws pob is-grŵp).

Rhestrwyd y cynllun hwn yn olaf neu'n olaf namyn un ar gyfer pob is-grŵp. Cafwyd patrwm tebyg gydag oedran o’i gymharu â’r hyn a welwyd gyda'r cynllun ‘gorau’ (h.y. roedd pobl hŷn yn llai tebygol o ddweud y byddent yn defnyddio'r cynllun) er bod y defnydd ymddangosiadol yn dal i fod yn uchel gydag ychydig dros hanner (54%) y grŵp oedran hynaf (55 a hŷn) yn honni y byddent yn ei ddefnyddio. Y ffigur a safai allan mewn gwirionedd oedd y grŵp o gyfranogwyr a ddywedodd eu bod yn gwrthwynebu'r CDE mewn egwyddor; dewisodd bron un o bob saith (68%) sy'n gwrthwynebu'r cynllun i ddefnyddio dim cynllun yn hytrach na hwn, a dywedodd ychydig dros hanner (53%) y rhai nad oedd yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r cynllun yr un peth. Y rhain oedd yr unig ddau is-grŵp y dywedodd mwy na hanner ohonynt na fyddent yn defnyddio'r cynllun. Ar gyfer pob grŵp arall, byddai dros hanner y bobl wedi defnyddio'r cynllun hwn (h.y. y cynllun gwaethaf) yn hytrach na pheidio â defnyddio unrhyw gynllun o gwbl. Mae'r tabl isod yn dangos canran pob is-grŵp a ddywedodd y byddent yn defnyddio’r cynllun ‘gwaethaf’ (yn hytrach na pheidio â dewis cynllun o gwbl).

**Ffigur G.4: Y model CDE 'gwaethaf' (10c, gorsaf drafnidiaeth, 20-30 munud) fesul is-grwpiau**

| Maint y sylfaen | Grŵp sampl | % o'r defnydd | Apêl |
|---|---|---|---|
| | **10c, gorsaf drafnidiaeth, 20-30 munud** | | |
| **1453** | **Cyfanswm y sampl** | **67%** | **11.8** |
| **702** | Gwryw | 69% | 12.2 |
| **751** | Benyw | 65% | 11.5 |
| **421** | 16 i 34 | 79% | 11.4 |
| **207** | 35 i 44 | 72% | 12.9 |
| **115** | 45 i 49 | 69% | 11.8 |
| **119** | 50 i 54 | 74% | 11.4 |
| **591** | 55 neu hŷn | 54% | 11.8 |
| **111** | A | 73% | 12.3 |
| **267** | B | 65% | 11.9 |
| **358** | C1 | 67% | 10.1 |
| **222** | C2 | 68% | 13.1 |
| **186** | D | 69% | 13.0 |
| **283** | E | 64% | 13.1 |
| **413** | Gwledig | 69% | 10.3 |
| **1040** | Trefol – Dinesig | 66% | 12.6 |
| **1216** | Perchennog car | 67% | 11.3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **237** | Heb fod yn berchen ar gar | 67% | 14.9 |
| **1071** | Yn cefnogi CDE | 76% | 10.6 |
| **234** | Ddim yn cefnogi nac yn gwrthwynebu CDE | 47% | 15.1 |
| **148** | Yn gwrthwynebu CDE | 32% | 15.8 |